



GLAS CYMRU
ADRODDIAD A CHYFRIFON
2016–2017

CYNNWYS

CROESO GAN Y CADEIRYDD	4
------------------------	---

ADRODDIAD STRATEGOL

1. DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR	10
2. EIN STORI	14
3. EIN MODEL A'N GWELEDIGAETH	15
4. Y GWERTH A RODDWN	16
5. BUDDSODDI EICH ARIAN	18
6. 2016-17: YN GRYNÔ	19
7. SUT RYDYM YN GWNEUD	20
8. EIN TAITH HYD AT 2020	54
9. DŴR CYMRU 2050	55
10. EIN CYFARWYDDWYR	56
11. EIN RHEOLEIDDWYR	58
12. EIN DULL O REOLI RISG	59
13. DATGANIAD HYFYWEDD	63

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

1. CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD	66
2. BWRDD Y CYFARWYDDWYR	67
3. STRWYTHUR CORFFORAETHOL	70
4. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL	71
5. EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU	72
6. RHEOLAETH FEWNOL	76
7. ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO	77
8. ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD A'R AMGYLCHEDD	80
9. ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBIADAU	81
10. ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID	81
11. ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH	82
12. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR	95

DATGANIADAU ARIANNOL

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU GLAS CYMRU	112
DATGANIADAU ARIANNOL	115

RHESTR TERMAU	149
MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU	153



DATGANIAD Y CADEIRYDD

DYMA FY NATGANIAD CYNTAF AR ÔL CAEL FY MHENODI
YN GADEIRYDD AR DDECHRAU MIS GORFFENNAF
DIWETHAF AR ÔL I MI YMUNO Â'R BWRDD YM MIS
MAI. FEL Y CYFRYW, MEDDYLIAIS YR HOFFWN RANNU
RHAI ARSYLWADAU CYCHWYNNOL YN SEILIEDIG AR FY
AMLYGIAD HYD YMA I'N BUSNES A'N POBL.

DESO

ALASTAIR LYONS
CADEIRYDD

Mae llawer o fusnesau yn sôn am fod yn wahanol, ond mae Dŵr Cymru yn wirioneddol wahanol yn fy marn i. Mae llawer o'r gwahaniaeth hwnnw'n deillio o'i gyfansoddiad fel busnes nid er cyfranddalwyr ac mae ei holl enillion yn cael eu hailgyfeirio i'r busnes er budd cwsmeriaid - eleni cyhoeddwyd y caiff £32 miliwn o gyllid ychwanegol a gynhyrchwyd ei gymhwyso at fuddsoddiadau cyllid a gweithgareddau y mae cwsmeriaid wedi dweud wrthym eu bod yn eu cefnogi. Rydym yn wahanol am ein bod yn seilio popeth y penderfynwn arno ac a wnawn ar geisio deall ein cwsmeriaid, eu hamgylchiadau, eu blaenoriaethau a'u hanghenion: yn wahanol am ein bod yn hollol ymrwymedig i gyflawni'r safonau

uchaf posibl am gost fforddiadwy: yn wahanol am ein bod yn gallu trefnu ein cynllunio yng nghyd-destun gwirioneddol hirdymor gweledigaeth o Dŵr Cymru 2050 sydd ynddi ei hun wedi ei llywio gan ymgysylltiad parhaus â'n cwsmeriaid.

Drwy siarad â'r cydweithwyr hynny rwyf wedi cyfarfod â nhw yn ystod fy ymweliadau â'n gweithfeydd trin dŵr glân a dŵr gwastraff, ein canolfannau cyswllt cwsmeriaid manwerthu, ein swyddfeydd a'n canolfannau hamdden i ymwelwyr, rwy'n ymwybodol o falchder mawr a'u bod wedi meithrin gwybodaeth a phrofiad trylwyr o'r hyn a wnânt, ynghyd â pharodrwydd i ddod o hyd i ffyrdd o ddarparu gwasanaeth hyd

yn oed yn well i'n cwsmeriaid. Er bod llawer ohonynt wedi gwasanaethu ers amser hir, rydym hefyd yn denu niferoedd sylweddol o recriwtiaid newydd i'r sector, yn enwedig drwy ein cynlluniau i brentisiaid a graddedigion, ac mae ein hoedran cyfartalog yn gostwng tra bod amrywiaeth ar y cyfan yn cynyddu.

Os bydd angen ymateb ar frys i ddigwyddiadau, rwy'n teimlo ei fod yn fusnes sy'n rhoi popeth sydd ganddo. Gyda seilwoith gwaddol sylweddol, yn enwedig o bibellau, a'r newidiadau hinsoddol sy'n creu tywydd mwy anwadal sydd, yn ei dro, yn newid amodau'r ddaear, mae'n anochel y bydd pibellau'n torri o bryd i'w gilydd ac y gall corthffosydd orlifo

â dŵr glaw. Pan ddigwydd hyn, mae'r timau yn Dŵr Cymru yn gweithio'n ddiflino i gynnal y cyflenwad, unioni effeithiau llifogydd ac adfer gwasanaeth arferol, a'r cyfan yn unol â'r safonau mwyaf heriol o ran diogelwch personol. Gall fod adegau pan fydd un digwyddiad ar ôl y llall heb fawr ddim seibiant, yn enwedig i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau anodd ynghylch y ffordd orau o ymateb. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr am eu hymrwymiad i'n cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn.

Mae'r trafodaethau a gefais gyda'n fîm Gweithredol ac a gawsom wedyn yn ein cyfarfodydd Bwrdd yn cyfleu busnes sy'n ymwybodol iawn o'i gyfrifoldeb amgylcheddol a'r cyfraniad y gall ei wneud i les cenedlaethau'r dyfodol. Yn gyntaf, mae'r hyn sy'n digwydd yn yr amgylchedd yn cael effaith enfawr ar yr hyn a wnawn, o'r lefelau dŵr glaw yn ein dalgylchoedd i'r duedd i dywydd cynhesach greu twf algâu yn y dŵr rydym yn ei drin. Yn ail, mae'r busnes ei hun yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd, o ansawdd y dŵr rydym yn ei ollwng i gyrsgau dŵr i'n gallu i gynhyrchu'r ynni sydd ei angen arnom i bweru ein pŷmpiau a'r gweithfeydd trin. Rydym hefyd yn cydnabod ein rôl mewn cymdeithas fel darparwr hanfodion byw o ddydd i ddydd a'r cyfrifoldeb dilynol o fod yn gatalydd i ddatblygu meddylfryd er mwyn gwella bywydau ein cwsmeriaid. Yn unol â hynny, rydym wedi bod yn chwarae ein rhan i roi'r meddylfryd hwn ar waith mewn meysydd fel cael gwared ar blwm o'r system ddŵr yng Nghymru a gwella draeniad trefol. Rydym yn gwrandao'n ddyddiol ar bryderon ein cwsmeriaid ac yn ceisio cyfrannu mewn unrhyw ffordd at leddfu'r pryderon hynny.

Fel tirfeddiannwr mawr yn rhai o'r amgylcheddau naturiol harddaf, mae gan Dŵr Cymru gyfle heb ei ail i gyfoethogi'r cymunedau a wasanaethwn drwy sicrhau bod y tir a'r cronfeydd dŵr rydym yn berchen arnynt ar gael i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, gan fuddsoddi mewn cyfleusterau sy'n eu galluogi i gael eu defnyddio i'r eithaf. Rydym yn falch o fod wedi dechrau ar waith ar gronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen yng Nghaerdydd ac yn gweithio i adfer y cyfleuster hwnnw i'w hen ogoniant fel hafan naturiol ynghanol prifddinas. Nôl ym mis Chwefror, wrth gerdded o amgylch cronfa ddŵr Brenig yn Sir Ddinbych a chwrdd â'r fîm sy'n rheoli ein canolfan i ymwelwyr a'n pysgodfa, meddyliais pa mor ffodus yr

oeddwn o gael swydd sy'n caniatáu i mi dreulio fy niwrnod gwaith mewn lleoliadau mor wych!

Mae'r busnes yn cydnabod yn glir bod angen i wasanaethau dŵr a charthffosiaeth, sy'n hanfodion bywyd, fod yn fforddiadwy. Felly, mae ganddo'r cyfrifoldeb o ddatblygu'r ffyrdd mwyaf effeithlon o ddarparu'r gwasanaethau hyn, gan gyfuno arferion gweithredu wedi eu hailgynllunio â buddsoddiad mewn asedau modern, cost is. Yn hyn o beth mae'n adeiladol bod ein rheoleiddiwr economaidd (Ofwat) wedi penderfynu asesu perfformiad busnes bellach ar sail cyfanswm y gwariant, gan adael i'r cwmni benderfynu a yw'r canlyniad gorau yn deillio o wariant gweithredol neu a ddylai fuddsoddi cyfalaf er mwyn lleihau costau gweithredu yn y dyfodol. Mae fforddiadwyedd yn fater hollbwysig hefyd i'r busnes, ac rwy'n falch o nodi yn 2016-17, am yr wythfed flwyddyn yn olynol, fod y cynnydd ym mil y cartref cyffredin unwaith eto yn is na chyfradd chwyddiant. Er hyn, cydnabyddwn fod rhannau o'n sail cwsmeriaid yn cael trafferth talu eu biliau cyfleustod, ac rydym yn parhau i hyrwyddo tariffau â chymhorthdal y gall y cwsmeriaid hyn eu fforddio hefyd. Mae ein hymgyngoriad ehangach â chwsmeriaid yn dweud wrthym fod sail gyffredinol ein cwsmeriaid yn disgwyl i ni gefnogi'r rheini sydd angen help ac yn fodlon i ni gymhwyso rhan o'r gwarged a gynhyrchwn at gefnogi tariffau cymdeithasol o'r fath.

Yna mae graddfa a chymhlethdod yr hyn a wnawn - 27,500 cilometr o brif bibellau dŵr, 63 gwaith trin a 91 cronfa ddŵr, £350 miliwn wedi ei fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnal a gwella ein hasedau wedi eu dosbarthu rhwng 6,260 o brosiectau gwahanol. A chyflawnir hyn oll yn unol â'r safonau ansawdd llymaf, ac eleni oedd ein perfformiad gorau erioed yn erbyn chwe mesur ansawdd dŵr yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

Nid yw'r perfformiad cryf hwnnw yn cymylu ymwybyddiaeth y fîm o'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well, ac mae'r meysydd hyn, yn enwedig lleihau problemau afliwio achlysurol o ran dŵr tap a chyfnodau heb gyflenwad, yn pennu ar beth rydym yn blaenoriaethu ein cynlluniau buddsoddi tymor hwy.

Mae llawer iawn yn digwydd ar hyn o bryd yn y busnes wrth i ni ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'r Grŵp Her Cwsmeriaid



MAE LLAWER
O FUSNESAU
YN SÔN
AM FOD YN
WAHANOL,
OND MAE DŴR
CYMRU YN
WIRIONEDDOL
WAHANOL YN
FY MARN I





ANGHENION EIN CWSMERIAID FYDD YR HYN A FYDD YN EIN HYSGOGI YN DŴR CYMRU O HYD



ynghylch cyflwyno'r cynllun busnes pum mlynedd nesaf, y mae'n rhaid i Ofwat ei dderbyn erbyn mis Medi 2018. Credwn na allwn ond edrych ar yr hyn y mae'r busnes am ei gyflawni dros y pum mlynedd rhwng 2020 a 2025 os gwnawn hynny mewn cyd-destun tymor hwy. Er bod cwmnïau dŵr eraill weithiau'n gorfod canolbwyntio ar y blaenoriaethau byrdymor a ddeddfir gan eu cyfranddalwyr, mae ein cyfansoddiad yn ein galluogi i ddatblygu cynlluniau a fydd yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid heddiw, yfory ac yn y dyfodol. Mae ein busnes yn agored i dueddiadau hirdymor - amgylcheddol, hinsoddol, cymdeithasol, technolegol. Mae llawer o'r hyn a gynlluniwn ac a adeiladwn i gefnogi ein darpariaeth yn cymryd amser hir i'w ystyried ac yna i'w weithredu ac, oherwydd y buddsoddiad sylweddol sydd ei angen, mae ganddo oes asedau hir. Dyma'r hyn a bennodd yr angen i gyfleu gweledigaeth o'r hyn y gallem ei gyflawni rhwng nawr a 2050 ac rydym wrthi'n ymgynghori â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y dylem flaenoriaethu ein huchelgeisiau o fewn cyd-destun yr hyn y gallwn fforddio ei wneud.

Mae ein diwydiant hefyd yn gweld newid perthnasol wrth i gystadleuaeth fanwerthu gael ei chyflwyno ar gyfer cwsmeriaid busnes cwmnïau dŵr yn Lloegr, a pharatoadau ar gyfer y gwahaniad economaidd yn 2020 o adnoddau dŵr a bioadnoddau ochr yn ochr â'r rheolaethau presennol ar gyfer prisiau dŵr glân a dŵr gwastraff. Anghenion ein cwsmeriaid fydd yr hyn a fydd yn ein hysgogi yn Dŵr Cymru o hyd, boed yn gwsmeriaid preswyl neu fusnes, a byddwn yn ceisio datblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan ddilyn esiampl y gorau yn y farchnad ochr yn ochr â'n gallu ein hunain i feddlw am ddatrysiadau arloesol i ofynion cwsmeriaid. Ein nod yw i bob cwsmer gael gwasanaeth cystadleuol iawn ni waeth a yw yn y farchnad gystadleuol benodedig ai peidio. Byddwn yn parhau i ymdrin â phob un o'n cwsmeriaid drwy gyfrwng strategaeth gydlynol yn harneisio darpariaeth weithredol Dŵr Cymru ochr yn ochr â gallu ein gwasanaeth cwsmeriaid i gyflawni'r hyn y mae cwsmeriaid yn dweud wrthym sydd ei angen arnynt.

Mae'r gwaith o ailstrwythuro ein busnes yn gorfforaethol y llynedd yn rhoi'r gallu i ni ddatblygu menter fasnachol ochr yn ochr â'n busnes wedi ei reoleiddio. Byddwn yn ystyried cyfleoedd o'r fath os yw'r fenter dan sylw yn estyniad proffidiol rhesymegol o'n gweithgoreddau

presennol, yn enwedig os yw'n cymhwysu galluoedd cyffredin, os yw o fudd i gwsmeriaid presennol, neu y gall arwain at refferiw neu synergeddau cost. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn o broblemau posibl arallgyfeirio i ffrwd oddi wrth gymhwysedd craidd.

Ers dod yn Gadeirydd, yn ogystal â chwrdd â llawer o gydweithwyr, rwyf wedi cael y cyfle i gwrdd â llawer o'n Haelodau Glas, rhywbeth arall sy'n wahanol yn Dŵr Cymru. Ar ôl bod yn gyfarwydd â chyfarfodydd cyffredinol blynyddol cwmni cyhoeddus, lle mae rhywun yn ffodus i gael ychydig o gyfranddalwyr preifat a lle na fydd rhywun byth yn gweld y sefydliadau sy'n dal y grym pleidleisio, roedd cyfarfod cyffredinol blynyddol Dŵr Cymru, a fynychwyd gan tua dwy ran o dair o'n Haelodau ac a barodd am bedair awr, yn brofiad gwahanol a grymus iawn. Rydym yn ffodus iawn i gael aelodaeth sydd yr un mor frwd ac yn ymddiddori yn ein busnes, ac yn barod hefyd i roi o'u hamser yn anhunanol i feirniadu stiwardiaeth y Bwrdd yn annibynnol a chynnig eu cyngor a'u hanogaeth. Diolch, ar ran y Bwrdd, i'r nifer sylweddol o Aelodau a fydd eleni yn dod i ddiwedd eu tymor penodedig, a hefyd i'r Panel Dethol Aelodau annibynnol am y gwaith y maent yn ei wneud i ddedhol Aelodau newydd.

I gloi, hoffwn ddweud cymaint yr wyf wedi gwerthfawrogi cael fy nghroesawu gan fy nghydweithwyr ar y Bwrdd a chan bawb yr wyf wedi cael cyfle i dreulio amser gyda nhw. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad o'r ffordd y gwnaeth Bob Ayling, fy rhagflaenydd fel Cadeirydd, fy nghyflwyno i'r Bwrdd a'r busnes, gan sicrhau cyfnod pontio di-dor ac adeiladol iawn: gwn yr hoffai Dŵr Cymru ddiolch yn fawr iawn iddo am ei waith.

Rwy'n ymwybodol fy mod yn dod i'r diwydiant dŵr fel dechreuwr llwyr ac rwy'n ddiolchgar iawn am amynedd a goddefgarwch y rhai sy'n dysgu cymaint i mi am y sector a'r cwmni ac sydd wedi cywiro unrhyw gamddealltwriaeth a oedd gennyf. Edrychaf ymlaen at barhau i ddysgu yn y flwyddyn i ddod!

Alastair Lyons
Cadeirydd

8 Mehefin 2017

STRATEGOL

MAE'R ADRODDIAD STRATEGOL HWN YN
AMLINELLU EIN PERFFORMIAD DROS Y
FLWYDDYN, Y RISGIAU A WYNEBWN A SUT
RYDYM YN EU LLINIARU A'N GWELEDIGAETH
A'N STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL.

ADRODDIAD STRATEGOL

TUDALEN

1	DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR	10
2	EIN STORI	14
3	EIN MODEL A'N GWELEDIGAETH	15
4	Y GWERTH A RODDWN	16
5	BUDDSODDI EICH ARIAN	18
6	2016-17: YN GRYNNO	19
7	SUT RYDYM YN GWNEUD	20
8	EIN TAITH HYD AT 2020	54
9	DŴR CYMRU 2050	55
10	EIN CYFARWYDDWYR	56
11	EIN RHEOLEIDDWYR	58
12	EIN DULL O REOLI RISG	59
13	DATGANIAD HYFYWEDD	63

1

ADOLYGIAD Y PRIF WEITHREDWR

Y llynedd dathlwyd 15 mlynedd ers sefydlu strwythur corfforaethol unigryw Glas Cymru a'r flwyddyn orau o ran perfformiad gweithredol cyffredinol Dŵr Cymru ers 2001. Rydym yn canolbwyntio ar edrych i'r dyfodol, deall blaenoriaethau ein cwsmeriaid wrth lunio ein cynlluniau hirdymor ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol a ddarparwn. Ein nod yw parhau i gyflawni perfformiad gwell a chynaliadwy ar draws rhai o'n mesurau adrodd allweddol — ansawdd dŵr yfed, diogelu'r amgylchedd, gwasanaethau datblygwr, boddhad cwsmeriaid, lleihau costau ac, yn anad dim, gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Er i ni wneud cynnydd da mewn perthynas â phob un o'r rhain yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn awyddus i wneud hyd yn oed yn well yn y blynyddoedd i ddod, fel y gallwn barhau i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd.

GWASANAETH CWSMERIAID

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi datblygu ein dull Llwyddiant a arweinir gan Gwsmeriaid, gan geisio rhoi cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn ym mhob rhan o'r cwmni. Mae Llwyddiant a arweinir gan Gwsmeriaid wedi cael ei ddatblygu o ddadansoddiad parhaus o anghenion ein cwsmeriaid. Mae timau ym mhob rhan o'r busnes wedi creu Siarteri Tîm i'w helpu i nodi'n well yr hyn y mae eu cwsmeriaid yn ei werthfawrogi a'r hyn y gallwn ei wneud yn wahanol i ddarparu'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau posibl. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol — fel y gwelwyd yn yr ymchwili ddiweddaraf gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (gweler tudalen 35) sy'n dangos ein bod yn arwain y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr o ran boddhad cwsmeriaid a gwerth am arian ar gyfer ein gwasanaethau — i gwsmeriaid preswyl a busnes.

Gwnaeth lansio ein hymgyrch hysbysebu gyntaf ar y teledu yn 2016, yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r busnes, helpu i godi ymwybyddiaeth a hysbysu cwsmeriaid am ein strwythur corfforaethol unigryw. Mae ein hymchwili cwsmeriaid yn nodi i'r ymgyrch hon chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu i godi ymwybyddiaeth o'n model nid er cyfranddalwyr o 31% (Mehefin 2016) i 52% (Ionawr 2017). Mae ymwybyddiaeth o'n strwythur unigryw yn ei thro yn ein helpu i ennyn ymddiriedaeth mwy o'n cwsmeriaid, ac mae meithrin ymddiriedaeth yn y ffordd hon yn ein helpu i annog ein cwsmeriaid i weithio gyda ni i wella gwasanaeth cwsmeriaid, er enghraifft drwy ein hymgyrch "Stop Cyn Creu Bloc" sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau nifer y blociadau carthffosydd y gellid eu hosgoi.

Ar ôl sawl blwyddyn yn olynol o leihau nifer y cwynion ysgrifenedig, gwelsom gynnydd dros dro ond sylweddol mewn cwynion ysgrifenedig ar ddechrau 2016. Mae ein hadolygiad o'r rhesymau am hyn yn dangos y gellid ei briodoli i newidiadau mewn systemau a phrosesau — yn bennaf, materion yn deillio o weithredu system filio newydd a chyflwyno prosesau mwy cadarn ar gyfer ceisio casglu dyledion oddi wrth y cwsmeriaid hynny sy'n gallu talu, yn ogystal â newidiadau a wnaethom i'n gwefan a'i gwnaeth yn haws i gwsmeriaid anfon e-bost atom os oedd problem ganddynt, yn hytrach na ffonio. Ers hynny rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol iawn gan wella gwasanaeth cwsmeriaid yn 2016-17, ac mae cyfanswm y cwynion, boed yn ysgrifenedig neu dros y ffôn, bellach ar y lefel isaf ers sawl blwyddyn. Gwyddom fod darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid yn hollbwysig er mwyn ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid, ac rydym yn anelu at gyflawni achrediad 'Marc Gwasanaeth — Rhagoriaeth' Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid y DU (UK ICS) erbyn 2020.

CHRIS JONES
PRIF WEITHREDWR

ADRODDIAD STRATEGOL



CWSMERIAID BUSNES

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd baratoi ar gyfer y farchnad gystadleuol ar gyfer gwasanaethau manwerthu busnes yn agor ym mis Ebrill 2017. Nid yw'r farchnad gystadleuol wedi ehangu i'r un graddau i'n cwsmeriaid ni ag y gwnaeth yn Lloegr. Fel cwmni sydd wedi'i leoli yn bennaf yng Nghymru, mae ein cwsmeriaid dibreswyl mwyaf (y rhai sy'n cymryd mwy na 50ML o ddŵr bob blwyddyn) bellach yn gallu newid manwerthwr dŵr yn haws os byddant yn dewis gwneud hynny. Ein ffocws sylfaenol yw parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl a'r gwerth gorau am arian i bob un o'n cwsmeriaid busnes, yn ogystal â darparu amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol.

DATBLYGWYR

Rydym wedi parhau i wella ein gwasanaeth i ddatblygwyr, a bernir bod ein safonau gwasanaeth ymhlith yr uchaf yn y diwydiant yn ôl dull meincnodi misol y diwydiant o lefelau dangosyddion gwasanaeth. Rydym hefyd wedi symleiddio ein prosesau ar gyfer llunio cytundebau Adeiladu dros Garthffosydd ar gyfer carthffosydd maint safonol, mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan ein cwsmeriaid, ac rydym wedi parhau i gynnal gweithdai rheolaidd, llwyddiannus yn ein rhanbarth gydag adeiladwyr tai a datblygwyr eraill.

CYFLENWAD DŴR CYHOEDDUS

Parhaodd ein perfformiad ar gyfer dŵr yfed diogel a dibynadwy yn gryf yn ystod 2016-17. Cyflawnwyd ein perfformiad gorau erioed mewn perthynas â rhai mesurau fel lleihau cyfanswm y methiannau cydymffurfio o ran ansawdd dŵr a haearn, tra gwnaeth ein perfformiad ar gyfer ansawdd yn nhapiâu a phwyntiau cyflenwi cwsmeriaid, neu Gydymffurfiaeth Barthol Gymedrig, gyfateb i'r safon orau rydym erioed wedi ei chyrraedd, sef 99.97% a pherfformiad Bacteriolegol Cronfa Wasanaeth sef 99.97%. Gyda dim ond un methiant bacteriolegol yn ein gweithfeydd trin dŵr a pherfformiad cryf hefyd yn erbyn mynegeion yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ar gyfer diheintio a rheoli proses, roedd ein perfformiad blynyddol ymhlith y gorau oll yn y sector.

Mae un maes o berfformiad gwasanaeth dŵr lle rydym yn cael problemau sylweddol o hyd i'w datrys yn cynnwys problemau ysbeidiol o ran blas, arogl neu afluiad dŵr i rai cwsmeriaid. Y llynedd, cawsom 2.9 cyswllt fesul 1,000 o gwsmeriaid ar faterion o'r fath, yr un peth â'r flwyddyn flaenorol (yn erbyn targed o 2.7 fesul 1,000). Rydym yn benderfynol o ragori ar y perfformiad hwn. Mae ein rhaglen fuddsoddi Astudiaethau Parthol £130 miliwn wedi ei thargedu at ein helpu i fynd i'r afael â hyn a thrawsnewid gwasanaeth cwsmeriaid mewn dwsin o ardaloedd daearyddol penodol, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am y mwyafrif o'n cysylltiadau cwsmeriaid a chwynion am ansawdd y cyflenwad dŵr yfed (gweler tudalen 23). Rydym yn bwriadu ychwanegu buddsoddiad yn sylweddol dros y blynyddoedd i ddod at y rhaglen hon, a lywir gan ddadansoddiad manwl o ddata cwsmeriaid a data gweithredol ac sy'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau arloesol i fynd i'r afael â diffygion mewn asedau sydd wedi codi dros sawl degawd.

PERFFORMIAD AMGYLCHEDDOL

Cyflawnodd Gwasanaethau Dŵr Gwastraff eu perfformiad gorau erioed hefyd mewn amrywiaeth eang o feysydd. Arhosodd nifer y digwyddiadau llygredd yn sefydlog yn 2016-17 gyda 114 o ddigwyddiadau (2015-16: 112 — ein perfformiad gorau erioed ar y mesur hwn) ond cawsom hefyd y nifer isaf erioed o safleoedd yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o fethu — 14 o gymharu â 21 yn 2015. Mae nifer y gweithfeydd trin sy'n methu â chydymffurfio â thrwyddedau gollwng amgylcheddol wedi mwy na haneru (3) o gymharu â'r llynedd (8) ac mae canran y gydymffurfiaeth ganiatâd gyffredinol sef 99.47% hefyd yn well na'r llynedd ac yn cyfateb i'n perfformiad gorau erioed blaenorol.

Nifer yr eiddo lle y gorlifodd dŵr gwastraff i mewn iddynt o'n carthffosydd yn ystod 2016-17 oedd 242 (2015: 223). Byddwn yn parhau i fuddsoddi i geisio gostwng y ffigur hwn. Achosir llawer o ddigwyddiadau llifogydd gan garthffosydd wedi eu

blocio o ganlyniad i gamddefnydd ohonynt, er enghraifft pan fydd brosterau, olewau, seimiau a weips glanhau (wet wipes) yn mynd i mewn i'r garthffos. Rydym yn bwriadu parhau â'n hymgyrch i weithio gyda chymunedau lleol i ddileu'r rhain o'n rhwydwaith.

GWEITHIO GYDA'N CWSMERIAID

Mae cwsmeriaid bellach yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r ffordd y dylem ddatblygu a darparu gwasanaeth cwsmeriaid. Roedd hon yn rhan sylfaenol o'r ffordd y gwnaethom ymgysylltu â'n cwsmeriaid yr haf diwethaf fel rhan o'n hymgyngoriad llwyddiannus, 'Dweud eich Dweud'. Gwahoddwyd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru i fynegi eu barn ar sut y dylai'r gwerth a gynhyrchir gan ein model nid er cyfranddalwyr gael ei ddefnyddio yn y dyfodol — arian a fyddai, mewn cwmnïau eraill, wedi mynd at gyfranddalwyr mewn difidendau. Derbyniwyd may na 12,000 o ymatebion sy'n darparu llwyfan cadarn i adeiladu arno wrth i ni barhau â'n gweithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn helpu i lunio ein Cynllun Busnes ar gyfer 2020-2025.

Dyweddodd dros 2000 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn falch petawn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â nhw ac rydym wrthi'n datblygu ffordd cwsmeriaid a fydd yn cynnwys y cwsmeriaid hynny yn ein prosesau gwneud penderfyniadau ar sail fwy cyson o lawer. Bydd y grŵp hwn yn eistedd ochr yn ochr â'n grwpiau ffocws cwsmeriaid, y Grŵp Her Cwsmeriaid a'n rhaglen ymgysylltu ehangach i gwsmeriaid.

Rydym yn falch o nodi, am yr wythfed flwyddyn yn olynol, ein bod wedi gallu cadw'r cynnydd blynyddol mewn prisiau o dan chwyddiant RPI ar gyfer y mwyafrif o'n cwsmeriaid, gan ymrwymo i fuddsoddi £5 miliwn ychwanegol yn ein prif gynllun tariff cymdeithasol, HelpU. Rydym bellach yn rhoi cymorth drwy amrywiaeth o gynlluniau i fwy na 70,000 o'n cwsmeriaid sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu eu biliau.

Oherwydd ein model nid er cyfranddalwyr unigryw, roeddem yn gallu cyhoeddi ym mis Mehefin 2016 £32 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad — neu tua £25 fesul cwsmer — ar brosiectau yn cynnwys: gwella derbynoldeb dŵr yfed i fwy na 30,000 o gwsmeriaid yng Nghymoedd Rhondda a Sir Benfro; ymestyn ein portffolio ynni adnewyddadwy; a chymorth ychwanegol i gwsmeriaid sy'n agored i niwed.

CYDWEITHWYR

Rydym yn parhau i ymgysylltu â chyflogeion ar lefel uchel, felly rydym yn falch bod hyn wedi cynyddu yn ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion blynyddol i 77% yn 2016 (2015: 71%) gyda'r gyfradd ymateb orau erioed o 81% (2015: 77%). Mae ein rhwydwaith o Hyrwyddwyr Ymgysylltu â Chyflogeion ym mhob rhan o'r busnes yn parhau i weithio gyda thimau i fynd i'r afoel â phroblemau a nodwyd o ganlyniad i'r arolwg. Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio'n dda â'n Hundebau Llafur o dan ein Cytundeb Cydweithio hirsefydlog — er enghraifft, wrth hyrwyddo ein Rhaglen Sgiliau Hanfodol lwyddiannus ar y cyd, lle y cyflawnodd cydweithwyr dros 1,100 o gymwysterau allanol mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd a sgiliau TG.

Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu a chadw pobl dalentog — ac rydym wedi parhau i ehangu ein rhaglenni i brentisiaid a graddedigion. O gofio'r buddsoddiad hwn, roeddem yn falch o gael ein cydnabod yn allanol am ein cynlluniau i brentisiaid a graddedigion (gweler tudalen 47). Rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth yn ein sefydliad ac roeddem yn falch o gael ein cynnwys yn nigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn y Senedd a drefnwyd gan Menywod mewn Gwyddoniaeth a Pheiranneg. Rydym hefyd wedi dod yn aelod o Chwarae Teg, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol ledled Cymru, yn 2016, a chroesawyd Joy Kent, ei Brif Weithredwr, i siarad â grŵp brwdfrydig o bobl a oedd yn cynrychioli pob rhan o'r cwmni.

Mae lechyd a Diogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ein hymgymeriadau i gyd — ac rydym yn croesawu'r gwelliant parhaus a welwyd yn 2016-17, gyda llai o anafiadau ac anafiadau llai difrifol a lefelau gwell o ymyrraeth ac adrodd cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig o hyd i wella ymhellach ein ffocws ar iechyd, diogelwch a lles mewn blynyddoedd i ddod. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch i hyrwyddo ei fenter "Help GB Work Well".

Ni fyddem wedi gallu cyflawni'r gwelliannau sylweddol i gwsmeriaid dros y 12 mis diwethaf heb frwdfrydedd ac ymrwymiad ein cydweithwyr. Rydym yn falch o'u hymroddiad di-ildio, a ategir gan ein partneriaid contractio, sydd wedi gweithio'n galed iawn drwy gydol y flwyddyn i gefnogi cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd o'n cwmmpas — a hoffwn ddiolch iddynt hefyd am eu cyfraniad sylweddol.

ARLOESED

Gwnaethom groesawu dros 300 o gynadleddwyr i'n Cynhadledd Arloesi a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2017 wrth i ni geisio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon i'r cymunedau a wasanaethwn. Un enghraifft yw ein rhaglen GlawLif, sy'n parhau i ddarparu datrysiadau draenio cynaliadwy arloesol ar draws ein hardal gyflenwi i leihau nifer y llifogydd a nifer y gollyngiadau o bibellau gorlif. Rydym hefyd yn awyddus i fabwysiadu syniadau arfer gorau gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth rhyngwladol blaenllaw, ac yn 2016-17 gwnaethom weithio gydag Oasen Drinkwater yn yr Iseldiroedd a Danva yn Nenmarc, gan groesawu'r cydweithwyr o'r sefydliadau partner hyn a chyfnewid syniadau.

Rydym yn cynnwys arloesedd mewn ffyrdd amrywiol ym mhob rhan o'n busnes — rydym yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned ffermio er mwyn helpu i reoli dalgylchoedd drwy ein menter "Chwistrellau Chwyn" er mwyn osgoi defnydd eang o chwynladdwyr mewn dalgylchoedd sensitif; rydym wedi lansio ein hymgyrch "Pestsmart" i weithio gyda phob grŵp defnyddwyr, gan gynnwys ffermwyr, i annog technegau "mwy deallus" i leihau effaith plaleiddiaid; ac rydym yn dechrau canolbwyntio ar ddatblygu "Mega-ddalgylchoedd" ar y cyd â thirfeddianwyr eraill, er mwyn rheoli ein dalgylchoedd dŵr gyda'n gilydd yn fwy cyfannol.

EIN GWELEDIGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Un o fanteision ein model perchenogaeth yw ei fod yn caniatáu i ni ganolbwyntio ar ein gweledigaeth unigol a chlir i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Rydym yn arddel safbwynt tymor hwy o ran buddsoddi er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno er budd cwsmeriaid presennol, a chwsmeriaid y dyfodol. Mae'r cymunedau a wasanaethwn yn wynebu nifer o heriau yn y dyfodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, twf y boblogaeth, newid amgylcheddol ehangach a heriau i natur technoleg a'r economi. Bydd yr heriau hyn yn effeithio ar y ffordd rydym yn gweithio ar adeg pan fo angen i ni hefyd reoli amgylchedd rheoleiddio sy'n newid, yn enwedig wrth i ni fonitro goblygiadau posibl Brexit a pharatoi ar gyfer datganoli rhagor o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy ddarpariaethau Deddf Cymru 2017.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Rydym am chwarae rôl arweiniol er mwyn helpu i gyflawni'r nodau llesiant hyn. Rydym wedi gweithio gydag ystod o arbenigwyr annibynnol blaenllaw i ddatblygu ymgynghoriad — Dŵr Cymru 2050, y glasbrint ar gyfer ein strategaeth hirdymor. Rydym yn hyderus y bydd y cynllun hirdymor hwn yn ein helpu i ddod yn wasanaeth dŵr o'r radd flaenaf sy'n gydnerth ac yn gynaliadwy. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn ystod haf 2017 fel y gallwn barhau i adlewyrchu eu blaenoriaethau wrth gwblhau'r strategaeth hon, a llywio ein cynllun busnes ar gyfer 2020-25. Mae ein model perchenogaeth unigryw yn rhoi ein cwsmeriaid wrth wraidd ein strwythur busnes, a thrwy gydweithio gallwn ddod o hyd i'r cydbwysedd gorau rhwng cyrraedd y safonau uchel a ddisgwyllir gan gwsmeriaid heddiw, tra'n paratoi ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan genedlaethau'r dyfodol a sicrhau ein bod yn parhau i sicrhau y bydd biliau'n fforddiadwy i'n cwsmeriaid.



Chris Jones
Prif Weithredwr

8 Mehefin 2017

2

EIN STORI



Rydym yn darparu cyflenwad dŵr diogel, dibynadwy a fforddiadwy ar draws y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy.



Gwnawn hyn drwy dynnu, trin a dosbarthu dŵr yfed o ansawdd uchel i'r tair miliwn o bobl sy'n dibynnu ar ein gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.



Rydym hefyd yn casglu dŵr gwastraff, ei drin a'i waredu'n ddiogel tra'n diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd o'n hamgylch.



Rydym yn defnyddio rhan o'r broses dŵr gwastraff i gynhyrchu pŵer a ddefnyddiwn wedyn i gynnal rhai o'n safleoedd.

OND MAE MWY...

RYDYM YN WAHANOL I GWMNÏAU DŴR ERAILL



Nid oes gennym gyfranddalwyr, sy'n golygu y gallwn neilltuo unrhyw warged a gynhyrchwn i sicrhau bod biliau mor isel



â phosibl, gwella ein gwasanaethau a diogelu'r amgylchedd — nawr, ac am flynyddoedd i ddod.

NID AR GYFER CYFRANDDALWYR RYDYM YMA - OND AR GYFER EIN CWSMERIAID.

RYDYM YN WAHANOL

RYDYM
YN
WAHANOL
I GWMNÏAU
DŴR
ERAILL

—
NID
YDYM
YMA
AR GYFER
CYFRANDDALWYR

EIN MODEL

Mae Glas Cymru yn darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth wedi'u rheoleiddio drwy ein hymgymerwr dŵr a charthffosiaeth trwyddedig, Dŵr Cymru, i gwsmeriaid preswyl a busnes ar draws y rhan fwyaf o Gymru a rhannau o Swydd Henffordd a Swydd Gaer.

Mae Dŵr Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau gwerth ychwanegol i'n cwsmeriaid busnes. Rydym yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy i leihau ein costau gweithredu a'n hŏl troed carbon cyffredinol a dreulio anerobig, solar, hydro a chynhyrchu ynni gwynt.

Rydym hefyd yn gwneud ein safleoedd yn hygyrch i'n cwsmeriaid fel cyfleusterau hamdden lle y gallwn, ac rydym yn rhedeg pedair canolfan ymwelwyr sy'n annog y cyhoedd i fanteisio i'r eithaf ar y tir sy'n eiddo i ni. Rydym yn ymgymryd â phrosiectau masnachol gyda'r nod o gynhyrchu gwerth i'w fuddsoddi ar ran ein cwsmeriaid drwy ein his-gwmni Welsh Water Infrastructure. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n gwneud cais am Drwydded Cyflenwi Dŵr a Chorthffosiaeth i wasanaethu safleoedd ein cwsmeriaid presennol yn Lloegr, drwy ein his-gwmni Cambrian Utilities.

Fel Grŵp heb gyfranddalwyr, mae'r holl wargedion a gynhyrchwn o'n gweithgareddau yn cael eu hailfuddsoddi yn y busnesau i wella gwasanaeth a gwerth i'n cwsmeriaid. Rydym yn falch o'n heffaith ehangach yn y cymunedau a wasanaethwn, ac yn gweithio gydag eraill i wella canlyniadau amgylcheddol cyffredinol a chefnogi datblygu economaidd, hyfforddiant ac addysg i hyrwyddo ymddygiadau cynaliadwy.

EIN GWELEDIGAETH

BYDDWN
YN ENNYN
YMDDIRIEDAETH
EIN CWSMERIAID
BOB DYDD

EIN GWELEDIGAETH

Ers 2001, ein prif nod oedd darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid, a oedd yn cynrychioli gwerth da am arian.

Mae ein gweledigaeth yn un syml. Mae'n rhoi ymdeimlad clir o ddiben i'n cydweithwyr ac yn helpu'r cwsmeriaid sy'n dibynnu arnom bob dydd am y gwasanaethau hanfodol a ddarparwn i ddeall yr hyn rydym yn sefyll drosto.

MAE CYFLAWNI EIN GWELEDIGAETH YN GOLYGU Y BYDDWN YN:

DARPARU GWASANAETHAU SY'N BODLONI NEU'N
RHAGORI AR DDISGWYLIADAU CWSMERIAID

CYFLAWNI CYSTAL Â'R CWMNIAU DŴR GORAU YN
Y DU AR DRAWS YSTOD O FESURAU

ARWAIN Y DIWYDIANT DŴR AR AMRYWIAETH O
FATERION PWYSIG

SICRHAU BOD BILIAU YN DAL I FOD AR LEFELAU
FFORDDIADWY

CYNORTHWYO'R CWSMERIAID HYNNY SY'N CAEL
TRAFFERTH TALU EU BILIAU DŴR

Y GWERTH A RODDWN

Mae ein model perchenogaeth unigryw yn ein galluogi i gadw, er budd ein cwsmeriaid, arian a fyddai'n cael ei dalu i gyfranddallwyr fel difidendau mewn cwmnïau eraill. Ers i ni gael ein sefydlu yn y ffordd hon yn 2001, rydym wedi creu mwy na £2 biliwn – neu 'werth ychwanegol' – y gall ein cwsmeriaid elwa arno.

SUT MAE HYN YN GWEITHIO?

Rydym yn cynhyrchu arian dros ben drwy reoli ein costau a chydbwyso dyledion yn erbyn y gwerth cyfalaf rheoleiddiol (neu'r gwerth a osodir ar ein busnes gan Ofwat):

£2,916 miliwn Dyled Net	÷	£5,217 miliwn Gwerth Cyfalaf Rheoleiddiol	=	56% Gerio
----------------------------	---	--	---	--------------

Mae hyn yn rhoi dull gerio sy'n mesur cyfran yr arian a fenthyciwyd gennym o gymharu â gwerth y busnes.

Gyda gerio ar 56%, islaw ein targed cyfredol o 60% a bennir gan y Bwrdd, mae hyn yn golygu y gellir dychwelyd yr arian ychwanegol a gynhyrchir at gwsmeriaid drwy wasanaethau gwell a chynnig help ychwanegol i'r rheini sy'n cael trafferth talu eu biliau.

EIN HADDEWID I GWSMERIAID

Fel cwmni a berchenogir ar ran ein cwsmeriaid, rydym wedi ymrwymo i roi cyfle i bob un o'n cwsmeriaid ddweud eu dweud ynghylch sut y dylai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir – y mae'n debygol, yn ôl yr amcangyfrifon, o fod oddeutu £30 miliwn ar gyfartaledd bob blwyddyn yn y cyfnod hyd at 2020 – gael ei ddychwelyd at gwsmeriaid drwy fuddsoddiad ychwanegol.

Yn ystod haf 2016, gwnaethom ofyn i'n cwsmeriaid gymryd rhan mewn ymgynghoriad unigryw. Roedd Dweud Eich Dweud yn gyfle i'n cwsmeriaid ddweud wrthym sut y dylem fuddsoddi'r arian a gynhyrchir yn ystod 2016-17 yn eu barn nhw.

Rydym wedi teithio o amgylch yr ardal a wasanaethwn yn cwrdd â chynifer o'n cwsmeriaid â phosibl dros 10 wythnos, gan arwain at ein hymgynghoriad cwsmeriaid mwyaf erioed, a gynhyrchodd ychydig dros 12,000 o ymatebion.



RYDYM WEDI
TEITHIO O
AMGYLCH
YR ARDAL A
WASANAETHWN
YN GOFYN I
GWSMERIAID
'DDWEUD EU
DWEUD'





BETH A OFYNNWYD GENNYM

Gofynnwyd i'n cwsmeriaid flaenoriaethu'r chwe opsiwn canlynol:

- biliau dŵr a charthffosiaeth is
- mwy o help i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau
- buddsoddi mwy yn ein rhwydwaith er mwyn dod yn fwy effeithlon
- buddsoddi nawr i arbed arian yn y dyfodol drwy ynni adnewyddadwy ac arloesedd
- cefnogi prosiectau addysgol a hamdden yn ein cymunedau
- cyflymu gwelliannau i gwsmeriaid sy'n cael problemau mynych â'u gwasanaethau

BETH RYDYM YN BWRIADU EI WNEUD NAWR – EIN CYNLLUNIAU AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD

Bydd cymunedau ar draws y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy yn elwa dros y 12 mis nesaf o fuddsoddiad mewn prosiectau a gaiff eu cyflwyno nawr o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol rydym yn ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2017.

Bydd y rhain yn cynnwys:

£10 MILIWN

£10 miliwn yn ychwanegol i gefnogi'r gwaith mawr o osod pibellau dŵr yfed newydd ar draws ein rhwydwaith, gan gynnwys yn y Fflint a Chei Connah, Henffordd a Llechryd, Gorllewin Cymru.

£5 MILIWN

Mwy na £5 miliwn tuag at fuddsoddiad ychwanegol yn ein canolfannau i ymwelwyr a'n cyfleusterau hamdden, gan gynnwys adfer cronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen yng Nghaerdydd fel rhan o gynllun tymor hwy i'w hadfer i'w defnydd cyhoeddus. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyllid ychwanegol i wella mynediad hamdden a bioamrywiaeth yng nghronfa ddŵr Llyn Alaw ar Ynys Môn, cronfa ddŵr Dyffryn y Swistir yn Llanelli a chronfa ddŵr Lliw yn Felindre, Abertawe, a moderneiddio ein canolfannau i ymwelwyr yn Llyn Brenig yng Nghonwy a Chwm Elan.

£3.5 MILIWN

£3.5 miliwn yn ychwanegol i leihau'r 2,000 o flociadau bob mis yn ein rhwydwaith o garthffosydd sy'n aml yn arwain at lifogydd a digwyddiadau'n ymwneud â llygredd, gan weithio gyda chwsmeriaid i feddlw "Stop Cyn Creu Bloc".

£5 MILIWN

£5 miliwn i helpu'r oelwydydd hynny sy'n ennill lleiaf i dalu eu biliau. Cyhoeddwyd £4 miliwn o'r swm hwn ym mis Chwefror 2017.

£5 MILIWN

£5 miliwn ar gyfer gwelliannau i'n gweithfeydd trin dŵr er mwyn eu gwneud yn fwy cydnorth.

£5 MILIWN

£5 miliwn er mwyn helpu i wella gwasanaeth cwsmeriaid preswyl a busnes drwy systemau ar-lein ac apiau newydd a thros y ffôn.



5

BUDDSODDI EICH ARIAN

Yn ogystal â chreu arian dros ben i'w ailfuddsoddi ar gyfer ein cwsmeriaid, rhaid i ni hefyd sicrhau bod ein gwasanaethau o ddydd i ddydd yn cynrychioli gwerth da am arian i'n cwsmeriaid.

Mae'r diagram isod yn dangos sut rydym yn defnyddio taliadau ein cwsmeriaid. Eleni, am bob £1 a gawn gan gwsmeriaid a wariwyd gennym, rydym wedi buddsoddi 9c ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi cronni dros y blynyddoedd blaenorol.

LLE Y CAIFF POB £1 O INCWM O FILIAU CWSMERIAID EI GWARIO

GWAITH BUDDSODDI

43c – Cost buddsoddi yn asedau ein rhwydwaith megis gweithfeydd trin dŵr, prif bibellau dŵr, carthffosydd ac ati

GWAITH CYNNAL A CHADW O DDYDD I DDYDD

30c – Cost weithredol darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff

GWERTH YCHWANEGOL I GWSMERIAID*


9c – Gwarged a gadwyd yn flaenorol a ailfuddsoddwyd i wella gwasanaethau a helpu cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliou

TRETH A'R LLYWODRAETH

9c – Ardrethi busnes, taliadau tynnu dŵr, yswiriant gwladol ac ati

EIN POBL

18c – Cyflogau, buddiannau a phensiynau



*Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm y ffigur ar gyfer costau, gan gynnwys Dosbarthiadau Cwsmeriaid.

2016-2017: YN GRYNO

Rhai o'r digwyddiadau allweddol a'r heriau ar gyfer y Grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf:

2016

EBRILL

Cynnal cyflenwadau i 80,000 o gwsmeriaid yn Ne Cymru ar ôl tirlithriad mawr yng Ngwaith Trin Dŵr Pontsticill.

MAY

Dathlu 15 mlynedd ers i Glas Cymru brynu a sefydlu Dŵr Cymru fel cwmni dŵr a charthffosiaeth nid er cyfranddalwyr.

MEHEFIN

Dechrau ein rhaglen fuddsoddi Astudiaethau Parthol £130 miliwn er mwyn helpu i gyflymu gwelliannau i ddŵr yfed cwsmeriaid. Y Parth cyntaf lle y gwnaed gwaith oedd yr un yn y gogledd.

GORFFENNAF

Lansio ein hymgyngoriad i gwsmeriaid Dweud Eich Dweud, ar sut rydym yn buddsoddi elw yn y dyfodol.

AWST

Cynnal gwaith i ddefnyddio 1,000 litr yr eiliad o gronfa ddŵr i ddarparu amodau gwaith diogel a chynllunio i atgyweirio pibellau yn argae Caban Coch.

GWELER TUDALEN 25

MEDI

Lansio ein hadnodd Bagloriaeth Cymru newydd er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau a hyrwyddo gyrfaedd yn y diwydiant dŵr.

HYDREF

Cynnal ein digwyddiad Her Cyflogeion blynyddol yn Llyn Brenig yn y gogledd, gan godi £5,200 ar gyfer WaterAid.

TACHWEDD

Lansio ein statws cymorth swyddogol i Chwarae Teg, elusen Gymreig sy'n gweithio i greu cyfleoedd i fenywod yn y gweithle.

RHAGFYR

Dysgu o arfer gorau rhyngwladol — dechrau prosiect peilot i dreialu ffyrdd newydd o drin dŵr gwastraff ar ein safle yn Nhre-gŵyr.

2017

IONAWR

Atgyweirio prif bibell ddŵr a oedd wedi byrstio yn Abercwmboi, ger Aberdâr, wrth gynnal cyflenwadau i 12,500 o gwsmeriaid yn yr ardal.

CHWEFROR

Cyhoeddi £4 miliwn ychwanegol i gefnogi cwsmeriaid sy'n cael trafferth go iawn i dalu eu biliau drwy ymestyn ein cynlluniau tariff cymdeithasol.

MAWRTH

Cynnal gweithdy gydag Aelodau Glas ar strategaeth Dŵr Cymru 2050 cyn y lansiad.

7

SUT RYDYM YN GWNEUD

Er mwyn ein helpu i fesur ein perfformiad, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys wyth 'canlyniad' allweddol rydym am eu cyflawni erbyn 2020 i'n cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd ehangach. Seilir y canlyniadau hyn ar flaenoriaethau ein cwsmeriaid o'n hymgyngghoriad yn 2013.

CANLYNIAD	MESURAU LLWYDDIANT	2015-16	2016-17	2016-17 VS BLWYDDYN FLAENOROL	TARGED OFWAT	2016-17 VS TARGED OFWAT
1 DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL Byddwch yn gwbl hyderus bod eich dŵr yfed yn ddiogel, yn ddibynadwy a'i fod yn blasu'n dda	A1a Diogelwch Dŵr Yfed (% y gydymffurfiaeth)*	99.98	99.99	✓	-	-
	A1b Diogelwch Dŵr Yfed (% y gydymffurfiaeth barthol gymedrig)*	99.96	99.97	✓	99.98	✗
	A2a Derbynioldeb i Gwsmeriaid (cysylltiadau f/1,000 pob)*	2.91	2.88	✓	-	-
	A3 Dibynadwyedd y Cyflenwad	21.7	12.2	✓	24	✓
2 DIOGELU'R AMGYLCHEDD Byddwn yn diogelu amgylchedd cynaliadwy y byddwn yn falch o'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol	B1 Tynnu dŵr i'w ddefnyddio	100	100	✓	100	✓
	B2 Trin dŵr gwastraff*	98.59	99.47	✓	100	✗
	B3a Atal llygredd (cat 1, 2 a 3)*	112	114	✗	-	-
	B3b Atal llygredd (cat 3 yn unig)*	110	111	✗	154	✓
3 YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD Byddwn yn addasu ein gweithgareddau i ddellio ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, gan leihau ein hól troed carbon ein hunain ar yr un pryd	C1 Ymateb i newid yn yr hinsawdd	1,531	13,661	✓	10,000**	✓
	C2 Ôl troed carbon	97.4	86.5	✗	55	✓

Rydym yn mesur ein llwyddiant tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn yn erbyn nifer o dargedau – neu Fesurau Llwyddiant – y bwriadwn eu cyflawni neu ragori arnynt bob blwyddyn. Mae'r targedau hyn yn gyfuniad o dargedau rheoleiddiol fel y cytunwyd arnynt gan ein rheoleiddwyr ac eraill ac a bennwyd yn annibynnol gan Fwrdd Glas Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr Atodiad – Mesurau Llwyddiant: Diffiniadau (tudalen 153).

CANLYNIAD	MESURAU LLWYDDIANT	2015-16	2016-17	2016-17 VS BLWYDDYN FLAENOROL	TARGED OFWAT	2016-17 VS TARGED OFWAT
4 GWASANAETH CWSMERIAID Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid	D1 SIM	83	83	✓	-	
	D2 Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd mewn Perygl	648	575	✓	750	✓
	D3 Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	223	242	✗	300	✓
	D4a Boddhad Cwsmeriaid Busnes (%)	89.5	90.82	✓	-	
	D4b Boddhad Cwsmeriaid Dibreswyl (%)	88	89	✓	88	✓
	D5 Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid (%)	82	85	✓	66	✓
5 BILIAU FFORDDIADWY Byddwn yn cynnal a chadw ein hasedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, am gost effeithlon	E1 Biliau Fforddiadwy (% islaw chwyddiant)	-1	-1	✓	-1	✓
	E2a Cymorth i Gwsmeriaid dan Anfantais	54,845	71,167	✓	-	-
6 GOFALU AM EIN HASEDAU Byddwn yn cynnal a chadw ein hasedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, am gost effeithlon	F1 Defnyddioldeb Asedau	Sefydlog (x4)	Sefydlog (x4)	✓	Sefydlog	✓
	F2 Gollyngiadau	179.86	175.43	✓	177	✓
	F3 Cydnherthedd Asedau (Dŵr/Dŵr Gwastraff)	88.2/73.6	89.5/73.6	✓	81/72	✓
7 DATBLYGU AC AMDDIFFYNN EIN POBL Byddwn yn datblygu ffin o bobl a fydd yn darparu gwasanaeth gwyb i'n cwsmeriaid	G1 Digwyddiadau Ridder	19	12	✓	-	-
	G2 Cymhwysedd yn y Rôl	88	87	✗	-	-
8 BUSNES EFFEITHLON Byddwn yn parhau i fod yn fusnes effeithlon â statws credyd uchel	H1 Effeithlonrwydd Cyllid (statws credyd)	A/A3/A	A/A2/A	✓	-	-

Ceir diffiniad o bob Mesur Llwyddiant yn Atodiad 1 ar dudalen 153.

* Wedi ei fesur yn ôl y flwyddyn galendr (mis Ionawr 2016 i fis Rhagfyr 2016). Mesurir canlyniadau eraill yn ôl y flwyddyn ariannol (mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017).

** Yn ymddangos yn y Penderfyniad Terfynol ar gyfer PR14 fel 1,000 (gwall teipograffyddol)

Gellir gweld cymhariaeth fanwl o'n perfformiad cyffredinol ar rai mesurau allweddol yn erbyn perfformiad cwmnïau dŵr a charthffosioeth eraill yn [discoverwater.org](https://www.discoverwater.org)

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 1: DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL

BYDDWCH YN
GWBL HYDERUS
BOD EICH DŴR
YFED YN DDIOGEL,
YN DDIBYNADWY
A'I FOD YN
BLASU'N DDA

UCHAFBWYNTIAU

Ansawdd dŵr

Yn 2016-17 gwelwyd ein perfformiad gorau erioed gyda lefelau chwarterl uchaf yn erbyn chwe mesur ansawdd dŵr yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Y llynedd oedd un o'r blynyddoedd gorau o ran ansawdd y dŵr a deithiodd drwy ein rhwydwaith — o weithfeydd trin i dapiau. Caiff ein dŵr ei samplu a'i brofi'n drylwyr am ystod eang o gemegion a sylweddau gwahanol, o blwm a phlaleiddiaid i ficro-organeddau. Cyflawnwyd 99.99% o gydymffurfiaeth â safonau ansawdd dŵr yfed yn gyffredinol. At ei gilydd, cynhaliwyd dros 700,000 o brofion ar ddŵr yn 2016-17. Dim ond 34 allan o'r 237,841 o samplau rheoleiddiol a gymerwyd gennym a fethodd â chyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer ansawdd dŵr (2015: 47). Am y tro cyntaf hefyd, cawsom berfformiad gwell na'n targed o ran cydymffurfiaeth â haearn sef 99.81% (2015: 99.43%). Mae problem afliwio yn her hirsefydlog i ni o gofio bod tua dwy ran o dair o'n rhwydwaith dŵr yfed yn fras — 27,500 o gilometrau — yn cynnwys pibellau dŵr haearn.

Gollyngiadau

Roedd faint o ddŵr a gollir o'n pibellau bob dydd hefyd ar ei lefel isaf erioed sef 175 o fegalitrau y dydd (Ml/d) — gostyngiad o 180 Ml/d yn 2015-16. Mae gennym dargedau uchelgeisiol i leihau gollyngiadau — fel y dangosir yn y Targedau Perfformiad ar dudalen 54. Dyma'r peth iawn i'w wneud i'n cwsmeriaid ac i'r amgylchedd; dyma'r hyn sydd ei eisiau ar gwsmeriaid, ac mae hefyd yn golygu y gall ein gwasanaeth wrthsefyll sychder yn well.

99.99%

CYDYMFFURFIAETH Â
SAFONAU ANSAWDD
DŴR YFED

700,000

NIFER O BROFION Y
FLWYDDYN A GYNHALIUYD
AR GYFLENWADAU DŴR



Mae sicrhau bod dros dair miliwn o bobl yn gallu cael gafael ar ein hadnodd mwyaf sylfaenol, nid yn unig yn wasanaeth a ddarparwn, mae hefyd yn gyfrifoldeb enfawr. Ein dyletswydd yw sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymddiried ynom i sicrhau bod dŵr yfed yn lân ac yn ddiogel i bawb, bob tro y byddant yn agor eu tap.

Ian Christie
Rheolwr Gyfarwyddwr,
Gwasanaethau Dŵr



HERIAU

Cysylltiadau cwsmeriaid

Gwelsom ostyngiad bach yn nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â ni ynghylch ymddangosiad, blas a lliw eu dŵr. Methwyd o hyd â chyrraedd y targed am y flyyddyn a gwnaeth y llifau uchel a redodd drwy ein rhwydwaith effeithio ar ein perfformiad. Gall galw cynyddol gan gwsmeriaid yn ystod cyfnod o dywydd cynnes neu achosion o bibellau'n byrstio gynhyrfu gwaddod mewn pibellau ac afliwio'r dŵr dros dro, ac er nad yw'n niweidiol, gall arwain at alwadau gan gwsmeriaid pryderus ac mae hynny'n ddealladwy.

Colli cyflenwad

Gall digwyddiadau gweithredol hefyd arwain at gwsmeriaid yn colli cyflenwad dros dro. Yn 2016-17 gwnaethom leihau'n sylweddol yr amser y mae cwsmeriaid preswyl yn ei dreulio heb ddŵr am fod pibell wedi byrstio neu doriad i'r cyflenwad ac mae hyn yn para am 12 munud ar gyfartaledd (2015: 22 o funudau fesul cwsmer). Mae adfer a chynnal y cyflenwad i gwsmeriaid bob amser yn flaenoriaeth allweddol wrth i ni roi mesurau dros dro ar waith i sicrhau bod y dŵr yn parhau i lifo drwy'r tapiau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfarpar arbenigol fel pibellau dros dir a hefyd ddefnyddio tanceri mawr i fwydo dŵr i mewn i'r rhwydwaith. Mae'r mesurau hyn yn gostus — costiodd y defnydd o danceri yn 2016-17 tua £1.3 miliwn i ni — ond maent yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio gan fod ein timau yn gwneud eu gorau glas i darfu cyn lleied â phosibl ar gymunedau.

Rydym wedi canolbwyntio ar wella'r ddau fesur hyn dros y 12 mis diwethaf drwy dargedu buddsoddiad i uwchraddio prif bibellau dŵr mewn ardaloedd sy'n achosi problem fel Llechryd yn y gorllewin, yr Wyddgrug yn y gogledd, Whitbourne yn Swydd Henffordd a Malpas yng Nghasnewydd. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni yn 2017-18 pon fyddwn yn gwneud buddsoddiad tebyg i lanhau prif bibellau dŵr a gosod rhai newydd ar draws Ynys Môn ac mewn cymunedau yn y Rhondda Fach yng nghymoedd y de.

EDRYCH I'R DYFODOL

Rheoli dalgylch

Mae gofalu am ein tir, ein hafonydd a'n cronfeydd dŵr yn hollbwysig i ddiogelu dŵr yfed am flynyddoedd i ddod. Dyna pam y lansiwyd PestSmart gennym ym mis Tachwedd 2016, sef menter ar y cyd rhwng Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn annog ffermwyr, tyfwyr a thirfeddianwyr i reoli'r defnydd o blaleiddiaid a chwynladdwyr yn fwy effeithiol. Drwy eu cyfeirio at ddatrysiadau ymarferol ar gyfer chwyn, plâu a rheoli clefydau a chynnwys cynllun gwaredu plaleiddiaid am ddim, y nod yw gwella ansawdd dŵr crai cyn iddo gyrraedd gwaith trin dŵr a diogelu'r amgylchedd yn well. Drwy ddeall ein dalgylchoedd yn well, gallant weithredu fel ein 'llinell amddiffyn gyntaf' yn erbyn ansawdd dŵr gwael.



Er mwyn diogelu ein hamgylchedd dŵr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni feddwl sut i wneud hyn mewn ffordd greadigol. Mae menter PestSmart yn ddull arloesol sy'n darparu enghraifft ragorol o'r math o ddulliau cydweithredol newydd rydym am eu meithrin dros y blynyddoedd i ddod.

LESLEY GRIFFITHS AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru



Cydnherthedd

Ar hyn o bryd nid oes gan Dŵr Cymru 'system cyflenwi grid' - ac mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o gysylltedd sydd rhwng ein hardaloedd cyflenwi. Er enghraifft, yn nodweddiadol mae gennym un ffynhonnell (fel cronfa cronni dŵr neu fan tynnu dŵr ar afon), yn bwydo un gwaith trin, sy'n cael ei fwydo wedyn gan un bibell diamedr mawr i'r system ddosbarthu. Pan fydd unrhyw ran o'r system gyflenwi hon yn methu, boed hynny am fod y dŵr crai wedi dirywio, methiant yn y broses drin neu bibell wedi byrstio, gall datrys y problem fod yn waith brys, mawr. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd mwy o risg y bydd y system trin dŵr yn methu oherwydd cynnydd mewn dŵr ffô amaethyddol, digwyddiadau tywydd eithafol, ymosodiad seiber a methiant yn y gadwyn gyflenwi.

Felly, rydym yn dechrau meddwl sut y gallwn wneud ein rhwydwaith yn fwy cydnherth drwy ddarparu cysylltedd rhwng ein hadnodd dŵr, parthau cyflenwi a gweithfeydd trin tra'n meithrin capasiti'r rhwydwaith drwy symud o system ddosbarthu pwynt i bwynt draddodiadol i system grid wedi ei hawtomeiddio sy'n ymgorffori gormodedd a storio strategol lle bo angen.

1



ATGYWEIRIO
PIBELL A
OEDD WEDI'I
DIFRODI YN
LLWYDDIANNUS



YR
ATGYWEIRIAD
YW'R CYNTAF
O'I FATH
YN Y DU



RHYDDHAWYD
TUA 1,000 O
LITRAU BOB
EILIAD O'R
ARGAE

ARGAE CABAN COCH,
CWM ELAN

CANLYNIAD 1: DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL

ARGAE CABAN COCH, CWM ELAN

Ym mis Medi 2016, gwnaethom atgyweirio pibell a oedd wedi difrodi yn llwyddiannus (sef pibell a ddefnyddid i ryddhau dŵr o'r gronfa ddŵr yn ystod argyfwng) yn un o'n hargaeau hynaf a mwyaf. Cyn dechrau, roedd angen i ni ryddhau tua 1,000 o litrau bob eiliad o'r argae a adeiladwyd yn ystod oes Fictoria – mwy nag a roddwn i gyflenwi Cymru gyfan – am tua thair wythnos cyn defnyddio plymwyr arbenigol i helpu i ddod o hyd i'r bibell er mwyn gwneud y gwaith atgyweirio. Cododd y gwaith atgyweirio hwn bryderon diogelwch posibl sylweddol iawn a golygodd waith blaengynllunio helaeth – at ei gilydd, cymerodd y broses o gynllunio a chyflawni'r gwaith atgyweirio 11 wythnos a chostiodd tua £1 filiwn. Rydym yn falch o godarnhau bod y gwaith atgyweirio wedi cael ei reoli'n ddiogel a'i gwblhau heb gael unrhyw effaith ar y cyflenwad dŵr yfed i tua miliwn o gwsmeriaid yn Birmingham (cwsmeriaid Severn Trent Water a wasanaethir gan draphont dŵr Cwm Elan) a de-ddwyrain Cymru. Mae'r gwaith atgyweirio, y cyntaf o'i fath yn y DU, wedi ein dysgu am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio sy'n ein galluogi yn owr i ddod yn arweinwyr diwydiant yn y math hwn o waith atgyweirio. Bydd angen gwneud gwaith pellach yn y tymor hwy i sicrhau cydnerthedd hirdymor yr argae.

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 2:
DIOGELU'R AMGYLCHEDD

BYDDWN YN
DIOGELU
AMGYLCHEDD
CYNALIADWY
Y BYDDWN
YN FALCH O'I
DROSGWLWYDDO I
GENEDLAETHAU'R
DYFODOL

UCHAFBWYNTIAU

Ansawdd elifant terfynol

Dros y 12 mis diwethaf mae ein perfformiad amgylcheddol wedi rhagori ar unrhyw berfformiad yn y gorffennol a chafodd 99.47% o'r dŵr gwastraff ei ddychwelyd i afonydd a dyfroedd arfordirol, sef y ganran uchaf erioed, gan fodloni'r trwyddedau gollwng a bennwyd gan ein rheoleiddwyr amgylcheddol (2015-16: 98.60%). Dim ond tri o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff — o blith 835 — a fethodd â chyrraedd y safonau gofynnol. Roedd y llwyddiant hwn i raddau helaeth i'w briodoli i fuddsoddiad parhaus yn ein hasedau, gwaith partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a chyfnodau o dywydd mwynach. Arhosodd cyfanswm y digwyddiadau llygredd yn sefydlog yn 2016 sef 114 (2015: 112 sef ein lefel isaf erioed o lygredd).

Llif

Mae trin y swm cywir o ddŵr gwastraff yn ein gweithfeydd trin yn rhan bwysig o'r gwaith o reoli ansawdd y dŵr a ddychwelir i'r amgylchedd. Gall hyn fod yn heriol oherwydd natur ein carthffosydd cyfun (sy'n derbyn dŵr gwastraff a dŵr ffô wyneb), eithafion o ran dŵr glaw a dŵr yn ymdreiddio i'n rhwydwaith helaeth o garthffosydd — cyfanswm o fwy na 36,000 o gilomedrau. Mae hyn i gyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni fonitro llif y dŵr gwastraff a chymryd camau gweithredu os nad ydym yn trin y swm cywir. Mae hyn yn sicrhau y gallwn barhau i gydymffurfio â'n trwyddedau a diogelu'r amgylchedd. Rydym yn falch o fod wedi cael ein cydnabod yn ystod y flwyddyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru fel arweinwyr diwydiant yn y maes hwn.

Dŵr ymdrochi

Gwnaethom hefyd groesawu canlyniadau dŵr ymdrochi 2016 ym mis Tachwedd, a ddangosodd fod Cymru yn parhau i gael rhai o'r canlyniadau gorau yn y DU. Mae 84 o'r 103 o ddyfroedd ymdrochi yn 'rhagorol' o dan reoliadau'r Undeb Ewropeaidd, ac felly cafodd y nifer fwyaf erioed o Ddyfarniadau Baner Las rhyngwladol eu dyfarnu yn 2016 i 44 o droethau a thri marina yng Nghymru — 5 yn fwy na'r llynedd. Bae Cemaes ar Ynys Môn oedd yr unig ardal 'wael' o ran ansawdd dŵr ymdrochi yn 2016, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol a Chyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn helpu i wella ansawdd dŵr yn yr ardal. Mae'n annhebyg bod y llygredd hwn wedi ei achosi gan ein gweithrediadau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i helpu cymunedau arfordirol i fynd i'r afael â risgiau i ansawdd dŵr — mae mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig yn rhan allweddol o Strategaeth Dŵr Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.

HERIAU

Llifogydd

Roeddem yn siomedig bod nifer yr eiddo lle y gorlifodd dŵr gwastraff i mewn iddynt o'n carthffosydd wedi cynyddu yn ystod 2016-17 i 242 (2015-16: 223). Er i ni wneud cynnydd da o ran lleihau nifer y llifogydd a achosir gan broblemau capasiti yn ein rhwydwaith o garthffosydd, mae llawer o lifogydd bellach yn cael eu hachosi gan garthffosydd wedi eu blocio, a all ddigwydd pan fydd cwsmeriaid yn gwaredu brasterau, olewau a seimiau, ac eitemau na ellir eu fflysio fel weips glanhau i lawr y toiled.

Blociadau mewn carthffosydd

Amcangyfrifwn fod tua 60% o flociadau'n cael eu hachosi gan ymddygiad 'anghywir' y cwsmer — a dyna pam y gwnaethom barhau â'n hymgyrch newid ymddygiad lwyddiannus, 'Stop Cyn Creu Bloc', yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom hefyd geisio addysgu ein cwsmeriaid drwy gynnal 'diwrnod agored' mewn sawl gwaith trin dŵr gwastraff, lle y gwahoddwyd y gymuned leol i ymweld fel rhan o 'Ddiwrnod Toiled y Byd' ym mis Tachwedd. Profodd hyn yn llwyddiannus a byddwn yn cynnwys mwy o safleoedd yn 2017.

Yn fwy cyffredinol, roeddem yn falch o chwarae ein rhan yn ystod 2016 mewn ymgyrch ar gyfer y diwydiant cyfan, a chafwyd cryn sylw yn y cyfryngau i hyn, er mwyn annog gweithgynhyrchwyr cynhyrchion y gellir eu fflysio i wella eu labeli ar gynhyrchion a symud yn raddol i ddefnyddio deunyddiau mwy biogddiraddiadwy mewn cynhyrchion o'r fath.

Ar ôl cael dau ddigwyddiad llygredd difrifol yn 2015-16, cafwyd tri digwyddiad o'r fath yn 2016-17, yr oedd dau ohonynt yn cynnwys methiannau gweithredol a arweiniodd at ddigwyddiadau llygredd mewn dŵr ymdrochi a chwrs afon, ac un yn ymwneud ag olew gwresogi yn gollwng i mewn i'r ddaear ac yn mynd i mewn i gwrs dŵr wedyn. Cafodd yr holl ddigwyddiadau hyn eu hadolygu gan ein Tîm Gweithredol o'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd wrth i ni geisio sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn ein galluogi i gyflawni ein targed, sef dim digwyddiadau llygredd difrifol bob blwyddyn.

EDRYCH I'R DYFODOL

Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol

Yn 2016-17, croesawyd Adroddiad cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Mae'r Adroddiad yn asesu'r hyn y mae Cymru yn llwyddo i'w gyflawni wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Tra'n tynnu sylw at effaith bosibl ein gwaith ar yr amgylchedd, mae hefyd yn cydnabod y gwelliannau a wnaed yn y ffordd rydym yn trin dŵr gwastraff. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid allweddol — yn enwedig drwy ein Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol — er mwyn helpu i reoli ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy a gwella cydnerthedd. Bwriadwn gyhoeddi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyntaf y cwmni ar ddiwedd 2017.

Safonau llymach

Rhan allweddol o'n gwaith o reoli'r rhwydwaith dŵr gwastraff yn y dyfodol fydd parhau i gyflawni ein safonau amgylcheddol cynyddol llym. Yr her fydd taro'r cydbwysedd cywir rhwng cynnwys elfennau trin pellach yn y nifer fawr o weithfeydd sydd gennym, yn hytrach na chyfuno gweithfeydd yn nifer lai o "uwch-ganolfannau" a thalu'r gost o drosglwyddo llifoedd i'r safleoedd hynny.

Rheoli costau

Mae galw is am ynni a phrosesau trin cynaliadwy yn hanfodol i'n helpu i gadw ein gwasanaethau yn fforddiadwy i gwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i gynyddu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar ein safleoedd, ac mae ein tîm arloesi yn ymchwilio i ffyrdd o drin dŵr gwastraff yn fwy effeithiol a gyda llai o gemegion.



Mae cwsmeriaid yn disgwyl i ni ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a hynny'n briodol, am y gost isaf bosibl. Ond ni all hynny fod ar draul y byd o'n hamgylch. Mae ein cydberthynas â'r amgylchedd yn werthfawr — ac mae ei ddiogelu yn rhywbeth y mae pawb yn Dŵr Cymru yn ei gymryd o ddifrif.

STEVE WILSON

Rheolwr Gyfarwyddwr,
Gwasanaethau Dŵr Gwastraff



2



CANLYNIAD 2: DIOGELU'R AMGYLCHEDD

UWCHRADDIO CARTHFFOSYDD YN Y MWMBWLS

Yn y Mwmbwls, Abertawe, rydym wedi buddsoddi bron £5 miliwn eleni yn y rhwydwaith dŵr gwastraff lleol. Mae'r gwaith wedi golygu uwchraddio neu ddisodli tua 1km o garthffosydd yn yr ardal — a fydd yn cynyddu faint o ddŵr gwastraff all fynd drwy'r system yn ddiogel. Bydd hyn yn lleihau'r angen i'r system ryddhau dŵr storm i mewn i Fae Abertawe yn ystod cyfnodau o law trwm, gan roi mwy o ddiogelwch i'r gymuned leol rhag llifogydd a gwella ansawdd y dŵr ymdrochi ymhellach mewn ardaloedd fel Bae Rhosili.



ASTUDIAETH ACHOS



BUDDSODDI YN EIN RHWYDWAITH O GARTHFFOSYDD YN Y MWMBWLS ER MWYN HELPU I DDIOGELU'R AMGYLCHEDD LLEOL

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

**CANLYNIAD 3:
YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD**

BYDDWN YN
ADDASU EIN
GWEITHGAREDDAU
I DDELIO AG
EFFEITHIAU POSIBL
NEWID YN YR
HINSAWDD, GAN
LEIHAW EIN HÔL
TROED CARBON
EIN HUNAIN AR
YR UN PRYD

20%

RYDYM YN CYNHYRCHU
TUA 20% O'R TRYDAN
A DDEFNYDDIWN O
GYNLLUNIAU YNNI
GWYRDD



Erys newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf y byddwn yn eu hwynebu dros y degawdau i ddod. Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd lanach, gwyrddach a llai gwastraffus mewn perthynas â phopeth a wnawn, ac ym mhob lle y gwnawn hynny.

TONY HARRINGTON
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd



UCHAFBWYNTIAU

Mae Fforwm Economaidd y Byd wedi nodi'r methiant i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd fel y risg fyd-eang fwyaf dros y 10 mlynedd nesaf. Mae ein gwaith i leihau ein hallyriadau carbon, cynhyrchu ein trydan ein hunain, a lliniaru effaith tywydd eithafol ar ein gwasanaethau wedi parhau i fynd rhagddo yn 2016-17.

Ynni adnewyddadwy

Mae gan Dŵr Cymru bellach fwy o gapasiti i gynhyrchu ynni adnewyddadwy nag erioed o'r blaen. Mae ynni gwyrdd bellach yn cyfrif om tua 20% o'r trydan a ddefnyddiwn. Y cyfrannwr mwyafrifol a gyfrannodd fwyaf at hyn y llynedd oedd ein fflyd o beiriannau Gwres ac Ynni Cyfunol, sy'n defnyddio tanwydd bio-nwy a gynhyrchir yn ein canolfannau trin llaid ac sydd bellach yn cynhyrchu 39GWh (2015: 41GWh) gyda 13GWh pellach o fiomethan yn cael ei chwistrellu i mewn i'r grid nwy ym Mharc Ynni Pum Rhyd (2015: 5GWh).

Mae'r 24,000 o baneli solar a osodwyd ar 25 o safleoedd Dŵr Cymru gwahanol (digon i bweru 1,800 o gartrefi) wedi ychwanegu at hyn ynghyd â'r ynni sydd bellach yn llifo o ganolfan trin gwastraff organig wrth ymyl ein safle dŵr gwastraff yng Nghaerdydd. Mae'r ganolfan, a ddatblygwyd ac a weithredir gan Kelda Organic Energy, yn cynhyrchu biomethan a gaiff ei droi yn 10GWh y flwyddyn o drydan gwyrdd a ddefnyddir ar safle ein gwaith trin dŵr gwastraff. Bydd y safle hwn yn cynhyrchu dros 20% o'r trydan a ddefnyddir gan ein safle dŵr gwastraff gan ychwanegu at y 40% a gynhyrchwn ein hunain.

Daeth ein safle nwy i'r grid cyntaf yn gwbl weithredol yn 2015 ar ein safle blaenllaw, sef Parc Ynni Pum Rhyd yn Wrecsam yn y gogledd. 2016 oedd ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu a rhagorodd ar ddisgwyliadau gan roi 13GWh o nwy gwyrdd i mewn i'r rhwydwaith nwy lleol gan gynhyrchu incwm ychwanegol i'r cwmni.

HERIAU

Defnydd o ynni

Fel busnes sy'n defnyddio llawer iawn o ynni i bweru ein rhwydwaith helaeth o safleoedd, pypiau a chyfarpar mae angen i ni hefyd fod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio ynni. Yn ystod 2016-17, gwnaethom dreialu gweithio gyda phartner newydd ar un o'n safleoedd er mwyn ein helpu i addasu'r ynni a ddefnyddir ar gyfer peth o'r cyfarpar yn awtomatig o fewn eiliadau, er mwyn helpu'r Grid Cenedlaethol i reoli'r cyflenwad o ynni a'r galw ledled y DU sy'n amrywio cymaint.

Tywydd eithafol

Mae'r tywydd eithafol ysbeidiol a gawsom hefyd wedi creu heriau gweithredol sylweddol yn ystod y flwyddyn. Cawsom dipyn llai o law na'r disgwyl yn ystod y gaeaf — mis Hydref i fis Rhagfyr oedd yr ail gyfnod mwyaf sych a gofnodwyd yng Nghymru ers 1910 a dim ond 58% o'r cyfartaledd hirdymor oedd y glaw a gafwyd. Gwnaethom fonitro lefelau'r cronfeydd dŵr yn ofalus yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig yng Nghronfa Dŵr Wysg yng ngorllewin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gwasanaethu Gwaith Trin Dŵr Bryngwyn, gan gyflenwi 50,000 o gartrefi yn ardal Cwm Tawe. Rydym eisoes wedi cymryd camau rhagofalus er mwyn helpu i liniaru risgiau o'r amodau tywydd sych estynedig yn ddiweddar, sy'n cynnwys buddsoddi mewn mwy o weithgarwch canfod gollyngiadau er mwyn gallu lleihau unrhyw wastraff yn ein rhwydwaith lleol, ond rydym hefyd wedi buddsoddi £3 miliwn i adnewyddu gorsaf bwmpio Manorafon ar afon Tywi yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn ein galluogi i haneru'r dŵr sydd angen i ni ei dynnu o'r gronfa ddŵr yn barhaus i bob pwrpas, er mwyn cyflenwi ein cwsmeriaid yng Nghwm Tawe.

EDRYCH I'R DYFODOL

Newid yn yr hinsawdd

Mae tywydd eithafol bellach yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn yn aml, gan gynnwys mwy o lifogydd o ddŵr wyneb a charthffosydd. Mae hon yn broblem gymhleth ac mae angen i ni gydweithio'n agos â sefydliadau eraill er mwyn helpu i leihau'r bygythiad o darfu ar gwsmeriaid.

Adolygu cyfrifoldebau draenio

Yn ystod sawl achos o dywydd eithafol yn 2016-17, cafodd cwsmeriaid a brofodd lifogydd dŵr wyneb eu cyfeirio atom ni er nad ein cyfrifoldeb cyfreithiol ni efallai oedd y draeniau dan sylw. Felly rydym yn cefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o'r trefniadau cymhleth sy'n gysylltiedig â pherchnogi a rheoli asedau dŵr gwastraff a draeniau yng Nghymru. Hoffem weld y fframwaith hwn yn cael ei symleiddio o'r dull tameidiog cyfredol, ac i unrhyw drefniadau yn y dyfodol fod yn hawdd i gwsmeriaid eu deall, a sicrhau'r ddarpariaeth orau o wasanaethau i'n cymunedau a'r amgylchedd.

Caiff y gwaith hwn ei lywio gan yr adolygiad a groesawyd a gadeiriwn ar ran y diwydiant, rhaglen Draenio'r 21ain ganrif Water UK. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys cynrychiolwyr o tua 45 o sefydliadau, gan gynnwys llywodraethau canolog a datganoledig a phrif reoleiddwyr, gan ystyried sut y gallwn gydweithredu i greu systemau draenio mwy cydnherth er mwyn helpu i leihau'r risg o lifogydd mewn corthffosydd ac ardaloedd trefol.

GlawLif

Er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd lleol a chymunedau lleol rhag llifogydd, rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi — £113 miliwn — mewn technegau draenio trefol cynaliadwy newydd o'r enw GlawLif yn ardaloedd Llanelli a Thre-gŵyr. Mae'r rhaglen yn galluogi systemau draenio cynaliadwy i gael eu haillosod er mwyn atal dŵr storm rhag mynd i mewn i'r system garthffosiaeth gyfun.

3



CANLYNIAD 3: YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD

CYNHYRCHU YNNI ADNEWYDDADWY

Gyda bil ynni blynyddol o £44 miliwn, rydym wedi bod yn edrych am ffyrdd o gynhyrchu trydan ar ein safleoedd fel y gallwn leihau ein hól troed carbon a chost prynu ynni. Comisiynwyd ein tyrbín gwynt cyntaf, yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Bae Abertawe, ym mis Medi 2016 a gall gynhyrchu dros 1,900 awr megawat y flwyddyn — digon i gyflenwi 27% o'r ynni sydd ei angen ar y gwaith trin i weithredu — neu ddigon o drydan i bweru bron 600 o gartrefi. Mae hyn yn arbed £400,000 y flwyddyn i ni mewn costau trydan. Mae tyrbín gwynt Abertawe wedi cael ei roi ar restr fer gan un o'n partneriaid cyfalaf fel rhan o'i gynllun gwobrau byd-eang o gofio bod y gwaith o'i adeiladu wedi cael fawr ddim effaith ar yr amgylchedd. Ers hynny, rydym wedi adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy osod ein tyrbín gwynt mwyaf hyd yma yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Trefonnen yng Nghasnewydd ar ddechrau 2017.



GALL
GYNHYRCHU
DROS
1,900 AWR
MEGAWAT Y
FLWYDDYN



27% O'R
YNNI SYDD
EI ANGEN
AR Y GWAITH
TRIN I
WEITHREDU



YN ARBED
£400,000 Y
FLWYDDYN
I NI MEWN
COSTAU
TRYDAN

ASTUDIAETH ACHOS



EIN TYRBIN GWYNT NEWYDD
YM MAE ABERTAWE

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 4:
GWASANAETH CWSMERIAID

BYDDWN YN
PARHAU I
DDARPARU
GWASANAETH
RHAGOROL I'N
CWSMERIAID

99%

BODDHAD CWSMERIAID
GWASANAETHAU DŴR

96%

BODDHAD CWSMERIAID
GWASANAETHAU DŴR
GWASTRAFF

Ein gweledigaeth nid er cyfranddalwyr yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Rydym yn buddsoddi yn ein cydweithwyr, ein rhwydwaith a'n gwasanaethau i wireddu'r weledigaeth hon. Mae cwsmeriaid am wybod ein bod wedi gwneud popeth posibl i ddarparu'r gwasanaeth gorau, bob tro.

ALUN SHURMERCyfarwyddwr Strategaeth
Cwsmeriaid a Chyfathrebu

UCHAFBWYNTIAU

Sgoriau boddhad cwsmeriaid

Yn ystod 2016 croesawyd ymchwil annibynnol gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a ganfu ein bod wedi sicrhau'r gyfradd boddhad cwsmeriaid uchaf erioed a oedd yn arwain y diwydiant, sef 99% o ran ein gwasanaethau dŵr a 96% o ran ein gwasanaethau dŵr gwastraff — yn uwch na chyfartaledd y diwydiant (93% a 91% yn y drefn honno). Canfu'r adroddiad hefyd fod ymddiriedaeth cwsmeriaid yn Dŵr Cymru ymhlith yr uchaf yn y diwydiant gyda sgôr o 8.06 allan o 10, o gymharu â chyfartaledd y diwydiant sef 7.75.

Ymchwil y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Datgelodd ymchwil ar wahân y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fod cwsmeriaid busnes yng Nghymru yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod yn fodlon ar bob agwedd ar eu cyflenwad dŵr na'r rhai yn Lloegr, a'u bod hefyd yn dangos lefelau uwch o lawer o ymddiriedaeth. Roedd busnesau yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o ganfod gwerth am arian na busnesau yn Lloegr (41% ar gyfer gwasanaethau dŵr o gymharu â 31% yn Lloegr a 41% ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff o gymharu â 30% yn Lloegr).

Gwasanaethau i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr

Mae ein rôl allweddol wrth gefnogi busnesau a thwf economaidd ehangach yn golygu bod yn rhaid i ni hefyd ddarparu'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau posibl i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr sydd am gysylltu â'n rhwydweithiau dŵr a dŵr gwastraff. Rydym yn falch bod dangosydd Lefelau Gwasanaeth WaterUK wedi ein rhoi ni yn yr ail safle ar gyfer gwasanaethau dŵr ac yn yr ail safle hefyd ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff o gymharu â chwmnïau dŵr a dŵr gwastraff eraill. Mae ein gwaith wedi ei lywio gan gyfres o weithdai a fynychwyd yn dda a sesiynau galw heibio i ddatblygwyr yn ystod y flwyddyn, sy'n cefnogi ac yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu ein gwasanaethau.

HERIAU

Cwynion ysgrifenedig

Dyblodd nifer y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd yn 2015-16 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2015-16: 7,128; 2014-15: 3,314), ac arhosodd nifer y cwynion ysgrifenedig yn uchel yn ystod hanner cyntaf 2016-17. Mae ein hadolygiad o'r rhesymau dros hyn wedi dod i'r casgliad bod hyn yn rhannol yn gysylltiedig â chyflwyno proses fwy cadarn wrth erlid cwsmeriaid nad oeddent wedi talu eu bil — yn ogystal â gwneud newidiadau i'n gwefan i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid gysylltu â ni drwy e-bost neu ar-lein. Rydym hefyd wedi wynebu problemau gyda'r systemau yn dilyn cyflwyno system bilio newydd yn gynharach eleni. Ar ôl blynyddoedd olynol o leihau nifer y cwynion ysgrifenedig a gawn, roeddem yn benderfynol o roi'r gorau i'r duedd hon a rhoddwyd cynllun ar waith i leihau cwynion ym mhob maes busnes. Mae'r cynllun hwn, sy'n cyfuno timau arbenigol newydd a pherchenogaeth well o faterion cwsmeriaid, yn golygu ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ac mae nifer y cwynion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod ail hanner 2016-17 wedi gostwng 43% o gymharu â'r chwe mis cyntaf. Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi cael 6,582 o gwynion ysgrifenedig dros y deuddeg mis. Yn dilyn y patrwm cyfredol hwn, rydym yn rhagweld lleihad sylweddol yn 2017-18.

Arolwg Boddhad Cwsmeriaid Ofwat

Gwnaeth Arolwg Boddhad Cwsmeriaid Ofwat (SIM) ein gosod yn y 5ed safle ar gyfer 2016-17 allan o'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth ar ôl i ni gyrraedd yr ail safle yn 2015-16. Mae cynllun gweithredu manwl yn nodi ac yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y methiannau i'r gwasanaeth a arweiniodd at gael ein gosod ar safle is gan SIM.

EDRYCH I'R DYFODOL

Adborth

Mae'r angen i wella ein gwasanaeth yn gyson yn hollbwysig yn wyneb disgwyliadau cwsmeriaid bythol gynyddol. Mae ein cwsmeriaid yn cymharu'r gwasanaeth a ddarparwn â gwasanaeth cwmnïau cyfleustod gorau'r DU, a hynny'n briodol. Rydym yn casglu adborth cwsmeriaid o amrywiaeth o ffynonellau (gweler tudalen 15), ond er mwyn adeiladu ar hyn, gwnaethom ddechrau cyflwyno Ap Boddhad Cwsmeriaid i fwy na 350 o gydweithwyr rheng flaen ym maes gwasanaethau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff ar ddechrau 2017. Mae'n ein galluogi i gasglu adborth cwsmeriaid amser real ar ôl i ni gynnal gwaith yn eu heiddo — ac felly mae'n helpu i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

Rhyngweithio personol â chwsmeriaid

Mae ein gwasanaeth MyBill yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd, ac mae dros 61,000 o gwsmeriaid wedi cofrestru i dderbyn eu bil drwy e-bost. Mae'r cynnydd parhaus yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol hefyd wedi rhoi mwy o ffyrdd i gwsmeriaid ddechrau a llywio sgysiaid â ni — a dyna pam y gwnaethom gynnal adolygiad o'n gallu o ran cyfryngau digidol yn ystod y flwyddyn. Mae ei ganfyddiadau yn ein helpu i sicrhau ein bod yn barod i fodloni'r disgwyliadau hynny, tra'n parhau i arloesi a gwella ein prosesau er mwyn ymateb yn barhaus i'r her o anelu at ragoriaeth ym maes gwasanaeth cwsmeriaid.

ASTUDIAETH ACHOS



RHOI'R GWASANAETHAU DŴR A DŴR GWASTRAFF
ALLWEDDOL I FUSNESAU I'W HELPŴ I LWYDDO



4

CANLYNIAD 4: GWASANAETH CWSMERIAID

GWASANAETHAU MANWERTHU CWSMERIAID BUSNES

O fis Ebrill 2017, mae cwsmeriaid busnes a wasanaethir gan gwmnïau y mae eu hordal gyflenwi yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr wedi gallu dewis eu cyflenwr manwerthu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. I'n cwsmeriaid (gan ein bod yn cael ein rheoleiddio'n wahanol fel cwmni sydd wedi'i leoli'n bennaf yng Nghymru) dim ond cwsmeriaid busnes sy'n defnyddio symiau mawr iawn o ddŵr (50ML neu fwy y flwyddyn) all newid eu cyflenwr, ac ni allant newid ar gyfer gwasanaethau dŵr gwastraff neu elifion masnach. Rydym wedi ymrwmo i ddilyn esiampl y gorau yn y farchnad er mwyn cynnal gwasanaeth hynod gystadleuol i bob un o'n cwsmeriaid busnes, p'un a allant newid cyflenwr ai peidio, ac rydym yn parhau i ymateb i adborth cwsmeriaid a chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaethau i gwsmeriaid busnes.

Yn ystod 2016, sefydlwyd cwmni ar wahân gennym o'r enw Cambrian Utilities Limited ac rydym wedi gwneud cais am drwydded gan Ofwat ar gyfer Cambrian i weithredu fel manwerthwr dŵr a dŵr gwastraff y tu hwnt i'n hordal weithredu gyfredol. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i adborth gan ein cwsmeriaid busnes er mwyn gwasanaethu eu safleoedd cysylltiedig yn Lloegr.

“

Mewn byd sy'n newid yn gyson, byddwn bob amser yn ymdrechu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid busnes er mwyn eu helpu i lwyddo.

ALUN SHURMER

Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Chyfathrebu

”

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 5:
BILIAU FFORDDIADWY

BYDD EIN
GWASANAETHAU
YN WERTH DA
AM ARIAN I'N
CWSMERIAID,
A BYDD
AMRYWIAETH
EFFEITHIOL O
HELP AR GAEL
I'R RHAI SY'N
CAEL TRAFFERTH
TALU

£5 MILIWN

O GYMORTH
ARIANNOL YCHWANEGOL

CAPIO BILIAU
BLYNYDDOL TARIFF
HELPU AR:

£190

£439

Y BIL CARTREF
CYFFREDIN

17,500

O GWSMERIAID WEDI
CAEL HELP I LEIHAU
EU BILIAU DŴR GYDA'N
'PECYN CROESO'
EFFEITHLONRWYDD DŴR

1.5 MILIWN

LITR O DDŴR YN CAEL EI
ARBED DRWY FENTRAU
EFFEITHLONRWYDD DŴR
BOB DYDD

UCHAFBWYNTIAU

Fforddiadwyedd

Ym mis Mehefin 2017 rydym yn cyhoeddi y bydd £5 miliwn ychwanegol o gymorth ariannol ar gael i'n cwsmeriaid mwyaf agored i niwed. Sicrhawyd y cyllid ychwanegol — ar gyfer ein tariff HelpU blaenllaw — yn dilyn canlyniadau ein hymgyngoriad cyhoeddus yr haf diwethaf, sef Dweud Eich Dweud. Dangosodd y canlyniadau gefnogaeth gref gan gwsmeriaid i gynyddu'r cymorth ariannol a roddir i'r cwsmeriaid hynny sy'n cael trafferth go iawn i dalu eu biliau dŵr.

O fis Ebrill 2017, mae biliau blynyddol cartrefi sydd wedi cael eu derbyn ar ein tariff HelpU bellach yn cael eu capio ar £190 y flwyddyn. Mae'r tariff hwn ar gael i gwsmeriaid preswyl cymwys sydd ag incwm blynyddol o £15,000 neu lai — a gall cwsmeriaid gysylltu â ni yn uniongyrchol neu drwy ystod ehangach o sefydliadau partner (gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, StepChange a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig). Mae gennym staff hyfforddedig mewn Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol yn ogystal â nifer o wasanaethau gwirfoddol a chyngor ar ddyledion. Mae hyn yn rhan o ymdrech ehangach sy'n ein galluogi i helpu mwy o gwsmeriaid incwm isel nag erioed o'r blaen, a bellach mae mwy na 70,000 yn cael cymorth.

Roeddem yn falch hefyd o gefnogi cynhadledd Mynd i'r Afael â Thlodi yng Nghymru Gyda'n Gilydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ym mis Chwefror 2017, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n cael trafferth talu.

Cadw biliau'n fforddiadwy

Y bil cartref cyffredin ar gyfer 2017-18 yw £439, o gymharu â £438 yn 2016-2017 — cynnydd o lai na 0.25%. Mae hyn yn cymharu â chynnydd cyfartalog o 2% ymhlith cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynyddu bil cartref cyffredin y sector i £395. Mae ein bil cyfartalog yn uwch oherwydd y topograffi a natur wledig yr ardal a wasanaethwn yn ogystal â hyd ein harfordir, sy'n golygu bod angen mwy o asedau arnom ac rydym wedi gorfod gwario llawer mwy o arian ar drin dŵr gwastraff er mwyn helpu i ddiogelu ansawdd dŵr ymdrochi. Ein cynnydd diweddaraf mewn prisiau yw'r wythfed flwyddyn yn olynol lle rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i gadw'r cynnydd cyfartalog mewn prisiau ar, neu o dan, fesur chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu, a bwriadwn barhau â'r duedd hon tan o leiaf 2020.

HERIAU

Effeithlonrwydd dŵr

Gwyddom fod defnyddio dŵr yn effeithlon yn bryder allweddol i gwsmeriaid ac y gall hyn helpu i gadw biliau yn isel. Bob blwyddyn, rydym yn helpu dros 17,500 o gwsmeriaid domestig i leihau eu biliau dŵr drwy ddarparu 'Pecyn Croeso' effeithlonrwydd dŵr pan ddewisant gael mesurydd dŵr, neu pan fydd eiddo newydd yn cael ei gysylltu â'n rhwydwaith. Bwriadwn wneud mwy i wella ymwybyddiaeth o fuddiannau mesurydd, yn enwedig wrth hysbysu cwsmeriaid y gallant elwa ar gyfnod o ddwy flynedd lle y gallant newid yn ôl i'w dull codi tâl blaenorol os nad yw'r mesurydd a osodwyd wedi bodloni eu disgwyliadau. Ar hyn o bryd, mae tua 440,000 o gwsmeriaid ar gyflenwad â mesurydd, ac mae hyn yn cynyddu tua 4% bob blwyddyn.

Rheoli dyledion

Mae cadw biliau'n fforddiadwy hefyd yn golygu sicrhau bod pawb sy'n gallu talu, yn talu, fel nad ydynt yn cynyddu swm biliau cwsmeriaid eraill. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar reoli drwgddyledion, ac mae hyn wedi cynnwys creu fîm newydd yn y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod landlordiaid yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan reoliadau Llywodraeth Cymru i'n hysbysu am unrhyw newidiadau mewn tenantiaethau. Mae hyn, ynghyd â dull mwy cadarn o lawer o adennill dyledion oddi wrth y cwsmeriaid hynny sydd â'r modd i dalu eu biliau yn ein barn ni, wedi ein helpu i leihau drwgddyledion i £23 miliwn ar gyfer 2017 (2016: £27 miliwn).

EDRYCH I'R DYFODOL

Porth effeithlonrwydd dŵr

Er mwyn helpu cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon a lleihau biliau, lanswyd porth ar-lein newydd gennym ar ddechrau 2017. Mae'r gwasanaeth cyfeirio hwn yn unigryw yn y diwydiant ac yn cynnig help a chyngor i gwsmeriaid — ac yn arddangos y cynhyrchion effeithlonrwydd ynni a gynigiwn.

Mae hyn yn ychwanegol at fentrau wedi eu targedu'n fwy, fel y rhai sydd wedi'u hanelu at gwsmeriaid preswyl incwm isel, gan ein bod yn gwybod bod effeithlonrwydd dŵr yn gysylltiedig iawn â fforddiadwyedd. Fel rhan o'r gwaith a wnawn gyda'n tariff HelpU, dechreuom gynnig archwiliad dŵr domestig a gwiriadau iechyd ffritiadau dŵr am ddim i gwsmeriaid yn ystod 2017. Mae'r fenter allweddol hon yn rhoi dealltwriaeth dda i ni o rai o'r materion sy'n wynebu ein cwsmeriaid preswyl — a bydd hefyd yn helpu i lywio ein meddylfryd o ran y ffordd orau o gyflawni ein hymrwymadau gwasanaeth.



Mae cwmni Dŵr Cymru yn gwmni nid er cyfranddalwyr — ac mae bob amser yn rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Gwyddom fod ein hardal gyflenwi yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU ac felly rydym yn ystyried ei bod yn rhan o'n cenhadaeth i helpu'r rhai sydd â'r angen mwyaf i dalu eu biliau.

JULIA CHERRETT

Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Manwerthu



5



CANLYNIAD 5: BILIAU FFORDDIADWY

BANC BWYD CAERDYDD

Yn 2016, gwnaethom lansio cynllun peilot cyffrous, mewn partneriaeth â Banc Bwyd Caerdydd, wedi ei gynllunio i godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o gynlluniau cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid incwm isel. Mae cydweithwyr o'r tîm Fforddiadwyedd ym maes Gwasanaethau Manwerthu wedi mynychu sesiynau galw heibio'r Banc Bwyd yn y brifddinas yn rheolaidd lle maent yn siarad â defnyddwyr y Banc Bwyd am y modd y gall ein cynlluniau helpu i leihau eu biliau a'u helpu i dalu eu biliau mewn rhandaliadau rheolaidd.

Dywedodd Ulf Dahlström, defnyddiwr gwasanaeth y Banc Bwyd o Lanedeyrn yng Nghaerdydd a gofrestrodd ar gyfer HelpU (ein cynllun tariff) y llynedd:

“

Cofrestrais â'r cynllun pan es i mewn i'm Banc Bwyd lleol. Roedd gen i ôl-ddyledion gwerth miloedd o bunnoedd. Rwyf ar fudd-daliadau. Doedd dim ffordd y gallwn gael y math hwnnw o arian. Cofrestrais ar gyfer y cynllun hwn ac o fewn chwe mis roedd hanner y ddyled wedi ei chlirio. O fewn 12 mis, bydd y ddyled gyfan wedi ei chlirio. Roedd yn bwysau mawr oddi ar fy ysgwyddau, oherwydd bydd dim arna i'r arian hwn nad oes gen i.

”



ASTUDIAETH ACHOS



LORA GLAVIN A CHWSMER
HELPU ULF DAHLSTRÖM

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 6:
GOFALU AM EIN HASEDAU

BYDDWN YN
CYNNAL A
CHADW EIN
HASEDAU
AR GYFER
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL,
AM GOST
EFFEITHLON

£159
MILIWN

BUDDSODDIAD MEWN
GWASANAETHAU DŴR

£162
MILIWN

BUDDSODDIAD MEWN
GWASANAETHAU DŴR
GWASTRAFF



Gyda channoedd o weithfeydd trin, degau o filoedd o gilomedrau o bibellau a dwsinau o gronfeydd dŵr yn ein llecynnau harddaf, mae gennym gyfrifoldeb mawr i sicrhau bod ein rhwydwaith yn gallu ymdopi â'r dasg o ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cwsmeriaid am bris fforddiadwy. Mae gwarchod a buddsoddi yn yr asedau hyn ar ran ein cwsmeriaid wrth wraidd ein gwaith.

PETER PERRY
Prif Swyddog Gweithredu



UCHAFBWYNTIAU

Gwyddom fod darparu gwasanaeth dŵr a dŵr gwastraff o ansawdd uchel yn dibynnu ar raglen helaeth o waith cynnal a chadw, adnewyddu a gwella cynlluniedig. Buddsoddwyd £159 miliwn gennym yn ein gwasanaethau dŵr a £162 miliwn yn ein gwasanaethau dŵr gwastraff yn ystod 2016-17.

Cyflwr asedau

Defnyddioldeb asedau yw'r mesur allweddol a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro sut mae cwmnïau dŵr yn buddsoddi yn eu hasedau er mwyn cynnal gwasanaethau ar lefel dderbyniol. Gall cwmnïau gael eu hasesu fel rhai sydd naill ai'n "gwella", "sefydlog", "ymylol", neu'n "dirywio" – yn 2016-17 cawsom statws sefydlog ar gyfer pob un o'n hasedau.

Heriau gweithredol

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o nifer ddigynsail o heriau gweithredol ar draws ein rhwydwaith helaeth o asedau, gan gynnwys:

- osgoi unrhyw effaith ar gyflenwadau dŵr i 80,000 o gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt ar ôl i dirlithriad mawr yng Ngwaith Trin Dŵr Pontsticill ym Merthyr Tudful ym mis Ebrill 2016 ddinistrio adeilad a oedd yn cynnwys rhan o'r cyflenwad trydan a oedd yn dod i mewn i'r safle;
- atal gweithrediadau dros dro yng Ngwaith Trin Dŵr Bretton yn y gogledd ym mis Ebrill, ar ôl digwyddiad llygredd ar afon Dyfrdwy. Gwnaethom ailgyfeirio cyflenwad amgen dros dro, gan osgoi unrhyw doriad i'r cyflenwad i tua 70,000 o gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt;
- gosod rhan newydd o brif bibell ddŵr a oedd wedi byrstio ym Mhontypridd yn y de, gan osgoi unrhyw doriad i'r cyflenwad i tua 60,000 o gwsmeriaid;
- cwblhau'n llwyddiannus un o'r achosion anoddaf o atgyweirio argae yr ydym erioed wedi ei wneud ym mis Medi yng Nghwm Elan yn y canolbarth (gweler tudalen 25);

Mae'r ffordd rydym yn rheoli digwyddiadau o'r fath yn cael ei hadolygu'n gyson a chaiff gwersi allweddol eu dysgu. Mae hyn hefyd yn gymwys i ddigwyddiadau eraill, fel prif bibell ddŵr yn byrstio yn Abertawe ym mis Hydref, a effeithiodd ar tua 5,000 o gwsmeriaid, yn anffodus.

Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Yn ogystal â'n hasedau peirianeg galed, mae ein seilwaith TGCh yn allweddol i'r ffordd rydym yn gweithio a gwnaethom gwblhau ein rhaglen newid fwyaf uchelgeisiol erioed yn ystod y flwyddyn pan newidiwyd y darparwr TG yn llwyddiannus. Bydd y buddsoddiad yn y broses bontio yn rhoi'r llwyfannau diogel a chynyddol i'n cydweithwyr sydd eu hangen er mwyn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn rheoli ein hasedau ac yn darparu ein gwasanaethau (gweler tudalen 62).

HERIAU

Cefnogi datblygiad

Rhaid i ni gydbwysu'r angen i ddiogelu ein rhwydwaith helaeth o asedau â'n rôl allweddol i hwyluso twf economaidd drwy gefnogi datblygiadau cynaliadwy. Rhaid i ni ymateb i'r her o gefnogi a galluogi datblygiad gan ddiogelu ein hasedau a'n rhwydwaith ar yr un pryd. Mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu 6% erbyn 2035* a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, yn enwedig yn ein rôl newydd fel ymgynghoreion statudol, wrth iddynt ddiweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff gorau posibl i gwsmeriaid nawr ac am flynyddoedd i ddod.

Ymatebion brys

Gan ein bod yn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol, mae pwysigrwydd bod yn barod ar gyfer pob digwyddiad posibl yn rhan annatod o'n holl weithgareddau. Mae gennym gyfres gynhwysfawr o gynlluniau brys er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer digwyddiadau ac y gallwn ymateb iddynt er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn gydnerth. Yn ystod 2016-17, cymhwysodd y cwmni ei strwythur Rheoli Tactegol neu Strategol, sef Arian ac Aur, y fframwaith cyffredinol a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gorchymyn a rheoli digwyddiadau mawr, dros 70 o weithiau er mwyn delio â digwyddiadau gweithredol amrywiol – gan gynnwys materion ynghylch cyflenwad dŵr, carthffosydd yn gorlifo ac atgyweiriadau i argaeau mewn perthynas â rhai o'n safleoedd allweddol.

EDRYCH I'R DYFODOL

Cynllunio cydnerthedd

Wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer y cyfnod buddsoddi nesaf, nid yw ein dull gweithredu yn y maes hwn wedi newid. Mae cynllunio i ddarparu gwasanaeth cydnerth yn rhan annatod o'r hyn a wnawn gan ein bod am sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid cyfredol heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gwyddom y bydd angen i heriau fel newidiadau demograffig, newid yn yr hinsawdd, polisi amgylcheddol a newid rheoliadol gael eu cynnwys yn ein gwaith modelu dŵr gwastraff a'n cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, er mwyn i ni sicrhau bod gennym sail asedau sy'n addas at y diben ac yn gydnerth yn y dyfodol. Bwriedir i'r ymgynghoriad ar Dŵr Cymru 2050 ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth i ddod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol (gweler tudalen 55).

* Yn seiliedig ar amcanestyniadau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

ASTUDIAETH ACHOS



SOPHIE HOWE
COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL



6

CANLYNIAD 6: GOFALU AM EIN HASEDAU

ARLOESED

Gwyddom na allwn oresgyn yr holl heriau a wynebwn ar ein pen ein hunain, a dyna pam rydym wedi buddsoddi tua £8.3 miliwn eleni i ddatblygu arloesedd yn y cwmni, gan weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill. Mae ein Cynadleddau Arloesedd blynyddol yn hollbwysig er mwyn helpu i hwyluso gwaith cydweithredol. Cynhaliwyd y bedwaredd gynhadledd ym mis Ionawr ar brif gampws Prifysgol Abertawe yn y Bae gyda Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, fel prif siaradwr. Mae'r digwyddiadau hyn yn dwyn ynghyd fwy na 300 o gynadleddwyr o'r byd diwydiannol ac academiaidd i ddysgu gyda'i gilydd am arfer gorau rhwyngwladol a datblygu datrysiadau i rai o'n heriau strategol mwyaf.

“

Byddai'r sector busnes ar ei ennill pe bai'n meddwl am ffyrdd newydd o weithio ac yn ymgorffori'r egwyddor gynaliadwy yn y ffyrdd newydd hynny o weithio, ac mae gan Dŵr Cymru ran hollbwysig i'w chwarae i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng ngoleuni'r heriau a wynebwn o ran yr hinsawdd, newid economaidd a newid mewn poblogaeth. Mae arloesedd a thechnolegau newydd yn chwarae rhan bwysig yn y dyfodol ond er mwyn i ni wneud newid trawsffurfiol, go iawn, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd mewn ffordd gydgyssylltiedig, cynllunio ar gyfer yr hirdymor, cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, sicrhau bod ein camau gweithredu heddiw yn creu Cymru sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

SOPHIE HOWE

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru

”

CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 7: DATBLYGU AC AMDDIFFYN EIN POBL

BYDDWN YN DATBLYGU TÎM O BOBL A FYDD YN DARPARU GWASANAETH GWYCH I'N CWSMERIAID AC YN GWEITHIO I'W CADW'N DDIOGEL BOB AMSER

UCHAFBWYNTIAU

Beth bynnag fo'r swydd, ni waeth a oes angen cwblhau gwaith ar fyrder, nid ydym byth yn peryglu iechyd na diogelwch cydweithwyr. Nid oes dim mor bwysig fel na allwn gymryd yr amser i'w wneud yn ddiogel — a diogelu iechyd a lles cydweithwyr yw un o'n cyfrifoldebau craidd.

Iechyd a diogelwch

Rydym yn fodlon ar y cynnydd da parhaus yn y maes hwn a chawsom ein perfformiad gorau erioed o ran digwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus) gyda 12 digwyddiad yn 2016-17, o gymharu â 19 yn 2015-16, a chyfartaledd o 25 ar gyfer y cyfnod rhwng 2010 a 2015. Bu hyn hefyd yn ffocws allweddol ar gyfer Partneriaid y Gyngrair Cyfalaf

a gyrhoeddodd, ynghyd â'n tîm Darparu Cyfalaf mewnol, garreg filltir bwysig eleni gyda thros dair miliwn o oriau wedi'u gweithio heb i neb gofnodi unrhyw RIDDOR. Nodwyd y cyflawniadau hyn yn ystod ein 10fed achlysur blynyddol o gyflwyno Gwobrau Iechyd a Diogelwch yn 2016, yn cynnwys mwy na 300 o gydweithwyr o Dŵr Cymru a'n partneriaid contract.

Atgyfnerthwyd pwysigrwydd diogelwch cydweithwyr yn ystod y flwyddyn ar ôl i ddau is-gontractwr Dŵr Cymru gael anafiadau ddiwedd Ebrill tra'n gweithio mewn gorsaf bwrpio yn Nantgaredig, ger Caerfyrddin. Roedd angen triniaeth ysbyty ar y ddau a gwnaethom weithio'n agos gyda'r cwmni dan sylw a'r Awdurdod

Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ddeall pam bod hyn wedi digwydd a dysgu sut i osgoi damweiniau o'r fath yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i fynnu'r safonau Iechyd a Diogelwch uchaf posibl gan ein cydweithwyr ac ym mhob rhan o'r godwyn gyflenwi. Rydym yn hyrwyddo'r disgwyliadau uchel hyn yn bennaf drwy ein Grŵp Llywio Iechyd, Diogelwch a Llesiant a gynhelir bob deufis, ac a gadeirir gan Peter Perry, y Prif Swyddog Gweithredu, ynghyd â diwrnodau hyfforddi dan arweiniad cyfarwyddwyr lle caiff y gwaith arferol ei atal dros dro er mwyn trafod pynciau penodol yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch.

UCHAFBWYNTIAU

Iechyd yw'r diogelwch newydd

Yn ogystal â chadw ein cydweithwyr yn ddiogel, rydym hefyd yn ymrwymedig i'w helpu i gadw'n iach. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd ystod eang o fentrau gennym i wella iechyd ein cydweithwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys cynnal asesiadau gwyliadwriaeth iechyd blynyddol, clinigau "Llesiant", cyflymu atgyfeiriadau i'n gwasanaeth iechyd galwedigaethol, yn ogystal â chyflwyno mynediad mwy hwylus i ffisiotherapi, aelodaeth o gampfa am bris gostyngol a chynllun seiclo i'r gwaith.

Mentrau amrywiaeth

Er mwyn cyflawni amcanion ein cwmni, mae angen i ni hefyd fod yn lle gwyh i weithio a chydabod pwysigrwydd datblygu gweithlu ag amrywiaeth eang o gefndiroedd, oedranau, sgiliau a phrofiad, a sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys, eu grymuso ac y gallant gyfrannu at y gwaith a wnawn. Dyma un o'r rhesymau pam y gwnaethom benderfynu dod yn gefnogwr swyddogol i Chwarae Teg yn 2016, elusen Gymreig sy'n ymroddedig i chwalu stereoteipiau rhywiol a helpu menywod i gyflawni eu potensial llawn. Gan fod 71% o'n gweithlu yn ddynion, bydd y gydberthynas hon yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth dda o'r ffordd y gallwn addasu ein dull recriwtio, datblygu sgiliau ac arferion gwaith i ddenu mwy o fenywod i'r busnes a'u helpu i ddatblygu i'w potensial eithaf.

Ymgysylltu â chyflogeion

Arweiniodd ein ffocws ar gynnal lefelau uchel o ymgysylltu â chyflogeion at gynnydd yn ein Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion ar gyfer 2016 a chododd canran yr ymgysylltu i 77% (2015: 71%) gyda'r gyfradd ymateb orau erioed o 81% (2015: 77%).

Cydnabod ein cynlluniau yn y gweithle

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ennill dwy wobwr fawr, a ddangosodd sut rydym bellach wedi hen ymsefydlu fel gweithle blaenllaw i brentisiaid a graddedigion. Dyfarnwyd Cynllun Graddedigion y Flwyddyn i ni yng Ngwobrau Personnel Today y DU gyfan am ein gwaith yn cyflogi a mentora graddedigion a chawsom ein cydnabod hefyd fel Cyflogwr Mawr y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru. Gyda 46 o raddedigion, 59 o brentisiaid a 49 o hyfforddeion yn y busnes eleni, mae hyn yn rhan bwysig o'n strategaeth olyniaeth hirdymor. Gyda gweithlu sy'n heneiddio, mae angen i ni barhau i recriwtio talent newydd drwy'r mentrau hyn ac mae gennym fframweithiau hyfforddi strwythuredig ar waith i'w helpu i ddatblygu fel y gallant ein helpu ni i barhau i esblygu a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid.

HERIAU

Datblygu ein pobl

Mae sicrhau bod gan ein cydweithwyr y sgiliau sy'n ofynnol yn bwysig er mwyn ein helpu i gyflawni ein nodau. Mae buddsoddi yn ein pobl yn allweddol felly ac mae nifer o uwch reolwyr gwasanaeth cwsmeriaid a gweithredol yn cymryd rhan mewn Rhaglen Arloesi a gynlluniwyd gyda Phrifysgol Caerdydd i wella galluogrwydd a chreu timau sy'n perfformio'n dda ac sy'n hyddysg mewn pynciau fel newid, arloesedd a chydweithredu.

Mae'r 12 mis diwethaf nid yn unig wedi profi cydnheredd asedau — ond cydnheredd ein pobl hefyd. Yn aml, bydd ein cydweithwyr yn gwneud mwy na'r disgwyl er mwyn helpu i liniaru effeithiau digwyddiadau ar ein gwasanaethau a'n cwsmeriaid. Gall sefyllfaoedd o'r fath fod yn eithriadol o heriol — ac felly rydym yn benderfynol o helpu cydweithwyr ymhellach i ddellio â straen a phwysau rheoli'r digwyddiadau hyn drwy gynnal gweithdai i'w helpu i wella eu cydnheredd personol ac emosiynol.

Pensiynau

O 31 Mawrth 2017, caewyd pob un o adrannau cynllun pensiwn buddionau diffiniedig Dŵr Cymru i groniadau yn y dyfodol, ac eithrio 18 o aelodau y mae eu pensiynau wedi'u diogelu o dan statud. Ers hynny mae aelodau o'r cynllun buddionau diffiniedig wedi cael eu cofrestru ar gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y Cwmni — Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp.

EDRYCH I'R DYFODOL

Mentrau llesiant

Rydym yn datblygu rhaglen Hyrwyddwyr Llesiant er mwyn helpu i ddiogelu ein cydweithwyr. Bydd yr Hyrwyddwyr hyn yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant yn gadarnhaol yn y gweithle drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith timau lleol, annog cydweithwyr i gael gafael ar gymorth perthnasol, a mentora cydweithwyr a all fod mewn perygl o ddioddef straen yn y gweithle.

Rydym hefyd yn awyddus i ddod yn Weithle Di-fwg. Nid yn unig y bydd hyn yn ein helpu i ddiogelu cydweithwyr ac ymwelwyr yn ein gweithleoedd rhag amlygiad i fwg ail law, ond bydd hefyd yn helpu cydweithwyr eraill yn uniongyrchol i roi'r gorau i smygu er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles cyffredinol.

Ar ôl ennill y wobwr Aur fel rhan o Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn 2016, ein nod o fewn y 18 mis nesaf yw gwneud cais am safon Platinwm y cynllun i sefydliadau a chwmnïau sy'n rhoi arferion ar waith sy'n hyrwyddo iechyd a lles eu cyflogeion.




Yr hyn sydd wrth wraidd gwasanaeth gwyh yw pobl wych — a'n pobl ni yw ein hased mwyaf. Mae denu, datblygu a chadw pobl sydd â'r sgiliau, y bersonoliaeth a'r angerdd a gysylltir â Dŵr Cymru yn hanfodol er mwyn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a'n gwneud ni yn gyflogwr o ddewis.

LINDA WILLIAMS


Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol



ASTUDIAETH ACHOS



DONNA HARTLEY
TECHNEGYDD OFFERYNIAETH, RHEOLI AC AWTOMEIDDIO



CANLYNIAD 7: DATBLYGU AC AMDDIFFYNN EIN POBL

GRADDEDIGION A PHRENTISIAID

Ymunodd Donna Hartley â Dŵr Cymru fel Technegydd Offeryniaeth, Rheoli ac Awtomeiddio, Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd ac Afan yn 2015.



Roeddwn wedi bod yn ystyried newid fy ngyrfa a chael rôl fwy ymarferol ers peth amser, gan nad oedd gweithio ym maes gweinyddiaeth yn fy modloni nac yn fy herio mwyach. Pan welais swydd prentisiaeth Dŵr Cymru meddyliais ei bod yn swnio'n ddiddorol iawn ond ei bod hefyd yn edrych yn swydd a oedd wedi ei strwythuro'n dda. Fel technegydd, mae fy rôl yn amrywiol iawn felly mae'n anodd dweud beth yw diwrnod cyffredin; un diwrnod gallwn fod yn gwirio chwiliedyddion yn y boeleri ac ar ddiwrnod arall gallwn fod yn edrych am namau neu wneud addasiadau fel y gall prosesau redeg yn fwy effeithlon. Dyna un o'r pethau sy'n gwneud y swydd yn un mor ddiddorol – dydych chi byth yn siŵr beth fyddwch yn ei wneud o un diwrnod i'r llall.



CANLYNIADAU ALLWEDDOL

CANLYNIAD 8:
BUSNES EFFEITHLONBYDDWN YN
PARHAU I FOD
YN FUSNES
EFFEITHLON
Â STATWS
CREDYD UCHEL

Mae Dŵr Cymru yma i wasanaethu buddiannau ein cwsmeriaid yn unig, nid buddiannau cyfyng cyfranddalwyr. Mae rhedeg y busnes ar eu rhan yn golygu parhau â'r cynnydd rydym wedi ei wneud i atgyfnerthu ein sefyllfa ariannol ers 2001, fel y gallwn fuddsoddi er mwyn ymateb i heriau yn y dyfodol a disgwyliadau uchel ein cwsmeriaid.

PETER BRIDGEWATER
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol



£350
MILIWN

WEDI EI FUDDSODDI YN
EIN GWASANAETHAU

£406
MILIWN

O FUDDSODDIAD WEDI'I
GYNLLUNIO AR GYFER
2017-18

UCHAFBWYNTIAU

Yn ystod 2016-17, gwnaethom fuddsoddi £350 miliwn yn ein gwasanaethau fel rhan o'n rhaglen fuddsoddi orau erioed a gaiff ei chyflawni yn ystod y pum mlynedd hyd at 2020 fel y cytunwyd gyda'n rheoleiddiwr, Ofwat.

Dychwelyd gwerth

Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddwyd hefyd fod ein perfformiad ariannol wedi ein galluogi i fuddsoddi £32 miliwn arall o werth ychwanegol yn y gwasanaethau a ddarparwn i gwsmeriaid. Mae'r arian hwn yn ein helpu i wella ansawdd ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, cynyddu'r cymorth a roddwn i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau a gwella rhai o'r canolfannau hamdden cymunedol a'r canolfannau i ymwelwyr. Ar gyfer 2017-18, rydym yn bwriadu buddsoddi £34 miliwn arall ar ran ein cwsmeriaid (gweler tudalen 17), wedi ei lywio gan ein hymgyngoriad mwyaf erioed â chwsmeriaid.

Casglu arian parod

Mae ein casgliadau arian parod wedi parhau i wella o ganlyniad i'n buddsoddiad parhaus yn y maes hwn, a gostyngodd y taliadau drwgddyledion o £27 miliwn y llynedd i £23 miliwn eleni. Mae sicrhau bod y cwsmeriaid hynny sy'n gallu fforddio talu eu biliau yn gwneud hynny mewn gwirionedd yn elfen bwysig o sicrhau ein bod yn cadw'n biliau yn fforddiadwy. Cefnogir hyn gan ein hystod o dariffau cymorth hael i gwsmeriaid dan arweiniad y diwydiant ar gyfer y cwsmeriaid hynny sydd wir yn cael trafferth talu eu biliau dŵr.

Gerio

Mae ein gerio rheoleiddiol wedi gostwng i 56%, o gymharu â 57% ym mis Mawrth 2016 a 93% ers i Glas Cymru gaffael Dŵr Cymru yn 2001. Ein nod yw cynnal y gerio rheoleiddiol ar tua 60%. Dyma'r cydbwysedd mwyaf effeithlon rhwng cynnal mynediad cryf i ddyledion cost isel (o ganlyniad i'n statws credyd rhagorol) a rhyddhau arian parod i wella ein gwasanaethau hyd yn oed yn fwy. Ein statws credyd ni yw'r gorau yn sector cyfleustodau'r DU, ac mae ein bondiau wedi cael sgôr o A2/A/A gan Moody's, Standard and Poor's a Fitch yn y drefn honno (ym mis Tachwedd 2016, uwchraddiodd Moody's ein sgôr o A3 (rhagolwg cadarnhaol) i A2).

HERIAU

Gwelliannau effeithlonrwydd

Rydym yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i gwsmeriaid a rheoleiddwyr i sicrhau'r lefelau gorau erioed o fuddsoddiad cyfalaf. Rydym hefyd yn ymrwymedig i leihau bil cartref cyffredin cwsmeriaid mewn termau real; gallwn ond gwneud hyn drwy wneud gwelliannau effeithlonrwydd parhaus a pharhaol i'r ffordd rydym yn gweithredu ac yn ariannu'r busnes.

Bydd angen i ni gyrraedd targedau heriol ar gyfer effeithlonrwydd costau a gwasanaeth cwsmeriaid i gyflawni'r canlyniad gorau ym mhroses adolygu prisiau rheoleiddio 2019.

EDRYCH I'R DYFODOL

Effeithlonrwydd costau

Rydym yn arddel barn tymor hwy wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf costeffeithiol o ddarparu a gwella ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu ein bod yn asesu'r datrysiad mwyaf costeffeithiol i broblem, gan ystyried costau gweithredu, costau cynnal a chadw a buddsoddiad cyfalaf dros y tymor hwy, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod buddsoddi cyfredol neu gyfnod buddsoddi 2020-25. Mae ein strategaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050 (gweler tudalen 55) yn ategu ac yn llywio'r penderfyniadau buddsoddi hyn.

Cyfleoedd masnachol

Rydym wedi cytuno ag Aelodau a buddsoddwyr y byddwn yn ystyried buddsoddi mewn cyfleoedd masnachol sy'n gysylltiedig â rheoli cylch dŵr a meysydd cysylltiedig yn y DU. Yn 2016-17 darparodd ein gwasanaethau labordy yng Ngglaslyn a Bretton wasanaethau dadansoddi dros dro i South Staffordshire Water, gan gynhyrchu dros £1 filiwn o refeniw ychwanegol ar gyfer Dŵr Cymru Cyfyngedig, a fydd yn ein helpu i gadw biliau i'n cwsmeriaid mor isel â phosibl.

Ailstrwythuro corfforaethol

O 1 Mawrth 2016 rydym wedi gweithredu gyda'n strwythur corfforaethol newydd, y bwriedir iddo alluogi prosiectau masnachol i gael eu cyflawni o dan Welsh Water Infrastructure Limited, is-gwmni newydd a berchenogir yn llawn.

8




CANLYNIAD 8: BUSNES EFFEITHLON

CYFNODAU TRIOEDD AR GYFER Y DEFNYDD O YNNI

Mae ein cydweithwyr yn chwarae eu rhan i'n helpu i ddod yn fusnes mwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i ffyrdd arloesol o helpu drwy rannu syniadau am reoli costau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Dyna pam y gwnaethom gyflwyno rhybuddion "Awr pŵer isel" mewnol yn ystod Cyfnodau trioedd 2016-17.

Trioedd yw'r tri chyfnod hanner awr uchaf o alw am drydan rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror bob blwyddyn, fel arfer yn ystod cyfnodau o dywydd oer tua 5-6pm, pan fydd y galw diwydiannol yn cyd-daro â chyfnod amser swper mewn cartrefi. Dyma pryd mae trydan ar ei ddrutaf ac felly rydym bellach yn gofyn i'r 3,000 o gydweithwyr yn rheolaidd i ddiffodd cyfarpar nad yw'n hanfodol yn ystod y cyfnodau brig hyn. Mae hyn yn ein helpu i leihau ein costau ynni ac mae wedi arwain at arbedion sylweddol yn ystod 2016-17.





EIN TAITH HYD AT 2020

Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu ar gylch referniw bob pum mlynedd ac ar hyn o bryd rydym hanner ffordd drwy gyfnod 2015 i 2020 ein Cynllun Busnes.

Mae'r tabl isod yn tracio ein perfformiad cyfredol yn erbyn y targedau y gwnaethom gytuno arnynt gyda chwsmeriaid a rheoleiddwyr ar gyfer 2020.

Rydym yn ymrwymedig i adrodd yn agored ar ein perfformiad mewn perthynas â phob un o'r mesurau hyn fel y gallwn geisio darparu'r lefelau gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid.

MESURAU LLWYDDIANT		2016-2017	2019-2020	AR Y TRYWYDD IAWN I GYFLAWNI TARGED 2020
CANLYNIAD 1	A1a Diogelwch Dŵr Yfed (% y gydymffurfiaeth)*	99.99	99.99 (Targed BP mewnol)	✓
	A1b Diogelwch Dŵr Yfed (% y gydymffurfiaeth borthol gymedrig)*	99.97	100	✗
	A2 Derbynioldeb i Gwsmeriaid (cysylltiadau f/1,000 pob)*	2.88†	1.23	✗
	A3 Dibynadwyedd y Cyflenwad	12.2	12	✓
CANLYNIAD 2	B1 Tynnu dŵr i'w ddefnyddio	100	100	✓
	B2 Trin dŵr gwastraff*	99.47	100	✗
	B3a Atal llygredd (cat 1, 2 a 3)*	114	131	✓
	B3b Atal llygredd (cat 3 yn unig)*	111	131	✓
CANLYNIAD 3	C1 Ymateb i newid yn yr hinsawdd	13,661	25,000	✓
	C2 Ôl troed carbon	86.5	100	✓
CANLYNIAD 4	D1 SIM	83	Chwarterl Uchaf	-
	D2 Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd mewn Perygl	575	425	✓
	D3 Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	242	269	✓
	D4a Boddhad Cwsmeriaid Busnes (%)	90.82	93.55 (Targed BP mewnol)	✓
	D4b Boddhad Cwsmeriaid Dibreswyl (%)	89	90	✓
	D5 Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid (%)	85	75	✓
CANLYNIAD 5	E1 Biliu Fforddiadwy (% islaw chwyddiant)	-1	-1	✓
	E2 Cymorth i Gwsmeriaid dan anfantais	71,167**	100,000	✓
CANLYNIAD 6	F1 Defnyddioldeb Asedau	Sefydlog (x4)	Sefydlog	✓
	F2 Gallyngiadau	175.43	169	✓
	F3 Cydnerthedd Asedau (Dŵr/Dŵr Gwastraff)	89.5/73.6***	87/78	✓
CANLYNIAD 7	G1 Digwyddiadau Riddor	12	10 (Targed BP mewnol)	✓
	G2 Cymhwysedd yn y Rôl (%)	87	95 (Targed BP mewnol)	✓
CANLYNIAD 8	H1 Effeithlonrwydd Cyllid (statws credyd)	A/A2/A	A/A2/A	✓

† ac eithrio materion ynghylch cwsmeriaid preifat

* mesur blwyddyn galendr

** yn cynnwys cwsmeriaid Cosglu Dŵr

*** cyfrifwyd drwy ddefnyddio rhestr o osedau ar adeg Penderfyniad Terfynol Ofwat ar gyfer PR14.

DŴR CYMRU 2050

Yn y diwydiant dŵr, bydd llawer o'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud heddiw yn cael effaith fawr ar ein cwsmeriaid, yr economi a'r amgylchedd am ddegawdau i ddod. Dyna pam mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch ein hamcanion hirdymor a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

Rydym am ddod yn wasanaeth dŵr cydnerth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu un o'n cynlluniau mwyaf uchelgeisiol hyd yma — 'Dŵr Cymru 2050'. Mae hyn nid yn unig yn nodi tueddiadau arwyddocaol dros y 30 mlynedd nesaf, sut y byddant yn effeithio ar ein cwmni a'n cwsmeriaid, a sut yr ymdrinnir â nhw, ond mae hefyd yn cynnig sut y gallwn liniaru'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y tueddiadau hyn:

- Newid demograffig
- Newid amgylcheddol
- Newidiadau o ran disgwyliadau cwsmeriaid
- Newid mewn polisi a newid rheoleiddiol
- Newid yn yr hinsawdd
- Diogelu seilwaith hanfodol
- Newidiadau i strwythur yr economi
- Diogelu iechyd y cyhoedd

Rydym wedi datblygu 14 o ymatebion strategol, sy'n nodi cynllun gweithredu i ymateb i'r tueddiadau hyn fel y gallwn barhau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid yn y dyfodol ac a fydd yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth dŵr cynaliadwy o'r radd flaenaf yn 2050:

1. Diogelu dŵr yfed glân drwy weithio gyda natur
2. Digon o ddŵr i bawb
3. Gwella dibynadwyedd systemau cyflenwi dŵr yfed
4. Diogelu ein hasedau cyflenwi dŵr hollbwysig
5. Sicrhau ansawdd dŵr derbyniol i bob cwsmer
6. Tuag at Gymru ddi-blwm
7. Diwallu anghenion ein cwsmeriaid sy'n cael y gwasanaeth gwaethaf
8. Cyflogwr o ddewis
9. Gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf
10. Busnes dŵr deallus
11. Defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd
12. Afonydd a thraethau glanach
13. Diogelu ein hasedau dŵr gwastraff hollbwysig
14. Chwarae ein rhan wrth drechu newid yn yr hinsawdd

Rydym yn ymgynghori â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar Dŵr Cymru 2050 ac yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol o Dŵr Cymru 2050 yn 2018. Bydd y ddogfen hon yn nodi'r cyd-destun hirdymor a ddefnyddiwn i ddatblygu ein cynlluniau buddsoddi 5 mlynedd yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer 2020-25 (AMP7), y byddwn yn eu cyflwyno i reoleiddiwr y diwydiant (Ofwat) ym mis Medi 2018. Cyn hynny, byddwn yn gweithredu rhaglen cynnwys cwsmeriaid bellgyrhaeddol er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau yn cael eu llywio gan flaenoriaethau ein cwsmeriaid, o ran gwelliannau i'r gwasanaeth cyfredol, cynnydd tuag at y nodau a nodir yn Dŵr Cymru 2050 a fforddiadwyedd biliau dros y 10 mlynedd nesaf.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR



GWELER TUDALEN 67 AM
FYWGRAFFIADAU LLAWN

Yn sefyll o'r chwith i'r dde: **Chris Jones** Prif Weithredwr, **John Warren** Cyfarwyddwr Anweithredol,
Yr Athro Stephen Palmer Cyfarwyddwr Anweithredol
Yn eistedd o'r chwith i'r dde: **Joanne Kenrick** Cyfarwyddwr Anweithredol,
Peter Bridgewater Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol



Yn sefyll o'r chwith i'r dde: **Graham Edwards** Cyfarwyddwr Anweithredol, **Menna Richards** Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, **Peter Perry** Prif Swyddog Gweithredu
Yn eistedd o'r chwith i'r dde: **Anna Walker** Cyfarwyddwr Anweithredol, **Alastair Lyons** Cadeirydd

EIN RHEOLEIDDWYR

Mae'r diwydiant dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr wedi ei reoleiddio mewn tri maes allweddol, sef: ariannol ac economaidd, amgylcheddol ac ansawdd dŵr.

Mae'r rheoleiddwyr hyn yn ceisio diogelu defnyddwyr a'r amgylchedd ac yn monitro perfformiad pob cwmni yn ofalus. Rydym bob amser yn ceisio datblygu, cynnal a gwella ein cydberthnasau â'r cyrff rheoleiddio hyn er mwyn helpu i lunio rhaglenni buddsoddi cytbwys sy'n diwallu anghenion pob cwsmer a rhanddeiliad, ac sydd hefyd yn cyfrannu at ein gallu i greu gwerth.

Gellir gweld copïau o'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y rheoleiddwyr hyn ar berfformiad Dŵr Cymru ar ein gwefan dwrcymru.com neu ar wefan y rheoleiddiwr perthnasol.

Ofwat

Caiff Dŵr Cymru ei reoleiddio, ar faterion economaidd, gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat), sy'n rheoleiddio pob darparwr dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Pennir terfynau ynghylch taliadau dŵr a gwastraff a godir ar glych pum mlynedd gan Ofwat, wedi eu llywio gan y cyd-destun polisi a bennir gan Lywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill.

ofwat.gov.uk

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Y rheoleiddiwr annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith.

hse.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer materion polisi cyhoeddus i Gymru, gan gynnwys polisi a deddfwriaeth ar faterion dŵr ac amgylcheddol.

gov.wales

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi dŵr gwastraff mewn perthynas â Chymru.

defra.gov.uk

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Caiff ansawdd dŵr yfed ei reoleiddio a'i fonitro gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

dwi.gov.uk

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Corff annibynnol a sefydlwyd i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid o ran pris, gwasanaeth a gwerth am arian. Mae hefyd yn ymchwilio i gwynion cwsmeriaid ynglŷn ag ansawdd dŵr.

ccwater.org.uk

Y Cynllun Unioni Dŵr (WATRS)

Y dyfarnwr annibynnol ar gyfer anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau dŵr a dŵr gwastraff Cymru a Lloegr.

watrs.org

Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Caiff ein perfformiad amgylcheddol, yn enwedig y ffordd rydym yn tynnu dŵr o afonydd a chronfeydd dŵr ac yna'n gollwng dŵr gwastraff ar ôl iddo gael ei lanhau, ei reoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Maent yn goruchwyllo'r ffordd rydym yn rheoli safleoedd dynodedig mewn perthynas â chadwraeth natur a sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol.

naturalresources.wales

gov.uk/government/organisations/environment-agency

Comisiynydd y Gymraeg

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth i swyddfa'r Comisiynydd gan nodi sut rydym wedi cydymffurfio â darpariaethau ein Cynllun Iaith Gymraeg statudol sy'n nodi sut rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid.

comisiynyddygydraeg.cymru

EIN DULL O REOLI RISG

NODYN AR ANGHYDFODAU SYLWEDDOL A ALLAI EFFEITHIO AR Y CWMNI:

Tata Steel

Derbyniwyd y penderfyniad prisio terfynol gan Ofwat mewn perthynas â chyflenwi dŵr i safleoedd Tata yng Nghymru: rydym yn ystyried y goblygiadau gyda Tata, ac yn gobeithio datrys yr anghydfod hirsefydlog ynghylch prisio cyflenwadau ar safleoedd Tata yn Llanwern, Shotton a Throstre.

Dwyn achos am dorri cyfraith Ewropeaidd yn Aber Afon Llŵchwr:

Ym mis Mawrth 2014, hysbyswyd Llywodraeth y DU am achos o dorri cyfraith Ewropeaidd a oedd ar fin digwydd, a oedd yn honni bod y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol wedi cael ei thorri o amgylch y DU, gan gynnwys rhannau o aber afon Llŵchwr a dalgylchoedd Tre-gŵyr a Llanelli. Mae rhaglen fuddsoddi yn mynd rhagddi yn yr ardal, yn enwedig o ran systemau draenio trefol cynaliadwy, a groesawyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac a gaiff ei chwblhau erbyn diwedd 2020. Er gwaethaf y buddsoddiad parhaus hwn, ym mis Mai 2017 cyhoeddodd Llys Cyfiawnder y Cymunedau Ewropeaidd ei ddyfarniad yn yr achos yn erbyn y DU mewn perthynas â safleoedd lluosog gan gynnwys Llanelli a Thre-gŵyr, a ganfu fod y DU wedi methu â chydymffurfio â'r Gyfarwydddeb erbyn y dyddiad gofynnol sef mis Medi 2014.

Hawliadau o dan Reoliadau

Gwybodaeth Amgylcheddol 2001 (EIR):

Mae'r cwmni wedi cael ei hysbysu yn ystod y flwyddyn am hawliadau posibl o dan yr EIR yn ymwneud â thaliadau a godwyd o'r blaen ar gyfer chwiliadau droenio a dŵr a gynhaliwyd ers 2004, a ddylai fod wedi cael eu darparu am ddim yn ei farn ef. Hyd yma, nid oes fawr ddim manylion wedi eu rhoi mewn perthynas â'r hawliadau ac mae'r cwantwm posibl a hawliar yn aneglur. Rydym yn bwriadu amddiffyn yr hawliadau, nad oes disgwyl i'r cwantwm sy'n gysylltiedig â nhw fod yn berthnasol yng nghyd-destun yr Adroddiad a'r Cyfrifon.

Mae llwyddiant hirdymor y Grŵp yn dibynnu ar nodi, asesu a rheoli risgiau yn effeithiol ac mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan yn y gwaith o reoli risg.

Mae ein systemau rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sy'n effeithio ar y busnes. Mae'r Bwrdd yn asesu'r prif risgiau sy'n wynebu'r cwmni yn rheolaidd a'n goddefiant risg yn y meysydd allweddol hyn. Yna caiff yr asesiad hwn ei ddefnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gan gynnwys penderfyniadau yn ymwneud â'n rhaglen fuddsoddi. O gofio ein model nid er cyfranddalwyr, mae defnyddio'r dull hwn yn ein helpu i dargedu cronfeydd ariannol, a allai fynd i gyfranddalwyr mewn sefydliadau eraill, i wneud buddsoddiadau ychwanegol. Caiff y rheolaethau mewnol i sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n ddigonol hefyd eu hystyried a'u monitro gan y Pwyllgor Archwilio. Caiff cynlluniau gweithredu gydag amserlenni cytûn eu mabwysiadu a'u tracio.

Ein dull o reoli risg:

- Mae timau unigol o fewn y busnes yn cymryd cyfrifoldeb am reoli risgiau o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb.
- Mae pob uned fusnes yn bwydo i mewn i system rheoli risg 'o'r bôn i'r brig'. Trafodir risgiau a gofnodir drwy'r broses honno yn ystod trafodaeth sy'n fwy "o'r brig i lawr" ynghylch risg bob mis mewn cyfarfod o'r tîm Gweithredol.
- Adolygir y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm Gweithredol am risgiau strategol sy'n effeithio ar y busnes ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad manwl o risgiau strategol ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd bellach wedi mabwysiadu dull o asesu'r lefel bresennol a lefel darged ar gyfer pob risg.
- Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli risg ac mae'n atebol i'r Bwrdd.
- Mae'r dull hwn o reoli risg o'r bôn i'r brig ac o'r brig i lawr yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol gan y busnes, ac yn nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymryd camau lliniaru pellach.
- Rydym yn parhau i ddefnyddio model y "Tair Llinell Amddiffyn" i liniaru'r risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â'n prosesau a'n polisïau:
 - Y llinell amddiffyn gyntaf yw cymryd perchenogoeth o risg a rheoli risg. Cyflawnir hyn gan ein timau gweithredol a'n rheolwyr.
 - Yr ail linell amddiffyn yw rheoli risg. Cyflawnir hyn gan ein tîm cydymffurfiaeth a phwyllgorau mewnol.
 - Y drydedd linell amddiffyn yw prosesau adolygu a goruchwylio annibynnol. Cyflawnir hyn gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol, gan gynnwys ein cynghorydd technegol ar faterion adrodd rheoleiddiol (Jacobs Engineering Group).

RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP

Mae'r dadansoddiad isod yn canolbwyntio ar y risgiau hynny a fyddai'n peryglu perfformiad, solfedd neu hylifedd y cwmni yn y dyfodol. Nid yw'r risgiau wedi eu gosod yn nhrefn pwysigrwydd/difrifoldeb.

Risg Allweddol a'i Difrifoldeb	Effaith Bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tueddiadau o gymharu â'r llynedd
Digwyddiad Mawr yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch	Mae iechyd a diogelwch ein cyflogeion a'r cyhoedd wrth ddarparu ein gwasanaethau ac ar ein safleoedd yn flaenoriaeth bwysig iawn i ni. Mae risgiau yn cynnwys y posibilrwydd o ddamwain i aelod o'r cyhoedd neu farwloeth, ar un o'n safleoedd neu o ganlyniad i'n gweithredoedd, neu i gyflogai wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Rydym yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch tua 6,000 o gyflogeion, naill ai a gyflogir yn uniongyrchol neu gan ein Partneriaid Cyfalaf. Ar gyfartaledd mae un farwolaeth y flwyddyn yn y sector dŵr a achosir gan ddamweiniâu.	Er ein bod yn cydnabod ei bod yn amhosibl dileu pob risg yn y maes hwn mewn busnes sydd, yn y bôn, yn ymwneud â pheirianteg ac adeiladu, rydym yn cymryd pob cam rhesymol i leihau hyn a sicrhau mai ein blaenoriaeth bennaf yw diogelu ein cydweithwyr, ein contractwyr a'n cwsmeriaid. Mae cynnal safonau Iechyd a Diogelwch da yn gyfrifoldeb i bob ffin. Mae gan bob cyflogai amcan Iechyd a Diogelwch personol yn ei broses Adolygu Rheoli Perfformiad. Mae ein timau yn gweithio yn unol â Strategaeth a Chynllun Rheoli Iechyd a Diogelwch gyda gweithdrefnau gweithredol yn cael eu hachredu i safon OHSAS 18001 ac yn cael eu hasesu gan gorff annibynnol allanol. At hynny, mae'r busnes yn cadw at raglen hyfforddi a chynllun gwella diwylliant diogelwch STEP (Safety Takes Every Person), sy'n cynnwys sgysrsiau am ddiogelwch gan arweinyr. Rydym hefyd yn gweithio gyda Fforymau Ymgynghori Undebau Llafur ar Iechyd a Diogelwch ar lefel Cwmni a lefel weithredol.	Adolygwyd y cynllun sgorio risg yn dilyn y Panel Ymchwilio ar ôl digwyddiad Nantgaredig ond ailgadamrhawyd y sgôr risg o gofio'r adborth a gafwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae Anafiadau Cofnodadwy wedi lleihau yn 2016-17. Gofynnwyd i ni ymuno â rhaglen 'Rhagoriaeth Ystadau' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle y byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod i helpu BBaChau yng Nghymru i wella Iechyd a Diogelwch yn y gwaith. Ym mis Ebrill 2016, digwyddodd y ddamwain fwyaf difrifol ers sawl blwyddyn, pan gafodd dau drydanwr wedi'u his-gontractio eu hanafu'n ddifrifol yng ngorsaf bwmpio Nantgaredig. Bu'r digwyddiad yn destun Panel Ymchwilio ffurfiol a adroddodd i Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd (PAA). Ymatebodd y busnes yn gyflym i'r digwyddiad gyda chyfres o 'Rybuddion Diogelwch' a dau ddiwrnod lle caiff y gwaith arferol ei atal dros dro. Ymchwiliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i hyn a daeth i'r casgliad na ddylid cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru.	
Digwyddiad Mawr yn ymwneud ag Iechyd y Cyhoedd	Byddai problem fynych gydag ansawdd dŵr yfed (e.e. cryptosporidiwm neu fethiannau bacteriolegol) yn gofyn am hysbysiad 'berwi dŵr' dros ardal eang a gallai arwain at erlyniad achos uchel. Gallai hyn gael ei achosi gan fethiant ased, risg mewn dolgylch nas rhagwelwyd, neu ddifrod bwriadol.	Darparu dŵr yfed diogel a glân yw ein prif gyfrifoldeb o ran Iechyd y cyhoedd. Rydym yn cymryd y mater hwn wir o ddifrif gydag adroddiadau dyddiol ar lefel Cyfarwyddwr ar berfformiad ansawdd dŵr gan gynnwys methiannau bacteriolegol rhagdybiol, canfod Cryptosporidiwm a phob math o fethiant arall. Mae digwyddiadau Iechyd y cyhoedd mawr sy'n ymwneud â chyflenwad dŵr yn brin. Mae'r rheolwyr cynhyrchu dŵr a'r gwyddonwyr proses yn monitro ac yn rheoli risg gan ddefnyddio Cynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed a ystyrir yn ddull 'arfer da' gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'r Cyfarwyddwr Rheoli Gwasanaethau Dŵr yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau ansawdd dŵr a chaiff y rhain eu hadolygu gan y Pennaeth Ansawdd Dŵr fel ein cynghorydd mewnol annibynnol sy'n atebol i'r Prif Swyddog Gweithredu. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd yn adolygu digonolrwydd strategaethau gwella ac yn asesu perfformiad yn erbyn y strategaethau.	Rydym yn ceisio gwneud popeth posibl i leihau'r potensial am ddigwyddiad Iechyd y cyhoedd ar raddfa fawr. Yn 2016-17 rydym wedi cael dau archwiliad ffurfiol 'rhybudd byr' yr Arolygiaeth Dŵr Yfed mewn gweithfeydd trin yn asesu Dulliau Diheintio Uwchfioled a Chlorin. Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys yn dilyn yr archwiliadau. Y llynedd, cyflawnwyd 99.99% o gydymffurfiaeth gyffredinol â safonau Ansawdd Dŵr Yfed. Cafwyd 34 o fethiannau samplau yn 2016-17 (2015-16: 47).	
Methiant Asedau Strategol	Argae yn methu, gwaith trin neu rwydwaith strategol yn gorlifo gan beryglu bywyd neu waith o bosibl yn methu gyda'r posibilrwydd y byddai miloedd o gwsmeriaid yn colli cyflenwad.	Nid yw'n bosibl gwarantu na fydd ased strategol yn methu ar ryw adeg. Diffinnir asedau strategol yn ôl eu graddfa, swyddogaeth a'u canlyniadau methiant. Mae gennym raddfeydd monitro amrywiol ar waith yn seiliedig ar asesiad risg sy'n cynnwys archwiliadau dyddiol ar gyfer rhai argaeau, gydag asedau hollbwysig eraill uwchben y ddaear yn cael eu monitro drwy delemetreg. Mae asedau pibellau yn wynebu mwy o risg o fethu o bosibl oherwydd eu hamgylchedd gweithredu. Mae ein dull lliniaru ar gyfer risg strategol i bibellau yn cynnwys cynllun wrth gefn 24/7 ar gyfer atgyweiriadau ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae asedau strategol hefyd yn cael eu hasesu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ac fe'u cwmpeisir gan gyfundrefnau cynnal a chadw gweithredol priodol.	Yn ystod mis Awst 2016, canfuwyd pibell sgwrio yn gollwng yn argae Caban Coch a arweiniodd at ymateb lefel Aur. Cafodd y sefyllfa hon ei rheoli'n ddiogel a gwnaethom ddefnyddio dull ynysu diogel 'ochr wlyb' arloesol ar gyfer y pibell. Nodwyd y broblem hon drwy ein harolwg rhagweithiol o'r prosiect pibellau mewn argaeau. Mae hon yn broblem newydd yn ein Hadroddiad Blynyddol ond yn un a nodir eisoes yn ein hadroddiadau mewnol ac erys yn sefydlog.	

Risg Allweddol a'i Difrifoldeb	Effaith Bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tueddiadau o gymharu â'r llynedd
Methiant i gyflawni lefelau perfformiad gofynnol ac arbedion effeithlonrwydd yn ystod y cyfnod 2015-2020	Gallai dirywiad parhaus mewn perfformiad arwain at golli hyder cwsmeriaid a chamau rheoleiddio a gallai effeithio ar ein henw da. Byddai'r risg na fydd y cwmni yn gallu cyflawni ei dargedau lleihau costau dros y flwyddyn nesaf a thros y cyfnod buddsoddi pum mlynedd nesaf yn lleihau'r gwarged sydd gennym i ddychwelyd gwerth i gwsmeriaid neu gallai effeithio ar ein gallu i gadw ein statws credyd.	Mae ein cynllun busnes pum mlynedd treigl yn cadarnhau ein gallu disgwyledig i gyflawni ein targedau perfformiad a chostau, gan nodi'r targedau a'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan reolwyr er mwyn cyflawni'r perfformiad hwn. Caiff cynnydd tuag at y targedau hyn ei dracio drwy gydol y sefydliad bob mis a chânt eu hailbennu bob blwyddyn. Mae gennym her sylweddol i gyflawni un mesur dŵr, Cysylltiadau Derbynioldeb i Gwsmeriaid, oherwydd amlder dŵr 'ucheldirol meddal' a phibellau dŵr haearn heb eu leinio yn ein sail asedau. Mae ein Strategaeth Gwelliant Gweithredol Derbynioldeb i Gwsmeriaid Dŵr wedi cyflawni pob un o'i hamcanion strategol - defnyddio data yn well i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, newidiadau i arferion gweithredol, trefnu i hurio safbïellau ar gontract allanol er mwyn lleihau effaith defnyddwyr trydydd parti a chyflwyno rig hyfforddi falfiau. Y cam nesaf yn y strategaeth wella yw ein rhaglen fuddsoddi Astudiaethau Parthol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad dadansoddol o ansawdd dŵr, data perfformiad hydrolog a pherfformiad cwsmeriaid er mwyn pennu opsiynau buddsoddi o fewn porth ansawdd dŵr a chynnal gwaith gwella sy'n fwyaf addas ar gyfer y parth hwnnw, er enghraifft, glanhau pibellau neu osod rhai newydd. Mae rheoliadau amgylcheddol yn faes lle ceir ansicrwydd ar hyn o bryd; er i ni ragweld y caiff y safonau amgylcheddol ar gyfer elfiant dŵr gwastraff eu tynhau ychydig, rydym hefyd yn monitro effeithiau tebygol Brexit yn y maes hwn.	Yn fras, mae perfformiad glanhau a gwastraff yn dda iawn; fodd bynnag, mae un mesur dŵr ar hyn o bryd, Cysylltiadau Derbynioldeb i Gwsmeriaid yn parhau i fod yn agos at lefelau a allai arwain at gosbau rheoleiddio.	
Methiant i gyflawni'r cynllun manwerthu gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys rheoli drwgddyledion	Gallai methiant i gyflawni effeithlonrwydd costau, yn benodol lleihau drwgddyledion a gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaeth cwsmeriaid, arwain at fusnes manwerthu sy'n colli arian. Mae'r heriau o ran costau wedi'u cymhlethu gan yr amgylchedd economaidd cyffredinol, newidiadau i'r system budd-daliadau lles a'r gwasgiad parhaus ar safonau byw sy'n peryglu'r gwaith o gasglu arian parod.	Ein targed yw lleihau ein sail costau fel ei bod yn is na chyfartaledd y diwydiant erbyn 2019/20 a lleihau drwgddyledion i £20m y flwyddyn erbyn 2020. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Manwerthu bellach yn ei hail flwyddyn ac mae'r problemau cychwynnol gyda'r gwaith o weithredu'r system bilio newydd wedi cael eu datrys.	Mae rhaglen casglu arian parod well wedi gostwng y sgôr risg yn ystod y cyfnod.	
Methiant i ymaddasu at yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y sector	Y risg o fethu â chyflawni'r heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan newidiadau i'r gyfundrefn reoleiddio (gan gynnwys cyflwyno marchnadoedd newydd), a allai arwain at setliad oriannol anffafriol yn yr adolygiad nesaf o brisiau; colli cwsmeriaid ac enw da; a hawliadau cyfraith cystadleuaeth neu orfodi rheoliadol. Gallai diwygiadau arfaethedig i'r farchnad ym maes Llaidd ac Adnoddau Dŵr olygu bod tua £60 miliwn y flwyddyn (8%) o reffeni yn ddarostyngedig i ryw fath o brofion ar y farchnad neu gystadleuaeth.	Mae ansicrwydd ynghylch graddau a ffurf y newidiadau rheoleiddiol a'r newidiadau yn y farchnad. Dylai hyn leihau dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, wrth i bolisiau gael eu mireinio. Mae ogor marchnad o wasanaethau manwerthu dibreswyl i gystadleuaeth yn cynnig cyfleoedd sylweddol yn ogystal â heriau o ran gwasanaeth cwsmeriaid a chydymffurfiaeth. Efallai na fydd rhai o'r risgiau hyn yn amlygu eu hunain yn ystod y cyfnod oriannol cyfredol ond mae'n bwysig bod newidiadau strwythurol, llywodraethu a buddsoddi yn cael eu gweithredu nawr er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol.	Rydym wedi penodi rheolwyr gwerthiannau a chyfrifon newydd i gynnig cynhyrchion a gwasanaethau ehangach i gwsmeriaid busnes ac rydym yn anelu at gyflawni lefelau cystadleuol a gwasanaeth eang ei gwmpas i bob cwsmer busnes. Nid ydym wedi profi unrhyw broblemau data mawr wrth baratoi ar gyfer agor y farchnad a chyflwyno cyfleoester gweithredwr y farchnad.	

Risg Allweddol a'i Difrifoldeb	Effaith Bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tueddiadau o gymharu â'r llynedd
Methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid	Methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid gan arwain at fethiant i gyflawni ein hamcan corfforaethol, gwneud niwed i'n henw da, costau gwasanaeth cwsmeriaid ychwanegol, niwed i gydberthnasau â rheoleiddwyr neu'r llywodraeth a morâl yn gostwng ymhlith cyflogeion. Gallai achos difrifol o dorri rheolau diogelu data gwneud niwed i'n henw da a lleihau lefelau ymddiriedaeth ymhlith ein cwsmeriaid.	Rydym am gynyddu'r ymwybyddiaeth o'n model nid er cyfranddalwyr a'r buddiannau a ddaw yn sgîl hynny; gweithlu ymroddedig sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf; a rhaglen ddirnadaeth glir sy'n dwyn ynghyd ymchwil, system ymgysylltu a pherfformiad cwsmeriaid. Byddai cyflawni'r proffil risg targed yn golygu y byddai mwy o hyder yn y busnes yn helpu i liniaru effaith unrhyw niwed a wneir i enw da o ganlyniad i fethiannau'r gwasanaeth neu gategoriâu risg eraill.	Cynyddodd tebygolrwydd y risg hon dros dro yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'n lefelau uwch o gwynion ysgrifenedig a'r cyhoeddusrwydd anffafriol dilynol. Rhoddwyd cynlluniau gwella ar waith sydd wedi lleihau nifer y cwynion ysgrifenedig ac mae'r sgôr risg wedi cael ei lleihau. Rydym yn ehangu ein prosesau o'n systemau presennol i ddiogelu data cwsmeriaid, yn rhannol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol o fis Mai 2018.	◀ ▶
Colli talent, gallu a chymhwysedd allweddol	Y gwelliant yn yr economi ac mewn buddsoddiad mewn diwydiannau lle rydym yn cystadlu am lafur yn cynnig risg i'n gallu i ddenu a chadw cyflogeion sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen arnom.	Nid ydym hyd yma wedi profi unrhyw anawsterau mawr, ac mae lefelau trosiant cyflogeion yn llai na 10%. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn rhagweithiol a gweithredu strategaethau ataliol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i allu denu a chadw trydanwyr, technegwyr offerynnau, peirianwyr, arbenigwyr caffael a'n gallu o ran dodansoddi data. Oherwydd y gwelliant disgwyliedig mewn gweithgarwch adeiladu a thueddiadau hysbys mewn awtomeiddio, mae rhai heriau o ran sgiliau yn debygol yn y cyfnod hyd at 2020 ond dylai fod yn bosibl eu rheoli.	Ni fu unrhyw symudiad yn ystod y cyfnod.	◀ ▶
Risg TGCh	Mae colli gwasanaeth TGCh ar raddfa fawr yn peryglu perfformiad busnes, tra bod sawl cynllun gwella busnes yn dibynnu ar systemau TGCh newydd. Fel busnes rydym yn ddiabynnol iawn ar systemau a phrosesau TG i ddarparu gwasanaeth, cyfathrebu â chwsmeriaid a chasglu incwm. Gallai colli gwasanaeth TG ar raddfa fawr effeithio ar ein cwsmeriaid ac yn anochel, gallai effeithio'n andwyol ar ein henw da gyda chwsmeriaid, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae seiber-ddiogelwch yn faes ffocws cynyddol, yn enwedig o gofio digwyddiadau diweddar mewn sectorau eraill a'r gwaith cynyddol o reoleiddio data personol o ganlyniad i weithredu'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.	Dros gyfnodau AMP yn ddiweddar rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn systemau TG, gyda thros £90m yn ystod AMP5 (gan gynnwys system filio a llwyfan gweithredu newydd) a byddwn yn buddsoddi £75m arall yn ystod AMP6. Rydym wedi pontio'n llwyddiannus i ddarparu'r gwasanaeth TGCh newydd yn ystod 2016-17, a fydd yn cynyddu'r potensial am welliannau orloesol i'r gwasanaeth, yn ogystal â chostau llai. Fel gydag unrhyw fusnes mawr rydym yn ymwybodol iawn o'r bygythiad sy'n ymwneud â 'Seiber-ddiogelwch' ac yn adolygu ein lefel briodol o ddiogelwch yn rheolaidd, ac fel gwasanaeth cyfleustod hanfodol mae gennym gysylltiadau agos â'r gwasanaethau diogelwch drwy'r Ganolfan ar gyfer Diogelu Seilwaith Cenedlaethol (CPNI) ac rydym yn gweithredu ar rybuddion a gynhyrchir ganddynt hwy a ffynonellau cydnabyddedig eraill.	Ar ôl pontio'n llwyddiannus i ddarparu'r gwasanaeth newydd, mae risg weithredol yn y maes hwn yn llai. Rydym yn monitro ein systemau ac yn ymateb i fygythiadau allanol i seiber-ddiogelwch fel y bo'n briodol. Nid ydym yn llawer dwylo ac rydym yn cynyddu'r hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol er gwaethaf cynnydd mewn ymwybyddiaeth o faterion a ddangoswyd gan ganlyniadau Arolwg Ymgysylltu â Chyflogeion 2016.	▼
Risg i ariannu a chydberthnasau â buddsoddwyr yn y dyfodol	Yr amgylchedd economaidd cyffredinol a'r ansicrwydd ynghylch Brexit sy'n golygu bod codi dyledion newydd o fanciau a bondiau yn ddrtutach (na Chost cyfalaf a ganiateir drwy realti prisiau), neu'n anoddach (gyda chanlyniadau o ran llif arian parod). Efallai na fydd banciau yn gallu cynnig cyllid ychwanegol am rai misoedd.	Nid ydym yn gweld unrhyw gyfyngiad ar hyn o bryd ar godi dyledion newydd yn y byrdymor (i fodloni ein gofyniad ariannu AMP6 gwerth £500m). Gwnaethom lofnodi cytundeb benthyca gyda Banc Buddsoddi Ewrop ar 20 Ionawr 2017 ar gyfer ein cais am £250m o ddyled ychwanegol. Ein statws credyd yw'r uchaf yn y diwydiant o hyd ac mae gerio bellach islaw'r lefel darged, sef 60%. Fel busnes wedi ei reoleiddio sy'n canolbwyntio ar y farchnad ddomestig, mae llai o risg ariannol o ganlyniad i Brexit na llawer o fusnesau eraill yn y DU. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus.	Mae'r risg wedi lleihau ar hyn o bryd o gofio cyllid Banc Buddsoddi Ewrop a statws credyd A/A2/A gwell.	▼

DATGANIAD HYFYWEDD

Mae proses cynllunio busnes y Bwrdd yn cynnwys ystyried hyfywedd hirdymor y Grŵp; mae hyn yn cynnwys rheolaethau rheoli risg cadarn a rhagamcanion ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd, yn ogystal ag adolygiadau cyllidebol rheolaidd. Mae'r broses hon wedi'i hategu gan ddiwylliant o gymorth a her sy'n llifo o'n fîm arwain i bob agwedd ar ein gweithrediadau. Rydym o'r farn mai cyfnod o bum mlynedd yw'r cyfnod mwyaf addas i'r Bwrdd asesu rhagolygon y Grŵp: mae'n cyfateb i hyd ein cyfnodau penderfyniad rheoleiddiol (sy'n rhedeg o 2015-2020 a 2020-2025) ac mae'n gyson â'n proses cynllunio busnes pum mlynedd (treigl) flynyddol, er ein bod eleni hefyd wedi ystyried strategaeth a chynllunio hyd at 2050.

Nodir y prif risgiau a wyneba'r Grŵp mewn perthynas â'n gallu i gyflawni ein hamcanion strategol ar dudalennau 59 i 62. Caiff risgiau eu nodi a'u hasesu drwy gylch parhaus o adrodd ac adolygu o'r bôn i'r brig ac adborth o'r brig i lawr a sganio'r gorwel. Rydym yn derbyn bod risg yn rhan angenrheidiol o gynnal busnes, ac mae ein proses o reoli risg yn anelu at gasglu rhychwant o risg o risg gynhenid i risg sy'n dod i'r golwg, ac ymhob maes busnes.

Mae'r Bwrdd wedi dadansoddi effeithlonrwydd a chadernid ei fframwaith rheoli o ran rheoli achosion a goblygiadau tebygol pob risg, ac mae wedi adolygu tybiaethau a chynlluniau wrth gefn y Grŵp. Mae'r Bwrdd wedi trafod effaith bosibl y prif risgiau hyn ar sefyllfa ariannol ac enw da'r Grŵp yn erbyn ei allu i gyflawni ei gynllun busnes ar gyfer 2017 (sy'n cwmparu'r cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2022).

Rydym wedi straen-brofi'r cynllun busnes pum mlynedd 2017-22 yn erbyn senarios ariannol gwahanol sy'n cynnwys effaith amcangyfrifedig pob un o'r prif risgiau a'r ansicrwydd yn digwydd,

yn unigol ac ar y cyd, yn ogystal â chyfuno'r rhain â newidiadau mewn chwyddiant a chyfraddau llog tybiedig. Mae'r ymarfer hwn, er ei fod yn ddamcaniaethol, yn creu rhai senarios difrifol iawn a allai beryglu hyfywedd y Grŵp. Wrth asesu effaith ariannol pob senario, mae rheolwyr wedi ystyried eu profiadau eu hunain a data eraill sydd ar gael yn gyhoeddus. Nid yw effaith amcangyfrifedig pob senario sy'n cael ei throsglwyddu ar gynllun ariannol y Grŵp yn creu unrhyw fygythiad perthnasol i hyfywedd y Grŵp — yn yr achos gwaethaf, erbyn 2022 mae gerio 2% yn uwch nag y mae yn y cynllun craidd ac mae Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn tua 4% yn is. Cafodd senarios chwyddiant uchel ac isel effaith gymharol fach hefyd ar hyfywedd y Grŵp, gan fod refeniw a dwy ran o dair o ddyledion net yn gysylltiedig â chwyddiant. Mae "senario argyfwng" lle mae'r holl brif risgiau ac ansicrwydd yn digwydd mewn amgylchedd chwyddiant uchel yn arwain at gynydd o 14% o ran gerio erbyn 2022 ac mae Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn tua thraean yn is. Yn y senario hon, mae gerio yn parhau i fod ymhell o fewn y lefel gyfamodedig ac mae

cryn dipyn o adnoddau ychwanegol ar gael cyn cyrraedd y trothwy. Pe bai'r senarios hyn yn codi, byddai opsiynau amrywiol ar gael i'r Grŵp er mwyn cynnal hylifedd a pharhau i weithredu. Noder bod y Cyfarwyddwyr, ym mhob senario, wedi tybio bod y Grŵp yn parhau i gael mynediad i farchnadoedd perthnasol at ddibenion ailariannu.

Mae'r Bwrdd wedi asesu effeithiau posibl y risgiau hyn yng nghyd-destun ei awydd i fentro ac mae'n hyderus bod y rheolaethau sydd ar waith yn ddigonol i gadw perfformiad ariannol y Grŵp o fewn lefelau goddefiant priodol. Wrth wneud eu hasesiad, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried rhagolygon cadarn y Grŵp a'i gerio gwirioneddol o tua 60%, ei lefel gadarn o hylifedd a'i allu i godi cyllid. Yn seiliedig ar eu hasesiad cadarn, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt godi dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2022.

LLYWOD

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

MAE'R ADRODDIAD
LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
HWN YN DARPARU GWYBODAETH
AM FWRDD A PHWYLLGORAU
GLAS CYMRU, SUT RYDYM
YN BODLONI GOFYNION COD
LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
Y DU, MANYLION EIN HAELODAETH
A'N DULL GWEITHREDU O RAN
CYDNABYDDIAETH

RAETHU

TUDALEN

1	CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD	66
2	BWRDD Y CYFARWYDDWYR	67
3	STRWYTHUR CORFFORAETHOL	70
4	RÔL A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL	71
5	EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU	72
6	RHEOLAETH FEWNOL	76
7	ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO	77
8	ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD A'R AMGYLCHEDD	80
9	ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBIADAU	81
10	ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID	81
11	ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH	82
12	ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR	95

1

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

AR RAN Y BWRDD RWY'N FALCH O
GYFLWYNO ADRODDIAD LLYWODRAETHU
CORFFORAETHOL GLAS CYMRU
HOLDINGS CYFYNGEDIG AR GYFER Y
FLWYDDYN ARIANNOL A DDAETH I BEN
31 MAWRTH 2017.

Fel cwmni sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, rydym yn deall bod sicrhau'r safonau llywodraethu uchaf yn hollbwysig wrth ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Mae ein model busnes yn ein gwneud yn wahanol — ni thalwn ddifidendau i gyfranddallwyr, ond ailfuddsoddwn unrhyw wargedion er mwyn gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol, cadw biliau mor isel â phosibl a chefnogi ein rhaglen cymorth ariannol i'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Mae system llywodraethu corfforaethol dda yn hanfodol i gwmni a redir yn dda gan ei bod yn helpu i ymgorffori diwylliant ac yn atgyfnerthu ac yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r busnes. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar sicrhau y gweithredir system

lywodraethu dda ac mae'n dilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU cyhyd â phosibl ar gyfer Grŵp y mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn berchen arno.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r fframwaith llywodraethu sydd ar waith gennym a rhydd wybodaeth am ein Bwrdd a'n Pwyllgorau. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro sut rydym yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, manylion ein Haelodaeth a'n dull gweithredu o ran cydnabyddiaeth.



Alastair Lyons
Cadeirydd

8 Mehefin 2017

BWRDD Y CYFARWYDDWYR



CADEIRYDD

ALASTAIR LYONS (63)

YMUNODD: MAI 2016

YN Y SWYDD ERS:
GORFFENNAF 2016

AELODAETH O BWYLLGORAU:

C CYD AA E CADEIRYDD

Profiad

Mae gan Alastair dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector cyllid. Yn ystod gyrfa weithredol helaeth, ef oedd Prif Swyddog Gweithredol y National Provident Institution a Chymdeithas Adeiladu'r National and Provincial, Rheolwr Gyfarwyddwr Is-adran Yswiriant Abbey National plc a Chyfarwyddwr Prosiectau Corfforaethol ym Manc y National Westminster plc.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Mae'n Ddirprwy Gadeirydd Bovis Homes Group plc.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Gwasanaethodd Alastair yn flaenorol fel Cadeirydd Admiral plc, Cadeirydd Towergate Insurance, Cadeirydd Serco, sef y grŵp gwasanaethau rhwyngwladol, ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yng nghwmni Phoenix, sef y cyfunwr yswiriant bywyd. Mae hefyd wedi bod yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Adran Drafnidiaeth a'r Adran Gwaith a Phensiynau.



PRIF WEITHREDWR

CHRIS JONES (53)

YN Y SWYDD ERS: MEDI 2013

AELODAETH O BWYLLGORAU:

C E AA

Profiad

Daeth Chris yn Brif Weithredwr ym mis Medi 2013. Cyn ei benodiad, bu'n Gyfarwyddwr Cyllid Dŵr Cymru ers mis Mai 2001 ac yn Gyfarwyddwr Cyllid Glas Cymru ers mis Ebrill 2000. Mae hefyd wedi gwasanaethu'n flaenorol fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio Dŵr Cymru a South Wales Electricity plc. Cyn ymuno â Dŵr Cymru yn 1995, bu'n un o Gyfarwyddwyr National Economic Research Associates a, chyn hynny, bu'n gweithio i Drysorlys EM.

Swyddi Anweithredol a ddelir ar hyn o bryd

Is-Gadeirydd Cyngor Cyngori the Prince's Trust - Cymru ers 2009.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality.

Un o ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig.

A Archwilio

C Cyllid

E Enwebiadau

CYD Cydnabyddiaeth

AA Ansawdd a'r Amgylchedd



**UWCH GYFARWYDDWR
ANNIBYNNOL**

MENNA RICHARDS (64)

YMUODD:

TACHWEDD 2010

YN Y SWYDD ERS:

GORFFENNAF 2014

**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

E **CYD**

Profiad

Treuliodd Menna ei gyrfa weithredol ym maes darlledu fel Cyfarwyddwr BBC Cymru (2000-2011) a chyn hynny roedd yn Rheolwr Gyfarwyddwr, HTV Wales. Cofodd yr OBE am wasanaethau i ddarlledu yn 2010.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Cyfarwyddwr Anweithredol Opera Cenedlaethol Cymru. Cadeirydd elusen ALOUD. Is-Lywydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cadeirydd Llywodraethwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Aelod o fwrdd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, Cymdeithas Adeiladu'r Principality.



**CYFARWYDDWR
CYLLID**

PETER BRIDGEWATER (54)

YN Y SWYDD ERS:

MEDI 2014

**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

C

Profiad

Ymunodd Peter â Dŵr Cymru ym mis Medi 2014 gyda 15 mlynedd o brofiad yn gweithio mewn swyddi Cyllid a swyddi Rheolwr Gyfarwyddwr ym mhob rhan o'r sector ynni a'r sector dŵr, yn y DU a thramor. Bu Peter yn Gyfarwyddwr Gweithredol gydag E.ON a Sembcorp Industries mewn cyfleustodau a reoleiddir a diwydiannau cystadleuol yn ogystal ag ymddiriedolwr cronfa bensiwn. Cyn ymuno â'r diwydiant ynni yn 1994 roedd Peter yn gyfrifydd siartredig ac yn ymgynghorydd rheoli gyda PwC.

Swyddi Anweithredol a ddelir ar hyn o bryd
Cyfarwyddwr Anweithredol Ebico Limited (darparwr nwy a thrydan nid er elw).



**PRIF SWYDDOG
GWEITHREDU**

PETER PERRY (54)

YN Y SWYDD ERS:

GORFFENNAF 2006

**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

AA

Profiad

Mae gan Peter, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau ym mis Gorffennaf 2006, gefndir ym maes peirianeg sifil a chyn ei benodiad presennol ef oedd Prif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau i UUOS lle y bu'n gyfrifol am y contract gweithredol gyda Dŵr Cymru a buddiannau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn ymuno ag UUOS gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Mae hefyd yn un o Gyfarwyddwyr (yn cynrychioli Cymru) y Cynllun Cynghori Rheoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n nodi safonau ar gyfer deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir ym maes cyflenwi dŵr yfed.



**CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**

GRAHAM EDWARDS (63)

YMUODD:

HYDREF 2013

**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

A **AA**

Profiad

Graham yw Prif Swyddog Gweithredol Wales & West Utilities. Mae ganddo brofiad sylweddol fel uwch reolwr yn y sector cyfleustodau, yn rhedeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Cyn gweithio yn y sector cyfleustodau, bu'n dal uwch swyddi mewn ystod o swyddogaethau ar draws amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu gan gynnwys Peirianeg, Cynhyrchu ac Adnoddau Dynol. Mae gan Graham MBA o Ysgol Fusnes Caerdydd ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Swyddi Anweithredol a ddelir ar hyn o bryd
Aelod o Fwrdd Prifysgol De Cymru.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyn-Gadeirydd CBI Cymru a Busnes yn y Gymuned Cymru ac un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**JOANNE KENRICK (50)****YMUNODD:**
TACHWEDD 2015**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

A AA

Profiad

Joanne oedd Cyfarwyddwr Marchnata Homepage tan ddiwedd 2015. Cyn hynny, Joanne oedd Prif Swyddog Gweithredol Start, gan sefydlu a rhedeg menter gyhoeddus Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Cyfarwyddwr Marchnata ac Arlwy Cwsmeriaid B&Q, Cyfarwyddwr Marchnata'r Loteri Genedlaethol, a Chyfarwyddwr Gwerthiannau Grŵp a Marchnata Wilson Connolly. Bu'n gweithio hefyd i Woolworths, Asda, Pepsico a Masterfoods. Mae gan Joanne radd yn y Gyfraith o Brifysgol Nottingham a thra roedd yn y coleg hi oedd un o'r merched cyntaf erioed i gael ei hyfforddi i hedfan gan yr RAF.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Mae hefyd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol BACS Payment Services Limited, Safestore, sef busnes hunanstorio mwyaf y DU, a hi yw Cadeirydd ymddiriedolwyr yr elusen plant Make Some Noise.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**

Roedd Joanne yn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality am saith mlynedd.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**STEPHEN PALMER (65)****YMUNODD:**
HYDREF 2009**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

A CADEIRYDD

Profiad

Mae Stephen yn Athro Emeritws Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol Caerdydd. Rhwng 2003 a mis Gorffennaf 2010, ef oedd Cyfarwyddwr is-adran peryglon cemegol ac is-adran gwasanaethau lleol a rhanbarthol yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, a phennaeth proffesiwn ar gyfer epidemioleg yn yr Asiantaeth Diogelu Iechyd. Mae'n gymrawd Cyfadran Iechyd y Cyhoedd a Choleg Brenhinol y Ffisegwyr, a bu'n ddylanwadol ym maes iechyd y cyhoedd gwasanaeth ac academaidd ers dros chwarter canrif. Mae ganddo CV hir o swyddogaethau proffesiynol ym maes iechyd y cyhoedd ac mae wedi cyhoeddi nifer o bapurau a llyfrau academaidd ar epidemioleg, clefydau trosglwyddadwy a pheryglon cemegol.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**

Cadeirydd Mansel Talbot a Cochrone, Prifysgol Caerdydd, cadeirydd Pwyllgor Diogelu Iechyd Cymru.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**ANNA WALKER CBE (66)****YMUNODD:**
MAWRTH 2011**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

A CYD CADEIRYDD

Profiad

Mae gan Anna doreth o brofiad ym maes rheoleiddio, gwasanaethau cwsmeriaid, llunio polisiau a gweithio gyda llywodraethau. Cynhaliodd Anna adolygiad annibynnol ar gyfer y llywodraeth yn 2008 ar godi tâl am ddŵr mewn cartrefi. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd (2004-2009), Cyfarwyddwr Cyffredinol, Defnydd Tir a Materion Gwledig yn DEFRA, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Ynni DTI, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Ofteil, rheoleiddiwr y sector telathrebu.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Anna, a ddaeth yn Gydymaith Urdd y Baddon yn 2003 am ei gwasanaeth cyhoeddus, yw Dirprwy Gadeirydd Cyngor Which?, ac mae'n aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ymddiriedolaeth Sylfaen y GIG De Llundain a Maudsley.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**

Anna oedd Cadeirydd y Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd rhwng 2009 a 2015 ac mae wedi gwasanaethu fel Is-Gadeirydd Consumer Focus, sef y corff hyrwyddo defnyddwyr statudol.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**JOHN WARREN (63)****YMUNODD:**
MAI 2012**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

CYD A C CADEIRYDD

Profiad

Mae John yn gyfrifydd cymwysedig gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn rolau ariannol ac mae ganddo brofiad helaeth o gadeirio Pwyllgorau Archwilio cwmnïau mawr a restrir yn y DU. Nes iddo ymddeol yn 2005, ef oedd Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp WH Smith PLC a, chyn hynny, United Biscuits (Holdings) Plc.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Ar hyn o bryd, mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Greencore Group plc, 4imprint Group plc a Bloomsbury Publishing Plc ac mae'n cadeirio Pwyllgorau Archwilio'r cwmnïau hynny.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**


Bu John yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r cwmnïau canlynol: Spectris plc, Rexam Plc, Bovis Homes Group PLC, Rank Group Plc, Uniq Plc, Arla Foods UK plc, BPP Holdings plc.

3

EIN STRWYTHUR
CORFFORAETHOL

Mae ein Datganiadau Ariannol (o dudalen 115) yn rhoi manylion y cwmnïau canlynol sy'n rhan o strwythur ein Grŵp:

- **Glas Cymru Holdings Cyfyngedig** (Glas Cymru) sef cwmni cyfyngedig drwy warant a sefydlwyd ar 15 Rhagfyr 2015. Gwnaethom greu'r cwmni daliannol newydd hwn fel rhan o broses ailstrwythuro corfforaethol a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2016, ac a wnaeth ein galluogi i greu buddsoddiadau masnachol cyfyngedig mewn is-gwmnïau y tu hwnt i delerau'r Cytundeb Telerau Cyffredin â buddsoddwyr.
- **Dŵr Cymru Cyfyngedig** sef is-gwmni y mae Glas Cymru yn berchen arno'n llawn a phrif gwmni masnachu'r Grŵp – fe'i gelwir yn Dŵr Cymru yn yr adroddiad hwn. Ei brif weithgaredd yw cyflenwi dŵr a thrin a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989.
- **Glas Cymru Anghyfyngedig** sef rhiant-gwmni'r grŵp o gwmnïau a oriennir o dan Gytundeb Telerau Cyffredin Gwaraneiddio Busnes Cyfan.
- **Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig** sef cwmni daliannol Dŵr Cymru (Holdings) Limited a'i is-gwmnïau.
- **Dŵr Cymru (Holdings) Limited** sef cwmni daliannol canolradd Dŵr Cymru Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Financing) Limited.
- **Dŵr Cymru (Financing) Limited** sef cwmni 'dyroddi' bondiau'r Grŵp, a restrir ar Bourse Lwcsembwrg. Mae Dŵr Cymru (Financing) Limited yn gorfforedig yn Ynysoedd y Cayman, ond caiff ei reoli yn y DU ac ystyrir ei fod yn preswyllo yn y DU at ddibenion treth. Mae'r cwmni yn trosglwyddo elw unrhyw ddyroddion bond i Dŵr Cymru Cyfyngedig.
- **Welsh Water Holdings Limited** sef cwmni daliannol cwmnïau nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb Telerau Cyffredin.
- **Cambrian Utilities Limited** fydd yn cynnig gwasanaethau manwerthu cyfleustodau busnes.
- **Welsh Water Infrastructure Limited** a sefydlwyd i ddatblygu prosiectau masnachol.



ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

AELODAU

Fel Grŵp y mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn berchen arno, gwrthbyswn y ffaith nad oes gennym gyfranddalwyr â chael Aelodaeth sy'n cyflawni rôl lywodraethu hanfodol. Mae Aelodaeth yn bersonol ac yn ddi-dâl ac nid oes gan Aelodau unrhyw fudd ariannol yn y busnes. Mae'r fath annibyniaeth yn galluogi Aelodau i sicrhau bod y Bwrdd yn atebol am warchod ein hasedau a darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd a fydd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Caiff ein Haelodau eu penodi gan y Bwrdd ond fe'u dewisir gan Banel Dethol Aelodau annibynnol, y mae'n ofynnol iddo sicrhau aelodaeth gytbwys ac amrywiol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth buddiannau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid eraill cymaint â phosibl. Cadeirydd annibynnol y Panel Dethol Aelodau yw Glyn Mathias, a'i Aelodau eraill yw Arthur Walford a Menna Richards.

Ar hyn o bryd mae gan Glas Cymru 68 o Aelodau annibynnol. O dan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn Aelod. Yn ystod 2016-17, ymddiswyddodd pedwar Aelod.

Cynhaliwn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ail gyfarfod i Aelodau er mwyn darparu diweddariad chwe mis ar ein perfformiad a'n strategaeth bob blwyddyn. Hefyd cynhaliwn ddau gyfarfod rhanbarthol i Aelodau ledled yr ardal gyflenwi er mwyn rhoi cyfle mwy anffurfiol i feithrin dealltwriaeth o'n safleoedd gweithredol a chwrdd â thimau lleol. Caiff Aelodau eu gwahodd i weithdai a chyfarfodydd eraill ar sail ad hoc drwy gydol y flwyddyn.

Y BWRDD

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Grŵp yn gyfrifol ar y cyd am ei lwyddiant hirdymor. Mae'r Bwrdd yn pennu nodau strategol y Grŵp, yn monitro perfformiad rheolwyr yn erbyn y nodau strategol, yn sicrhau llywodraethu da, yn pennu lefelau mentro ac yn sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith yn y busnes. Mae Byrddau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a Dŵr Cymru Cyfyngedig (deiliad y drwydded/cwmni gweithredu) yn union debyg sy'n sicrhau y gweithredir mewn modd unedig.

CADEIRYDD

Mae ein Cadeirydd, Alastair Lyons, yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn unedig, gan hwyluso cyfarfodydd, a sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith. Cytunir ar agendâu cyfarfodydd drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, er y gall unrhyw Gyfarwyddwr ofyn i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda. O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r Cadeirydd yn cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol heb fod y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol, i ystyried perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac i roi adborth. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddarafr heb y Cyfarwyddwyr Gweithredol ddiwedd mis Ionawr 2017. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn unigol â phob Aelod o'r Bwrdd i adolygu perfformiad unigol o leiaf unwaith y flwyddyn.

UWCH GYFARWYDDWR ANNIBYNNOL

Mae ein Huwch Gyfarwyddwr Annibynnol, Menna Richards, yn cydweithio â'n Haelodau. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol er mwyn adolygu perfformiad y Cadeirydd.

CYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL

Caiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eu penodi i'r Bwrdd yn unol â'n Polisi Amrywiaeth, er mwyn cyfrannu eu harbenigedd a rhoi her annibynnol a chadernid i drafodaethau'r Bwrdd.

PRIF WEITHREDWR

Y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Prif Weithredwr sy'n bennaf cyfrifol am reoli materion y cwmni o ddydd i ddydd. Mae ein Prif Weithredwr, Chris Jones, yn cael ei gefnogi gan y tîm Gweithredol i roi'r strategaeth ar waith a rheoli'r cwmni o ddydd i ddydd.

YSGRIFENNYDD Y CWMNI

Mae Ysgrifennydd y Cwmni, sef Nicola Williams, yn gyfrifol am helpu'r Cadeirydd i sicrhau bod y Grŵp yn arddangos trefniadau llywodraethu da. Mae tîm Ysgrifennyddol y Cwmni ar gael i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac mae'n gweithio i sicrhau bod llifau gwybodaeth da rhwng y Bwrdd, Pwyllgorau a rheolwyr y cwmni.

EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y mae'r Bwrdd yn pennu gwerthoedd a fframwaith gwneud penderfyniadau'r Grŵp.

Dilynwn God Llywodraethu Corfforaethol y DU o'n gwirfodd cyhyd â phosibl ar gyfer Grŵp y mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn berchen arno. Er na allwn gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir o ran cyfranddalwyr fe'u cymhwyswn i'n haelodau a'n buddsoddwyr cyhyd ag y bo'n briodol. Rhoddir manylion ein fframwaith llywodraethu ar dudolennau 71 i 76. Mae ein rheoleiddiwr economaidd, Ofwat, hefyd wedi datblygu cyfres o egwyddorion sy'n ategu'r cod ac yn cynrychioli'r safonau gofynnol ar gyfer arweinyddiaeth, tryloywder a llywodraethu ar lefel Bwrdd i gwmnïau yn y sector dŵr. Ymatebwn i ofynion llywodraethu corfforaethol Ofwat yn ein Cod Llywodraethu. Am ragor o fanylion ewch i: dwrcymru.com/governance.

Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â mwy na'r ffordd y caiff cwmni ei reoli a'i gyfarwyddo. Mae'n ymwneud â ffyrdd o ymddwyn, diwylliant a sut y gall hyn wneud y busnes yn fwy effeithiol ac ennyn ymddiriedaeth. Pennir diwylliant y busnes gan ein Bwrdd ac mae'n gyson â'n strategaeth a'n gweledigaeth, ond rhaid sicrhau cefnogaeth ein holl gydweithwyr. Ymhlith y ffyrdd y mae'r Bwrdd yn pennu'r diwylliant mae:

- Ffôngynhadledd fisol a gynhelir gan ein Prif Weithredwr sy'n agored i bob cyflogai er mwyn clywed y newyddion diweddaraf am y cwmni a gofyn cwestiynau;
- Ymweliadau gweithredol rheolaidd â safleoedd gan ein Cadeirydd a'n Cyfarwyddwyr, ynghyd â chwrdd â chydweithwyr o fewn y busnes. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y materion cyfredol sy'n effeithio ar y busnes yn cael eu deall yn eu cyd-destun;
- Cynadleddau Arwain bob chwe mis a gynhelir â'r tîm Gweithredol, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Rheolwyr o bob rhan o'r busnes;
- Diwrnodau 'Cwrdd â'r Cyfarwyddwr' i gyflogaion a gynhelir bob chwe mis â'r tîm Gweithredol;
- Ymateb i adborth o'n Harolwg Ymgysylltu â Chyflogaion blynyddol;
- Hyrwyddo ein polisi chwythu'r chwiban, sy'n cynnwys llinell gymorth allanol i dawelu meddyliau cydweithwyr y gallant godi materion yn ddienw os dymunant wneud hynny.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU — ARWEINYDDIAETH

- Gan ein bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, rydym yn deall bod y ffordd y cawn ein llywodraethu yn hollbwysig wrth ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd;
- Cawn ein harwain gan Fwrdd effeithiol sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am lwyddiant hirdymor y cwmni;
- Rhennir cyfrifoldebau'n glir rhwng rhedeg y Bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am redeg busnes y cwmni. Nid oes gan unrhyw unigolyn bwerau gwneud penderfyniadau dilyffethair;
- Mae ein Cadeirydd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd ac am sicrhau ei fod yn effeithiol;
- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn herio mewn ffordd adeiladol ac yn helpu i ddatblygu cynigion ym maes strategaeth.

MATERION A GEDWIR YN ÔL I'R BWRDD

Mae rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd a'r Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol am feysydd fel strategaeth, risg a llawer o benderfyniadau eraill. Caiff y rhestr o faterion a gedwir yn ôl ei hadolygu a'i diweddarw o bryd i'w gilydd. Diweddarwyd y materion a gedwir yn ôl ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2016.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am redeg y busnes o ddydd i ddydd i'r rheolwyr yn unol â'r strategaeth a bennwyd, a Phwyllgorau sy'n gyfrifol am feysydd penodol fel yr amlinellir yn eu cylch gorchwyl. Cynhelir blaengynllun gan Ysgrifennydd Cwmni ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau ar y cyd â'r Cadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgorau. Mae'r tîm Gweithredol yn ymddwyn yn agored ac yn dryloyw wrth gyfathrebu â'r Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp. Cynlluniwyd y system rheolaethau i reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac mae'n cynnwys polisiâu a gweithdrefnau archwiliedig a luniwyd i nodi a rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y busnes.

GWEITHGAREDDAU

Yn ystod 2016-17 mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Goruchwyliaeth Weithredol o Grŵp Glas;
- Polisi Iechyd a Diogelwch a'i reolaeth;
- Cynllunio busnes
- Strategaeth Llwyddiant dan arweiniad cwsmeriaid
- Ymgynghoriad ar Ddychwelyd Gwerth
- Dyrannu i Gwsmeriaid
- Gweledigaeth Dŵr Cymru tan 2050
- Prosesau rheoli risg a'r awydd i fentro
- Paratodau adolygu prisiau
- Cyfleoedd masnachol
- Arloesedd
- Cynlluniau gweithredol — megis cynlluniau sychder o diogelwch argaeau
- Cymeradwyo buddsoddiadau mawr mewn prosiectau cyfalaf — megis Astudioethau Parthol a Strategaeth Llaid

CYFARFODYDD Y BWRDD A PHRESENOLDEB

Yn 2016-17 cynhaliodd y Bwrdd naw cyfarfod a drefnwyd a thri chyfarfod ychwanegol. Cynhelir y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd wedi'u trefnu dros gyfnod o ddeuddydd er mwyn rhoi'r amser sydd ei angen ar y Bwrdd i adolygu cynnydd yn erbyn amcanion strategol ac i gyfarfod â rheolwyr busnes allweddol.

Disgwylir i bob Cyfarwyddwr fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a rhai'r Pwyllgorau maent yn aelod ohonynt. Pan na all Cyfarwyddwr fod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn ceisio ei safbwyntiau ar eitemau allweddol cyn y cyfarfod fel y gellir eu hychwanegu at y drafodaeth.

	Y Bwrdd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Cydnabyddiaeth	Pwyllgor Cyllid	PAA
Cyfanswm nifer y cyfarfodydd	12	6	5	1	8
Robert Ayling*	3	1	2	-	2
Peter Bridgewater	11	-	-	1	-
Graham Edwards	12	6	-	-	7
Chris Jones	12	-	-	1	8
Joanne Kenrick*	12	2	-	-	8
Alastair Lyons*	9	-	5	1	8
Stephen Palmer	11	-	-	-	7
Peter Perry	12	-	-	-	8
Menna Richards	11	-	5	-	-
Anna Walker	12	5	5	-	-
John Warren	12	6	5	1	-

*Ymddiswyddodd Robert Ayling ym mis Gorffennaf 2016. Ymunodd Joanne Kenrick â'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2016. Ymunodd Alastair Lyons â'r Bwrdd ym mis Mai 2016.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU — EFFEITHIOLRWYDD:

- Mae gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y cwmni i'w galluogi i gyflawni eu priod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn adolygu hyn yn rheolaidd mewn trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cwmni, y Pwyllgor Enwebiadau ac fel rhan o'n hadolygiad o effeithiolrwydd.
- Mae gan Glas Cymru weithdrefn ffurfiol, cadarn a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd.
- Caiff Cyfarwyddwyr raglen sefydlu wedi'i theilwra wrth ymuno a rhaglenni addysgiadol, llawn gwybodaeth parhaus ar bynciau sy'n berthnasol i weithredu a llywodraethu'r busnes.
- Mae pob Cyfarwyddwr yn rhoi digon o'u hamser i'r cwmni i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- Darperir holl ddeunyddiau cyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgorau wythnos ymlaen llaw.
- Caiff ein Cyfarwyddwyr Anweithredol fynediad i Ysgrifennydd y Cwmni a chynghorwyr allanol er mwyn rhoi safbwynt allanol i'r Bwrdd.
- Mae ein Bwrdd yn cynnal gwerthusiad blynyddol ffurfiol a manwl gywir o'i berfformiad ei hun a pherfformiad ei Bwyllgorau a'i Gyfarwyddwyr unigol. Cynhaliwn adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol bob tair blynedd — 2011, 2014 a 2017. Ceir canlyniadau adolygiad eleni ar dudalen 74.

PENODIADAU

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i wneud penodiadau newydd mewn ffordd dryloyw ac i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sgiliau a phrofiad a chefnidiroedd amrywiol. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr ddangos barn annibynnol a'r gallu i herio mewn ffordd adeiladol. Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n gyfrifol am chwilio am ymgeiswyr i'r Bwrdd ar sail rhinwedd, yn erbyn meini prawf gwrthrychol a bennir ar gyfer y rôl, a chydag ystyriaeth briodol i sicrhau cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad a phwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ar y Bwrdd. Defnyddir cwmnïau dethol allanol yn aml i ddod o hyd i ymgeiswyr a chefnogi'r broses. Mae llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'r cyhoedd drwy wneud cais i Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae Glas Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth, gwrthwahanïaethu, a chyfle cyfartal yn y ffordd rydym yn trin cyflogaion, darpar gyflogaion, ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae'r Bwrdd wedi dogfennu ei ddull recriwtio mewn Polisi Amrywiaeth y mae'n ymrwymedig i'w ddilyn.

SEFYDLU A DATBLYGU

Cynhelir proses sefydlu personol i Gyfarwyddwyr, gan gynnwys gweld hen bapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, ymweld â safleoedd a chynnal cyfarfodydd un i un gydag uwch reolwyr. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael hyfforddiant a sesiynau briffio fel y bo'n briodol. Yn 2016-17 cafodd ein Bwrdd hyfforddiant ar gydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth allanol a chafodd y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd gyflwyniadau addysgu ym meysydd arloesedd, dyfroedd arfordirol ac Astudiaethau Parthol. Mae cynrychiolwyr o'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd unwaith y flwyddyn er mwyn trafod ein perfformiad. Siarodd yr Athro Mark Macklin â'r Bwrdd am faterion Newid yn yr Hinsawdd.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd wedi ymweld â safleoedd a chynnal cyfarfodydd o amgylch y busnes. Mae ein Cadeirydd hefyd yn ymweld â safleoedd gweithredol ledled yr ardal gyflenwi yn rheolaidd ac anogir Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill i fod yn bresennol.

CYDBWYSEDD AC ANNIBYNIAETH

Mae gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau aelodaeth briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, yn seiliedig ar ystod eang o gefndiroedd, oedronnau, sgiliau a phrofiad. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod pob Cyfarwyddwr yn cael digon o amser i gyflawni ei rôl. Ystyrir bod pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol yn unol â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, ac nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gydberthynas fusnes na chydberthynas arall a allai ddylanwadu ar eu barn annibynnol. Roedd Alastair Lyons yn Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol rhwng mis Mai 2016 a'r adeg y'i penodwyd yn Gadeirydd ym mis Gorffennaf 2016.

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ei adolygu bob blwyddyn a chynhelir adolygiad annibynnol wedi'i hwyluso'n allanol bob tair blynedd. Ym mis Mawrth 2017, cynhaliwyd adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd gan Ian White, aseswr annibynnol. Trafodwyd ac adolygwyd canfyddiadau'r gwerthusiad gan y Bwrdd a chytunwyd ar gynllun gweithredu. Nododd Ian White fod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol iawn ar y cyfan, ar adeg o newid i'r Grŵp a'r Bwrdd ei hun.

Ymhlith y pwyntiau allweddol a nodwyd yn adroddiad 2017 roedd awgrymiadau y dylai'r Bwrdd:

- barhau i ganolbwyntio ar feithrin ei ddealltwriaeth o gwsmeriaid, segmentau cwsmeriaid a strategaeth cwsmeriaid;
- parhau i gynnal ffocws y Bwrdd ar strategaeth hirdymor;
- ymgorffori dull o adolygu penderfyniadau mawr er mwyn asesu ansawdd y broses gwneud penderfyniadau;
- cynnwys mwy o fewnbwn allanol gan siaradwyr ar agendâu'r Bwrdd;
- cadw risg yn uchel ar yr agenda;
- datblygu ymhellach gynllunio olyniaeth y Bwrdd, y tîm Gweithredol a'r rheolwyr.


AILETHOL CYFARWYDDWYR

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, bydd pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol gan Aelodau bob blwyddyn a bydd unrhyw Gyfarwyddwr a benodir yn ystod y flwyddyn yn sefyll i gael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

GWRTHDARO BUDDIANNAU


O dan gyfraith cwmnïau'r DU, rhaid awdurdodi sefyllfaoedd lle ceir gwrthdaro posibl ymlaen llaw er mwyn osgoi achosion lle y bydd Cyfarwyddwr yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol. Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr ddatgelu unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau, neu unrhyw achosion posibl o'r fath, ar unwaith. Yn ogystal, mae pob Cyfarwyddwr yn llofnodi datganiad blynyddol ac yn datgelu ei benodiadau allanol. Mae Cyfarwyddwyr hefyd yn hysbysu'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cwmni o unrhyw benodiadau sydd yn yr arfaeth ac yn cyhoeddi unrhyw benodiadau allanol newydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd fel bod y Bwrdd cyfan yn ymwybodol.

HYD GWASANAETH



AMRYWIAETH O RAN Y RHYWIAU

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i gael lefel briodol o amrywiaeth ym mhob rhan o'r busnes. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagori ar dargedau awgrymedig Adroddiad Davies 2010 o ran cynrychiolaeth merched ar lefel Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae 30% o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ferched, mae 30% o'r tîm Gweithredol yn ferched ac mae 45.8% o Dîm Arwain ehangach y Grŵp yn ferched. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn paratoui i adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn 2017.



PENODIADAU ALLANOL CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

Mae Peter Bridgewater yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ebico Limited, a chaiff ei dalu £15,000 y flwyddyn ar wahân am hynny.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU — ATEBOLRWYDD

Mae Bwrdd cyfunol Glas Cymru a Dŵr Cymru:

- yn cyflwyno asesiad teg, cytbwys a dealladwy o sefyllfa a rhagolygon y cwmni.
- yn pennu'r lefelau mentro priodol wrth gyflawni ein hamcanion strategol, tra'n sicrhau bod systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn ar waith.
- â threfniadau ffurfiol a thryloyw ar gyfer ystyried sut y dylai gymhwyso egwyddorion cyflwyno adroddiadau corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a chynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr y cwmni.
- mae pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol gan yr Aelodau ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn cyflawni ei rôl am gyfnod o dair blynedd a all gael ei ymestyn i ddiwedd naw mlynedd o'i benodi ar ôl ystyried ei annibyniaeth barhaus yn ofalus.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU — CYDNABYDDIAETH

- Mae gennym Bwyllgor Cydnabyddiaeth a chyflwynir ei adroddiad ar dudalennau 82-94.
- Mae cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi'i chynllunio i hyrwyddo llwyddiant hirdymor y cwmni.
- Mae elfennau sy'n ymwneud â pherfformiad yn dryloyw, yn ymestynnol ac wedi'u cymhwyso'n fanwl gywir.
- Ceir gweithdrefn ffurfiol a thryloyw ar gyfer datblygu polisi ar gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol ac am bennu pecynnau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol.
- Nid oes unrhyw Gyfarwyddwr ynghlwm wrth bennu ei gydnabyddiaeth neu ei chydabyddiaeth ei hun.
- Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor gan ymgynghorwyr allanol.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU — CYSYLLTIADAU Â CHYFRANDDALWYR

- Caiff llawer o egwyddorion cyfranddalwyr ar lywodraethu eu cymhwyso i'n Haelodau a'n Buddsoddwyr gennym.
- Cynhaliwn drafodaeth reolaidd ag Aelodau a Buddsoddwyr.
- Mae ein Bwrdd yn defnyddio cyfarfodydd cyffredinol i gyfathrebu ag Aelodau.
- Mae tîm Trysorlys y Cwmni yn parhau i sicrhau bod ein buddsoddwyr yn gwbl hyddysg, drwy adroddiadau chwarterol a chyfarfod blynyddol o fuddsoddwyr yn Llundain, yn ogystal â chyfarfodydd anffurfiol rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd gyda buddsoddwyr a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y cwmni.

MANYLION Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ein Haelodau ddydd Gwener 7 Gorffennaf 2017 yng Ngwesty'r Quay, Deganwy am 9:30am.

PWYLLGORAU'R BWRDD

Fel yr eglurwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r Bwrdd yn cadw rhai materion yn ôl i'w hun. Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei rôl yn effeithiol, caiff rhai o gyfrifoldebau'r Bwrdd eu dirprwyo i Bwyllgorau, sy'n chwarae rôl bwysig wrth weithio gyda'r rheolwyr er mwyn sicrhau bod ein busnes yn ariannol gadarn, y caiff ei lywodraethu'n dda, ac y caiff risgiau eu nodi a'u lliniaru. Cadeirir pob Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Mae gan holl Bwyllgorau'r Bwrdd gylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n crynhoi'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt. Caiff y cylch gorchwyl ei adolygu'n rheolaidd a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor a'r Bwrdd. Ar ôl ymuno â Phwyllgor, caiff Cyfarwyddwyr gyfnod sefydlu priodol a chynigir cyfleoedd hyfforddiant ac addysg parhaus iddynt. Ar ôl pob cyfarfod, rhoddir crynodeb o'r materion a drafodwyd i'r Bwrdd, ac anfonir cofnodion y Pwyllgor at y Cyfarwyddwyr. Gall pob Pwyllgor ddefnyddio gwasanaethau unrhyw gynghorwyr sydd eu hangen arno i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Prif Bwyllgorau'r Bwrdd yw:

Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Enwebiadau	Pwyllgor Cyllid	Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd	Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Cadeirir gan John Warren	Cadeirir gan Alastair Lyons	Cadeirir gan John Warren	Cadeirir gan Stephen Palmer	Cadeirir gan Anna Walker
Adroddiad ar dudalen 77	Adroddiad ar dudalen 81	Adroddiad ar dudalen 81	Adroddiad ar dudalen 80	Adroddiad ar dudalen 82

Tîm Gweithredol Dŵr Cymru (GDC) yw ein Pwyllgor rheoli. Mae'n cynnwys hyd at 10 aelod o'r tîm rheoli (gan gynnwys y tri Chyfarwyddwr Gweithredol). Mae GDC yn canolbwyntio ar sicrhau bod y busnes yn cael ei redeg yn ôl y strategaeth a bennwyd gan y Bwrdd ac ar adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn sicrhau bod y targedau a bennwyd gan y Bwrdd yn cael eu cyflawni. Mae sawl pwyllgor rheoli yn atebol i GDC.

Mae gan ein Cyfarwyddwyr Anweithredol sgiliau amrywiol. Yn ogystal â chadeirio neu fod yn aelod o Bwyllgor, mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn neilltuo amser a mewnbwn ychwanegol mewn perthynas â'r materion canlynol:

Alastair Lyons	Cyswllt cyffredinol â Chyfarwyddwyr Gweithredol a rhan weithredol mewn ymweliadau rheolaidd â safleoedd lleol
Graham Edwards	Gweithrediadau a materion yn ymwneud ag adnoddau dynol
John Warren	Cyllid ac archwilio
Stephen Palmer	Iechyd y cyhoedd
Menna Richards	Cyfathrebu a chyswllt Aelodau
Anna Walker	Gwasanaeth cwsmeriaid, rheoleiddio a chydabyddiaeth
Joanne Kenrick	Gwasanaethau marchnata, masnachol a chwsmeriaid

Mae rhai o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn mentora rhai aelodau o'r tîm rheoli.

RHEOLAETH FEWNOL

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp. Cynlluniwyd y system rheolaethau i reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac mae'n cynnwys polisiau a gweithdrefnau archwiledig a luniwyd i nodi a rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y busnes.

Mae adolygiad manwl o risgiau ar gael ar dudalennau 59-62. Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, aeth y tîm Gweithredol ati i adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddiannau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau, colled neu fethiant.

Mae nodweddion allweddol ein system yn arferol i fusnes o'r maint a'r cymhlethdod hwn. Yn eu plith mae:

- nodi'r prif risgiau strategol a chyfleoedd sy'n wynebu'r busnes;
- adolygu materion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg yng nghyfarfodydd y tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd;
- atebolrwydd clir ymysg rheolwyr mewn perthynas â rheoli risg, wedi'i ategu gan adroddiadau rheolaidd ar risg i'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Archwilio;
- paramedrau risg derbyniol wedi'u pennu gan y Bwrdd, yn enwedig yng nghyd-destun y broses cynllunio busnes at

ddibenion y cyfnod nesaf o bum mlynedd;

- rhoi rheolaethau ar waith sy'n cydnabod bod natur a chydbwysedd risgiau yn newid ac yn esblygu;
- rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n llywodraethu'r broses o gymeradwyo a rheoli eitemau sylweddol o wariant cyfalaf, caffael a gwaredu asedau perthnasol, ac ymrwymiad i unrhyw drefniant a allai arwain at rwymedigaeth sylweddol;
- sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn addas ar gyfer paratoi cyfrifon rheoli ac ariannol;
- prosesau rheoli a gynlluniwyd yn briodol er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'r busnes yn cael eu pennu a'u hadolygu'n effeithiol, a ategir gan ddangosyddion perfformiad allweddol cywir ac amserol.

Caiiff y Bwrdd sicrwydd drwy waith annibynnol gan gynghorydd technegol Dŵr Cymru ar faterion adrodd rheoleiddiol (Jacobs Engineering Group) a'r rhaglen archwilio mewnol, y caiff eu prif ganfyddiadau eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd.

Caiiff diweddariad ar risgiau strategol ei ystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a chaiff adolygiad strategol o risgiau ei ystyried ddwywaith y flwyddyn fel rhan o broses a gaiff ei chadeirio gan y Prif Weithredwr, sy'n rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar farn y tîm Gweithredol ar y risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r busnes er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd cyfan. Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Codeirydd: John Warren

Aelodau: Anna Walker, Graham Edwards, Joanne Kenrick

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael blwyddyn gynhyrchol, gyda ffocws da ar reolaethau mewnol a materion TG a seiber-ddiogelwch o fewn y busnes. Ymunodd Joanne Kenrick â'r Pwyllgor ym mis Tachwedd, ac mae wedi cyfrannu ei gwybodaeth am weithio mewn sefydliadau masnachol mawr a materion marchnata, masnachol a chaffael. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn bodloni'r gofyniad o ran cael arbenigedd perthnasol o'r sector gan fod Graham Edwards yn Brif Weithredwr cwmni cyfleustodau arall ac mae ganddo brofiad blaenorol o weithio i gwmni arall yn y sector dŵr. Fel Codeirydd y Pwyllgor, cyfrannaf brofiad ariannol fel cyfrifydd siartredig, wedi gweithio'n flaenorol fel Cyfarwyddwr Cyllid WH Smith a chadeirio Pwyllgorau Archwilio cwmnïau mawr eraill. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth Sicrwydd y Busnes yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio chwe gwaith yn ystod 2016-17. Yn dilyn diwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2017, cyfarfu'r Pwyllgor ar ddau achlysur arall, fel mewn blynyddoedd blaenorol, i dderbyn yr adroddiad gan yr archwilyr allanol ar adroddiad blynyddol 2016-17, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd allweddol yn ymwneud â barn yn y datganiadau ariannol, er mwyn sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn

cyflwyno asesiad "teg, cytbwys a dealladwy" o statws ariannol y cwmni, yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Cefnogir y Pwyllgor Archwilio gan yr archwilyr allanol. Cyfnod adrodd 2016-17 oedd y flwyddyn lawn gyntaf lle'r archwilyr penodedig oedd KPMG, yn dilyn proses dendro ffurfiol yn 2015. Penodwyd KPMG ym mis Medi 2015 am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

Adolygodd KPMG Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016 a chadarnhaodd fod yr Adroddiad, ar y cyfan, yn bodloni'r gofynion llywodraethu corfforaethol, bod yr adroddiad strategol yn gytbwys ac yn gynhwysfawr a'i fod yn cwmpasu agweddau cadarnhaol a negyddol ar berfformiad a datblygiadau a bod ystod eang o ffactorau wedi'u hystyried wrth bennu'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu'r busnes. Hefyd, gwnaeth rai awgrymiadau manwl ynghylch sut y gall yr adroddiad strategol gysylltu'n well â'r datganiadau ariannol y gwnaethom waith dilynol arnynt wrth lunio adroddiad eleni.

DATGANIADAU ARIANNOL DIWEDD BLWYDDYN

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor Archwilio a'r archwilwyr allanol wedi canolbwyntio'n arbennig ar y meysydd hynny o'r datganiadau ariannol oedd yn cynnwys y lefel fwyaf o farn rheolwyr wedi'i chymhwyso iddynt, a'r rheini yr ystyrir eu bod yn peri'r risg gynhenid fwyaf. Ar gyfer y datganiadau ariannol diwedd blwyddyn, roedd y rhain fel a ganlyn:

CYDNABOD REFENIW GAN GYNNWYS INCWM CRONEDIG AR WERTHIANNAU MESUREDIG

Refeniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy ar gyfer gwasanaethau a ddarperir; lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer, crynhoir a chynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn refeniw. Mae'r system filio yn cyfrifo'r incwm mesuredig a gronwyd ar sail mesurydd unigol. Ar 31 Mawrth 2017 roedd yr amcangyfrif hwn yn £68.8m, sef cynnydd o £3.8m o gymharu â diwedd y flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd twf yn y sail cwsmeriaid â chyflenwad mesuredig. Mae'r rheolwyr yn adolygu'r tybiaethau a ddefnyddir yn y cronïad gan gynnwys amcangyfrifon o gyfaint a thaliadau cymwys, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y camau a gymerwyd yn gyson ac yn dderbyniol at ddibenion y cyfrifon.

DOSBARTHU COSTAU RHWNG GWARIANT GWEITHREDU A GWARIANT CYFALAF

Mae'r cwmni yn buddsoddi lefel uchel o wariant mewn asedau sefydlog, gan gynnwys trwsio a chynnal a chadw, a chostau gwella. Mae angen arddel barn wrth benderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, ar asedau seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu. Cynyddodd y lefel o wariant cyfalaf net yn ystod y flwyddyn i £350m (2016: £262m) yn ôl y disgwyl wrth i'r timau cyflawni cyfalaf ddatblygu capasiti yn ystod ail flwyddyn y rhaglen fuddsoddi pum mlynedd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y farn a arddelwyd a'r symiau a gyfalafwyd yn briodol.

DARPARIAETH AR GYFER LLEIHAD YNG NGWERTH SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Roedd lefel y ddarpariaeth a oedd yn ofynnol yn seiliedig ar asesiad o berfformiad hanesyddol o ran casglu arian parod ac yn ystyried ansicrwydd economaidd parhaus a'r broses o ddiwygio system les y wladwriaeth. Hefyd ystyriwyd cynnydd diweddar o ran casglu arian parod yn sgil mentrau parhaus i wella perfformiad. Wrth fynd ati i wneud eu hargymhelliad i'r Pwyllgor Archwilio, archwiliodd y rheolwyr berfformiad o ran casglu arian parod ar gyfer cwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd yn ystod 2016-17, gan ddod i'r casgliad y gallai Dŵr Cymru, yn y pen draw, ddisgwyl casglu rhyw 49% o'r ddyled (na chaiff ei bilio ymlaen llaw) a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2017 (2016: 48%). Gan ystyried yr holl wybodaeth casglu hanesyddol, cytunodd y Pwyllgor Archwilio y dylai darpariaeth drwgddyledion Dŵr Cymru fod yn £96 miliwn (2016: £85 miliwn) a gynhyrchodd dâl drwgddyledion a dyledion amheus ar gyfer y flwyddyn ("lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy") o £23 miliwn (2016: £27 miliwn).

RHWYMEDIGAETHAU BUDDIANNAU YMDDEOL

Er mwyn cyfrifo'r rhwymedigaeth pensiwn buddiannau diffiniedig i'w chynnwys ar y fantolen yn unol ag IAS 19, mae'n rhaid defnyddio dau amcangyfrif ariannol allweddol, sef y gyfradd ddisgowntio i'w chymhwyso i rwymedigaethau'r dyfodol a chwyddiant y rhwymedigaethau hynny yn y dyfodol. Roedd y gyfradd ddisgowntio dybiedig yn deillio o arenillion ar fondiau corfforaethol AA-, a phenhwyd y lefel chwyddiant dybiedig drwy ystyried

y gwahaniaeth rhwng yr arenillion ar fondiau llog sefydlog a bondiau mynegrifol y llywodraeth yn ogystal â ffynonellau eraill o ragfynegi chwyddiant. Trafododd y pwyllgor y tybiaethau hyn gyda KPMG a nododd fod y tybiaethau o fewn ystod dderbyniol, er eu bod ychydig yn fwy optimistaidd na'u tybiaethau canolog. Cynhyrchodd y rhain ddiffyg IAS 19 ar y fantolen o £92 miliwn, cynnydd o £38 miliwn ers mis Mawrth 2016, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio, gan adlewyrchu lleihad yn y disgwyliadau ar gyfer cyfraddau llog hirdymor. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn dderbyniol at ddibenion y cyfrifon.

OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Caiff gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol eu darparu gan wrthbarthion cyfnewidiadau. Mae llwyfan set ddata ariannol Bloomberg yn galluogi rheolwyr i gynnal prisiad annibynnol o'r contractau hyn a gaiff ei gymharu wedyn â chadarnhad gwrthbarthion cyn cymhwyso addasiad "risg credyd bersonol" priodol. Roedd cyfanswm (net) y rhwymedigaeth ar y fantolen ar 31 Mawrth 2017 yn £477 miliwn (2016: £414 miliwn). Cytunodd y Pwyllgor fod hwn yn ffigur rhesymol i'w gynnwys yn y cyfrifon.

GWEITHGAREDDAU ERAILL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Canolbwyntiodd cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai a mis Tachwedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar adolygu canlyniadau ariannol rhagarweiniol ac interim y Grŵp a meysydd cysylltiedig o ran barn a pholisi cyfrifyddu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dibynnu ar y rôl weithredol a chwaraeir gan y swyddogaeth Sicrwydd Busnes (archwilio mewnol) i roi sicrwydd ac adolygu digonolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol i reoli risg, gan adrodd ar hyn i'r fîm Gweithredol a'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cynllun gwaith Sicrwydd Busnes ar gyfer y flwyddyn ac yn adolygu hynt y cynllun. Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd y Pennaeth Sicrwydd Busnes, Gary Sharland, o'r cwmni ar ôl 39 mlynedd o wasanaeth parhaus. Ymunodd Clive Hardy â'r cwmni fel y Pennaeth Sicrwydd Busnes ym mis Tachwedd 2016 o Lloyds Banking Group lle'r oedd yn Bennaeth Archwilio: Yswiriant. Arweiniwyd yr adolygiad o hynt y cynllun Sicrwydd Busnes ar y cam hanner blwyddyn gan y Pennaeth Sicrwydd Busnes oedd yn ymddeol. Adroddodd y Pennaeth Sicrwydd Busnes newydd ar hynt terfynol y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn a hefyd ddatblygodd gynllun heriol a manwl gywir ar gyfer 2017-18 a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Chwefror 2017. Mae'r swyddogaeth Sicrwydd Busnes yn parhau i weithio'n agos gyda'r archwilyr allanol a hefyd y fîm Cydymffurfiaeth.

Yn ystod 2016-17, parhaodd y Pwyllgor i ddefnyddio cyfarfodydd preifat i adolygu ymchwiliadau o faterion a godwyd gan chwythwyr chwiban y tu mewn a'r tu allan i'r cwmni, yn unol â'r polisi chwythu'r chwiban sefydledig. Mae'r polisi yn annog cyflogaion ac eraill i roi gwybod am broblemau, yn diogelu unigolion sy'n gwneud datgeliadau perthnasol ac yn cynnwys darpariaeth llinell gymorth annibynnol i godi materion. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y polisi chwythu'r chwiban yn elfen hanfodol o'r system rheolaethau mewnol.

Hefyd, parhaodd y Pwyllgor Archwilio i dderbyn sicrwydd a chyngor annibynnol o ran cywirdeb a chyflawnrwydd adroddiadau rheoleiddiol yn ystod 2016-17 gan gynghorydd technegol Dŵr Cymru ar faterion adrodd rheoleiddiol (Jacobs Engineering Group). Yn dilyn proses dendro, penodwyd Jacobs am gyfnod cychwynnol o dair blynedd ym mis Ebrill 2016. Cefnogodd Jacobs y gwaith o baratoi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd i Ofwat ym mis Awst 2016 a hefyd roddodd fewnbwn i'r Cynllun Sicrwydd a datganiadau methodoleg er mwyn ategu adroddiadau'r cwmni yn erbyn ei Fesurau Llwyddiant o Benderfyniad Terfynol 2016, a wnaiff ategu'r broses adrodd drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ym mis Awst 2017.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd preifat o leiaf unwaith y flwyddyn gyda phob un o'r archwilyr allanol a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes.

YMHLITH Y PYNCIAU ERAILL A ADOLYGWYD GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN 2016-17 ROEDD

- Polisiau a rheolaethau'r Trysorlys, gan gynnwys trefniadau newydd ar gyfer taliadau electronig a gyflwynwyd gan Drysorydd newydd y Grŵp, Roger Morgan, a ymunodd â ni ym mis Medi 2016 o'r Co-operative Group lle'r oedd yn Drysorydd y Grŵp;
- Seiber-Ddiogelwch, materion diogelwch gwybodaeth a threfniadau adfer ar ôl trychineb TG, gan gynnwys ystyried effeithiolrwydd cymharol ein gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg yn y maes hwn o gymharu â'r rheini a sefydlwyd mewn busnesau tebyg;
- Trefniadau cyflenwyr a chydymffurfiaeth â pholisiau caffael;
- Yr amserlen a'r prosesau ar gyfer llunio'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol terfynol;
- Y camau a gymerwyd gan y Grŵp i gydymffurfio â gofynion Llywodraethu Corfforaethol, gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, deddfwriaeth diogelu data a gofynion sydd ar ddod o ran adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau;
- Canlyniadau adroddiadau archwilio mewnol ac amserlenni i gwblhau'r camau a argymhellwyd.


Hefyd adolygodd y Pwyllgor ganlyniadau gwerthusiad mewnol o berfformiad y Pwyllgor ym mis Mai 2016, gan gynnwys gwerthusiad o berfformiad yr archwilyr allanol. Cafodd yr holl bwyntiau a wnaed eu nodi gan y Pwyllgor a'u trafod ag aelodau priodol o'r fîm rheoli mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn.

FFIOEDD ARCHWILWYR NAD YDYNT AR GYFER GWAITH ARCHWILIO

Mae'n bolisi gennym i beidio â defnyddio archwilyr allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol yn gyffredinol, a bod unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn destun Polisi Caffael y Grŵp. Rhaid i unrhyw ffioedd nad ydynt ar gyfer gwaith archwilio a delir i Archwilyr naill ai gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ymlaen llaw neu, mewn sefyllfa frys, gan y Cadeirydd ac yna eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Yn ystod y cyfnod 2016-17 roedd ffioedd archwilio ar gyfer datganiadau ariannol y Grŵp yn £140,000 ac roedd ffioedd ar gyfer gwasanaethau sicrwydd eraill yn £128,000. Roedd ffioedd a dalwyd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn gysylltiedig ag archwilio yn £194,000. Felly'r gymhareb ffioedd nad oeddent ar gyfer gwaith archwilio ac a oedd ar gyfer gwaith archwilio oedd 1.39x. Mae'r Pwyllgor Archwilio wrthi'n monitro'r gymhareb ffioedd nad ydynt ar gyfer gwaith archwilio ac sydd ar gyfer gwaith archwilio yn sgil y newidiadau sydd ar ddod i ganllawiau ar gyfer cwmnïau rhestredig. Ceir rhagor o wybodaeth yn y datganiadau ariannol ar dudalen 127.

CYFARFODYDD Â BUDDSODDWYR

Mae aelodau'r Pwyllgor ar gael i gyfarfod â buddsoddwyr drwy drefnu hwnnwm ymlaen llaw ag Ysgrifennydd y Cwmni.



John Warren
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

8 Mehefin 2017

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ANSAWDD A'R AMGYLCHEDD (PAA)

Cadeirydd: Stephen Palmer

Aelodau: Graham Edwards, Chris Jones, Joanne Kenrick, Alastair Lyons a Peter Perry

Cynghorwyr Gwyddonol Annibynnol: Steve Brown (Amgylchedd), Andrew Davies (Dŵr)

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb i'r PAA am adolygu a monitro meysydd risg strategol digwyddiadau lechyd a Diogelwch mawr, rheoliadau amgylcheddol, methiant i gyrraedd lefelau perfformiad gofynnol, methiant asedau strategol a digwyddiad iechyd y cyhoedd mawr. Mae'r PAA hefyd yn gyfrifol am graffu ar berfformiad gweithredol ac asesu priodoldeb strategaethau gwella gweithgareddau dŵr a dŵr gwastraff Dŵr Cymru.

Mae'r PAA hefyd yn adolygu, monitro a dylanwadu ar y cynllun rheoli iechyd a diogelwch a'i gyflawniad, yn sicrhau bod Dŵr Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau iechyd y cyhoedd o ran darparu dŵr yfed glân a diogel a glanweithdra dŵr gwastraff yn unol â safonau statudol. Mae'r PAA hefyd yn sicrhau bod gan y cwmni drefniadau argyfwng a diogelwch digonol yn unol â chanllawiau statudol cyfredol megis safonau'r Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI) a Chyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD).

Mae'r PAA yn adolygu ac yn dylanwadu ar raglen archwilio anariannol y cwmni ac yn cael canfyddiadau adroddiadau archwilio mewol ac allanol yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae'r Pwyllgor yn adolygu canfyddiadau ymchwiladau i unrhyw fethiant o ran ansawdd dŵr, yr amgylchedd neu wasanaeth cwsmeriaid. Cynhelir Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu sy'n cyfarfod â'r Rheolwr Gyfarwyddwr perthnasol

ar gyfer y methiannau hynny y tybir eu bod yn ddifrifol gan y Pwyllgor. Cyflwynir adroddiad i'r PAA sy'n nodi'r prif reswm, gwersi a ddysgwyd a chymau i'w cymryd. Yn ystod 2016-17 cynhaliwyd Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol o ran digwyddiadau ansawdd dŵr neu lygredd ym Mynydd Llandygái, Llwynon ac Aberdaugleddau.

Mae'r PAA yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol ar ran y Bwrdd. Yn ystod 2016-17 mynychodd uwch reolwyr o'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarfodydd.

Mae'r PAA yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o annog y defnydd deallus o ddata a mabwysiadu technoleg newydd briodol neu fesurau arloesol eraill a wnaiff wella gwasanaeth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Yn ystod 2016-17 canolbwyntiodd y PAA yn benodol ar hynt Astudiaethau Parthol (cyfres strwythuredig o fuddsoddiadau ac iddynt ffocws sy'n anelu at wella Derbynioldeb i Gwsmeriaid dŵr fel y nodir ar dudalen 23) ac roedd ganddo ddiddordeb arbennig ym muddiannau posibl Igloo (amgylchedd rithwir 3D sy'n ei gwneud yn bosibl i gynllunio gwaith stryd o'n swyddfeydd).

Ymhlith yr enghreifftiau o ymwneud y PAA mae'r canlynol:

— Mae adolygiadau'r PAA o briodoldeb strategaethau gwella a'r broses o ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf reolaidd am unrhyw faes sy'n peri pryder wedi bod yn effeithiol. Enghraifft o wella

perfformiad yw Munudau Cwsmeriaid a Gollir (MCG). Ym mis Mai 2014 adolygodd y Pwyllgor strategaeth wella MCG. Roedd perfformiad 2013-14 yn 51 munud ar gyfartaledd fesul cwsmer ac ar gyfer 2016-17 roedd MCG yn 12 munud fesul cwsmer, sef targed Ofwat ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2017 a 2020.

— Ym mis Ebrill 2016, profwyd ein digwyddiad lechyd a Diogelwch mwyaf difrifol ers sawl blwyddyn, pan gafodd dau drydanwr wedi'u his-gontractio eu hanafu'n ddifrifol yng ngorsaf bwmpio Nantgaredig. Bu'r digwyddiad yn destun Panel Ymchwilio ffurfiol a adroddodd i Gadeirydd y PAA. Ymatebodd y busnes yn gyflym i'r digwyddiad gyda chyfres o 'Rybuddion Diogelwch' a dau ddiwrnod hyfforddi lle caiff y gwaith arferol ei atal dros dro gan gynnwys pob cydweithiwr. Penderfynodd yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch na fyddai'n cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru. Mae'r busnes yn parhau i roi iechyd a diogelwch cydweithiwr, cwsmeriaid ac aelodau'r cyhoedd yn gyntaf ac mae'r PAA yn ymrwymedig i fonitro a chefnogi hyn.

Ymhlith y pynciau a gwmpaswyd gan y Pwyllgor yn 2016-17 roedd:

Gwasanaethau Dŵr:

- Adolygiad blynyddol o berfformiad ansawdd dŵr yfed
- Adroddiad blynyddol ar ddiogelwch argaeau a strategaeth wella
- Strategaeth arweiniol
- Haearn a derbynioddeb
- Perfformiad bacteriolegol cronfeydd gwasanaeth
- Munudau cwsmeriaid a gollir
- Gollyngiadau dŵr
- Diweddariad ar y cynllun gweithredu i wella perfformiad bacteriolegol hyd yn oed ymhellach mewn gweithfeydd trin dŵr
- Diweddariad ar hynt ein strategaeth dalgylch gyda'r nod o sicrhau mai ein dalgylch yw ein llinell amddiffyn gyntaf yn y pen draw
- Diweddariad ar y strategaeth cryptosporidiwm
- Rheoliadau ffitiadau dŵr
- Tracio camau gweithredu o fethiannau samplau ansawdd dŵr rheoleiddiol a gweithredol

Amgylchedd:

- Adolygiad o raglen wyddoniaeth dyfroedd arfordirol
- Canlyniadau dŵr ymdrochi blynyddol
- Llygredd
- Llifogydd a model darogan llifogydd
- Diweddariad carbon a rheoli ynni/ynni adnewyddadwy
- Adroddiad amgylcheddol
- Llif wedi'i drin i lefelau gofynnol
- Diweddariad ar risgiau rheoleiddiol amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg
- Strategaeth lleihau aroglau
- Strategaeth rhwydwaith amgylcheddol
- Proses mabwysiadu gorsafoedd pwmpio preifat

Arall:

- Adolygiadau chwarterol o iechyd a diogelwch. Eleni hefyd newidiodd y Pwyllgor rai o'r prif ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir.
- Archwiliad teirblwydd CNI
- Adroddiad blynyddol SEMD

Ym mis Rhagfyr 2016, penderfynodd y Pwyllgor leihau nifer y cyfarfodydd mae'n eu cynnal bob blwyddyn o wyth i chwech o ystyried y cyfnod hir o berfformiad gweithredol da a gwaith rheoli risg effeithiol.



Yr Athro Stephen Palmer
Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd
a'r Amgylchedd

8 Mehefin 2017

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ENWEBIADAU

Cadeirydd: Alastair Lyons

Aelodau: Graham Edwards, Chris Jones a Menna Richards

Rôl y Pwyllgor yw adolygu system cynllunio olyniaeth y Bwrdd a rhoi prosesau ar waith i fynd i'r afael â hyn, gan adrodd i'r prif Fwrdd. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn adolygu polisïau sy'n berthnasol i recriwtio, yn enwedig ein Polisi Amrywiaeth.

Yn 2016-17 dechreuodd y Pwyllgor Enwebiadau nodi olynnydd i'r Athro Stephen Palmer, sydd wedi datgan ei fod am ymddiswyddo mewn rhyw 12 mis. Yn dilyn proses dendro, penodwyd Goodson Thomas i gynghori'r Pwyllgor a chefnogi'r broses. Nid oes gan Goodson Thomas unrhyw gysylltiad arall â'r Grŵp.



Alastair Lyons Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau
8 Mehefin 2017

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID

Cadeirydd: John Warren

Aelodau: Alastair Lyons, Chris Jones, Peter Bridgewater

Sefydli'r Pwyllgor Cyllid ag awdurdod i gymeradwyo penderfyniadau ariannol yn gyflym ar sail ad hoc rhwng cyfarfodydd. Ni fwriadwn ddefnyddio'r Pwyllgor hwn yn fynych am ein bod fel rheol yn blaengynllunio digon i ymdrin â materion o'r fath yng Nghyfarfodydd y Bwrdd. Cafodd y Pwyllgor Cyllid ei ddefnyddio unwaith yn 2016/17, er mwyn diwygio strwythur gwrthblaid adneuo'r Grŵp.



John Warren Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
8 Mehefin 2017

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Cadeirydd: Anna Walker

Aelodau: Alastair Lyons¹, Menna Richards, John Warren

Ar ran y Bwrdd, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiadau Cydnabyddiaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Cyfarwyddwyr ar gyfer 2017. Mae system lywodraethu dda a sicrhau gwerth am arian i'n cwsmeriaid wrth wraidd polisiau cydnabyddiaeth y Grŵp.

SUT Y CAIFF CYFLOG EI BENNU

Rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw argymhell i'r Bwrdd ei gymeradwyo, a'i adolygu'n gyson, Bolisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd fel mae'n gymwys i'r busnes cyfan. Yn fwy penodol, rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw:

- cytuno ar y Polisi a'r contractau fframwaith a gwasanaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, a'r fframwaith cydnabyddiaeth ar gyfer y tîm Gweithredol;
- penderfynu ar drefniadau tâl amrywiadwy sy'n annog ac yn cydnabod perfformiad da ac yn gwobrwyo unigolion, mewn modd teg a chyfrifol, am eu cyfraniad i lwyddiant hirdymor y Grŵp.

Wrth gyflawni ei rôl, mae'r Pwyllgor yn arddel rhai egwyddorion allweddol (a nodir isod) y cytunodd arnynt yn 2015-16 ac a amlinellwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd.

Yn ystod 2016-17, roedd prif weithgareddau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys:

- cytuno ar y codiad cyflog blynyddol;
- cymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2016;
- asesu perfformiad yn erbyn yr amodau sydd ynghlwm wrth Gynllun Tâl Amrywiadwy Blynyddol (AVPS) 2015-16 a Chynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor AMP6 (LTVPS²) a chytuno ar ddyfardaliadau i'w gwneud i gyfranogwyr;
- adolygu cyflogau ac AVPS ar gyfer y tîm Gweithredol ehangach;
- ystyried tueddiadau cydnabyddiaeth a phensiwn ac arfer gorau;
- adolygu cyflogau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a ffi'r Cadeirydd;
- dechrau dwyn ynghyd wybodaeth er mwyn adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiâu erbyn mis Ebrill 2018 ac ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw faterion y mae'r broses hon yn eu datgelu.

RÔL AELODAU GLAS

Mae Aelodau Glas yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau bod system lywodraethu dda ar waith o ran datblygu a chymeradwyo polisiau cydnabyddiaeth. Yn unol â'r rheoliadau adrodd ar gydnabyddiaeth sy'n gymwys i gwmnïau a ddyfynnir yn y DU, bydd yr Aelodau yn cymeradwyo drwy bleidlais gyfrwamol, o leiaf unwaith bob tair blynedd (neu lle cynigir unrhyw newid sylweddol), Bolisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd. Cymeradwyodd yr Aelodau'r polisi presennol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015 ac felly bydd angen i'r polisi gael ei gymeradwyo eto gan yr Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018, pan fo'r Pwyllgor yn cynnig edrych ar y polisi a fyddai'n gymwys i'r cyfnod AMP nesaf (2020-2025) ac ystyried pa newidiadau i'r polisi sy'n briodol yn sgil y newidiadau a'r heriau y mae'r Grŵp yn debygol o'u hwynebu.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth yn destun pleidlais gynghorol gan Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf, yn ôl yr arfer. Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd, pleidleisiodd holl Aelodau Glas o blaid yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth.

1. Roedd Robert Ayling yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth nes iddo ymddiswyddo fel Cadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol ar 8 Gorffennaf 2016; ymunodd Alastair Lyons â'r Pwyllgor ar 1 Mai 2016.

2. Gweler tudalen 87 am ragor o fanylion am yr LTVPS.

EGWYDDORION CYDNABYDDIAETH GRŴP GLAS

- Dylai cydnabyddiaeth wobrwyo/cymell buddiannau hirdymor y busnes ac adlewyrchu ei ddull strategol cytûn o weithredu yn y dyfodol
- Dylai cydnabyddiaeth gysoni buddiannau cyfarwyddwyr a chyflogeion â chwsmeriaid y busnes
- Dylai cydnabyddiaeth ganolbwyntio ar brif bryderon y busnes – ansawdd dŵr ac amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol
- Dylai cydnabyddiaeth adlewyrchu nod Dŵr Cymru i fod yn un o'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn y sector
- Dylai targedau cydnabyddiaeth fod yn ymestynol o ran perfformiad blaenorol ac o gymharu â chwmnïau eraill yn y sector. Dylent fod yn ffigurau caled y gellir eu harchwilio. Er bod rhai yn flynyddol, dylent hefyd fod yn gyson ag amcanion strategol a rheoleiddiol y busnes
- Bwriedir i gydnabyddiaeth gymell rheolwyr yn absenoldeb cyfranddallwyr ac opsiynau cyfranddaliadau
- Dylai cydnabyddiaeth hefyd fod yn deg ac yn gystadleuol o ran y sector ac yn fewnol er mwyn denu a chadw unigolion o'r radd flaenaf
- Dylai cyfran sylweddol o gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn amrywiadwy (rhaniad 60/40 sy'n sefydlog/amrywiadwy yw'r targed a nodwyd) er mwyn taro'r cydbwysedd cywir o ran mentro
- Dylai'r strwythur cydnabyddiaeth fod yn ddigon clir fel bod y sawl y mae'n effeithio arnynt yn deall beth yw ei nod
- Bydd cydnabyddiaeth yn dryloyw i Aelodau Glas ac yn cael ei chymeradwyo'n rheolaidd ganddynt

Mae'r gyfres gytûn o brif egwyddorion sy'n ategu dyluniad a gweithrediad y Polisi Cydnabyddiaeth yn nodi y dylai cydnabyddiaeth:

1. gwobrwyo/cymell buddiannau hirdymor y Grŵp ac adlewyrchu ei ddull strategol cytûn o weithredu yn y dyfodol;
2. cysoni buddiannau Cyfarwyddwyr a chyflogeion â chwsmeriaid y Grŵp;
3. canolbwyntio ar brif bryderon y Grŵp — dŵr, ansawdd dŵr ac amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol. Mae'r targedau a bennwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi dilyn y rhai a bennwyd gan Ofwat yn y Penderfyniad Terfynol ar Adolygu Prisïau ar gyfer y cyfnod AMP cyfredol, gan ganolbwyntio ar gwsmeriaid, cydymffurfiaeth a chost. Maent hefyd wedi cynnwys amcanion personol a meysydd y mae'r cwmni o'r farn bod angen canolbwyntio arnynt yn arbennig (e.e. lleihau drwgddyledion).

NEWIDIADAU I'R BUSNES SY'N BERTHNASOL I BOLISIÂU CYDNABYDDIAETH

Yn dilyn trafodaeth eang ag Aelodau Glas, a'r Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol a'r Cyfarfod Llys, ym mis Mawrth 2016 cwblhaodd y Grŵp broses ailstrwythuro corfforaethol. Bwriadwyd i'r newidiadau o ran strwythur a chreu is-gwmnïau newydd ei gwneud yn bosibl i ddatblygu nifer gyfyngedig o brosiectau masnachol, yn gysylltiedig â'r cylch dŵr, a datblygu seilwaith o fewn y DU, y tu hwnt i gyfyngiadau ein Cytundeb Telerau Cyffredin â benthycwyr a deiliaid bondiau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd cryn fuddsoddi hefyd er mwyn sicrhau y gallai'r cwsmeriaid busnes a'r safleoedd hynny sy'n gymwys i ddewis eu cyflenwr manwerthu dŵr o 1 Ebrill 2017 wneud hynny, yn unol â rheolau Gweithredu'r Farchnad, a'n bod yn parhau i sicrhau bod ein holl gwsmeriaid busnes yn derbyn gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog.

Mae'r holl bwyntiau hyn wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn fanwl o safbwynt mentro a gwobrwyo, ac maent wedi'u cynnwys mewn amcanion a bennwyd ar gyfer AVP a'r cynllun sy'n dod i'r amlwg a fwrddwyd ar gyfer dyfardaliadau AVP ac LTVPS yn y dyfodol.

PERFFORMIAD A GWOBRWYO AR GYFER 2016-17

Roedd y gydnabyddiaeth a dalwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

- cyflog sylfaenol (a gododd 1.5% ym mis Ebrill 2016) ynghyd â phensiwn (neu daliadau cyfatebol) a buddiannau iechyd preifat ac iechyd parhaol;
- o dan AVPS 2016-2017, gwnaed dyfardaliadau a oedd yn gyfwerth â 30% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer perfformiad yn erbyn elfen Cwsmeriaid a Chydymffurfiaeth y cynllun, 23.6% ar gyfer Cyfanswm Gwariant Perfformiad Cost a rhwng 20.3% a 21.8% yn erbyn Amcanion Strategol (Ffocws Blynnyddol) a Phersonol, gan wneud cyfanswm dyfardal o rhwng 73.9% a 75.4% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol;
- o dan LTVPS³, gwnaed taliadau am berfformiad yn ymwneud â dwy elfen o'r cynllun: Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gwerth Cwsmeriaid.

Gwasanaeth Cwsmeriaid: Ni fydd alldro terfynol perfformiad Dull Cymell Gwasanaeth (SIM) Dŵr Cymru yn 2016-17 yn hysbys tan yn ddiweddarach yn yr haf. Fodd bynnag, amcangyfrifwn y bydd Dŵr Cymru yn y pedwerydd safle allan o ddeg o blith cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a fydd yn arwain at ddyfarnu 7.5% o'r cyflog (25% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon o'r LTVPS) am elfen Gwasanaeth Cwsmeriaid y dyfardaliad, a gyfrifir ar sail SIM cyfartalog tair blynedd treigl;

Gwerth Cwsmeriaid: dyfarnwyd taliad o 28% o'r cyflog (93.3% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon o'r LTVPS) o dan y cynllun am elfen Gwerth Cwsmeriaid o ystyried cyflawniad ariannol yn y cyfnod.

GWEITHREDU'R POLISI CYDNABYDDIAETH YN 2017-18

Mae'r Egwyddorion Cydnabyddiaeth cytûn yn pwysleisio y dylai cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r tîm Gweithredol ehangach fod yn gyson â buddiannau'r Grŵp, ac yn arbennig fuddiannau cwsmeriaid. Byddant yn parhau i lywodraethu ein dull gweithredu yn 2017-18. Y pwyntiau allweddol o ran gweithredu'r Polisi Cydnabyddiaeth yn 2017-18 yw:

- Cynyddodd cyflogau 1.6% o 1 Ebrill 2017 yn unol â'r dyfarniad cyflog a gafodd gyflogaion eraill;
- o dan yr AVPS, mae'r uchafswm y gellir ei ennill yn 2017-18 yn parhau ar lefel o 100% o'r cyflog. Bydd y Cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar gwsmeriaid, cydymffurfiaeth, cost ac amcanion personol, yn ogystal â nifer o fesurau hollbwysig eraill o ran llwyddiant byrdymor a thymor canolog;
- mae'r LTVPS yn nodi mai'r uchafswm cyffredinol y gellir ei ennill yng nghyfnod rheoleiddio pum mlynedd AMP6 yw 300% o'r cyflog sylfaenol (h.y. 60% y flwyddyn). Mae hanner yr LTVPS yn destun mesurau Gwasanaeth Cwsmeriaid ac mae hanner yn destun mesurau Gwerth Cwsmeriaid.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i New Bridge Street (Aon Hewitt) am y cyngor proffesiynol a roddwyd drwy gydol y flwyddyn.

Mae Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr yn cynnwys:

- Adroddiad Polisi Cydnabyddiaeth (tudalennau 85-87). Cafodd Polisi Cydnabyddiaeth y Grŵp gymeradwyaeth gyfrwngol Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2015. Mae'r Pwyllgor yn dal i fod yn fodlon bod y polisi yn parhau'n briodol ac yn addas at y diben ac mae'n bwriadu iddo gwmpasu cyfnod o dair blynedd tan Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2018.
- Adroddiad Blynnyddol ar Gydnabyddiaeth (tudalennau 88-94) sy'n disgrifio sut y cafodd y Polisi Cydnabyddiaeth ei weithredu ar gyfer 2016-17 a sut rydym yn bwriadu ei gymhwyso ar gyfer 2017-18. Bydd yr Adroddiad Blynnyddol ar Gydnabyddiaeth yn destun pleidlais gynghorol gan Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2017.

Anna Walker

Anna Walker

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

8 Mehefin 2017³

3. Paratowyd yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn yn unol â darpariaethau atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) (Diwygio) 2013 ac mae'n cydymffurfio'n llawn â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

ADRODDIAD POLISI

Cafodd rhannau allweddol o'r Adroddiad Polisi a gymeradwywyd gan Aelodau Glas yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015 eu cynnwys eto yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder. Ceir yr Adroddiad Polisi gwreiddiol ar dudalennau 76 i 78 yn Adroddiad a Chyfrifon 2015 ar wefan y Cwmni: dwrcymru.com/reports

POLISI CYDNABYDDIAETH

Cafodd egwyddorion a fframwaith y Polisi Cydnabyddiaeth presennol eu cymeradwyo gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 3 Gorffennaf 2015 a daethant i rym o'r dyddiad hwnnw.

Mae'r Polisi yn cysoni cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r broses o roi strategaeth Dŵr Cymru ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. O dan y polisi, mae cydnabyddiaeth yn gysylltiedig â pherfformiad blynyddol a thros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015.

Gweithredir y Polisi er mwyn sicrhau'r canlynol:

- yr ystyrir bod lefelau cyflog sylfaenol a chyfanswm cydnabyddiaeth (o'u hasesu yn erbyn y farchnad o bryd i'w gilydd) yn deg ac yn gystadleuol gan ystyried profiad a chyfrifoldeb unigolyn;
- y caiff perfformiad ei wella drwy annog cyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth i gael ei thalu fel cyflog amrywiadwy, tra'n cydbwysu hyn â chyflog sylfaenol er mwyn sicrhau nad oes cymhelliant i gymryd gormod o risg;
- bod cymhellion yn canolbwyntio ar berfformiad perthynol Dŵr Cymru o'i feincnodi yn erbyn cwmnïau eraill gan Ofwat a rheoleiddwyr eraill, er mwyn cymhellu perfformiad sy'n arwain y sector mewn ffordd dryloyw ac atebol;
- bod yr LTVPS yn canolbwyntio ar berfformiad strategol ac ariannol hirdymor Dŵr Cymru.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn nodi y bydd yn goruchwyllo trefniadau cydnabyddiaeth y busnes cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried effaith y polisi yn sgil y materion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu ehangach.

Mae'r Grŵp yn negodi cyflogau ar gyfer y gweithlu ehangach gyda'r tri undeb llafur cydnabyddedig drwy ddull gweithredu un bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried y cynnydd y cytunwyd arno ar gyfer y sylfaen cyflogaion ehangach ac yn adolygu arferion ac amodau'r farchnad. Mae'r Mesurau Llwyddiant a'r elfennau cost sydd wrth wraidd AVPS Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r tîm Gweithredol ehangach hefyd yn sail i drefniadau cyflog amrywiadwy y sefydliad cyfan. Nid yw'r Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol â chyflogaion ar gyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol, ond mae'n ceisio barn y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn rheolaidd ac yn ystyried safbwyntiau a fynegir mewn trafodaeth ag Aelodau Glas.

DISGRESIWN Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu'r AVPS a'r LTVPS yn unol â'u priod bolisiau cynllun ac yn unol â'r Rheolau Rhestru lle bo'n berthnasol. Mae'r Pwyllgor yn cadw ei ddisgresiwn, yn gyson ag arfer y farchnad, o ran gweithredu a gweinyddu'r cynlluniau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, ystyried materion diogelwch neu enw da o bwys, neu waethgiad sylweddol mewn perfformiad. Mae rheolau'r cynllun yn caniatáu adfachu cyflog amrywiadwy gan gyfarwyddwyr, boed hynny cyn neu ar ôl breinio dyfarndaliadau.

GORUCHWYLLO POLISIAU CYDNABYDDIAETH AR GYFER Y GRŴP Ehangach

Fel rhan o'i adolygiad parhaus o bolisiau, mae'r Pwyllgor yn ystyried strwythur cydnabyddiaeth y Grŵp cyfan, a phriodoldeb targedau, tra'n cydnabod mai mater i'r tîm Gweithredol yw manylion polisiau cyflog y gweithlu ehangach a sut y cânt eu gweithredu.

Mae Ffigur 1 yn crynhoi elfennau pecynnau cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â Pholisi Cydnabyddiaeth⁴ y Grŵp.

FFIGUR 1: YR ELFENNAU SY'N RHAN O BECYNNAU CYDNABYDDIAETH Y CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

	Diben a chyswilt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	Er mwyn helpu i recriwtio, cadw a chymhell cyflogeion o galibr uchel	Caiff ei adolygu bob blwyddyn fel arfer a chaiff unrhyw godiadau eu cymhwyso o 1 Ebrill. Mae'r adolygiad yn adlewyrchu: — rôl, profiad a pherfformiad — amodau economaidd ehangach — y codiadau a ddyfernir i weddill y gweithlu ehangach — mae'n ystyried lefelau mewn cyfleustodau eraill yn y farchnad ehangach o bryd i'w gilydd	Codiadau blynyddol fel arfer yn gysylltiedig â rhai'r gweithlu ehangach, er bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cadw'r hawl i ddyfarnu codiadau unigol uwchlaw'r lefel hon lle bo'n briodol. Datgelir cyflogau cyfredol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth	Dim
Buddiannau	Darparu pecyn buddiannau sy'n gystadleuol o gymharu â'r farchnad er mwyn helpu i recriwtio a chadw Cyfarwyddwyr Gweithredol Mae buddiannau gofal iechyd yn hybu parhad y busnes	Mae gan y Cyfarwyddwyr yr hawl i yswiriant iechyd preifat ac yswiriant bywyd Mae gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu hawl hanesyddol i yswiriant iechyd parhaol Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn cael ceir cwmni na lwfansau car Gall buddiannau eraill fel treuliau adleoli neu lwfansau teithio/llety gael eu cynnig fel y bo'n briodol.	Mae gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Grŵp ac ni chaiff ei bennu ymlaen llaw	Dim
Pensiwn	Er mwyn helpu i recriwtio a chadw cyflogeion o galibr uchel Darpariaeth cynllunio arwahanol ar ôl ymddeol	Cymerodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu ran yng Nghynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Dŵr Cymru yn 2016-17. Hyd at 31 Mawrth 2017, lle'r oedd cyfraniadau naill ai'n fwy na'r terfynau ar gyfer cyfraniadau oes neu gyfraniadau blynyddol, gwnaed darpariaeth drwy EFRBS nas ariannwyd. O 1 Ebrill, cafodd aelodau gweithredol a oedd yn trosglwyddo i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru uchafswm cyfraniad cyflogwr o hyd at 24% o gyflog gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod amgen sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogwr. Oedran ymddeol arferol o 60. Ar gyfer aelodau gweithredol Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru y cyfraniad mwyaf y gall y cyflogwr ei wneud i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru yw 11% ar yr amod bod y cyflogai yn cyfrannu 6% neu fwy. Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd eu cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i gyfraniad cyffredinol y cyflogwr.	O 1 Ebrill 2017, caiff y Prif Weithredwr lwfans arian parod amgen o 21.1% o gyflog a chaiff y Prif Swyddog Gweithredu lwfans arian parod amgen o 15.8% o gyflog. Mae'r gwerth yn cyfateb i daliadau blaenorol ond yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng arall.	Dim
AVPS	Er mwyn cymhell unigolion i gyflawni targedau ymestynnol ac amcanion personol bob blwyddyn	Adolygir targedau AVPS bob blwyddyn gan y Pwyllgor Cynllunnir y targedau mewn perthynas â meysydd busnes y mae gan y tîm Gweithredol reolaeth benodol drostynt Pennir yr alldro gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau ac: — fe'u telir fel arian parod; — nid ydynt yn bensiynadwy Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: — ailddatgan cyfrifon; — camliwio sylweddol; — camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da'r Cwmni neu Gwmnïau'r Grŵp Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r hawl i wrthod dyfardaliadau os bydd materion o bwys yn effeithio ar ddiogelwch neu enw da'r cwmni. Gall dyfardaliadau AVPS gael eu hadfachu naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn ariannol benodol neu ar gyfer cyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.		Caiff mesurau eu cysoni â themâu'r Cynllun Busnes sef Cwsmer, Cydymffurfiaeth a Chost, gyda targedau ffocws blynyddol a phersonol ychwanegol (Gweler tudalen 88)

4. Wrth gymeradwyo'r Polisi Cydnabyddiaeth hwn, rhoddwyd awdurdod i'r Grŵp anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau a wnaed â Chyfarwyddwyr cyfredol neu gyn-Gyfarwyddwyr sydd wedi'u datgelu mewn Adroddiadau Cydnabyddiaeth blaenorol. Caiff manylion unrhyw daliadau i gyn-Gyfarwyddwyr eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth wrth iddynt godi fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Cydnabyddiaeth.

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
LTVPS	Er mwyn cysoni buddiannau hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â buddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru Er mwyn cymell unigolion i greu gwerth yn yr hirdymor Er mwyn helpu i gadw cyflogeion	Dyfarndaliadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad ymestynnol sy'n ymwneud â: — perfformiad SIM cymharol am gyfnod treigl o dair blynedd — mesur cyfunol o'r twf mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: — ailddatgan cyfrifon — camliwio sylweddol — camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da'r Cwmni neu Gwmnïau'r Grŵp Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r hawl i wrthod dyfarndaliadau os bydd materion o bwys yn effeithio ar ddiogelwch neu enw da'r cwmni. Gall dyfarndaliadau LTVPS gael eu hadfachu naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn ariannol benodol neu ar gyfer cyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	300% o'r cyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020 (dyfardaliad posibl o 60% y flwyddyn fan bellaf).	50% yn seiliedig ar berfformiad SIM cymharol 50% yn seiliedig ar berfformiad ariannol (Gweler tudalen 88)
Ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol	Mae'n rhoi lefel briodol o ffi sefydlog i recriwtio a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu ar y ffi sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cadeirydd yn cymeradwyo lefel y ffi sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Gall pob Cyfarwyddwr gael ei dalu am dreuliau yr eir iddynt mewn perthynas â'i rôl ar y Bwrdd ac unrhyw oblygiadau o ran buddiannau trethadwy sy'n deillio o hynny.	Ni thelir unrhyw ffioedd i Gyfarwyddwyr Anweithredol am gadeirio Pwyllgorau Telir mwy i'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol er mwyn adlewyrchu ehangder ei ddyletswyddau neu ei ddyletswyddau.	Dim
Penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd	Caiff lefelau cyflog sylfaenol eu pennu i adlewyrchu profiad yr unigolyn, data priodol ar y farchnad a gwybodaeth gymharol fewnol. Os ystyrir ei bod yn briodol penodi Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyflog sy'n is na lefel y farchnad, mae'n bosibl y swydd. Bydd hyn yn gymwys i benodiadau mewnol ac allanol. Y polisi fydd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd fod yn rhan o'r strwythur cydnabyddiaeth a nodir uchod. Gallai'r eithriadau i hyn gynnwys pennu mesurau gwahanol neu roi trefniadau trosiannol ar waith pe bai Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymuno hanner ffordd drwy'r cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd. Ar gyfer y sawl a gaiff eu dyrchafu'n Gyfarwyddwyr Gweithredol yn fewnol, nid effeithir ar yr hawl i AVPS na LTVPS a gronnwyd yn flaenorol, hyd at y dyddiad penodi. Pe bai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth o'r farn bod angen prynu tâl cymhelliant y byddai unigolyn yn ei fforffedu pan fyddai'n gadael ei gyflogwr presennol, caiff iawndal o'r fath, lle y bo'n bosibl, ei strwythuro er mwyn sicrhau bod telerau'r prynu yn adlewyrchu ffurf a strwythur y gydnabyddiaeth a gaiff ei disodli.			
Polisi ar gyfer taliadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n ymadael	Mae cyfnod rhybudd o 12 mis ynghlwm wrth gontactau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer talu iawndal os bydd y Grŵp yn terfynu contract yn gynnar. Yn ôl disgrisiwn y Grŵp, gellir talu cyflog sylfaenol yn unig yn lle rhybudd i Gyfarwyddwr Gweithredol. Os bydd y Grŵp yn dewis gwneud taliad yn lle rhoi rhybudd, mae elfen sylweddol o liniaru yn rhan o'r contract. Pan fydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael oherwydd diswyddiadau ac nad yw'n ofynnol iddo weithio ei gyfnod rhybudd, bydd ganddo'r hawl i Dâl Diswyddo Statudol ynghyd â chyflog 12 mis yn lle rhybudd ynghyd â thâl yn lle gwyliau sydd wedi cronni ond nas cymerwyd. Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymddiswyddo, disgwylir iddo weithio cyfnod rhybudd oni chytunir ar drefniant omgen megis absenoldeb gorddio neu gyfnod rhybudd llai. Os bydd y Grŵp yn terfynu cyflogaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol, bydd y Grŵp yn gofyn am gyngor cyfreithiol a dim ond y swm y bydd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol hawl gyfreithiol i'w gael a delir iddo. Os daw cyflogaeth i ben, caiff dyfarndaliadau AVPS ac LTVPS eu trin yn unol â rheolau'r cynllun perthnasol sy'n disgrifio'r modd yr ymdrinnir ag unrhyw daliad drwy gyfeirio at dermau gadael 'da' neu 'wael'. Caiff y Cyfarwyddwr Gweithredol gadw unrhyw swm wedi'i freinio a dalwyd iddo eisoes cyn y dyddiad y daeth ei gyflogaeth i ben.			

ADRODDIAD BLYNYDDOL
AR GYDNABYDDIAETH

Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer
Cyfarwyddwyr Gweithredol
— gweithredu'r polisi

CYFLOG

Yn dilyn adolygiad ym mis Mawrth 2017, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi pennu'r cyflogau sylfaenol ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2017-18 (yn weithredol o 1 Ebrill 2017) fel y nodir yn ffigur 2. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd o 1.6% a ddyfarnwyd i gyflogeion ar 1 Ebrill 2017 yn unol â'r cytundeb cyflog pum mlynedd â thri undeb llafur cydnabyddedig y Grŵp (GMB, UNSAIN ac UNITE) yn 2015 a'r cyflogeion hynny nad ydynt yn rhan o Gytundeb Gweithio gyda'n Gilydd. Ystyriwyd manylion cyflogau sylfaenol Cyfarwyddwyr Gweithredol o fewn Dŵr Cymru a'r Diwydiant Dŵr yn gyffredinol yn ystod y negodi.

FFIGUR 2: CYFLOGAU SYLFAENOL CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

	Yn weithredol o 1 Ebrill 2016	Yn weithredol o 1 Ebrill 2017
Chris Jones	£292,585	£297,267
Peter Perry	£236,437	£240,220
Peter Bridgewater	£236,437	£240,220

FFIOEDD SY'N DALADWY I'R CADEIRYDD

Cafodd y ffioedd sy'n daladwy i'r Cadeirydd eu hadolygu ym mis Mawrth 2016 ac ni wnaed unrhyw newid yr adeg honno, gan arwain at rewi ffioedd y Cadeirydd ar lefelau 2015. Cynhaliwyd adolygiad arall ym mis Mawrth 2017 a phenderfynodd y Pwyllgor y dylai ffi'r Cadeirydd gynyddu o £212,000 i £215,400 y flwyddyn (1.6% wedi'i dalgrynnu) o 1 Ebrill 2017 yn unol â'r gweithlu ehangach.


FFIOEDD SY'N DALADWY I GYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL

Cafodd y ffioedd sy'n daladwy i Gyfarwyddwyr Anweithredol eu hadolygu ym mis Mawrth 2015 ac yna ym mis Gorffennaf 2016 (gan ôl-ddyddio newidiadau i fis Ebrill 2016). Ni wnaed unrhyw newid yn 2015 gan arwain at rewi ffioedd ar lefelau 2014. Ym mis Gorffennaf 2016 cafodd y ffioedd eu cynyddu tua 1.5% o 1 Ebrill 2016 i £58,900 ar gyfer y Cyfarwyddwyr Anweithredol (o £58,000) ac i £69,700 ar gyfer yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (o £68,700). Cynhaliwyd adolygiad arall ym mis Mawrth 2017 a phenderfynodd y Bwrdd y dylai ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol gynyddu o £58,900 i £59,850, gyda ffi'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cynyddu o £69,700 i £70,820 (tua 1.6% ym mhob achos) o 1 Ebrill 2017.

CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY BLYNYDDOL (AVPS)

Mae'r uchafswm tâl amrywiadwy y gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ei ennill o dan yr AVPS yn 2017-18 yn ddigyfnewid ac yn cyfateb i 100% o'r cyflog sylfaenol. Asesir cyflawniad tâl amrywiadwy ar sail pum elfen, sy'n gyson â'r ffordd y gweithredwyd yr AVPS yn 2016-17, fel y nodir yn ffigur 3. Noder bod pwysoliadau unigol fesul elfen wedi newid fel y gwelir isod.

FFIGUR 3: STRWYTHUR CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY BLYNYDDOL 2017-2018



CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY HIRDYMOR (LTVPS)

Amcan yr LTVPS yw cysoni'r agweddau tymor hwy ar gyfanswm y gydnabyddiaeth â pherfformiad y Cwmni dros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd a ddaw i ben 31 Mawrth 2020. Mae'r dyfardaliadau yn cynnwys taliad arian parod. O dan yr LTVPS, gellir gwneud dyfardaliadau ar sail perfformiad yn erbyn y ddau fesur arwahanol canlynol:

- **Dyfardal Gwerth Cwsmeriaid**, sy'n cyfuno dau fesur ariannol o'r cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn (gwerth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net) a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (sy'n cynrychioli symiau sydd ar gael o ran Dyrannu i Gwsmeriaid) yn ystod y cyfnod rheoleiddio. Mae'r cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn (fel mesur o sefyllfa ariannol) a'r Trosglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (fel mesur o lifau ariannol), a gaiff eu cyfrifo ar wahân ond a gaiff eu hychwanegu at ei gilydd, yn nodi cyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid (a ddychwelwyd ac a gadwyd) gan y Grŵp. Yn y pen draw, dyma'r amcan ariannol pwysicaf i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r mesur cyfunol hwn, sy'n parhau i fod yn benodol i Grŵp Glas, yn pennu targedau sy'n gyson â'r Cynllun pum mlynedd.
- **Dyfardal Gwasanaeth Cwsmeriaid**, a fesurir yn ôl safle cyfartalog Dŵr Cymru yn nhabl cynghairir Ofwat ar gyfer SIM dros gyfnod treigl o dair blynedd. Felly caiff y Dyfardal Gwasanaeth Cwsmeriaid ei lywio gan berfformiad cymharol Dŵr Cymru o'i gymharu â chwmnïau tebyg yn y sector ac mae'n gwobrwyo'r perfformiad hwnnw hefyd. Defnyddir SIM ar gyfer y Dyfardal Gwasanaeth Cwsmeriaid ac mae'n cynnwys dau fesur gwasanaeth cwsmeriaid: mesur ansodol sy'n adlewyrchu canlyniadau gwaith ymchwil annibynnol a wnaed ar ran Ofwat i nodi boddhad cwsmeriaid â'r gwasanaeth a gawsant; a mesur meintiol sy'n cwmmpasu cwynion gan gwsmeriaid a galwadau diangen.

Mae targedau perfformiad LTVPS yn adlewyrchu uchelgais y Bwrdd y dylai Dŵr Cymru gael ei restru ochr yn ochr â phrif gwmnïau'r diwydiant ar fesurau allweddol o ran gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd ariannol hirdymor er budd cwsmeriaid.

Disgrifir y targedau perfformiad o dan bob un o'r dyfarndaliadau LTVPS yn fanylach yn ffigur 4.

FFIGUR 4: MESURAU PERFFORMIAD LTVPS


	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Gwerth Cwsmeriaid ¹
Mesurau perfformiad	Mesurir drwy gyfeirio at fesur SIM Ofwat.	Gwerth cwsmer gwirioneddol (cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid wrth Gefn) a grëwyd ar 31 Mawrth 2020 (diwedd cyfnod AMP6) o gymharu â'r targedau.
Rhesymeg dros y mesurau dethol	Mesur SIM Ofwat o brofiad y defnyddiwr sy'n annibynnol, gwrthrychol a mesuradwy, ac sy'n ei gwneud yn bosibl i berfformiad cymharol gael ei gymharu â chwmnïau dŵr a chorthffosioeth eraill.	Dyma'r mesur ariannol mwyaf cadarn o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid gan y Cwmni.
Cyfnod y Perfformiad	Tair blwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol y gwneir dyfarnal ynddi.	1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2020 – fel y dangosir yn Ffigur 5 isod.
Targed perfformiad^{2,3}	O blith 10 o gwmnïau dŵr a chorthffosioeth y DU: – 100% o'r dyfarnal yn daladwy am gyrraedd y safle cyntaf – 75% o'r dyfarnal yn daladwy am gyrraedd yr ail safle – 50% o'r dyfarnal yn daladwy am gyrraedd y trydydd safle – 25% o'r dyfarnal yn daladwy am gyrraedd y pedwerydd safle – 0% o'r dyfarnal yn daladwy am gyrraedd y pumed safle neu is.	Uchafswm o 30% o'r dyfarnal bob blwyddyn os yw'r gwerth a grëir yn unol â'r targedau a bennir bob blwyddyn ond a bennir dair blynedd ymlaen llaw: – 100% o'r dyfarnal yn daladwy am gyflawni targed ymestynnol – 66% o'r dyfarnal yn daladwy am gyflawni'r targed – 0% am berfformiad sy'n cyrraedd y trothwy neu sy'n is na'r trothwy – Dyfarnal pro rata yn daladwy am berfformiad rhwng y terfynau hyn Ar gyfer y tri chyfnod nesaf o berfformiad, mae'r targed Gwerth Cwsmeriaid ar gyfer y flwyddyn olof ym mhob cyfnod yn £129 miliwn, £173 miliwn a £189 miliwn.

Troednodyn i Ffigur 4

- Gellir diwygio'r targedau gwerth cwsmeriaid mewn rhai amgylchiadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae (i) gwahaniaethau rhwng y chwyddiant gwirioneddol a'r tybioethau a wnaed yn wreiddiol; (ii) unrhyw ffactorau allanol sylweddol eraill y mae'r Pwyllgor yn penderfynu eu bod y tu hwnt i ddylanwad y Cyfarwyddwyr Gweithredol.
- Gellir gohirio taliadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor os bydd dirywiad sylweddol mewn perfformiad. Gellir gohirio taliadau am hyd at ddwy flynedd, neu nes bod y diffyg wedi'i unioni, p'un bynnag a ddigwydd gyntaf.
- Wrth benderfynu ar lefel unrhyw ddyfarnal, bydd y Pwyllgor yn ystyried sgôr bondiau'r Grŵp a gall yn ôl ei ddisgrisiwn ohirio'r dyfarnal cyfan neu ran ohono os cânt eu gwyllo gan asiantaethau credyd neu eu hisraddio.

Dangosir y cyfnod y penderfynir ar berfformiad a'r dyddiadau talu posibl yn ystod y cyfnod rheoliadol yn y diagram yn ffigur 5. Nodir manylion y taliadau a wnaed o dan LTVPS ar gyfer 2016-17 yn ffigur 6.

FFIGUR 5: CYFNOD PERFFORMIAD LTVPS



BETH A DALWYD YN 2016-2017 A'R CYSWLLT RHWNG CYFLOG A PHERFFORMIAD

TALIADAU A WNAED I GYFARWYDDWYR YN 2016-2017

Mae ffigur 6 yn nodi enillion Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

FFIGUR 6: TALIEDAU A BUDDIANNAU A ENILLWYD GAN GYFARWYDDWYR YN 2016-2017

	Cyflog/Ffioedd		Buddiannau trethadwy ¹		Arall		AVP ²		LTVPS ³		Cyfanswm	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Chris Jones	288,261	292,585	948	1,068	-	-	202,647	220,609	112,422	114,839	604,278	629,101
Peter Bridgewater	232,943	236,437	948	1,068	12,000	12,000	166,088	174,727	90,848	92,801	502,827	517,033
Peter Perry	232,943	236,437	948	1,068	-	-	166,088	177,091	90,848	92,801	490,827	507,397
Robert Ayling	212,000	58,048	-	-	-	-	-	-	-	-	212,000	58,048
Alastair Lyons	-	165,778	-	-	-	-	-	-	-	-	-	165,778
Stephen Palmer	58,000	58,900	-	-	-	-	-	-	-	-	58,000	58,900
James Strachan	15,130	-	-	-	-	-	-	-	-	-	15,130	-
Menna Richards	68,700	69,700	-	-	-	-	-	-	-	-	68,700	69,700
Anna Walker	58,000	58,900	-	-	-	-	-	-	-	-	58,000	58,900
John Warren	58,000	58,900	-	-	-	-	-	-	-	-	58,000	58,900
Graham Edwards	58,000	58,900	-	-	-	-	-	-	-	-	58,000	58,900
Joanne Kenrick	24,167	58,900	-	-	-	-	-	-	-	-	24,167	58,900
Cyfanswm	1,306,144	1,353,485	2,844	3,204	12,000	12,000	534,823	572,427	294,117	300,441	2,149,928	2,241,557

Pensiwn ⁴		
2015/16	2016/17	
£	£	
Chris Jones	142,152	144,199
Peter Bridgewater	25,624	26,008
Peter Perry	64,514	129,585
Cyfanswm	232,290	299,792

Cyfanswm ⁵		
2015/16	2016/17	
£	£	
Chris Jones	746,430	773,300
Peter Bridgewater	528,451	543,041
Peter Perry	555,341	636,982
Cyfarwyddwyr Anweithredol	551,997	588,026
Cyfanswm	2,382,218	2,541,349

Nodiadau i'r tabl
Newidiadau o ran Cyfarwyddwyr: Ymunodd Alastair Lyons â'r Bwrdd ar 1 Mai 2016 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd ar 8 Gorffennaf 2016. Ymddiswyddodd Robert Ayling o'r Bwrdd ar 8 Gorffennaf 2016. Ymddiswyddodd James Strachan o'r Bwrdd ar 3 Gorffennaf 2015. Mae'r ffigurau uchod ar sail pro rata ar gyfer y cyfnod mewn swydd.

1. Mae buddiannau trethodwy yn ymwneud ag yswiriant iechyd preifat.

2. Gweler pennu canlyniad AVPS ar dudalen 91. Arweiniodd perfformiad yn erbyn targedau AVPS yn 2016-17 at daliad uwch nag yn 2015-16.

3. Gweler pennu canlyniad LTVPS ar dudalen 91. Roedd y taliad amcangyfrifedig ar gyfer 2015/16 yn 46.5% o'r cyflog sylfaenol. Roedd y taliad gwirioneddol yn 39% o'r cyflog sylfaenol.

4. Mae'r cyfraniad pensiwn ar gyfer Peter Bridgewater yn lwfans orian parod amgen. Ar gyfer 2016-17 cyfrifwyd mewnbyn pensiwn Chris Jones a Peter Perry fel gwerth y cynnydd mewn buddiannau pensiwn Buddiannau Diffiniedig uwchlaw chwyddiant. Gweler Ffigur 8 am gyfrifiad llawn.

5. Y Cyfarwyddwr a dalwyd y mwyaf yn 2016-17 oedd Chris Jones a gafodd £762,329 (£768,049 yn 2015-16).

PENNU CANLYNIAD AVPS 2016-17

Ar gyfer 2016-17, mesurodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad yn erbyn pob targed, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni strategaeth y Cwmni, fel y nodir yn y tabl isod. Arweiniodd perfformiad yn 2016-17 at ddyfardal AVPS o rhwng 73.9% a 75.4% o gymharu â rhwng 70.3% a 71.3% ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn 2015-16.

FFIGUR 7: CANLYNIAD AVPS 2016-2017 (ARCHWILIEDIG)

Mesur	Pwysoliad	Crynodeb o'r targedau (% cyflog)	Canlyniad	% o'r uchafswm
Cwsmer a chydymffurfiaeth	20%	Trothwy 5% Targed 12.5% Ymestyniad 20%	12.9%	64.5%
Cydymffurfiaeth	20%	Trothwy 8% Targed 14% Ymestyniad 20%	17.1%	85.5%
Cost	30%	Trothwy 6% Targed 18% Ymestyniad 30%	23.6%	78.7%
Mesurau ffocws blynyddol	20%	Trothwy 4% Targed 12% Ymestyniad 20%	12.8%	64.0%
Personol	10%		7.5 - 9%	75.0 - 90.0%
Cyfanswm	100%		73.9-75.4%	73.9-75.4%

Nodiadau i'r tabl

Amcanion Personol: Roedd amcanion personol (gwerth hyd at 10% o'r cyflog sylfaenol) y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyson â chyflawni amcanion strategol allweddol Dŵr Cymru a chyflawni cynllun busnes 2017.

- Prif amcan personol Chris Jones oedd gweithredu'r strategaeth a arweinir gan Gwsmeriaid mewn modd perthnasol. Wrth asesu cyflawniad yr amcan hwn, ystyriodd y Pwyllgor yn arbennig fesurau megis y graddau y datblygwyd diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a chymarioethau â strategaethau a arweinir gan Gwsmeriaid mewn busnesau eraill sy'n delio â chwsmeriaid, yn ogystal ag asesiad goddrychol o farn cwsmeriaid. Ym marn y Pwyllgor roedd Chris Jones wedi cyflawni ei brif amcan personol i raddau helaeth a dyfarnwyd 9% o'i gyflog iddo.
- Prif amcan personol Peter Bridgewater oedd gweithredu strategaeth fasnachol Glas Cymru mewn modd perthnasol. Wrth asesu cyflawniad yr amcan hwn, ystyriodd y Pwyllgor yn arbennig faterion megis llwyddo i ddatblygu'r strategaeth fasnachol gan ddiffinio meysydd ffocws a chynllun gweithredu, sicrhau Trwydded Cyflenwi Dŵr a Charthffosiaeth i Laegr erbyn mis Rhagfyr 2016 a sefydlu timau newydd yn barod i agor y farchnad ym mis Ebrill 2017. Ym marn y Pwyllgor roedd Peter wedi gwneud cynnydd perthnasol wrth gyflawni ei brif amcan personol a dyfarnwyd 7.5% o'i gyflog iddo.
- Prif amcanion personol Peter Perry oedd sicrhau trosglwyddiad effeithiol i brif gontractwr TG newydd er mwyn cyflawni arbedion opex a datblygu a gweithredu "cynllun parodrwydd" cyfanwerthu yn barod i agor y farchnad ym mis Ebrill 2017. Wrth asesu cyflawniad yr amcanion hyn, ystyriodd y Pwyllgor yn arbennig lwyddo i drosglwyddo'n effeithiol i'r prif gontractwr TG heb amharu ar y gwasanaeth a chyflawni £700,000 o arbedion opex, datblygu'r Ganolfan Gwasanaeth Cyfanwerthu, a sefydlu llwybrau proses clir yn barod i agor y farchnad ym mis Ebrill 2017. Ym marn y Pwyllgor roedd Peter wedi cyflawni ei brif amcanion personol i raddau helaeth a dyfarnwyd 8.5% o'i gyflog iddo.

PENNU CANLYNIAD LTVPS 2016-17 (ARCHWILIEDIG)

Ni fydd sgôr SIM Dŵr Cymru o gymharu â sgoriau SIM cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill dros y cyfnod perfformiad o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2017 yn hysbys tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ar yr adeg hon, amcangyfrifir ei fod yn gydradd drydedd, ac os felly'r dyfarddaliad fyddai 11.25% o gyflog (37.5% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon). Pennir y dyfarddaliad gwirioneddol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn pan gyhoeddir gwybodaeth gymharu lawn gan Ofwat. Yr uchafswm posibl yw 30% o gyflog.

Ar gyfer yr elfen Gwerth Cwsmeriaid o'r cynllun a fesurwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, gwnaed taliad o 28% o gyflog (93.3% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon). Seiliwyd hyn ar benderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth mai'r cyfanswm gwerth a gynhyrchwyd at ddibenion LTVPS yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 oedd £141 miliwn yn erbyn targed o £133 miliwn (ac ymestyniad o £143 miliwn). Y cyfanswm gwerth a grëwyd yw £200 miliwn sydd, at ddibenion asesu perfformiad LTVPS, wedi'i addasu am i lawr £59 miliwn er mwyn adlewyrchu chwyddiant uwch na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn.

BUDDIANNAU PENSIWN

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, roedd Chris Jones a Peter Perry ill dau yn aelodau o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru (y 'Cynllun'), sy'n drefniant pensiwn buddiannau diffiniedig.

Roedd buddiannau yn cronni yn ôl 1 rhan o 45 o Gyflog Pensiynadwy Terfynol ar gyfer pob blwyddyn o Wasanaeth Pensiynadwy yn achos Chris Jones ac 1 rhan o 60 o Gyflog Pensiynadwy Terfynol ar gyfer pob blwyddyn o Wasanaeth Pensiynadwy yn achos Peter Perry (yn amodol ar uchafswm pensiwn cyffredinol ar oedran ymdddeol arferol o ddwy ran o dair o Gyflog Pensiynadwy Terfynol). Mae'r Cynllun hefyd yn darparu yswiriant bywyd ar gyfradd pedair gwaith Cyflog Pensiynadwy am farwolaeth mewn swydd, pensiwn taladwy os bydd ymdddeoliad oherwydd salwch a phensiwn i briod sy'n daladwy os bydd aelod yn marw.

Mae Chris Jones a Peter Perry yn Aelodau Lwfans Oes a/neu Lwfans Blynnyddol wedi'u Capio o'r Cynllun a, lle mae eu buddiannau yn rhagori ar derfynau CThEM, darperir buddiannau ychwanegol drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS). Ni chaiff goblygiadau'r Cwmni o dan y cynllun EFRBS hwn eu hariannu. Fodd bynnag, mae'r cyfryw oblygiadau yn gyfwerth â rhwymedigaethau'r Cwmni, sy'n daladwy pan fyddant yn ddyledus.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn 2014-2015, penderfynwyd dileu'r hawl i bensiwn heb ei leihau mewn achos o ddiswyddiad neu ddileu gwirfoddol dewisol o 1 Ebrill 2015; dileu'r hawl i bensiwn Dŵr Cymru tra'n parhau mewn cyflogaeth; a chau Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i gronni buddiannau o 31 Mawrth 2017.

Fel iawndal, cytunwyd gwneud cyfraniadau cyflogwr uwch i Gynllun Pensiwn Personol y Grŵp yn achos y rhai yr effeithiwyd arnynt yn sgil cau'r cynllun tan 31 Mawrth 2020. Hefyd daeth cronni buddiannau yn yr EFRBS heb ei ariannu i ben o 31 Mawrth 2017.

Ym mis Ebrill 2016 cyflwynwyd cynllun arian parod amgen i uwch reolwyr.

Dewisodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu dderbyn lwfans arian parod amgen a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2017. Roedd y Prif Weithredwr mewn categori buddiannau aelod arbennig o'r EFRBS (gan gronni pensiwn ar gyfradd o un rhan o 45 o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn o gymharu ag un rhan o 60 o gyflog pensiynadwy a gronnwyd gan aelodaeth o Gynllun Pensiwn ehangach Dŵr Cymru). Felly,

cytunodd y Pwyllgor y câi'r priod welliannau cymesur eu rhoi i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu tan 31 Mawrth 2020.

O 1 Ebrill 2017, caiff y Prif Weithredwr lwfans arian parod amgen o 21.1% o gyflog a chaiff y Prif Swyddog Gweithredu lwfans arian parod amgen o 15.8% o gyflog. Dim ond tan 31 Mawrth 2020 y telir y taliadau uwch. Ar ôl hynny gwneir taliadau arian parod amgen ar lefel is.

Dangosir y buddiannau pensiwn a enillwyd gan y Cyfarwyddwyr sy'n rhan o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn ffigur 8 sydd wedi'i archwilio.

Ers iddo gael ei gyflogi ar 1 Medi 2014, mae Peter Bridgewater wedi dewis derbyn lwfans arian parod amgen o 11% o'i gyflog.

BUDDIANNAU ERAILL

Caiff y Cyfarwyddwyr Gweithredol fudd o yswiriant iechyd preifat. Mae gan Chris Jones a Peter Perry yswiriant iechyd parhaol hefyd.

FFIGUR 8: BUDDIANNAU PENSIWN

Dangosir y buddiannau pensiwn a enillwyd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn isod (archwiliedig)

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

	Oedran Ymddeol Arferol	Pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2015	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2015	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2015 ¹	Pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2016	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2016	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2016	Swm Mewnbwn Pensiwn (yn rhydd o gyfraniadau'r aelod) 2016 ²
Chris Jones	60	£125,072	£2,501,449	£2,531,466	£134,978	£2,699,562	£25,943	£142,152
Peter Perry	60	£128,981	£2,579,622	£2,610,577	£134,803	£2,696,056	£20,965	£64,514

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Oedran Ymddeol Arferol	Pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2016	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2016	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2016 ¹	Pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2017	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2017	Swm Mewnbwn Pensiwn (yn rhydd o gyfraniadau'r aelod) 2017 ²
Chris Jones	60	£134,978	£2,699,562	£2,699,562	£143,505	£2,870,094	£26,333	£144,199
Peter Perry	60	£134,803	£2,696,056	£2,696,056	£142,346	£2,848,920	£21,279	£129,585

Nodiadau ar fuddiannau:

1. Cynyddwyd yn unol â'r ffigur twf CPI gwirioneddol ar gyfer y mis Medi blaenorol - 1.2% ar gyfer cyfnod datgelu 2016 a 0.0% ar gyfer 2017.


2. Yn seiliedig ar werth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar ddiwedd y flwyddyn, llai gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar ddechrau'r flwyddyn.

- Mae pensiynau cronedig yn cynnwys Gwasanaeth Pensiynadwy blaenorol a gwblhawyd o dan Gynlluniau Pensiwn Hyder Water ac United Utilities.

- Mae'r ffigurau pensiwn cronedig yn cynnwys yr hawliadau safonol a fewn y Cynllun (sy'n gyfyngedig yn unol â therfynau CThEM) o'r buddiannau ychwanegol sy'n daladwy o dan y Cynllun EFRBS.

CYMHARU CYFLOGAU A PHERFFORMIAD CYFFREDINOL

Mae ffigurau 9 a 10 yn dangos sut mae ein dyfarndaliadau cyflog wedi cymharu â pherfformiad ac yn cymharu cyfanswm cyflog ein Prif Weithredwr â thwf blynyddol mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (h.y. gyda'r cronfeydd ariannol wrth gefn yn cynrychioli'r Gwerth Cyfalaf Rheoliadol llai dyled net) dros y saith mlynedd flaenorol.

FFIGUR 9: CRONFEYDD CWSMERIAID WRTH GEFN DROS GYFNOD O SAITH MLYNEDD HYD AT 31 MAWRTH 2017**FFIGUR 10: CYFLOGAU A PHERFFORMIAD CYFFREDINOL**

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr (Chris Jones)	-	-	-	£741,569	£973,688	746,430	773,300
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr (Nigel Annett)	£665,965	£677,770	£590,210	£709,890	-	-	-
Dyfarndal AVPS (Chris Jones)	-	-	-	51.1%	79.4%	70.3%	75.4%
Dyfarndal AVPS (Nigel Annett)	76.3%	77.6%	60.6%	49.9%	-	-	-
LTVPS ar gyfer AMP6	-	-	-	-	-	39%	39.25%
LTVPS ar gyfer AMP5	25.0%	40.0%	50.0%	78.6%	90.6%	-	-

Ar gyfer 2014, mae ffigurau ariannol llawn wedi'u darparu ar gyfer Chris Jones a Nigel Annett ac nid ydynt yn ymwneud â'r cyfnod fel Prif Weithredwr/Rheolwr Gyfarwyddwr yn unig. Dangosir LTVPS ar gyfer AMP5 fel canran o'r uchafswm yn hytrach na chanran o'r cyflog a ddwyfarnwyd.

PWYSIGRWYDD CYMHAROL GWARIANT AR GYFLOGAU

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried cost cydnabyddiaeth mewn perthynas â ffactorau eraill megis perfformiad y cwmni. Rhydd Ffigur 11 y newid o ran cyfanswm gwariant, cyfanswm costau cydnabyddiaeth cyflogeion a Chronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yn 2017 o gymharu â 2016.

FFIGUR 11: PWYSIGRWYDD CYMHAROL GWARIANT AR GYFLOGAU

	2016	2017	Newid	
	£m	£m	£m	%
Cyfanswm gwariant¹	754.8	868.5	113.7	15%
Costau cydnabyddiaeth cyflogeion	127.2	134.4	7.2	6%
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn²	2,137	2,301	164	8%
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol	1.83	1.95	0.12	6.7%

1. Gwariant gweithredol, gwariant cyfalaf a chostau cyllido.

2. Cyfalaf rheoliadol llai dyled net. Mae metrig ecwiti cwsmeriaid wedi'i gynnwys er mwyn galluogi cymharu â chwmnïau sy'n eiddo i gyfranddalwyr.

FFIGUR 12: NEWID CANRANNOL YNG NGHYFLOG Y PRIF SWYDDOG
GWEITHREDOL O GYM HARU Â CHYFLOGEION ERAILL

	Prif Weithredwr - newid % o 2015-16	Cyflogeion - newid % o 2015-16
Cyflog	1.5%	1.5%

MANYLION CONTRACTAU GWASANAETH A LLYTHYRAU PENODI
CYFARWYDDWYR

Mae dyddiadau contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

Chris Jones	11 Mai 2001
Peter Perry	1 Awst 2006
Peter Bridgewater	1 Medi 2014
Stephen Palmer	26 Hydref 2009
Menna Richards	22 Tachwedd 2010
Anna Walker	3 Mawrth 2011
John Warren	3 Mai 2012
Graham Edwards	1 Hydref 2013
Joanne Kenrick	1 Tachwedd 2015
Alastair Lyons	1 Mai 2016

Mae copïau o'r contractau gwasanaeth ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni. Am ragor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gweler tudalen 71.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod holl aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn annibynnol ac, yn achos Alastair Lyons, ystyriwyd ei fod yn annibynnol pan gafodd ei benodi'n Gadeirydd y Cwmni. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth drwy wahoddiad (ac eithrio lle y trafodir eu cydnabyddiaeth eu hunain). Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bum gwaith yn ystod 2016-17.

Yn 2016-17, derbyniodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor annibynnol gan New Bridge Street (NBS), sef un o enwau masnachol Aon Hewitt Limited (un o gwmnïau Aon plc). Mae NBS wedi ymrwymo i God Ymddygiad Grŵp y Cyngorwyr Cydnabyddiaeth a chaiff unrhyw gyngor a roddir ei lywodraethu gan y Cod. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cyngor a gaiff yn dal i fod yn annibynnol ac yn wrthrychol. Talwyd £55,343 i NBS am waith a wnaed yn 2016-17. Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal proses gaffael i ailbenodi/penodi ymgynghorwyr cydnabyddiaeth am gyfnod pellach o hyd at bum mlynedd.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Dylid darllen yr Adroddiad hwn ar y cyd â'r Adolygiad Strategol, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ac Adroddiad y Pwyllgor Archwilio sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Am ragor o wybodaeth, gweler y rhestr gynnwys ar dudalen 3. Ceir enwau a manylion bywgraffiadol cryno'r Cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2017 ar dudalennau 67 i 69 o'r ddogfen hon. Ymunodd Alastair Lyons fel cyfarwyddwr ar 1 Mai 2016. Gwasanaethodd Cyfarwyddwyr eraill drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo effeithiolrwydd ac ymrwymiad (ac, o ran y Cyfarwyddwyr Anweithredol, annibyniaeth) y Cyfarwyddwyr ac yn argymhell y dylai pob un ohonynt gael eu haillethol. Nodir manylion pellach yn Hysbysiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017 a gynhelir ddydd Gwener 7 Gorffennaf 2017.

Mae llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'w harchwilio drwy wneud cois i Ysgrifennydd y Cwmni. Nid oes gan unrhyw Gyfarwyddwr, ac ni fu gan unrhyw Gyfarwyddwr, fuddiant ariannol perthnasol, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract sy'n arwyddocaol i fusnes y Cwmni. Hefyd, ni ofynnwyd i'r Bwrdd arfer ei ddisgresiwn o dan Erthygl 57 o Erthyglau Cymdeithasu Glas Cymru sy'n caniatáu cymeradwyo gwrthdaro buddiannau posibl ac ni wnaeth hynny. Mae manylion am gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol a'r strategaeth gydnabyddiaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 sydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Bydd cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2017 yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Rydym yn cyhoeddi ein Cod Llywodraethu Corfforaethol ar ein gwefan. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Cyfarwyddwyr p'un a oedd y cwmni yn fusnes gweithredol a rhoddwyd datganiad ar hyfywedd hirdymor, sydd ar gael ar dudalen 63.

Mae gan y Cwmni yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion sy'n diogelu rhag camau cyfreithiol a gymerir yn erbyn y Cyfarwyddwyr ac indemniad mewn amgylchiadau lle nad yw Cyfarwyddwr wedi gweithredu'n dwyllodrus nac yn anonest. Mae'r indemniad yn indemniad sy'n gymwys at ddiben y Ddeddf Cwmnïau ac er budd yr holl Gyfarwyddwyr. Ni wnaed unrhyw hawliadau yn erbyn y polisi hwn ers dyddiad yr adroddiad diwethaf.

CYFLOGEION

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Grŵp 3,178 o gyflogeion. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar weithlu ymrwymedig, llawn cymhelliant. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl er mwyn ateb heriau gweithredu ein busnes yn y dyfodol. Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr na chyflogeion ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol ("nodweddion gwarchodedig" yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) nac unrhyw nodwedd bersonol arall. Os oes gan gyflogai anabledd neu os yw'n cael anabledd, rhown ystyriaeth i unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ei helpu i oresgyn neu leihau effaith hynny. Mae'n bolisi gan y Grŵp y dylai hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person ag anabledd, cyn belled â phosibl, fod yn union debyg i hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person nad oes ganddo anabledd. Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol mewn perthynas â chydweithwyr, y gadwyn gyflenwi a chwsmeriaid ac mae'n monitro ei gynnydd yn hyn o beth.

UNIGOLION Â RHEOLAETH SYLWEDDOL

Cadwn Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Sylweddol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Deddf 2015). Mae'r cwmni wedi nodi endidau cyfreithiol perthnasol y gellir eu cofrestru o fewn strwythur y Grŵp.





PETE PERRY AC ALASTAIR LYONS
YN YMWELD Â RHOSTIR COG

DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Gwrthwynebwn yn gryf gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ein cadwyni cyflenwi ac unrhyw ran o'r busnes. Mae ymddiried ynom i wneud y peth iawn yn un o'n gwerthoedd craidd. Ni fyddem byth yn ymwneud yn fwriadol â chyflenwyr na chontractwyr sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl. Mae ein Polisi Gwrthgaethwasiaeth yn amlinellu ymrwymiad Glas Cymru i ymddwyn yn foesegol ac yn onest o ran trefniadau ein cadwyni cyflenwi. Fel rhan o'n proses gaffael, bydd yn ofynnol i unrhyw gontractwr neu gyflenwr posibl gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ac, os cânt eu penodi, mae'n ofynnol iddynt rannu'r gofynion a osodwn arnynt ag unrhyw is-gontractwyr a ddefnyddiant i ddarparu eu gwasanaethau i ni. Bydd ein telerau ac amodau yn cynnwys darpariaethau cytundebol sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Rydym yn gweithredu'r darpariaethau newydd hyn fel rhan o bob cytundeb newydd, wrth adnewyddu cytundebau allweddol ac wrth gyflwyno archebion prynu. Rydym wedi ysgrifennu at ein cyflenwyr presennol i'w hatgoffa o ofynion y Ddeddf a'n polisi yn y maes hwn. Hyd yma, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gaethwasiaeth na masnachu mewn pobl yn ein cadwyn cyflenwi. Mae ein tîm Adnoddau Dynol yn cynnal polisiâu recriwtio i ddiogelu rhag caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn ein gweithrediadau ein hunain. Ceir rhagor o fanylion a'n datganiad ar wrthgaethwasiaeth yn y ddolen isod:

dwrcymru.com/Company-Statements

DATGANIAD Y CYFARWYDDWYR

Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru, yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu perfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth. Er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno, cafodd y Bwrdd ei gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:

- drafftwyd yr Adroddiad Blynyddol gan uwch reolwyr a goruchwyliwyd y broses gydgysylltu gyffredinol gan y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni er mwyn sicrhau cysondeb
- cynhaliwyd adolygiadau o fersiynau drafft gan aelodau o'r tîm Gweithredol a chynhaliwyd proses wirio a oedd yn cynnwys archwilwyr y Grŵp
- adolygwyd y fersiwn ddrafft derfynol gan y Pwyllgor Archwilio cyn iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd, a'i chyflwyno i Aelodau.

Mae'r Bwrdd wedi paratoi Adroddiad Strategol sy'n rhoi crynodeb o ddatblygiad a pherfformiad busnes y Grŵp yn ystod y flwyddyn a ddoeth i ben 31 Mawrth 2017 ac sy'n cwmpasu'r datblygiadau sy'n debygol yn y dyfodol. Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Rhif cwmni 09917809) yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gorfforedig yng Nghymru a Lloegr. Mae ein swyddfa gofrestredig yn Heol Pentwyn, Nelson, CF46 6LY.

Mae'r ddogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hon yn cydgrynhoi gweithgarwch a chanlyniadau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ('Glas Cymru') a'i is-gwmnïau. Ceir rhagor o wybodaeth am y Prif Weithgareddau ar dudalen 14.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r Grŵp wedi rhoi perfformiad ariannol cadarn yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017: mae wedi parhau i ddad-drosoli, gyda gerio yn gostwng o 57% i 56%, ac mae wedi cynnal a gwella ei statws credyd sy'n arwain y sector.

EITEMAU GWEITHREDOL

Cyfanswm costau gweithredol Glas Cymru (ac eithrio gwariant ar adnewyddu seilwaith mewn perthynas â chynnal a chadw ein rhwydwaith o bibellau tanddaearol, dibrisiant ac eitemau eithriadol) oedd £313 miliwn (2016: £297 miliwn). Cafodd nifer o achosion o gynyddu costau penodol (cyfraddau contractau cynnal a chadw uwch, prisiau ynni a chostau newid contract TGCh) eu gwrthbwyso'n rhannol gan arbedion effeithlonrwydd, mwy o incwm o asedau dŵr a gwelliannau i drefniadau casglu dyledion.

Mae pob cwmni dŵr a charthffosiaeth yn defnyddio llawer o bŵer, yn enwedig ar gyfer prosesau trin a phwmpio dŵr. Mae'r dirwedd fryniog ledled Cymru yn golygu bod hyn yn her benodol i ni. Yn ystod 2016-17 roedd costau ynni yn £41 miliwn (2016: £43 miliwn). Erys cryn ansicrwydd ynglŷn â chostau ynni yn y dyfodol, ac rydym wedi blaen-brynu cyfran o ofynion pŵer amcangyfrifedig y busnes dros y cyfnod o dair blynedd hyd at fis Mawrth 2020.

Ni chaniateir i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ddatgysylltu cyflenwadau i gwsmeriaid domestig nad ydynt yn talu, ac mae casglu arian parod wedi parhau i fod yn her. Mae'r flaenoriaeth uchel o'r ffocws cynyddol ar adennill dyledion yn y busnes Manwerthu wedi arwain at welliannau pellach i drefniadau casglu dyledion yn ystod y flwyddyn, ac o ganlyniad mae'r ffigur drwgddyledion am y flwyddyn wedi gostwng i £23 miliwn (2016: £27 miliwn). Rydym yn targedu cwsmeriaid na wnânt dalu eu biliau, yn wahanol i'r rheini na allant dalu, ac mae'r gostyngiad yn deillio'n bennaf o sicrhau gorchmynion arwystlo dros eiddo sy'n berchen i gwsmeriaid, gan sicrhau tua 2,500 o orchmynion dros bron £6 miliwn o ddyledion ein cwsmeriaid.

REFENIW

Parhaodd trosiant Glas Cymru yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 yn sefydlog ar £744 miliwn (2016: £743 miliwn); cafodd cynnydd cymedrol o 1.4% yn adlewyrchu addasiad prisiau Penderfyniad Terfynol PR14 Ofwat ei wrthbwyso gan lai o reffeniw am fod cwsmeriaid yn dewis defnyddio mesurydd a nifer fwy o gwsmeriaid yn cael budd o dariffau fforddiadwyedd.

EITEMAU EITHRIADOL

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cafwyd ad-daliad ardrethi busnes o £20 miliwn yn ymwneud â her hirsefydledig i asesiad rhwydwaith dŵr 2005. Ymdriniwyd â hyn fel mater eithriadol oherwydd ei faint.

COSTAU CYLLIDO

Roedd y llog net taladwy, sef £141 miliwn (ac eithrio colledion cyfrifyddu ar ddeilliadau a nodir isod), £17 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae gan Glas Cymru nifer o gontractau cyfnewidiadau deilliadol sy'n cadw neu'n cysylltu cost dyledion â chwyddiant, yr aed iddynt pan oedd gan y cwmni lefel gerio uchel. Er bod y rhain yn enghreifftiau effeithiol o ragfantoli masnachol, nid ydynt yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39. Gall newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad greu anwadlwrwydd yn y datganiad incwm a'r colledion gwerth teg yn 2016-17 oedd £63 miliwn (2016: enillion o £39 miliwn). Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith ar lifau arian parod: mae'r cwmni yn bwriadu dal y cyfnewidiadau sy'n weddill nes bod y ddyled sylfaenol yn aeddfedu a, thros oes y cyfnewidiadau, bydd y colledion hyn yn mynd yn ddim.

COLLED CYN TRETH

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn nodi colled cyn trethiant o £99 miliwn (2016: elw o £77 miliwn) sy'n ystyried y symudiadau gwerth teg yn ogystal ag eitem eithriadol y flwyddyn flaenorol fel y trafodir uchod. Mae costau gweithredol a chyllido wedi cynyddu tua £32 miliwn, fel y nodir uchod, ac mae gwariant ar adnewyddu seilwaith wedi cynyddu £12 miliwn yn unol â'n lefel uwch o fuddsoddi cyfalaf ym flwyddyn dau o raglen fuddsoddi pum mlynedd. Hefyd, mae dibrisiant £10 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd ailbrisio asedau sefydlog.

Roedd y golled sylfaenol cyn trethiant (ac eithrio symudiadau gwerth teg ac eitemau eithriadol) yn £36 miliwn (2016: elw o £18 miliwn).

TRETHIANT

Mae'r Grŵp yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwariant cyfalaf er budd ein cwsmeriaid. Mae rhyddhad treth y gwariant cyfalaf hwn a'r llog a dalwn i'w ariannu yn arwain at oedi o ran taliadau treth gorfforaeth mewn cyfnodau i ddod. Cynhyrchwyd credyd treth o £1m yn sgil ildio colledion treth yn ymwneud â'n buddsoddiad mewn gwariant cyfalaf ynni-effeithlon o dan gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth.

Roedd cyfanswm y credyd treth yn y datganiad incwm yn £28.9m (2016: £8.9m). Mae hyn yn cynnwys credyd treth gohiriedig o £12.4m (2016: credyd o £24.1m) o ganlyniad i'r gyfradd treth gorfforaeth yn gostwng o 18% i 17% o 1 Ebrill 2020. Os na chaiff y credyd hwn ei gynnwys fel rhan o gyfanswm y credyd treth, y gyfradd dreth wirioneddol ar gyfer y cyfnod fyddai 16.7% (2016: 19.7%) sydd ychydig yn is na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol ar gyfer y cyfnod (20%). Ceir cysoni yn nodyn 6. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyfraddau treth gorfforaeth ac felly ni ddisgwyllir unrhyw gredydau pellach o newidiadau i gyfraddau mewn cyfnodau i ddod.



CHRIS JONES YN YMWELD
Â GARREGLWYD

STRATEGAETH TRETH Y GRŴP

EIN DULL O REOLI RISG A THREFNIADAU LLYWODRAETHU

Ein Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol sy'n bennaf cyfrifol am ein strategaeth llywodraethu treth, gyda'r Bwrdd o'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwyllo hynny.

Ategir ein strategaeth treth gan Bolisi Treth y Grŵp mewnol manwl, ynghyd â fframwaith o systemau a rheolaethau mewnol sy'n llywodraethu gweithrediadau masnachol Glas Cymru Holdings a'i is-gwmnïau (y Grŵp). Ein Pennaeth Treth sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth treth yn feunyddiol ac am reoli materion treth y Grŵp. Mae ein Pennaeth Treth yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol. Caiff materion, risgiau a datblygiadau treth perthnasol eu rhannu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Archwilio.

Mae ein tîm treth yn cynnwys grŵp bach o weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad helaeth o dreth yn y sector dŵr. Ategir yr arbenigedd hwn gan y defnydd o gynghorwyr allanol dibynadwy lle bo angen.

EIN DULL O GYNLLUNIO TRETH AC YMDRIN Â RISGIAU TRETH

Mae holl gwmnïau'r Grŵp yn drethdalwyr y DU ac yn talu treth gorfforaeth y DU ar eu helw.

Canolbwyntiwn ar gydymffurfiaeth; sicrhau bod ein holl drethi yn cael eu cyfrifo a'u hadrodd yn gywir, ac yn cael eu talu erbyn y dyddiad y maent yn ddyledus.

Nid ydym yn ymwneud â threfniadau artiffisial heb unrhyw ddiben masnachol, na thrafodion sy'n anelu at gamfanteisio ar ddeddfwriaeth trethi er mwyn talu llai o dreth. Cydymffurfiwn â'r gyfraith, mewn gair ac ysbryd.

Nodir risgiau treth ar gofrestr risg y Grŵp a ddiweddarir yn rheolaidd.

Mae ein prif risgiau treth yn deillio'n bennaf o ddatblygiadau busnes a newidiadau i ddeddfwriaeth treth a all arwain at oblygiadau treth nas rhagwelwyd.

Lle bo modd ceisiwn liniaru risgiau treth fel bod y risg sy'n weddill mor fach â phosibl.

Mae ein tîm treth ynghlwm wrth bob datblygiad busnes o bwys gan olygu y gellir cynnal asesiad llawn o'r goblygiadau treth. Ceisiwn adborth gan gynghorwyr allanol dibynadwy lle mae'r goblygiadau treth yn dal i fod yn aneglur. Mewn achosion lle erys peth ansicrwydd cydweithiwn â CThEM i ddatrys hynny.

Mae ein tîm treth yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau treth o fewn y diwydiant dŵr. Caiff y tîm y wybodaeth ddiweddaraf am faterion technegol yn rheolaidd gan ein cynghorwyr proffesiynol ac o'n cyfarfodydd cyfnodol â CThEM. Mae hyn yn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r holl ddatblygiadau perthnasol ym maes cyfraith trethi, gan ei alluogi i ddatblygu systemau a rheolaethau priodol i fynd i'r afael â newidiadau mewn deddfwriaeth.

Cyfrannwn at broses llunio polisiau treth y DU drwy ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth.

EIN CYDBERTHYNAS Â CTHEM

Rydym yn ymrwymedig i gydberthynas ogored a thryloyw â CThEM. Ein polisi yw datgelu'n llawn unrhyw faterion neu wallau wrth iddynt godi, a cheisio eu datrys cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Rydym yn cyfarfod â CThEM ddwywaith y flwyddyn am drafodaeth ffurfiol am ein cynlluniau busnes a datblygiadau, ynghyd â newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth treth.

Mae'r Grŵp wedi'i ddosbarthu'n risg isel gan CThEM ers sefydlu'r broses Adolygu Risgiau Busnes yn 2009. Adolygir hyn ym mis Mawrth 2019.

RHYDDHAD TRETH A CHYMHELLION

Nid oes gan ein Grŵp unrhyw gyfranddalwyr a chaiff ei redeg er budd ein cwsmeriaid yn unig. Felly, ceisiwn ddefnyddio'r rhyddhad treth a chymhellion sydd ar gael gan y Llywodraeth i sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael er budd ein cwsmeriaid.

Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn gwariant cyfalaf, er enghraifft gweithfeydd trin dŵr a'n rhwydwaith o bibellau a gorsafoedd pwmpio, er mwyn gwella'r gwasanaeth o ddarperir i'n cwsmeriaid yn barhaus. Felly, gallwn fanteisio ar ryddhad treth sy'n anelu at ysgogi'r math hwn o fuddsoddiad. Gall cyfran sylweddol o'r gwariant cyfalaf hwn gael ei didynnu wrth gyfrifo elw trethadwy'r Grŵp. Gallwn hefyd ddidynnu costau llog yr eir iddynt er mwyn ariannu'r buddsoddiad cyfalaf hwn. I bob diben, mae hyn yn golygu nad oes angen gwneud taliadau treth gorfforaeth tan yn ddiweddarach. Mae ein cwsmeriaid hefyd felly'n cael budd o filiau rhatach.

Mae cyfundrefn Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu'r Llywodraeth yn cymell cwmnïau i fuddsoddi mwy mewn ymchwil a datblygu. Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn ymchwil a datblygu ac yn hawlio credydau treth o dan y gyfundrefn hon.

TRYLOYWDER

Deallwn werth cyflwyno adroddiadau ariannol llawn gwybodaeth i'n cwsmeriaid, buddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae trethiant yn faes a all beri dryswch. Felly ceisiwn gyflwyno darlun clir a chytbwys o'n sefyllfa dreth. Gweler tudalennau 129-130.

CYFRANIAD

Mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i amrywiaeth o drethi a thollau, gan gynnwys treth gorfforaeth, ardrethi busnes, trethi amgylcheddol, trethi cyflogaeth, Yswiriant Gwladol, TAW, toll ar danwydd a thrwyddedau. Felly mae'r Grŵp yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyllid cyhoeddus, yn ogystal â chyflogi dros 3,000 o bobl a chwarae rôl bwysig yn yr economi ranbarthol.

ARIAN PENSIWN

Mae'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn nodi colledion actiwaraidd cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig o £43 miliwn (2016: £25 miliwn) a rhwymedigaeth y fantolen ar 31 Mawrth 2017 oedd £95 miliwn (2016: £57 miliwn). Mae'r prisiad hwn ar sail IAS 19 at ddibenion cyfrifyddu ac nid yw'n gyson â phrisiad actiwaraidd y cynllun at ddibenion ariannu. Roedd y prisiad diweddaraf o'r fath o'r cynllun, ar 31 Mawrth 2016, yn rhagamcanu diffyg y gellir ei adennill drwy daliadau o £7 miliwn y flwyddyn hyd at 2019 ac yna £3 miliwn y flwyddyn hyd at 2030. Lliniarir amlygiad i unrhyw rwymedigaethau ychwanegol sylweddol yn y dyfodol drwy gau'r rhan fwyaf o'r rhannau o'r cynllun o 1 Ebrill 2017.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r fantolen gyfunol yn dangos asedau net o £1,116 miliwn ar 31 Mawrth 2017 (2016: £1,082 miliwn). Ac eithrio addasiadau gwerth teg anariannol ar gyfer offerynnau ariannol deilliadol, y cyfeirir atynt uchod, mae gan y Grŵp asedau net o £1,593 miliwn (2016: asedau o £1,417 miliwn).

BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y busnes ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Yn unol â hynny, paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ar sail busnes gweithredol.

BUDDSODDIAD CYFALAF

Atgyfnerthwyd sefyllfa ariannol gadarn Glas Cymru dros yr 16 mlynedd ddiwethaf ac ar y sail sefydlog hon gall ymateb yn gadarnhaol i heriau'n ymwneud ag ansicrwydd economaidd a pharhau â'i raglen gyfalaf fawr. Mae Glas Cymru yn gweithio gyda chynghrair o bartneriaid i gyflawni'r rhaglen buddsoddi cyfalaf am y gwerth gorau am arion i'w gwsmeriaid. Cyfanswm y gwariant cyfalaf net yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith) oedd £350 miliwn (2016: £262 miliwn). Mae'r cynnydd yn deillio'n bennaf o arafu dros dro o fewn ein rhaglen adeiladu cyfalaf yn ystod 2015-16 ar ddechrau'r cyfnod rheoleiddio presennol o bum mlynedd (AMP6). Gwnaethom fuddsoddi tua £1.5 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2010 a 2015 yn rhaglen fuddsoddi AMP5 a wnaeth sicrhau gwelliannau parhaus i wasanaeth cwsmeriaid, ansawdd dŵr yfed a'r amgylchedd. Mae'r Grŵp yn bwriadu buddsoddi o leiaf £1.7 biliwn arall dros y cyfnod rheoleiddio presennol o bum mlynedd (2015-2020), ein rhaglen fuddsoddi fwyaf erioed.

STATWS CREDYD A RHEOLI CYFRADDAU LLOG

Mae gan Glas Cymru y statws credyd gorau yn y sector dŵr, sy'n adlewyrchu lefel uchel y Grŵp o deilyngdod credyd. Statws dyledion Dosbarth A a B y Grŵp ar 31 Mawrth 2017 oedd A/A2/A yn ôl Standard & Poor's (S&P), Moody's a Fitch yn y drefn honno.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd tua 65% o ddyled gros yn fynegrifol drwy fondiau a deilliadau (2016: 65%), gyda'r gweddill ar gyfraddau llog sefydlog. Mae aeddfedrwydd disgwylidig y bondiau cyfradd sefydlog a'r bondiau mynegrifol sy'n ddyledus yn amrywio o 2021 i 2057, ac nid oes mwy nag 20% yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd, yn unol â'n polisi ailariannu.

POLISI GERIO

Polisi gerio i RCV Glas Cymru yw targedu gerio ar 60% neu oddeutu'r ganran honno, a sicrhau bod cymarebau sicrwydd llog yn cynnal ein statws credyd gradd 'A' sy'n arwain y sector. Dylai hyn ein helpu i gadw proffil risg isel, gan sicrhau y gall y Cwmni gael gafael ar gyllid cost isel drwy gydol AMP6 a thu hwnt.

HYLIFEDD A CHRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Nod Glas Cymru yw cynnig buddsoddiad diogel, risg isel i fuddsoddwyr. Drwy adeiladu a chynnal sefyllfa ariannol gadarn, rydym yn bwriadu cadw ein costau benthyca yn isel, a fydd yn ein galluogi i ariannu buddsoddiad yn y dyfodol yn effeithlon. Pan gaffaelodd Glas Cymru Dŵr Cymru ym mis Mai 2001, roedd gerio (dyled net/Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV)) yn 93%. Ers hynny, mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella'n gyson. Roedd y gymhareb gerio i RCV wedi gostwng i 56% erbyn 31 Mawrth 2017 (2016: 57%), ac roedd 'cronfeydd cwsmeriaid wrth gefn' (RCV llai dyled net) yn £2.3 biliwn. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Grŵp gyfanswm hylifedd o £555 miliwn, gan gynnwys balansau arian parod o £95 miliwn. Rydym wedi ein rhagariannu'n sylweddol hyd at 2019-20 ac mae gennym £150 miliwn arall o gyfleusterau credyd cylchdro nas hawliwyd.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen.

IECHYD A DIOGELWCH GALWEDIGAETHOL

Rydym yn ymrwymedig i safonau iechyd a diogelwch galwedigaethol uchel ac, yn ystod cyfnod 2016-17, gwelodd ein perfformiad cymharol gyda llai o ddamweiniau RIDDOR. Mae rhagor o wybodaeth am ein strategaeth a'n perfformiad o ran iechyd a diogelwch ar gael yn ein Hadroddiad ar Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2017 sydd i'w weld yn [dwcymru.com](#)

ARLOESED

Mae ein portffolio arloesi yn parhau i dyfu gyda 162 o brosiectau wedi'u hasesu drwy broses iLab, a 55 wedi'u cwblhau ers mis Ebrill 2015. Rydym hefyd wedi ennill pum gwobr arloesi eleni, ar ôl gweithio gyda 72 o sefydliadau partner a buddsoddi tua £7.2m ar ran ein cwsmeriaid. Mae'r gwaith hwn yn hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd, yn lleihau ein hól troed amgylcheddol, ac yn gwella iechyd a diogelwch yn arbennig. Yn ogystal â buddsoddi mewn hyrwyddo newid arloesol, parhawn i weithio'n agos gyda'n Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol (sy'n cynnwys rheoleiddwyr, academyddion a rhanddeiliaid amgylcheddol) sy'n rhoi cyngor i'r busnes ar yr holl waith gwyddoniaeth ac ymchwil a wneir gennym. Mae'r Panel yn ein helpu i fanteisio ar yr arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael o fewn cyrff o'r fath a meithrin ein cydberthnasau â hwy, er mwyn dod o hyd i gyllid ac arbenigedd i'w defnyddio yn ein gwaith gwyddoniaeth ac ymchwil. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi llywio elfennau o'r agenda ymchwil genedlaethol drwy ein cydberthynas strategol â'r Cyngor Ymchwil Amgylcheddol Naturiol (NERC) a thrwy gymryd rhan mewn mentrau ymchwil o fewn y diwydiant dŵr, yn fwyaf nodedig drwy fod yn aelod o bartneriaeth UK Water Industry Research (UKWIR), sy'n rheoli ac yn cydgyssylltu buddiannau ymchwil cwmnïau dŵr yn y DU.

RHODDION GWLEIDYDDOL

Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i wariant gwleidyddol. Yn ystod 2016-17 gwnaed taliad o £18,270 i elusen dyledion StepChange, er mwyn cefnogi ei gwaith yn rhoi cyngor ar ddyledion i'n cwsmeriaid. Rydym yn datgelu'r taliad hwn am fod StepChange hefyd yn lloio'r llywodraeth am newid polisi ar faterion yn ymwneud â dyledion. Heblaw am hyn, ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau y mae'n ofynnol eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

NWYON Tŷ GWYDR

Mae'r nwyon tŷ gwyrdd a ryddheir yn cael effaith ar newid yn yr hinsawdd sydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cyflwyno risgiau sylweddol i'r busnes ac i'r amgylchedd. Mae'r Grŵp yn ceisio lleihau'r nwyon tŷ gwyrdd a ryddheir lle bo modd ac mae'n mesur hyn drwy gyfrifo ein hallyriadau carbon gweithredol. Mae'r allyriadau hyn yn bennaf oherwydd y defnydd o ynni a gyflenwir o'r grid (trydan a nwy), sydd tua 82% o'r cyfanswm. Yn 2016-17 lleihaodd ein hallyriadau carbon gweithredol 8% i 212 ktCO₂e o 230 ktCO₂e* yn 2015-16.

Roedd sawl elfen i'r newid hwn, a'r un allweddol oedd lleihad yng nghynnwys carbon trydan a gyflenwyd gan y grid a leihaodd 11% wrth i orsafoedd glo barhau i ddod all-lein. Ymhlith y ffactorau eraill oedd y ffaith, er i'r defnydd o drydan leihau 3.5% i 451 (2015: 467), gwnaethom gynhyrchu llai o'r trydan hwn ein hunain oherwydd lleihad o 26% yn yr ynni gwyrdd a gynhyrchwyd gan ein tyrbinau dŵr (i 37 GWh o 49 GWh yn 2015) wrth i ni brofi un o'r gaeafau sychaf a gofnodwyd. Hefyd cafwyd cynnydd bach yn ein hallyriadau am fod mwy o laid wedi'i brosesu ac am fod mwy o ddefnydd o drafndiaeth.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Rydym yn hapus i ymdrin â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Gymraeg neu yn Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth effeithiol yn y ddwy iaith. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gynllun a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i baratoi ar gyfer rhoi darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith.

ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

Mae Amod F o'r Offeryn Penodi y mae Dŵr Cymru yn gweithredu yn unol ag ef yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth ariannol ychwanegol fel 'busnes penodedig'. Caiff copi o'r wybodaeth hon ei gyhoeddi ar ein gwefan.





YSBRYDOL'I'R TO IFANC YNG
NGHANOLFAN DDARGANFOD CILFYNYDD



EIN HEFFAITH EHANGACH

Cyhoeddwn Adroddiad Effaith ar ein gwefan, sy'n crynhoi'r effaith a gawn ar y byd o'n cwrpas, o safbwynt cwsmeriaid, cymunedau a chydweithwyr. Rhydd adolygiad o'n gweithgarwch dros y 12 mis blaenorol, gan ddangos yr hyn a wnawn i helpu i wireddu ein gweledigaeth i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Caiff rhai o'r meysydd lle cawn effaith ehangach eu trafod isod:

CEFNOGI ADDYSG

Mae gennym rôl i'w chwarae o ran helpu ein cwsmeriaid yn y dyfodol i ddeall sut y gallant helpu a diogelu'r amgylchedd. Yn wir, mae buddsoddi mewn addysg ac ymgysylltu â'r cymunedau a wasanaethir gennym yn hanfodol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth. Dyma pam bod gennym bedair Canolfan Ddarganfod (Cwm Elan ger Rhaeadr Gwy, Cilfynydd ger Pontypridd, Rhostir Cog ger Dinas Powys a Brenig ar rostir Sir Ddinbych), y mae dros 14,000 o blant yn ymweld â hwy bob blwyddyn. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a rhaglenni ymarferol, llawn hwyl er mwyn i blant a theuluoedd allu profi byd dŵr drostynt hwy eu hunain.

Oherwydd llwyddiant ein canolfannau, rydym bellach yn cynnal rhaglen allgymorth lle mae ein hathrawon yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu gweithdai ar yr ymgyrchoedd newid ymddygiad rydym yn eu cynnal mewn perthynas ag effeithlonrwydd dŵr (Love Dŵr) a llygredd (Stop Cyn Creu Bloc). Mae tua 41,000 o ddisgyblion y flwyddyn yn cael budd o'r rhaglen hon.

WATERAID

Fel sy'n gweddu i'n model gweithredu, nid ydym yn darparu unrhyw nawdd corfforaethol ond parhawn i gefnogi WaterAid.

BOD YN GYMYDOG DA

Gwyddom y gall ein gweithgareddau, gan gynnwys y gwaith o gynnal a chadw ac atgyweirio ein hasedau o'n rhwydweithiau, amharu ar gymunedau lleol. Rydym yn cynllunio pob cynllun yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn amharu cyn lleied â phosibl arnynt, gan gynnwys gweithio gyda'n partneriaid adeiladu, awdurdodau lleol, yr asiantaeth priffyrdd, cartrefi a busnesau er mwyn dod o hyd i'r ateb sy'n amharu leiaf. Lle y gall ein gweithgareddau gael effaith economaidd negyddol (er enghraifft, gwaith ffordd sy'n rhwystro pobl rhag ymweld â manwerthwyr neu'n lleihau nifer y bobl sy'n gwneud hynny), rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn gynnig cymorth drwy fesurau cydadferol. Rydym yn parhau'n benderfynol o chwarae ein rhan mewn gwlad gynaliadwy, fwy ffyniannus drwy gyflawni ein gweithgareddau o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol, a thrwy helpu'r cymunedau a wasanaethir gennym.

BUDDSODDI YN Y GYMUNED

Fel un o gwmnïau mwyaf Cymru gyda gweithlu mawr a rhaglen fuddsoddi fawr gwerth biliynau o bunnoedd, mae'r ffordd rydym yn gweithredu fel busnes yn cael dylanwad mawr ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru a'r rhanbarthau yn Lloegr a wasanaethir gennym. Rydym felly'n ymfalchïo yn y ffaith bod gweithredu mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy, economaidd fuddiol a chymdeithasol gyfrifol yn dal i fod wrth wraidd ein gweithgareddau.



BUDDSODDI YN EIN RHWYDWAITH O GARTHFFOSYDD YN Y
MWMBWLS ER MWYN HELPU I DDIOGELU'R AMGYLCHEDD LLEOL



MYNEDIAD A HAMDDEN

Ni yw gwarcheidwad un o asedau cenedlaethol Cymru — tua 40,000 hectar (99,000 erw) o dir sy'n gyfoethog o ran golygfeydd a bioamrywiaeth. Mae'r tir hwn hefyd yn darparu cyfleoedd hamdden pwysig i'r cyhoedd, a bob blwyddyn mae tua miliwn o bobl yn ymweld ag un o'n 17 o brif safleoedd cronfeydd dŵr lle y darparwn amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon a hamdden.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 bydd yn ofynnol i ni adrodd ar gydymffurfiaeth â'n dyletswydd i atgyfnerthu gwydnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau erbyn mis Rhagfyr 2019 a phob toir blynedd wedyn. Yn ddiweddardd rydym wedi cyhoeddi ein cynllun i gyflawni'r ddyletswydd honno a chwarae ein rhan yn y gwaith o wella'r amgylchedd.

CYDWEITHIO AG ERAILL

Er mwyn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau a gwarchod yr amgylchedd, rydym wedi parhau i gydweithredu â phartneriaid allweddol a sefydliadau cymunedol wrth gyflawni ystod eang o fentrau.

Mae'r rhain wedi cynnwys y canlynol:

- **TarddLe** — mae hyn yn cynnwys cydfenter i reoli dalgylchoedd dŵr yfed, gan weithio mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn helpu i reoli ansawdd dŵr
- **PestSmart** — fel rhan o hyn gweithiwn mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gymuned amaethyddol er mwyn ystyried dulliau mwy deallus ac ecogyfeillgar o reoli chwyn, plâu a chlefydau. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ac atebion ymarferol, a chynnig gwasanaeth gwaredu plaleiddiaid am ddim. Bydd gwella ansawdd dŵr heb ei drin yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd, ac yn lleihau'r angen i ddefnyddio cemegau ac ynni yn y broses trin derfynol.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017 ddydd Gwener 7 Gorffennaf 2017 yng Ngwesty'r Quay, Deganwy. Bydd y Cyfarfod yn ymdrin â'r canlynol:

- derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwyr;
- derbyn y Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 a chymeradwyo'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 a chymeradwyo'r Polisi Cydnabyddiaeth;
- ailethol pob Cyfarwyddwr;
- cynnig i awdurdodi'r Grŵp i wneud rhoddion i sefydliadau gwleidyddol yn yr UE a mynd i wariant gwleidyddol o fewn yr UE hyd at derfynau diffiniedig;
- cynnig i benodi'r archwilyr ac awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i bennu eu ffioedd.

Busnes arferol yw'r holl gynigion hyn. Nid oes unrhyw fusnes arbennig.

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r cynigion yn Hysbysiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017 a anfonwyd at Aelodau Glas Cymru.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR O RAN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys. Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ('IFRS') fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE a chyfraith gymwys. O dan gyfraith cwmnïau, ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a'r rhiant-gwmni ac o'u helw neu golled ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- datgan a baratowyd y datganiadau ariannol yn unol â safonau IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Grŵp a'r rhiant-gwmni yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Grŵp ac i ddatgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi penderfynu paratoi Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr, o'u gwirfodd, yn unol ag Atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) (Diwygio) 2013 a wnaed o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, fel pe bai'r gofynion hynny yn gymwys i'r cwmni. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd wedi paratoi Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan OFWAT.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan Dŵr Cymru ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Ystyriwn fod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfranddalwyr i asesu sefyllfa a pherfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Drwy orchymyn y Bwrdd



Nicola Williams

Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni

8 Mehefin 2017

ARCHWILWYR

KPMG yw archwilwyr Glas Cymru ar gyfer cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. Fel rhan o'r broses archwilio, rydym wedi cadarnhau, hyd y gŵyr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, a'u bod wedi cymryd camau i sicrhau eu bod yn cael unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cadarnhawn hyd eithaf ein gwytodaeth:

- Mae'r datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu cymwys, yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad y Grŵp.
- Mae'r adroddiad strategol yn cynnwys adolygiad teg o berfformiad y busnes, ei risgiau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod yr adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.


Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, mae'r tîm rheoli yn adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddiannau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau, colled neu fethiant.

Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd a'r Amgylchedd a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

Fel rhan o'r gwaith a wneir i adolygu ei reolaethau mewnol bob blwyddyn, mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried effeithiolrwydd ei system o reolaethau mewnol gan ystyried sut y maent wedi gweithredu mewn perthynas â'r heriau penodol a wynebwyd gan y cwmni yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol.



CYFARWYDDWYR AR
YMWELIAD Â RHOSTIR COG



ADOLYGIAD ARIANNOL A CHANLYNIADAU

TUDALEN

1

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD
ANNIBYNNOL I AELODAU GLAS CYMRU

112

2

DATGANIADAU ARIANNOL

115

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gyfarwyddwyr Glas Cymru Holdings Cyfyngedig

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Barn a chasgliadau sy'n deillio o'n harchwiliad

1. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol wedi newid

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 fel y nodwyd ar dudalennau 116 i 148. Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2017, ac o golled y grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y grŵp wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (safonau IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r safonau IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE ac fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006;
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Trosolwg		
Perthnasedd: datganiadau ariannol cyfan y grŵp	£10 miliwn (2016: £10 miliwn)	
	0.17% (2016: 0.18%) o gyfanswm yr asedau	
Cwmpas	100% (2016: 100%) o golled y grŵp (2016: elw) cyn treth	
Risgiau o gamddatganiad perthnasol vs 2016		
Risgiau mynych	Croniad incwm a fesurwyd	◀▶
	Asedau sefydlog	◀▶
	Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy	◀▶
	Rhwymedigaeth pensiwn grŵp	◀▶
	Offerynnau ariannol deilliadol	◀▶

2. Ein hasesiad o risgiau o gamddatganiad perthnasol

Wrth lunio ein barn archwilio uchod ar y datganiadau ariannol, roedd y risgiau o gamddatganiad perthnasol a oedd yn cael yr effaith fwyaf ar ein harchwiliad, yn nhrefn leihau'r arwyddocâd archwilio, fel a ganlyn (heb newid ers 2016):

Y risg	Ein hymateb	
Croniad incwm a fesurwyd (£68.8 miliwn; 2016: £65.0 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 78 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 125 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 135 (datgeliadau ariannol).	Amcangyfrif goddrychol Cydnabod refeniw yw un o'r meysydd dyfarnol allweddol ar gyfer y datganiadau ariannol, yn enwedig mewn perthynas â'r amcangyfrif o werth incwm dŵr a gyflenwir i gwsmeriaid â mesurydd rhwng y darlenniad mesurydd olaf a diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cyfrifo incwm mesuredig heb ei filio yn cynnwys amcangyfrif faint o ddŵr a ddefnyddir yn y cyfnod, yn seiliedig ar nifer y cwsmeriaid ar fesuryddion, y pris fesul uned o ddŵr, a lle y bo'n briodol, newidiadau mewn ffactorau allanol fel y tywydd, a allai gael eu datgan yn anghywir.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Dylunio rheolaethau: gwnaethom werthuso a phrofi'r prosesau allweddol a'r rheolaethau a oedd ar waith mewn perthynas â'r croniad incwm a fesurwyd. Cynhaliwyd profion rheoli TG ar y system Rapid Xtra a ddefnyddir i gyfrifo'r croniad. Roedd hyn yn cynnwys profi prosesau a rheolaethau mewn perthynas â'r prif sbardunau fel nifer y cwsmeriaid, newidiadau mewn prisiau ac amcangyfrif faint o ddefnydd; Adolygiad dadansoddol: cynhaliwyd adolygiad dadansoddol o sylwedd mewn perthynas â'r incwm mesuredig gan gynnwys y croniad cysylltiedig. Ffurfiwyd disgwyliad, gan ystyried prif sbardunau'r balans, gan gynnwys nifer y cwsmeriaid, newidiadau mewn prisiau yn seiliedig ar gynllun taliadau cyhoeddadedig y grŵp ac, os oedd yn briodol, unrhyw ffactorau allanol fel y tywydd, a chymharwyd hyn â'r incwm mesuredig gwirioneddol a gydnabuwyd; Asesu tryloywder: gwnaethom hefyd asesu digonolrwydd datgeliadau'r grŵp mewn perthynas â graddfa'r amcangyfrif dan sylw er mwyn pennu'r croniad incwm.

	Y risg	Ein hymateb
Asedau sefydlog Ychwanegiadau: (£308.5 miliwn; 2016: £245.8 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 78 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 122 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 132 (datgeliadau ariannol).	Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf Mae'r grŵp yn mynd i lefel uchel o wariant ar PPE (sef eiddo, offer a chyfarpar), gan gynnwys trwsio a chynnal a chadw, a chostau gwellu. Mae angen gallu da i wneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogeion a gwariant mewnol arall, ar seilwaith a phethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu, ac y cânt eu cynnwys felly yn y gwerth cario, neu fel arall a ddylid mynd iddynt ar unwaith. Oherwydd y risg y gallai costau o'r fath gael eu cyfalafu'n amhriodol, yn seiliedig ar y penderfyniadau a wneir gan gyfarwyddwyr neu'r trydydd parti a benodwyd gan y cwmni mewn perthynas â gwariant ar seilwaith a gwariant ar bethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, dyma un o brif feysydd ffocws ein harchwiliad.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Polisi cyfalafu: gwnaethom asesu polisi cyfalafu'r grŵp yn erbyn gofynion y safonau cyfrifyddu; Dylunio rheolaethau: gwnaethom brofi rheolaethau mewn perthynas â'r prosiectau cyfalaf drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn cadarnhau bod y rheolaethau'n gweithredu fel y'u disgrifiwyd o ran dosbarthu gwariant naill ai fel cyfalaf neu weithredol ac yn unol â pholisi ac yn ddarostyngedig i adolygiad ac awdurdodiad gan y lefel briodol o fewn hierarchaeth y busnes; Profiad y sector: gwnaethom herio'r penderfyniadau a wnaed gan y grŵp (gwariant ar bethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith) a'r trydydd parti annibynnol a benodwyd gan y cwmni (gwariant ar seilwaith) mewn perthynas â lefel y cyfalafu yn seiliedig ar bolisiau cyfrifyddu'r cwmni, gwybodaeth am y sector a natur sylfaenol y prosiectau; Arbenigwr: aseswyd bod yr arbenigwr trydydd parti yn gymwys ac yn annibynnol i gyflawni'r rôl hon.
Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy Symiau masnach derbyniadwy: (£556.6 miliwn; 2016: £537.0 miliwn) Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy: (£95.8 miliwn; 2016: £85.3 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 78 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 122 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 135 (datgeliadau ariannol).	Amcangyfrif goddrychol Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn faes lle ceir risg sylweddol oherwydd y gofyniad statudol i ddarparu dŵr i gwsmeriaid na fyddant efallai yn gallu talu. Ystyrir hefyd fod y cyfrifiad yn risg archwilio allweddol o ganlyniad i gymhlethdod y cyfrifiad, ei natur oddrychol, ac oherwydd ei faint a'r ffaith y byddai unrhyw newid yn y ddarpariaeth o ran y fantolen yn effeithio'n uniongyrchol ar elw. Seilir y fethodoleg darpariaeth ar gyfraddau casglu arian a ragwelir yn y dyfodol gan ddefnyddio profiad blaenorol o gasgliadau arian parod hanesyddol, ac unrhyw ffactorau allanol eraill sy'n cael effaith, fel newidiadau mewn ymddygiad cwsmeriaid, er mwyn amcangyfrif cyfran y symiau sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r grŵp yn disgwyl eu cael.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Methodoleg: aseswyd a oedd y cyfrifiad yn ymgorffori'r wybodaeth, y risgiau a'r data priodol gan gynnwys casgliadau arian parod hanesyddol ac achosion o ddileu dyled, er mwyn cyfrifo lefel y ddyled na ellir ei hadennill yn gywir, yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y grŵp a'r diwydiant; Profiad y sector: heriwyd tybiaethau'r cyfarwyddwyr ynghylch profiliau casglu arian parod yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y farchnad, tueddiadau hanesyddol, perfformiad gweithredol, achosion hanesyddol o ddileu dyledion, tueddiadau economaidd a lefelau priso; Dadansoddiad o sensitifrwydd: cyflawnwyd dadansoddiad o sensitifrwydd ar y tybiaethau a wnaed, yn enwedig cyfraddau casglu arian parod yn y dyfodol, a chymharwyd yr effaith ar lefel y ddarpariaeth; Tybiaethau meincnodi: aseswyd tybiaethau'r cyfarwyddwyr drwy gymharu lefel y ddarpariaeth ar draws y diwydiant gan ddefnyddio ymarfer meincnodi drwgddyledion KPMG; Asesu tryloywder: aseswyd digonolrwydd datgeliadau'r cwmni ynghylch graddau'r ansicrwydd ynghylch amcangyfrif sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r ddarpariaeth.
Rhwymedigaeth pensiwn y grŵp Gwerth presennol rhwymedigaethau: (£497.3 miliwn; 2016: £413.1 miliwn) Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net: (£92.4 miliwn; 2016: £54.5 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 78 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 123 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 145 (datgeliadau ariannol).	Prisiad goddrychol Byddai newidiadau bach yn y tybiaethau a'r amcangyfrifon a ddefnyddir i brisio rhwymedigaeth pensiwn y grŵp fel cyfraddau disgowntio, mynegai prisiau manwerthu, cyfraddau marwoldeb (cyn didynnu asedau cynllun) yn cael effaith sylweddol ar ddiffyg pensiwn net y grŵp.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Tybiaethau meincnodi: gyda chymorth ein harbenigwr actiwaraidd ein hunain, gwnaethom herio'r tybiaethau allweddol a gymhwyswyd, sef y gyfradd ddisgowntio, y mynegai prisiau manwerthu, cyfraddau marwoldeb a'r elw disgwyliedig ar ecwitiâu; Prawf manylion: gwnaethom gadarnhau bod y data, megis cyfraniadau'r cyflogwr a ddarparwyd i'r actiwariau yn cyd-fynd â'r data a ddarparwyd i'r tîm archwilio; Asesu tryloywder: rydym hefyd wedi ystyried digonolrwydd datgeliadau'r cwmni mewn perthynas â sensitifrwydd y diffyg i newidiadau yn y tybiaethau allweddol.
Offerynnau ariannol deilliadol (£477.0 miliwn; 2016: £414.0 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 78 (Adroddiad y Pwyllgor Archwilio), tudalen 123 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 138 (datgeliadau ariannol).	Prisiad goddrychol Mae gan y grŵp offerynnau ariannol deilliadol sylweddol gan gynnwys cyfnewidiadau wedi'u mynegrifo, cyfnewidiadau cyfraddau llog a chyfnewidiadau rhagfantolion pŵer gyda symudiadau mewn gwerth teg wedi eu cymryd i'r datganiad incwm. Pennir y prisiau drwy gymhyso technegau priso sy'n aml yn cynnwys arddel barn a defnyddio tybiaethau ac amcangyfrifon. Oherwydd arwyddocâd offerynnau ariannol a'r ansicrwydd cysylltiedig ynghylch amcangyfrifon, a chan fod gwerth teg yr offerynnau hyn yn hynod sensitif i newidiadau bach mewn tybiaethau sylfaenol neu newidiadau mewn methodolegau priso, ystyrir bod hyn yn risg archwilio allweddol.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Dylunio rheolaethau: asesu rheolaethau mewn perthynas â monitro a mesur offerynnau ariannol deilliadol gan ddefnyddio prisiadau trydydd parti; Asesu methodolegau: aseswyd y methodolegau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd gan y grŵp wrth bennu gwerthoedd teg gyda chymorth arbenigwyr trysorlys KPMG; Profi manylion: cadarnhawyd bod y data megis cyfraniadau'r cyflogwr a ddarparwyd i'r actiwariau yn cyd-fynd â'r data a ddarparwyd i'r tîm archwilio; Asesu tryloywder: rydym hefyd wedi ystyried digonolrwydd datgeliadau'r grŵp mewn perthynas â sensitifrwydd y diffyg i newidiadau yn y tybiaethau allweddol.

3. Ein cymhwysiad o berthnasedd a throsolwg o gwmpas ein harchwiliad

Y berthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y grŵp oedd £10.0 miliwn (2016: £10.0 miliwn) a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o asedau gros y grŵp (y mae'n cynrychioli 0.17% ohonynt (2016: 0.18%)).

Rydym yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd neu nas cywirwyd a nodwyd sy'n fwy na £500,000 (2016: £500,000), yn ogystal â chamddatganiadau eraill a nodwyd yr oedd angen rhoi gwybod amdanynt am resymau ansodol.

Cynhaliodd tîm archwilio'r Grŵp archwiliad o'r Grŵp fel pe bai'un un gyfres gyfanredol o wybodaeth ariannol. Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio'r lefelau berthnasedd a nodwyd uchod, yn cwmpasu 100% o gyfanswm refeniw y Grŵp, colled y Grŵp cyn trethiant, a chyfanswm asedau'r Grŵp ac fe'i cynhaliwyd ym mhrif swyddfa'r cwmni yn Nelson, Treharris a Llaneirwg, Caerdydd.

4. Nid yw ein barn ar faterion eraill a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac o dan delerau ein penodiad wedi newid

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr wedi ein penodi i archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a ddisgrifir fel un a gafodd ei archwilio, y mae'r cyfarwyddwyr wedi penderfynu ei baratoi fel pe bai'n ofynnol i'r cwmni gydymffurfio â gofynion Atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (OS 2008 Rhif 410) a wnaed o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr y cawsom ein penodi i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol ag Atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a wnaed o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, fel pe bai'r gofynion hynny yn gymwys i'r cwmni;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol

Yn seiliedig ar y gwaith y mae'n rhaid ei gyflawni wrth archwilio'r datganiadau ariannol, a hyn yn unig, ac ar ôl darllen yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr:

- nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiadau hynny;
- yn ein barn ni, mae'r adroddiadau hynny wedi eu paratoi yn unol â Ddeddf Cwmnïau 2006.

5. Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â datgeliadau'r prif risgiau

Yn seiliedig ar y wybodaeth a gawsom yn ystod ein harchwiliad, nid oes dim byd perthnasol gennym i'w ychwanegu nac i dynnu sylw ato mewn perthynas â'r canlynol:

- datganiad y cyfarwyddwyr o'r hyfywedd hirdymor (ar dudalen 63), sy'n ymwneud â'r prif risgiau, eu rheolaeth, ac, yn seiliedig ar hynny, asesiad a disgwyliadau'r cyfarwyddwyr y bydd y grŵp yn parhau i weithredu dros y pum mlynedd hyd at 2022; neu
- y datgeliadau yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol ynghylch y defnydd o'r sail cyfrifyddu ar gyfer busnes gweithredol.

6. Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

O dan safonau ISA (y DU ac Iwerddon), mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os ydym, yn seiliedig ar y wybodaeth a gaffaelwyd gennym yn ystod ein harchwiliad, wedi nodi gwybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol sy'n cynnwys anghysondeb perthnasol â'r wybodaeth honno neu'r datganiadau ariannol hynny, camddatganiad perthnasol o ffaiith, neu rywbeth sydd fel arall yn gamarweiniol.

Yn benodol, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydym wedi nodi anghysondebau perthnasol rhwng y wybodaeth a gaffaelwyd yn ystod ein harchwiliad a datganiad y cyfarwyddwyr, lle maent o'r farn bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn rhoi'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i randdeiliaid asesu sefyllfa a pherfformiad, model busnes a strategaeth y grŵp; neu
- nid yw Adroddiad y Pwyllgor Archwilio yn mynd i'r afael yn briodol â materion y mae'r Pwyllgor Archwilio wedi rhoi gwybod i ni amdanynt.

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac o dan delerau ein penodiad mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni, neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr y cawsom ein penodi i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr a nodir gan y gyfraith; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr wedi ein penodi i adolygu eu Datganiad Llywodraethu Corfforaethol fel pe bai angen i'r cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestru, Rheolau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny. O dan delerau ein penodiad mae'n ofynnol i ni adolygu:

- datganiadau'r cyfarwyddwyr, a nodir ar dudalen 63, mewn perthynas â busnes gweithredol a hyfywedd tymor hwy;
- y rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 72 sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y cwmni â'r un ddarpariaeth ar ddeg o God Llywodraethu Corfforaethol y DU 2014 a nodwyd ar gyfer ein hadolygiad.

Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r cyfrifoldebau uchod.

Cwmpas a chyfrifoldebau

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr (a nodir ar dudalen 108), mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Darperir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditscopeukprivate. Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r cwmni fel corff yn unig ac mae'n destun esboniadau ac ymwadiadau pwysig ynghylch ein cyfrifoldebau, a gyhoeddir ar ein gwefan yn www.kpmg.com/uk/auditscopeukco2014b, ac a ymgorfforir yn yr adroddiad hwn fel petaent wedi'u nodi'n llawn a dylid eu darllen er mwyn deall diben yr adroddiad hwn, y gwaith rydym wedi ei gynnal a sail ein barn.



James Ledward

Uwch Archwilydd Statudol

dros ac ar ran KPMG LLP
Cyfrifwyr Siartredig Archwilwyr Statudol

3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia,
Caerdydd CF10 4AX
8 Mehefin 2017

DATGANIADAU ARIANNOL

DATGANIAD INCWM CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017

		2017	2016
Gweithgareddau parhaus	Nodyn	£m	£m
Refeniw		743.6	743.2
Costau gweithredu:			
Gwariant gweithredol	3	(312.6)	(297.3)
Eitemau eithriadol	4	-	20.0
Gwariant ar adnewyddu seilwaith		(69.7)	(58.0)
Dibrisio ac omorteiddio	3	(256.6)	(247.1)
		(638.9)	(582.4)
Elw gweithredu			
		104.7	160.8
Costau cyllido:			
Costau cyllido sy'n daladwy a thaliadau tebyg	5a	(144.2)	(128.7)
Incwm cyllid sy'n dderbyniadwy		3.6	5.6
(Colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	5b	(63.0)	39.3
		(203.6)	(83.8)
(Colled)/elw cyn trethiant			
		(98.9)	77.0
Trethiant	6	28.9	8.9
(Colled)/elw am y flwyddyn		(70.0)	85.9

	2017	2016
(Colled)/elw sylfaenol am y flwyddyn	£m	£m
(Colled)/elw cyn trethiant fesul Datganiad Incwm	(98.9)	77.0
Addasiad ar gyfer:		
Colledion/(enillion) gwerth teg ar ddatganiadau ariannol deilliadol (gweler nodyn 5b)	63.0	(39.3)
Eitemau eithriadol (gweler nodyn 4)	-	(20.0)
(Colled)/elw sylfaenol am y flwyddyn	(35.9)	17.7

Mae'r cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm y rhiant-gwmni. Elw'r rhiant-gwmni ar gyfer y cyfnod 15 mis hyd at 31 Mawrth 2017 oedd £30.2 miliwn.

DATGANIAD CYFUNOL O INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017

	Nodyn	2017 £m	2016 £m
(Colled)/elw am y flwyddyn		(70.0)	85.9
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled			
Colled actiwaraid a gydnabwyd yn y cynllun pensiwn	22	(43.3)	(24.6)
Treth ohiriedig gysylltiedig	7	5.9	3.7
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	8	156.8	1,247.8
Treth ohiriedig gysylltiedig	7	(15.3)	(224.6)
Cyfanswm yr eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled		104.1	1,002.3
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		34.1	1,088.2

DATGANIAD CYFUNOL O NEWIDIADAU MEWN ECWITI AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017

	Cronfa ailbriso wrth gefn £m	Enillion orgadwedig £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2015	-	(6.4)	(6.4)
Elw am y flwyddyn	-	85.9	85.9
Colled actiwaraid llai treth	-	(20.9)	(20.9)
Ailbriso llai treth	1,023.2	-	1,023.2
Trosglwyddo i enillion orgadwedig	(45.3)	45.3	-
Ar 31 Mawrth 2016	977.9	103.9	1,081.8
(Colled)/elw am y flwyddyn	-	(70.0)	(70.0)
Colled actiwaraid llai treth	-	(37.4)	(37.4)
Ailbriso llai treth	141.5	-	141.5
Trosglwyddo i enillion orgadwedig	(50.3)	50.3	-
Ar 31 Mawrth 2017	1,069.1	46.8	1,115.9

Roedd gan y rhiant-gwmni £30.2 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2017 a oedd yn ymwneud â difidendau a gafwyd o'i is-gwmni a berchnogir yn llawn.

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2017

	Nodyn	2017 £m	2016 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	9	5,065.2	4,841.3
Asedau anniriaethol	10	119.5	105.7
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	16	2.2	0.2
		5,186.9	4,947.2
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	12	563.2	544.2
Stocrestrau		2.8	2.1
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	16	4.0	3.6
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	13	100.6	135.1
		670.6	685.0
Cyfanswm yr asedau		5,857.5	5,632.2
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	14	(556.5)	(527.4)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	15	(39.3)	(73.5)
- offerynnau ariannol deilliadol	16	(35.2)	(24.0)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	18	(1.2)	(3.2)
		(632.2)	(628.1)
Asedau cyfredol net		38.4	56.9
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	14	(204.6)	(159.2)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	15	(2,938.8)	(2,869.7)
- offerynnau ariannol deilliadol	16	(448.0)	(393.8)
Buddiannau ôl-gyflogaeth	22	(95.2)	(56.5)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	18	(9.6)	(11.3)
		(3,696.2)	(3,490.5)
Asedau net cyn treth ohiriedig		1,529.1	1,513.6
Treth ohiriedig - net	7	(413.2)	(431.8)
Asedau net		1,115.9	1,081.8
Ecwiti			
Cronfa ailbrisio wrth gefn		1,069.1	977.9
Enillion argadwedig		46.8	103.9
		1,115.9	1,081.8

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 117 i 148 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 8 Mehefin 2017 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:


C A Jones
Prif Weithredwr


P J Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol

MANTOLEN Y RHIANT-GWMNI AR 31 MAWRTH 2017

	Nodyn	2017 £m
Asedau		
Asedau anghyfredol		
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	11	3,228.6
		3,228.6
Asedau cyfredol		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	13	30.1
		30.1
Asedau net		3,258.7
Cronfeydd wrth gefn		
Enillion argadwedig		30.2
Cronfa ailbrizio wrth gefn		3,228.5
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		3,258.7

DATGANIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y CYFNOD
A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017

	Cronfa ailbrizio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm £m
Balans adeg corffori	-	-	-
Elw am y cyfnod	3,228.5	30.2	3,258.7
Balans ar 31 Mawrth	3,228.5	30.2	3,258.7

Corfforwyd y rhiant-gwmni ar 15 Rhagfyr 2015. Mae'n gweithredu fel cwmni daliannol ac nid yw'n masnachu.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol
ar dudalennau 117 i 148 gan Fwrdd y
Cyfarwyddwyr ar 8 Mehefin 2017 ac
fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



C A Jones
Prif Weithredwr



P J Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachu

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
31 MAWRTH 2017

	Nodyn	2017 £m	2016 £m
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	19a	336.9	368.9
Llog a dalwyd	19b	(124.6)	(128.9)
Treth incwm a dderbyniwyd		1.1	0.2
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu		213.4	240.2
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		3.8	5.6
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		(237.7)	(195.0)
Asedau anniriaethol a brynwyd		(33.5)	(25.0)
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		16.1	16.7
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(251.3)	(197.7)
Llif arian parod net cyn gweithgareddau cyllido		(37.9)	42.5
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Benthyciadau hirdymor a dderbyniwyd		70.0	-
Ad-dalu benthyciadau		(36.9)	(80.4)
Ad-daliadau cyfnod benthyciad		(20.3)	(46.6)
Prif daliadau prydlesau cyllid		(9.3)	(51.4)
Ad-daliadau benthyciadau eraill		(0.1)	(0.2)
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido		3.4	(178.6)
Gostyngiad mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	20b	(34.5)	(136.1)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		135.1	271.2
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	13	100.6	135.1

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD Y RHANT-GWMNI AR GYFER Y CYFNOD A DDAETH I BEN
31 MAWRTH 2017

	2017 £m
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi	
Difidend a dderbyniwyd	30.2
Buddsoddi mewn is-gwmni	(0.1)
Llif arian parod net o weithgarwch buddsoddi	30.1
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	30.1
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo adeg corffori	-
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	30.1

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU, RHEOLI RISGIAU CYLLIDO AC AMCANGYFRIFON CYFRIFYDDU

Polisiâu cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y cwmni") yn gwmni preifat sy'n hanu o Gymru a Lloegr ac a gaiff ei gorffori a'i gofrestru yno. Y rhif cofrestredig yw 09917809 a'r cyfeiriad cofrestredig yw Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, CF46 6LY.

Nodir y prif bolisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson at y ddwy flwyddyn a gyflwynwyd.

Sail y paratoi

Corfforwyd cwmni newydd o'r enw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (GCHC) ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r cwmni hwn yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae Aelodau Glas Cymru Anghyfyngedig bellach wedi trosglwyddo i fod yn Aelodau o Glas Cymru Holdings Cyfyngedig. Yn unol â hynny, GCHC bellach yw rhiant-gwmni terfynol Grŵp Glas.

At ddibenion y datganiadau ariannol hyn, gan na fu unrhyw newid ym mherchenogaeth gyffredinol y Grŵp, mae'r Grŵp wedi gallu defnyddio Adran 611 o Ddeddf Cwmnïau (Rhyddhad atgyfansoddi'r Grŵp), ynghyd ag esemptiadau 'Rheolaeth Gyffredin' o fewn EU-IFRS i baratoi'r cyfrifon ar y sail bod y strwythur cyfredol wedi bodoli erioed.

Y dulliau cymharu a gynhwyswyd yn y cyfrifon hyn ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 oedd y rhai a gyhoeddwyd ar gyfer y Grŵp Glas Cymru Anghyfyngedig blaenorol, sy'n golygu bod y datganiadau ariannol hyn yn rhoi darlun cymharol o'r Grŵp.

Paratowyd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Phwyllgor Dehongliadau IFRS (IFRS IC) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n cyflwyno adroddiadau o dan ddehongliadau IFRS ac IFRIC. Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbrisio asedau sefydlog, asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol

(yn cynnwys offerynnau ariannol deilliadol) ar werth teg drwy elw neu golled.

Busnes gweithredol

Fel y disgrifir yn yr adran ar reoli risg cyllido, mae'r Grŵp yn bodloni ei ofyniad cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy ei gyfleusterau banc. Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r Grŵp, sy'n ystyried newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran perfformiad masnachu, yn dangos y dylai allu gweithredu o fewn ei gyfleusterau cyfredol. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Felly, mae'r Grŵp yn parhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol penodol. Mae hefyd angen i reolwyr lunio barn wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu'r Grŵp. Datgelir y meysydd sy'n gofyn am arddel mwy o ddoethineb neu sy'n gymhleth iawn, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol, ar dudalen 125.

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y cwmni a'i is-gwmnïau. Ymdrinnir â chanlyniadau'r cwmnïau a'r busnesau a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiadau ariannol cyfunol o'r dyddiad y'u caffaelwyd. Dilëir trafodion ac elw rhwng grwpiau ar adeg cyfuno.

Newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu a datgeliadau

Cyhoeddwyd y safonau, dehongliadau a diwygiadau newydd canlynol i safonau a dehongliadau ond nid ydynt yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2017 ac nid ydynt wedi'u mabwysiadu'n gynnar:

- IAS 7 Datganiad o lifau arian parod - datgeliadau mwy penodol
- IAS 12 Treth incwm - yn egluro'r meini prawf cydnabod ar gyfer asedau treth ohiriedig sy'n deillio o offerynnau dyledion
- IAS 28 Buddsoddiad mewn cwmnïau cyswllt a mentrau ar y cyd - egluro mesur gwerth teg

- IAS 40 Eiddo buddsoddi - eglurhad pellach
- IFRS 9 Offerynnau ariannol
- IFRS 12 Datgelu buddiannau mewn endidau eraill
- IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid
- IFRS 16 Prydlesau

Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Cydnabod refeniw

Refeniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, heb gynnwys treth ar werth. Lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn, cynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn refeniw (ceir rhagor o fanylion yn yr adran 'Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol'). Mae'r refeniw a gydnabuwyd yn adlewyrchu gwerth gwasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Lle mae cwsmeriaid wedi gwneud taliadau ymlaen llaw ar ddiwedd y flwyddyn, caiff hyn ei gydnabod fel incwm gohirieidig.

Adrodd ar segmentau

Caiff segmentau gweithredu eu hadrodd mewn modd sy'n gyson â'r adroddiad mewnol a roddir i'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol. Nodwyd mai'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segment gweithredu, yw'r pwyllgor llywio sy'n gwneud penderfyniadau strategol.

Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau'r rhiant-gwmni yn cynnwys daliadau ecwiti mewn is-gwmnïau a berchnogir yn llawn, fel y nodir yn nodyn 11. Datgenir y rhain ar werth teg, gydag unrhyw ennill neu golled ganlyniadol yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, mewn cronfa ailbrisio wrth gefn.

Mae'r gwerth teg wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio techneg DCF (llif arian parod wedi'i ddisgowntio), ynghyd ag ystyried trafodion marchnad arsylwadwy, gan gyfeirio at gost gyfartalog cyfalaf y Grŵp wedi ei phwysoli.

Eiddo, offer a chyfarpar

Cynhwyswyd eiddo, offer a chyfarpar ar gost llai dibrisiant cronedig hyd at 31 Mawrth 2015.

O 1 Ebrill 2015 mae'r grŵp wedi dilyn polisi o brisio ei asedau ar werth teg; ceir rhagor o fanylion yn nodyn 8. Cofnodir ychwanegiadau dilynol ar gost a chodir dibrisiant ar y sail cost hanesyddol ac ar yr ailbrisio.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- a) Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd cronni dŵr a chronfeydd storio dŵr crai wedi ei bwmpio, argaeau, pibellau llaid a gollyngfeydd i'r môr);
- b) Asedau eraill (gan gynnwys eiddo, strwythurau a chyfarpar gweithredol uwchben y ddaear, a gosodiadau a ffitiadau).

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Adolygir oes asedau a gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol.

Asedau seilwaith

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd cronni dŵr a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf. At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau gyda nodweddion ac oes ased debyg. Mae'r system dŵr gwastraff wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu daearyddol, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Ymddrinnir â gwariant ar asedau seilwaith sy'n ymwneud â chynnydd mewn gallu, gwelliannau neu achosion perthnasol o adnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, a gynhwysir ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu seilwaith', yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant a godir am asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, y gwerth gweddilliol amcangyfrifedig a'r oes ddefnyddiol gyfartalog ddisgwyliedig sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 60 i 150 o flynyddoedd.

Asedau eraill

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 mlynedd
Strwythurau gweithredol	5 – 80 mlynedd
Offer, cyfarpar a chaledwedd gyfrifiadurol	3 – 40 mlynedd

Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu nes eu bod wedi'u comisiynu. Ni ddibrisir tir.

Costau benthyca

Costau benthyca cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau cymhwyso. Asedau cymhwyso yw asedau sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i baratoi ar gyfer eu defnydd neu werthiant bwriadedig.

Asedau anniriaethol

Cynhwysir asedau anniriaethol, sy'n cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol, datblygiadau system ac ymchwil a datblygu yn bennaf, ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Cydnabyddir gwariant ar ymchwil fel gwariant yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol (yn unol ag IAS 38).

Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd rhwng tair ac 20 mlynedd. Adolygir oes yr asedau hyn yn flynyddol.

Asedau ar brydles

Cyllidir rhai asedau gan drefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo, i raddau helaeth, holl risgiau a gwobrwyon perchenogaeth ased i'r lesdeiliad (prydlesau cyllid). Caiff yr asedau hyn eu cyfalafu a'u cynnwys mewn 'eiddo, offer a chyfarpar' gyda'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r lesydd yn cael ei chynnwys o fewn 'rhwymedigaethau ariannol –

benthyciadau'. Mae taliadau prydlesu yn cynnwys elfen gyfalaf a thâl cyllid; mae'r elfen gyfalaf yn lleihau'r rhwymedigaeth i'r lesydd a choiff y tâl cyllid ei gydnabod dros gyfnod y brydles yn seiliedig ar ei gyfradd ymhlwg er mwyn rhoi cyfradd llog gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Ystyrir pob prydles arall yn brydles weithredu. Codir costau rhentu o dan brydlesau gweithredu i'r datganiad incwm ar sail linol dros gyfnod y brydles.

Grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi'u gwrthbwyso yn erbyn yr asedau hyn.

Caiff grantiau mewn perthynas â gwariant referniw eu credydu i'r datganiad incwm dros yr un cyfnod â'r gwariant cysylltiedig.

Cymelldaliadau rhaglenni gwariant cyfalaf

Mae cytundebau'r Grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys cronïad ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y câi cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

Symiau masnach derbyniadwy

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar y dechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Yn gyntaf, cânt eu hasesu'n unigol o ran lleihad mewn gwerth, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer lleihad mewn gwerth wrth heneiddio. Cofnodir symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb

iddo yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Y math yma o fuddsoddiadau, fel arfer, yw'r rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad caffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adnevon gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

Costau pensiwn

1) Cynllun buddiannau diffiniedig

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru, a gaodd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017 ar gyfer pob aelod heblaw am 18 o aelodau adran ESPS. Ariennir y cynllun gan gyfraniadau'r cyflogwr yn ogystal â chyfraniadau cyflogeion o'r aelodau gweithredol sy'n weddill. Seilir cyfraddau cyfraniadau ar gyngor actiwari sy'n gymwys yn broffesiynol a chynhelir prisiadau actiwaraidd o'r cynllun o leiaf bob tair blynedd.

Y rhwymedigaeth a gydnabuwyd yn y fantolen mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn flynyddol gan actiwari annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau credyd. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o safon a gaiff eu mynegi yn yr arian cyfred y caiff y buddiannau eu talu ynddo, ac a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn gysylltiedig yn codi. Mewn gwledydd lle nad oes marchnad ddofn mewn bondiau o'r fath, defnyddir cyfraddau'r farchnad ar fondiau'r llywodraeth.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu codi neu eu credydu i ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Cydnabyddir costau ôl-wasanaeth ar unwaith mewn incwm.

2) Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru, y mae pob cyflogai yn gymwys i ymuno ag

ef. Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr elw net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwylidig offerynnau o'r fath ar gyfradd sefydlog ar y swm cario.

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau masnach taladwy. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes.

Offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yw cyfradd llog, cyfnewidiadau chwyddiant a rhagfantolion pŵer. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddiben rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y Grŵp. Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, nid oedd yr un o ddeilliadau'r Grŵp yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39 (2016: dim). Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Treth ohiriedig

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio o sylfaen treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'n deillio o gydnabod ased neu rhwymedigaeth i ddechrau mewn trafodyn heblaw am gyfuniad busnes nad yw, ar adeg y trafodyn, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled trethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau (a chyfreithiau) treth a gyhoeddwyd neu a gyhoeddwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei gwredu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Mae treth incwm ohiriedig wedi'i chydabod mewn perthynas ag enillion a ailfuddsoddiwyd ac eithrio lle yr ailfuddsoddiwyd mewn rhai asedau gweithredol y mae'r cwmni yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r cwmni'n rhagweld y caiff yr asedau hyn eu gwaredu maes o law am elw bach, neu elw sy'n llai na'u sylfaen treth, ac felly ni ddisgwylir i unrhyw enillion taladwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio'r gwahaniaethau dros dro ar ei gyfer.

Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer costau ailstrwythuro, dadfeiliadau a cholledion nas yswiriwyd eu cydnabod pan fydd gan y Grŵp rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, ac mae'r swm wedi cael ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Mae darpariaethau ailstrwythuro yn cynnwys diswyddo cyflogeion a chostau i ychwanegu at gronfeydd pensiwn. Lle mae'r Grŵp yn derbyn hawliadau nad yw wedi'i yswirio rhagddynt neu lle mae elfen o'r hawliad nad yw yswiriant ar gael ar ei chyfer, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rhwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gaiff ei chynnwys yn yr un dosbarth o rhwymedigaethau yn fach.

Eitemau eithriadol

Eitemau eithriadol yw'r eitemau sylweddol hynny a ddatgelir ar wahân oherwydd eu maint a/neu natur fel y gellir deall gwir berfformiad ariannol y Grŵp.

Defnyddio mesurau wedi'u haddasu

Mae'r Grŵp yn cyflwyno mesur colled/elw cyn treth sylfaenol. Defnyddir y mesur hwn i ddadansoddi perfformiad yn fewnol gan fod y rheolwyr o'r farn ei fod yn cynrychioli perfformiad sylfaenol y busnes yn well. Gwneir addasiadau ar gyfer eitemau eithriadol a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau.

AMCANION A PHOLISIĀU RHEOLI RISG CYLLIDO

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisiāu ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r polisiāu yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth. Caiff polisiāu manwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred a risg chwyddiant a risg rheoli hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd a dim ond gyda chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru Cyfyngedig y gellir eu newid. Caiff y risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol. Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau cyllid, cyfleusterau benthyciadau banc a deilliadau.

Y risg o ran credyd

Mae gan y Grŵp bolisi doeth ar gyfer buddsoddi arian parod ac adnevon banc byrdymor, a nodwyd gan y ddogfennaeth bondiau yn y Cytundeb Telerau Cyffredin. Gellir gosod adnevon gyda'n Banc Cyfrifon am risg dros nos yn unig neu am hyd at flwyddyn gyda gwrthbartion sydd â sgôr fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf gan Standard & Poor's, Moody's a Fitch yn y drefn honno. Dylid gosod adnevon am dros flwyddyn gyda gwrthbartion â sgôr hirdymor o AA-/Aa3/AA- o leiaf.

Yn ymarferol, yn yr amgylchedd economaidd cyfredol, mae'r Grŵp wedi mabwysiadu dull mwy darbodus o reoli arian parod a gosodir adnevon am uchafswm o fis gyda banciau yn amodol ar feini prawf o sgôr hirdymor o A-/A3/A- o leiaf. Dim ond gydag uwchfanciau cenedlaethol sgôr AAA penodol y gellir gosod bondiau a phrynionau papur masnachol am hyd at flwyddyn. Yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £69 miliwn (2016: £29 miliwn).

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae'r Grŵp yn rhagfantoli o leiaf 85% o'i holl rhwymedigaethau ariannol sydd heb eu bodloni, gan gynnwys prydlesau cyllid, naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol

a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae refferniw a gwerth asedau rheoleiddiol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r Grŵp i risg o chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyaeth y Bwrdd, gallai'r Grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu lunio trafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r Grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ailgyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthyciadau o £2,978 miliwn ar 31 Mawrth 2017 (2016: £2,943 miliwn), nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2016: dim). Felly, mae'r Grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 100% (2016: 100%) o ddyled gros y Grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol ('RPI') ar ôl ystyried cyfnewidiadau mewn cyfraddau llog ac RPI. Mae'r rhagfantolion a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn economaidd o ran natur, ond nid ydynt yn bodloni gofynion penodol IAS 39 er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £477 miliwn ar y fantolen ar 31 Mawrth 2017 (2016: £414 miliwn) ond, gan dybio bod y cyfnewidiadau wedi eu dal nes eu bod yn aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i ddim yn y pen draw.

Rhagfantolion pris pŵer

Mae'r cwmni yn llunio contractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Mae'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol ac fe'u cynhwysir yn y datganiadau ariannol.

Ailgyllido risg

Caiff y broses o ailgyllido risg ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthyciadau ar draws amrywiaeth o offerynnau, mathau a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r Grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfedrwydd yn gosod straen gormodol ar ei allu i ad-dalu benthyciadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm benthyciadau'r Grŵp o £2,923 miliwn

(2016: £2,853 miliwn) fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

Y risg o ran hylifedd

Mae'r Grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio penodol er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliaid bond a chredydwyd ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r Grŵp sicrhau bod arian parod ar gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis. Ar 31 Mawrth 2017, roedd y Grŵp wedi ymrwymo cyfleusterau benthycia nas hawliwyd o £460 miliwn (2016: £280 miliwn) ac arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo (ac eithrio cyfrif taliadau gwasanaeth dyledion) o £95 miliwn (2016: £80 miliwn).

Yn 2014, cytunodd y Grŵp ar gyfleuster benthycia o £230 miliwn â Banc Buddsoddi Ewrop. Hawliwyd £160 miliwn o'r cyfleuster yn ystod 2015. Hawliwyd y cyfleuster a oedd yn weddill sef £70 miliwn ar 17 Mai 2016. Mae gan y Grŵp hefyd gyfleuster benthycia nas hawliwyd o £60 miliwn gyda KfW-IPEX Bank a hawliwyd ar 5 Mai 2017. Bydd y benthyciad yn dechrau amorteiddio o fis Mai 2020 a bydd yn ad-daladwy mewn rhandaliadau bob chwe mis yn dod i ben ym mis Tachwedd 2025.

Cytunodd y Grŵp ar gyfleuster benthycia arall ym mis Ionawr 2017 o £250 miliwn gyda Banc Buddsoddi Ewrop, nas defnyddiwyd dim ohono. Mae'r cyfleuster ar gael i'w ddefnyddio tan fis Ionawr 2019.

Mae gan y Grŵp £150 miliwn o gyfleusterau credyd cylchdro nas hawliwyd; daw £130 miliwn o'r rhain i ben yn 2020 a bydd y gweddill ar gael tan 2019 gydag opsiwn i ymestyn (yn amodol ar ganiatâd y darparwr) am flwyddyn arall hyd at 2020. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10 miliwn hefyd (2016: £10 miliwn) y gellir ei adnewyddu yn flynyddol.

Ar 31 Mawrth 2017 roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135 miliwn (2016: £135 miliwn) hefyd; mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfmodau cyllido dyled. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Risg cyfalaf

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes

gweithredol. O ystyried yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r Grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Cyfrifir hon fel dyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfamodau benthyca'r Grŵp) fel cyfran o'i Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) fel y'i cysylltir â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu ac fel y'i pennwyd gan Ofwat. Ar 31 Mawrth 2017 roedd gerio rheoleiddiol yn 56% (2016: 57%).

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 17.

AMCANGYFRIFON CYFRIFYDDU CRITIGOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen y defnydd o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o referniw a threuliau a nodir yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiad neu gamau gweithredu hyd y gellir, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy
Cyfrifir colledion unigol oherwydd lleihad yng ngwerth dyledion cwsmeriaid ar sail asesiad unigol o'r llifau arian parod a ddisgwyllir. Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy gyda risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Y dybiaeth allweddol yn y model yw'r tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau pan fyddant yn ôl-ddyledus. Pennir y tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau gan brofiad yn y gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol. Felly byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau o leihad mewn gwerth. I'r graddau y mae methu ag adennill ôl-ddyledion yn newid 1%, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn cynyddu neu'n gostwng £1.0 miliwn (2016: £0.8 miliwn).

Buddiannau pensiwn

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiwaraid, sy'n cynnwys nifer o dybiaethau. Mae'r thybiaethau hyn yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio,

a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn. Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r Grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon, wedi'u mynegi mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Pe bai'r gyfradd ddisgowntio hon yn gostwng neu'n cynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Mawrth 2017 yn cynyddu neu'n lleihau £9.9 miliwn (2016: £7.7 miliwn).

Croniad incwm a fesurwyd

Mae referniw yn cynnwys cronriad ar gyfer taliadau nas biliwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir y cronriad drwy ddefnyddio methodoleg ddiffiniedig yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog, wedi'i bwysoli o ddŵr yn ôl tariff, a gyfrifir ar sail gwybodaeth filio hanesyddol wedi'i haddasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol, megis y tywydd. Roedd cyfanswm y cronriad ar 31 Mawrth 2017 yn £68.8 miliwn (2016: £64.9 miliwn). Byddai newid o 1% mewn defnydd gwirioneddol o'r hyn a amcangyfrifwyd yn cynyddu neu'n lleihau'r cronriad £0.5 miliwn (2016: £0.7 miliwn).

Amcangyfrif gwerth teg

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg, caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categoreiddio'n lefelau gwahanol:

Lefel 1: Prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union debyg.

Lefel 2: Mewnbynau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd ar Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (prisiau) neu'n anuniongyrchol (yn deillio o brisiau).

Lefel 3: Mewnbynau ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata canfyddadwy o'r farchnad.

Caiff holl ddeilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categoreiddio ar Lefel 2 ac ar 31 Mawrth 2017 fe'u prisiwyd fel a ganlyn:

Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Asedau: deilliadau masnachu £2.6 miliwn, deilliadau trysorlys £3.6 miliwn (Mawrth 2016: deilliadau masnachu £0.2 miliwn, deilliadau trysorlys £3.6 miliwn).

Rhwymedigaethau: deilliadau masnachu £3.3 miliwn, deilliadau trysorlys £479.9 miliwn (Mawrth 2016: deilliadau masnachu £9.4 miliwn, deilliadau trysorlys £408.4 miliwn).

Mae deilliadau masnachu yn ymwneud â rhanfantolion pris pŵer. Mae deilliadau trysorlys yn ymwneud â chontractau cyfnewidiadau cyfradd llog ac fe'u cofnodir ar werth teg ar y fantolen. Aseswyd bod pob un o'r rhain ar Lefel 2.

Pennwyd gwerth teg contractau rhagfantoli pris pŵer gan ddefnyddio cyfraddau a ddyfynnir mewn marchnad weithredol. Pennir gwerth teg cyfnewidiadau cyfradd llog gan ddefnyddio blaengyfraddau llog a dynnir o gromliniau cynnyrch canfyddadwy. Mae effeithiau disgowntio yn ansylweddol ar y cyfan ar gyfer deilliadau Lefel 2.

Caiff buddsoddiadau dyled Lefel 2 eu priso gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2 yn ystod y flwyddyn.

Cyfalafu

Mae angen gallu da i wneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewnol arall, ar seilwaith a phethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu (y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased, gan ddarparu budd economaidd tebygol ac y gellir eu mesur yn ddibynadwy) ac a gânt eu cynnwys felly wrth brisio eiddo, offer a chyfarpar, neu fel arall a ddylent gael eu gwario ar unwaith.

2. GWYBODAETH SEGMENTOL

Ym marn y Cyfarwyddwyr dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu busnes dŵr a charthffosiaeth (a gweithgareddau masnachol ymylol) yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y Grŵp, dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn hefyd.

3. ELW/(COLLED) CYN TRETH

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r elw/(colled) cyn trethiant:

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Gwariant gweithredu		
Pŵer	41.0	42.6
Cemegion	9.3	9.5
Deunyddiau a chyfarpar	5.5	5.7
Cerbydau ac offer	7.8	7.2
Treuliau swyddfa	10.3	7.3
Costau eiddo	3.5	4.5
Yswiriant	5.7	4.5
Contractwyr carthffosiaeth	18.5	14.9
Gwasanaethau labordai a dadansoddi	0.7	0.6
Comisiynau casglu	3.6	4.0
Contractau TG	16.2	13.6
Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	35.3	35.6
Costau cyflogeion (nodyn 21)	134.4	127.2
Costau staff wedi'u cyfalafu	(48.3)	(46.2)
Credyd ymchwil a datblygu	-	(1.1)
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy	23.3	27.0
Ardrethi	30.5	25.3
Taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd	14.8	14.7
Ffioedd sy'n daladwy i archwilyr	0.5	0.4
Cyfanswm gwariant gweithredol cyn eitemau eithriadol	312.6	297.3
Eitemau eithriadol	-	(20.0)
Cyfanswm gwariant gweithredol yn cynnwys eitemau eithriadol	312.6	277.3
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	69.7	58.0
Dibrisio ac amorteiddio		
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	241.4	230.7
Rhyddhau incwm gohiriedig	(4.5)	(3.5)
Amorteiddio asedau anniriaethol	19.7	19.9
Cyfanswm dibrisio ac amorteiddio	256.6	247.1
Cyfanswm y costau gweithredu	638.9	582.4

Gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilyr y Grŵp

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilyr statudol:

Grŵp	2017	2016
Ffioedd archwilio	£000	£000
Archwiliad o'r riant-gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	20	10
Archwiliad o is-gwmnïau	120	85
Cyfanswm y ffioedd archwilio	140	95
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		
Adolygiad o ddatganiadau ariannol interim	22	22
Gwasanaethau archwilio rheoleiddiol yn unol â deddfwriaeth	39	29
Gwaith sicrwydd ar yr adolygiad rheoleiddiol o brisiau	14	-
Gwaith sicrwydd ar y cynllun taliadau	25	22
Adolygiadau o adroddiadau buddsoddwyr	6	5
Gwaith sicrwydd ar y cynllun taliadau cyfanwerthu	22	-
Cyfanswm gwasanaethau sicrwydd archwilio a gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	268	173
Gwasanaethau eraill		
Sicrwydd ar waith ailstrwythuro grŵp	-	3
Cyngor ar bensiynau	37	235
Cyngor ar dreth	17	5
Sicrwydd o ran dechrau masnachu ar y farchnad	25	25
Sicrwydd ar weithgareddau masnachol	85	-
Arolwg o'r bwlch rhwng y rhywiau	30	-
Cyfanswm gwasanaethau eraill	194	268
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarperir gan archwilyr y Grŵp	462	441

Mae gwasanaethau archwilio rheoleiddio yn cynnwys gwaith archwilio ar y Cyfrifon Rheoleiddio a'r Prif Ddatganiad.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd gan archwilyr allanol. Ni chaiff yr archwilyr allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a bydd yr holl waith nad yw'n waith archwilio yn gorfod cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio.

4. EITEMAU EITHRIADOL

Nid oedd unrhyw eitemau eithriadol yn ystod y flwyddyn. Yn 2016, cafwyd ad-daliad ardrethi busnes o £20 miliwn yn ymwneud ag asesiad rhwydwaith dŵr 2005. Ymdriniwyd â hyn fel mater eithriadol oherwydd ei faint.

5. COSTAU CYLLIDO

a) Cost cyllid cyn enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(88.4)	(87.7)
Mynegeoio ar fondiau mynegrifol	(24.8)	(13.1)
Mynegeoio ar fenthyciad mynegrifol	(5.7)	(1.4)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau cyllid (yn cynnwys cyfnewidiadau i RPI)	(18.5)	(14.4)
Llog benthyciadau eraill	(12.6)	(12.7)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(1.9)	(2.3)
Llog net a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(1.8)	(1.0)
Cyfalafu costau benthyca o dan IAS 23 (2017: 5.2%; 2016: 3.4%)	9.5	3.9
	(144.2)	(128.7)
Incwm cyllid	3.6	5.6
Cost cyllid net cyn addasiadau gwerth teg	(140.6)	(123.1)

b) Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfradd llog a chyfnewidiadau mynegrifol y Grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu elw net wedi eu datgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os y'u delir nes iddynt aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 16 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddelir ar y fantolen).

Grŵp	2017 £m	2016 £m
(Colledion)/enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	(2.6)	15.2
(Colledion)/enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	(60.4)	24.1
Cyfanswm (colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	(63.0)	39.3

Achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewidiadau hirdymor, ac achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau mynegrifol gan amrywiadau yng ngwerth giltiau mynegrifol a LIBOR 3-mis.

6. TRETHIANT

Dadansoddiad o'r (tâl a godwyd)/credyd yn ystod y flwyddyn

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Treth gyfredol		
Treth gyfredol ar elw am y flwyddyn	1.0	(0.1)
Treth gyfredol ar gredyd ymchwil a datblygu	-	(0.2)
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	(0.1)	0.4
Cyfanswm y dreth gyfredol	0.9	0.1
Treth ohiriedig		
Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	17.5	(15.0)
Addasiad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol	(1.9)	(0.3)
Effaith newid yn y gyfradd dreth	12.4	24.1
Cyfanswm y dreth ohiriedig (nodyn 7)	28.0	8.8
Trethiant a gredydwyd/(a godwyd)	28.9	8.9

Mae'r credyd treth cyfredol o £1.0 miliwn wedi codi wrth ildio colledion treth yn ymwneud â gwariant cyfalaf ynni-ffeithlon.

Mae'r colledion masnachu treth a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2017 yn £189 miliwn (2016: £233 miliwn) ac maent wedi lleihau o ganlyniad i beidio â hawlio lwfansau cyfalaf mewn perthynas â chyfnod blaenorol.

Mae addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol yn ymwneud â diwygiadau i falansau treth ohiriedig mewn perthynas â gwariant cyfalaf.

Mae trethi gohiriedig wedi elwa ar gredyd o £12.4 miliwn (2016: credyd o £24.1 miliwn) yn dilyn gostyngiadau a wnaed i gyfraddau treth gorfforaeth yn y dyfodol. Syrthiodd y gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo trethi gohiriedig o 18% i 17% ar gyfer y cyfnod cyfredol (2016: 20% i 18%). Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi unrhyw ostyngiadau pellach i gyfraddau treth gorfforaeth ac felly ni ddisgwylir unrhyw gredydau pellach sy'n deillio o newidiadau i gyfraddau mewn cyfnodau i ddod.

Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2016: yn is) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU sef 20% (2016: 20%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

Grŵp	2017 £m	2016 £m
(Colled)/elw cyn treth	(98.9)	77.0
(Colled)/elw cyn treth wedi'i lluosio/luosi â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 20% (2016: 20%)	(19.8)	15.4
Effaith:		
- Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	1.9	(0.2)
- Gwasanaethau parhaol eraill	0.7	0.1
- Effaith taliadau pensiwn sy'n fwy na thâl gwasanaeth	(1.0)	(0.1)
- Effaith newid yn y gyfradd dreth ar dreth ohiriedig wrth gau o 18% i 17%	(12.4)	(24.1)
- Gwahaniaeth yn y gyfradd treth gorfforaeth safonol (20%) a'r gyfradd a ddefnyddir ar gyfer treth ohiriedig (18%)	1.7	-
Cyfanswm y trethiant a gredydwyd	(28.9)	(8.9)

7. TRETH OHIRIEDIG

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfradd dreth o 17% (2016: 18%).

Mae'r symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig fel y'i dangosir isod:

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Ar 1 Ebrill	431.8	219.8
Credyd i'r Datganiad Incwm	(28.0)	(8.9)
Tâl a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	(5.9)	(3.7)
Tâl a godwyd ar y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	15.3	224.6
Ar 31 Mawrth	413.2	431.8

Dadansoddiad o'r symiau (a gredydwyd)/a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn:

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig	(7.8)	(4.9)
Ailddyrannu treth o'r datganiad incwm - taliadau pensiwn sy'n fwy na'r tâl gwasanaeth	1.0	0.1
Lleihad yn y gyfradd treth gorfforaeth - cynllun pensiwn	0.9	1.1
	(5.9)	(3.7)
Ailbrisio asedau sefydlog	28.2	249.6
Lleihad yn y gyfradd treth gorfforaeth - ailbrisio asedau sefydlog	(12.9)	(25.0)
	15.3	224.6

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Effaith:		
- Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	316.0	336.1
- Treth ohiriedig wrth ailbrisio asedau sefydlog	218.9	214.7
- Enillion cyfalaf a ailfuddsoddwyd	2.7	2.9
- Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(32.1)	(42.0)
- Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(75.1)	(68.6)
- Pensiynau	(15.7)	(9.8)
- Gwahaniaethau treth eraill	(1.5)	(1.5)
Darpariaeth net ar gyfer treth ohiriedig	413.2	431.8

Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n arwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. O dan y drefn dreth bresennol, bydd colledion treth masnachu a gariwyd ymlaen ar gael i wrthbwysu enillion masnachu mewn cyfnodau yn y dyfodol.

Nid oes gan y cwmni unrhyw falans treth ohiriedig (2016: dim).

8. CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Grŵp yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o brisiau. Mae'r Grŵp o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu'n well werth sylfaenol yr asedau na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tanddatgan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2017 mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' y Grŵp, sef GCRh 31 Mawrth 2017 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR14 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant a gwobrau/cosbau Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff llinellau asedau a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu bob blwyddyn.

Symudiad cronfa ailbrisio wrth gefn	2017 £m	2016 £m
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 1 Ebrill	977.9	-
Ailbrisio asedau i GCRh	156.8	1,247.8
Tâl dibrisio ar asedau a ailbrisiwyd	(61.3)	(55.2)
	95.5	1,192.6
Treth ohiriedig wrth ailbrisio	(15.3)	(224.6)
Treth ohiriedig ar y tâl dibrisio	11.0	9.9
	(4.3)	(214.7)
Cronfa ailbrisio wrth gefn ar 31 Mawrth	1,069.1	977.9

9. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Blwyddyn gyfredol	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol	Asedau seilwaith	Strwythurau gweithredol	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol	Cyfanswm
Grŵp	£m	£m	£m	£m	£m
Cost					
Ar 1 Ebrill 2016	41.6	2,090.1	3,681.9	262.4	6,076.0
Ailbrisio	-	24.3	-	-	24.3
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	0.1	122.1	184.2	2.1	308.5
Gwaredu	-	-	-	(0.4)	(0.4)
Ar 31 Mawrth 2017	41.7	2,236.5	3,866.1	264.1	6,408.4

Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2016	19.8	-	955.2	259.7	1,234.7
Ailbrisio	-	(43.8)	(88.7)	-	(132.5)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.8	43.8	192.7	4.1	241.4
Rhyddhawyd wrth waredu	-	-	-	(0.4)	(0.4)
Ar 31 Mawrth 2017	20.6	-	1,059.2	263.4	1,343.2

Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2017 (Gweler nodyn 8)	21.1	2,236.5	2,806.9	0.7	5,065.2
Ar 31 Mawrth 2017 (sail cost hanesyddol)	21.1	1,662.8	2,092.4	0.7	3,777.0

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £207.6 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2016: £109.0 miliwn); a

£42.9 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2016: £35.7 miliwn), yr oedd £8.4 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2016: £3.4 miliwn).

Blwyddyn flaenorol	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol	Asedau seilwaith	Strwythurau gweithredol	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol	Cyfanswm
Grŵp	£m	£m	£m	£m	£m
Cost					
Ar 1 Ebrill 2015	37.5	1,789.7	3,549.9	257.9	5,635.0
Ailbrisio	-	195.4	-	-	195.4
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	4.1	105.0	132.0	4.7	245.8
Gwaredu	-	-	-	(0.2)	(0.2)
Ar 31 Mawrth 2016	41.6	2,090.1	3,681.9	262.4	6,076.0

Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2015	19.1	290.4	1,494.0	253.1	2,056.6
Ailbrisio	-	(330.5)	(721.9)	-	(1,052.4)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.7	40.1	183.1	6.8	230.7
Rhyddhawyd wrth waredu	-	-	-	(0.2)	(0.2)
Ar 31 Mawrth 2016	19.8	-	955.2	259.7	1,234.7

Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2016	21.8	2,090.1	2,726.7	2.7	4,841.3
Ar 31 Mawrth 2016 (sail cost hanesyddol)	21.8	1,574.0	2,050.2	2.7	3,648.7

Aседau a ddelir o dan brydlesau cyllid

Mae asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel y'u dadansoddir isod:

Grŵp Blwyddyn gyfredol	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2017			
Cost	611.8	117.7	729.5
Dibrisiant cronedig	(113.3)	(84.8)	(198.1)
Gwerth llyfr net	498.5	32.9	531.4

Blwyddyn flaenorol	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2016			
Cost	611.8	117.7	729.5
Dibrisiant cronedig	(105.6)	(81.5)	(187.1)
Gwerth llyfr net	506.2	36.2	542.4

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar.

10. ASEDau ANNIRIAETHOL

Grŵp Blwyddyn gyfredol	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2016	241.3	(135.6)	105.7
Ychwanegiadau/(tôl a godwyd am y flwyddyn)	33.5	(19.7)	13.8
Ar 31 Mawrth 2017	274.8	(155.3)	119.5
Blwyddyn flaenorol	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2015	216.3	(115.7)	100.6
Ychwanegiadau/(tôl a godwyd am y flwyddyn)	25.0	(19.9)	5.1
Ar 31 Mawrth 2016	241.3	(135.6)	105.7

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig.

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £20.0 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2016: £20.2 miliwn). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £3.6 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2016: £2.8 miliwn), yr oedd £1.1 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2016: £0.5 miliwn).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol.

11. BUDDSODDIADAU

Grŵp

Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Water Research Centre (1989) plc	Ymchwil dŵr	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin "B" o £1

Rhiant-gwmni

Mae gan y rhiant-gwmni ddaliad o 100% yn Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a buddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Preswylfa dreth	Daliad
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Cymru a Lloegr	Yn preswyllo yn y DU	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Cymru a Lloegr	Yn preswyllo yn y DU	100%
Dŵr Cymru (Financing) Limited	Codi cyllid	Ynysoedd Cayman	Yn preswyllo yn y DU	100%
Welsh Water Holdings Limited	Cwmni daliannol	Cymru a Lloegr	Yn preswyllo yn y DU	100%
Cambrian Utilities Limited	Gwasanaethau manwerthu yn y farchnad gystadleuol	Cymru a Lloegr	Yn preswyllo yn y DU	100%
Welsh Water Infrastructure Limited	Gweithgarwch busnes heb ei reoleiddio yn y sector dŵr a sectorau cysylltiedig eraill	Cymru a Lloegr	Yn preswyllo yn y DU	100%

Swyddfa gofrestredig pob un o'r cwmnïau uchod yw Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, CF46 6LY.

Cafodd Welsh Water Utilities Finance plc, Hydro 1 Limited a Dŵr Cymru Customer Services Limited eu diddymu'n wirfoddol yn ystod y cyfnod gan nad oeddent yn masnachu mwyach.

Yn ystod y cyfnod mae'r cwmni wedi ailbrisio ei fuddsoddiadau yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau i werth teg. Caiff y gwerth cario ei ailbrisio bob blwyddyn yn dibynnu ar adolygiad lleihad mewn gwerth.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y Grŵp yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 70.

12. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Cyfredol		
Symiau masnach derbyniadwy	556.6	537.0
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy	(95.8)	(85.3)
Symiau masnach derbyniadwy – net	460.8	451.7
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	90.2	82.0
Symiau derbyniadwy eraill	12.2	10.5
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	563.2	544.2

Ar 31 Mawrth 2017, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod £95.8 miliwn (2016: £85.3 miliwn) o symiau masnach derbyniadwy wedi lleihau mewn gwerth ac felly darparwyd ar eu cyfer. Mae'r symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi'i fesur a heb ei fesur a gwasonaethau carthffosiaeth. Mae symiau masnach derbyniadwy sy'n fwy na mis oed yn ddyledus; mae'r golofn net yn dangos symiau y tybir nad ydynt wedi lleihau mewn gwerth.

Roedd oedran symiau derbyniadwy fel a ganlyn:

Blwyddyn gyfredol	Cyfanswm	Darparwyd ar gyfer	Net
Symiau masnach derbyniadwy	£m	£m	£m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	370.2	-	370.2
O dan fis	25.4	(9.1)	16.3
Rhwng un a chwe mis	33.5	(13.1)	20.4
Rhwng chwe mis a blwyddyn	33.3	(5.8)	27.5
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	39.3	(24.0)	15.3
Rhwng dwy a thair blynedd	34.4	(23.3)	11.1
Dros dair blynedd	20.5	(20.5)	-
	556.6	(95.8)	460.8

Blwyddyn flaenorol	Cyfanswm	Darparwyd ar gyfer	Net
Symiau masnach derbyniadwy	£m	£m	£m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	373.7	-	373.7
O dan fis	18.7	(8.0)	10.7
Rhwng un a chwe mis	38.9	(17.3)	21.6
Rhwng chwe mis a blwyddyn	30.6	(6.1)	24.5
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	46.8	(31.7)	15.1
Rhwng dwy a thair blynedd	26.1	(20.0)	6.1
Dros dair blynedd	2.2	(2.2)	-
	537.0	(85.3)	451.7

Yr amlygiad uchaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodwyd uchod. Nid yw'r Grŵp yn dal unrhyw sicrwydd cyfochrog.

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2017 £m	2016 £m
Ar 1 Ebrill	85.3	78.9
Tâl a godwyd ar y Datganiad Incwm	22.8	26.4
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(12.3)	(20.0)
Ar 31 Mawrth	95.8	85.3

Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau wedi cael eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Nid yw'r dosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys asedau y mae eu gwerth wedi lleihau. Mynegir pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Mae'r cyfanswm tâl a godwyd ar y datganiad incwm o £23.3 miliwn (2016: £27.0 miliwn) yn cynnwys yr elfen drwgddyledion o daliadau casglu awdurdodau lleol lle mae awdurdodau lleol yn casglu dyledion ar ran y Grŵp (2017: £0.5 miliwn, 2016: £0.6 miliwn).

13. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB IDDO

	Grŵp 2017 £m	Grŵp 2016 £m	Cwmni 2017 £m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	36.6	47.7	-
Adneuon byrdymor	64.0	87.4	30.1
	100.6	135.1	30.1

Y gyfradd llog weithredol ar adneuon byrdymor ar 31 Mawrth 2017 oedd 0.2% (2016: 0.5%) ac roedd gan yr adneuon hyn gyfnod aeddfedrwydd cyfartalog o 16 diwrnod (2016: 43 diwrnod). Ac eithrio €32,000, delir yr holl arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo mewn sterling.

14. SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL

Grŵp Cyfredol	2017 £m	2016 £m
Symiau masnach taladwy	44.6	37.1
Symiau cyfalaf taladwy	65.8	41.3
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	4.3	4.0
Croniadau ac incwm gohiriedig	441.8	445.0
	556.5	527.4

Grŵp Anghyfredol	2017 £m	2016 £m
Incwm gohiriedig	204.6	159.2

15. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL – BENTHYCIADAU

Grŵp	2017	2016
Cyfredol	£m	£m
Cronfeydd a ordynnwyd	5.9	42.8
Croniadau llog	0.9	0.8
Premiwm bond heb ei amorteiddio	0.7	0.6
Costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio	(0.4)	(0.4)
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	21.6	20.3
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.1	0.1
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	10.5	9.3
	39.3	73.5

Grŵp	2017	2016
Anghyfredol	£m	£m
Croniadau llog	48.2	46.8
Bondiau	2,012.1	1,987.4
Premiwm bond heb ei amorteiddio	5.9	6.6
Costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio	(4.0)	(4.3)
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	440.1	386.1
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.5	0.6
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	436.0	446.5
	2,938.8	2,869.7

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau.

Rhoddwyd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen fondiau'r Grŵp er budd deiliaid uwch fondiau, prydleswyr cyllid ac uwch gredydwyr ariannol eraill.

Gwarantir rhwymedigaethau DCC gan Glas Cymru Anghyfyngedig, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith berthnasol arall a'i drwydded;
- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Mae Bondiau Dosbarth A y Grŵp o £989 miliwn (2016: £979 miliwn) yn elwa ar warant gan Assured Guaranty. Mae statws credyd Assured Guaranty wedi cael ei ostwng i Baa2 ac A gan Moody's a S&P yn y drefn honno, ac nid yw Fitch wedi rhoi sgôr. Felly, mae statws credyd y bondiau Dosbarth A wedi dychwelyd at sgôr sylfaenol uwch y bondiau hyn, sef A2/A/A gan Moody's, S&P a Fitch yn y drefn honno. Mae'r sgôr sylfaenol yn adlewyrchu ansawdd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant Assured Guaranty, a'r un yw'r sgôr hon â statws credyd bondiau Dosbarth B y Grŵp o £1,023 miliwn (2016: £1,008 miliwn).

16. OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39 a chaiff symudiadau yn eu gwerth teg eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 5b). Mae gwerthoedd teg yr holl offerynnau ariannol deilliadol a ddelir gan y Grŵp yn ganlyniad i ddull o brisio yn unol â'r farchnad a ddefnyddir gan y gwrthbartion sy'n dyroddi ac fel y cyfryw byddant yn cael eu cynnwys o fewn lefel 2 o'r hierarchaeth gwerth teg a nodwyd yn IFRS 7.

Gwerthoedd teg	Asedau	Rhwymedigaethau
Grŵp – 2017	£m	£m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.6	(25.8)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(9.2)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	0.4	(0.2)
	4.0	(35.2)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	-	(360.5)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(84.4)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	2.2	(3.1)
	2.2	(448.0)
Cyfanswm	6.2	(483.2)

Gwerthoedd teg	Asedau	Rhwymedigaethau
Grŵp – 2016	£m	£m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.6	(14.2)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(8.8)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	-	(1.0)
	3.6	(24.0)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	-	(303.2)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(82.2)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	0.2	(8.4)
	0.2	(393.8)
Cyfanswm	3.8	(417.8)

Yn unol ag IAS 39, 'Offerynnau ariannol: Cydnabod a Mesur', mae'r Grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodwyd yn y safon. Nid oes gan y Grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath yn unol ag IAS 39.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig.

Cyfnwidiadau cyfradd llog

Ar 31 Mawrth 2017 mae'r cyfnwidiad cyfradd llog yn pennu'r gyfradd llog ar £192 miliwn (2016: £192 miliwn) o rwymedigaethau cyfnwidiol a ddelir gan y Grŵp. Dyddiad aeddfedu'r cyfnwidiad yw 31 Mawrth 2031 a'r gyfradd llog sefydlog chwarterol yw 5.67%.

Cyfnwidiadau mynegrifol
Cyfnwidiadau prydlesau cyllid

Effaith y cyfnwidiadau mynegrifol yw mynegri'r gyfradd llog ar £381 miliwn (2016: £382 miliwn) o rwymedigaethau prydlesau cyllid drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI").

Swm tybiannol y cyfnwidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau cyllid ar 31 Mawrth 2017 yw £400 miliwn (2016: £400 miliwn), gan gynrychioli'r balans cyfartalog ar y prydlesau cyllid yn amodol ar gyfraddau llog cyfnwidiol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017. Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnwidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnwidiol cyfartalog y prydlesau.

Mae prif delerau cyfnwidiadau mynegrifol fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£400 miliwn amorteiddio (2016: £400 miliwn amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnwidiad cyfartalog	18 mlynedd (2016: 19 blynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.35% sefydlog ynghyd ag RPI (2016: 1.35% sefydlog ynghyd ag RPI)

Cyfnwidiad bondiau

Effaith y cyfnwidiadau mynegrifol yw mynegeo'r gyfradd llog ar £100 miliwn o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegeiwyd	£135 miliwn (2016: £133 miliwn)
Aeddfedrwydd cyfnwidiad	40 mlynedd (2016: 41 o flynyddoedd)
Cyfradd llog	1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI (2016: 1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI)

17. RHEOLI RISG ARIANNOL

Mae polisiâu'r Grŵp mewn perthynas â rheoli risg ariannol yn y nodyn ar bolisiâu cyfrifyddu ar dudalen 124. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

a) Y risg o ran cyfradd llog

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2017	2016
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	0.2%	0.5%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	4.3%	4.4%
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	0.5%	0.7%
Benthyciadau awdurdodau lleol	5.0%	4.2%
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	2.0%	1.0%
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	1.0%	0.8%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnwidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 17. Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeo sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

b) Y risg o ran hylifedd

Grŵp - blwyddyn gyfredol	O fewn blwyddyn	1 -2 flynedd	2 - 5 mlynedd	> 5 mlynedd	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	100.6	-	-	-	100.6
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	563.3	-	-	-	563.3
	663.9	-	-	-	663.9
Rhwymedigaethau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	5.9	-	-	-	5.9
Bondiau	0.7	0.7	327.1	1,690.2	2,018.7
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	21.6	21.6	163.0	255.5	461.7
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.1	0.1	0.4	-	0.6
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	10.5	11.9	45.5	378.6	446.5
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	556.5	1.8	4.9	197.9	761.1
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	112.9	113.5	335.6	917.5	1,479.5
	708.2	149.6	876.5	3,439.7	5,174.0

Grŵp - blwyddyn flaenorol	O fewn blwyddyn	1 -2 flynedd	2 - 5 mlynedd	> 5 mlynedd	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	135.1	-	-	-	135.1
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	544.2	-	-	-	544.2
	679.3	-	-	-	679.3
Rhwymedigaethau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	42.8	-	-	-	42.8
Bondiau	0.6	0.7	327.1	1,666.2	1,994.6
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	20.3	21.6	95.9	268.6	406.4
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.1	0.1	0.4	0.1	0.7
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	9.3	10.5	40.5	395.5	455.8
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	527.4	1.8	4.9	152.5	686.6
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	105.8	107.3	304.7	912.3	1,430.1
	706.3	142.0	773.5	3,395.2	5,017.0

Mae'r taliadau prydlesau gofynnol o dan brydlesau cyllid yn ddyledus fel a ganlyn:

	2017	2016
	£m	£m
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid gros		
O fewn blwyddyn	19.6	16.3
Rhwng dwy a phum mlynedd	99.2	90.6
Ar ôl pum mlynedd	439.6	464.7
	558.4	571.6
Llog yn y dyfodol	(111.9)	(115.8)
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid net	446.5	455.8
Mae rhwymedigaethau prydlesau cyllid net yn ad-daladwy fel a ganlyn:		
O fewn blwyddyn (nodyn 15)	10.5	9.3
Rhwng dwy a phum mlynedd	57.4	51.0
Ar ôl pum mlynedd	378.6	395.5
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 15)	436.0	446.5

c) Gwerthoedd teg

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y Grŵp yn nodyn 16. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r Grŵp.

	Gwerth llyfr £m	2017 Gwerth teg £m	Gwerth llyfr £m	2016 Gwerth teg £m
Bondiau (nodyn 17)	2,018.7	2,934.4	1,994.6	2,604.9

Mae gwerthoedd teg pob un o'r offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr.

ch) Cyfleusterau benthyca

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Grŵp gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd o £460 miliwn a oedd yn dod i ben fel y nodir isod, ac roedd pob amod blaenorol mewn perthynas â hwy wedi cael ei fodloni (2016: £280 miliwn).

	2017 £m	2016 £m
Yn dod i ben ymhen llai na blwyddyn:		
- cyfleuster cyfnod benthyciad	60	70
Yn dod i ben ymhen mwy na blwyddyn:		
- cyfleusterau credyd cylchdro	150	150
- cyfleuster cyfnod benthyciad	250	60
	400	210
	460	280

Hawliwyd y £70 miliwn a oedd yn weddill o gyfleuster benthyca gwerth £230 miliwn gyda Banc Buddsoddi Ewrop ar 17 Mai 2016.

Hawliwyd y cyfleuster cyfnod benthyciad o £60 miliwn gyda Banc KfW-IPEX ar 5 Mai 2017. Bydd y benthyciad yn dechrau amortieiddio o fis Mai 2020 a bydd yn ad-daladwy mewn rhandaliadau bob chwe mis tan fis Tachwedd 2025.

Cytunodd y Grŵp ar gyfleuster benthyca arall ym mis Ionawr 2017 o £250 miliwn gyda Banc Buddsoddi Ewrop, nas defnyddiwyd dim ohono. Mae'r cyfleuster ar gael i'w ddefnyddio tan fis Ionawr 2019.

Mae gan y Grŵp £150 miliwn o gyfleusterau credyd cylchdro nas hawliwyd hefyd, y bydd £130 miliwn ohono yn dod i ben yn ystod 2020. Mae'r £20 miliwn sy'n weddill ar gael tan 2019 gydag opsiwn i'w ymestyn (os ceir caniatâd y darparwyr) am flwyddyn arall i 2020.

Mae gan Dŵr Cymru Cyfyngedig gyfleuster gorddrafft o £10 miliwn hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2017 roedd gan Dŵr Cymru (Financing) Limited gyfleuster hylifedd arbennig hefyd o £135 miliwn (2016: £135 miliwn) y mae'n ofynnol iddo ei gadw er mwyn bodloni rhai o rwymedigaethau'r Grŵp o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu'r Grŵp, os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal. Byddai cyfnod atal yn digwydd pe bai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn methu â bodloni ei gyfamodau cyllido dyled. Ni fethwyd â bodloni unrhyw gyfamod o'r fath yn ystod y flwyddyn. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

d) Rheoli risg cyfalaf**Cymarebau gerio**

	2017 £m	2016 £m
Cyfanswm benthyciadau	(2,978)	(2,943)
Llai: arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	101	135
Dyled net	(2,877)	(2,808)
Gwerth cyfalaf rheoleiddio (GCRh)	5,217	4,983
Cyfanswm cyfalaf	2,340	2,175
Llai: costau bondiau heb eu hamortieiddio a mynegeo cyfnewidiadau	(39)	(38)
Cyfanswm cyfalaf fesul cyfamodau bond	2,301	2,137
Cymhareb gerio	56%	57%

Fel y nodwyd ar dudalen 131, mae'r Grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio rheoleiddiol sy'n cymharu ei ddyled net â GCRh a bennwyd gan Ofwat.

Yn unol â'r Cytundeb Telerau Cyffredin, cyfrifir gerio rheoleiddio fel lefel y ddyled net yn y broses o waraneiddio busnes cyfan sy'n berthnasol i'r gwerth cyfalaf rheoleiddio.

18. DARPARIAETHAU

	Darpariaeth ailstrwythuro £m	Darpariaeth dadfeiliadau £m	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig £m	Darpariaethau eraill £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2016	5.9	0.8	3.9	3.9	14.5
(Credydwyd)/Codwyd ar y datganiad incwm	-	(0.2)	1.7	-	1.5
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1.9)	(0.1)	(1.3)	(1.9)	(5.2)
Ar 31 Mawrth 2017	4.0	0.5	4.3	2.0	10.8

Wedi'u rhannu fel a ganlyn:

Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	1.0	0.2	-	-	1.2
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	3.0	0.3	4.3	2.0	9.6
Ar 31 Mawrth 2017	4.0	0.5	4.3	2.0	10.8

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2017.

Darpariaeth ailstrwythuro

Mae hyn yn darparu ar gyfer y gost ailstrwythuro sy'n gysylltiedig â chwtogi nifer y staff tua 360 yn unol â'r cynllun ailstrwythuro ar gyfer y cyfnod cyfan o bum mlynedd rhwng 2015 a 2020.

Darpariaeth dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â chostau dadfeiliadau amcangyfrifedig, yr eir iddynt dros y pedair blynedd nesaf.

Darpariaeth ar gyfer colled anysuiriedig

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â cholledion anysuiriedig a lle nad yw'r yswiriant yn cwmpasu swm didynadwy. Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir mai cyfnod o bum mlynedd ydyw.

Darpariaethau eraill

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y Grŵp.

19. MEWNLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU**a) Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau**

Cysoni elw gweithredu i arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau:

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Elw gweithredu	104.7	160.8
Addasiadau ar gyfer:		
- Dibrisio ac amorteiddio	256.6	247.1
- Newidiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(20.4)	(11.8)
Gostyngiad mewn stocrestrau	(0.7)	(0.1)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	6.3	(12.4)
Cyfraniadau pensiwn uwchben cost gwasanaeth	(6.2)	(1.6)
Gostyngiad mewn darpariaethau	(3.4)	(13.1)
	(24.4)	(39.0)
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	336.9	368.9

Mae cyfraniadau pensiwn 'uwchben cost gwasanaeth' yn cynrychioli costau adennill diffygion Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru a delir yn unol â'r Cynllun Adennill y cytunwyd arno rhwng y Cwmni ac Ymddiriedolwyr y Cynllun.

b) Llog a dalwyd

Grŵp	2017 £m	2016 £m
Llog sy'n daladwy fesul datganiad incwm	144.2	128.7
Llai eitemau anariannol:		
- Mynegeo ar fondiau mynegrifol	(24.8)	(13.1)
- Mynegeo ar ddyled fynegrifol	(5.7)	(1.4)
- Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(0.3)	(0.2)
- Llog a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(1.8)	(1.0)
- Amorteiddio premiwm dyroddi bondiau	0.6	0.7
- Effaith cyfalafu o dan IAS 23	9.5	3.9
- Gostyngiad mewn croniadau	2.9	11.3
	(19.6)	0.2
Llog a dalwyd	124.6	128.9

20. DADANSODDI A CHYSONI DYLED NET

Diffinnir dyled net fel gwerth arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo llai llog cronedig net a chyfanswm y benthyciadau.

a) Gellir dadansoddi dyled net ar ddyddiad y fantolen fel:

	Grŵp 2017 £m	Grŵp 2016 £m	Cwmni 2017 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	100.6	135.1	30.1
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(2,454.6)	(2,376.4)	-
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(27.9)	(63.4)	-
Prydlesau cyllid	(446.5)	(455.8)	-
Llog cronedig	(49.1)	(47.6)	-
	(2,978.1)	(2,943.2)	-
(Dyled)/arian parod net	(2,877.5)	(2,808.1)	30.1

b) Gellir crynhoi'r symudiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn fel:

	Grŵp 2017 £m	Grŵp 2016 £m	Cwmni 2017 £m
Dyled net ar ddechrau'r flwyddyn	(2,808.1)	(2,878.9)	-
Symudiad mewn arian parod net	(34.5)	(136.1)	30.1
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	(3.4)	178.6	-
Symudiad mewn dyled net sy'n deillio o lifau arian parod	(37.9)	42.5	30.1
Symudiad mewn llog cronedig	(1.5)	11.2	-
Mynegeio dyled fynegrifol	(30.5)	(14.5)	-
Addasiad ar gyfer mynegeio bondiau	-	31.2	-
Symudiadau anariannol eraill	0.5	0.4	-
Symudiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn	(69.4)	70.8	30.1
(Dyled)/arian parod net ar ddiwedd y flwyddyn	(2,877.5)	(2,808.1)	30.1

21. CYFLOGEION A CHYFARWYDDWYR

Costau staff ar gyfer y Grŵp yn ystod y flwyddyn

	2017	2016
	£m	£m
Cylogau	110.8	104.9
Costau nawdd cymdeithasol	10.8	9.7
Costau pensiwn eraill	12.8	12.6
	134.4	127.2

O'r uchod, mae £48.3 miliwn (2016: £46.2 miliwn) wedi'i gyfalafu.

Nifer y bobl a gyflogir gan y Grŵp bob mis ar gyfartaledd (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)	2017 Nifer	2016 Nifer
Gweithgareddau dŵr a charthffosiaeth wedi'u rheoleiddio	3,091	3,007

Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalen 82.

Ni thalwyd cydnabyddiaeth ac nid yw'n daladwy ychwaith gan y rhiant-gwmni. Cyflogir y cyfarwyddwyr gan gwmnïau eraill yn y grŵp ac ystyriant fod eu dyletswyddau i'r cwmni hwn yn gysylltiedig â'u gweithgareddau eraill yn y grŵp. Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw gyflogeion yn ystod y cyfnod heblaw am y cyfarwyddwyr.

22. YMRWYMIADAU PENSIWN

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir ar gyfer cyflogeion cyfredol (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005 ac fe'i caewyd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017. Cyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

Cynllun buddiannau diffiniedig

Cynhaliwyd prisiad actiwaraid llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2017 a'r prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwariad oedd:

	2017	2016
Cyfradd ddisgowntio	2.8%	3.6%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant	3.2%	3.0%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	3.2%	3.0%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu	3.1%	2.9%
Marwoldeb ar ôl ymddeol (disgwyliad oes):		
Pensiynwyr cyfredol 65 oed — dynion	87.0 o flynyddoedd	87.0 o flynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol 65 oed — menywod	89.0 o flynyddoedd	88.9 o flynyddoedd
Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) — dynion	88.3 o flynyddoedd	88.2 o flynyddoedd
Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) — menywod	90.5 o flynyddoedd	90.4 o flynyddoedd

Y tybiaethau marwoldeb yw tablau sail S2PxA gyda gwelliannau yn y dyfodol yn unol â model rhagamcanol CM1 2016 gyda chyfradd tuedd hirdymor o 1% y flwyddyn.

Mae newidiadau yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	2017 £m	2016 £m
Ar 1 Ebrill	413.1	396.6
Cost gyfredol y gwasanaeth	4.8	10.0
Traul llog	14.5	13.4
Ailfesuriadau		
Colled yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	90.3	20.4
Ennill yn sgil newid mewn tybiaethau demograffig	-	(4.5)
Enillion profiad	-	(7.5)
	90.3	8.4
Buddiannau a dalwyd	(25.4)	(15.3)
Ar 31 Mawrth	497.3	413.1

Mae newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun fel a ganlyn:

	2017 £m	2016 £m
Ar 1 Ebrill	358.6	366.1
Incwm llog	12.7	12.4
Treuliau	(0.4)	(0.5)
Enillion/(colledion) profiad	47.0	(16.2)
Cyfraniadau	12.4	12.1
Buddiannau a dalwyd	(25.4)	(15.3)
Ar 31 Mawrth	404.9	358.6

Gwahaniaethau yw enillion a cholledion profiad rhwng y digwyddiadau gwirioneddol fel maent wedi digwydd a'r tybiaethau a wnaed ar ddyddiad y prisiad actiwaraidd cynharach a newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cyfanswm a gydnabyddir ar y fantolen yn cynnwys y canlynol:

	2017 £m	2016 £m
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(497.3)	(413.1)
Gwerth teg asedau'r cynllun	404.9	358.6
	(92.4)	(54.5)
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(2.8)	(2.0)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net a gydnabuwyd ar y fantolen	(95.2)	(56.5)

	2017	2016	2015	2013	2012	2011
Addasiadau oherwydd profiad sy'n codi ar asedau'r cynllun:						
Swm (£m)	47.0	(16.2)	(24.2)	(2.9)	17.9	(9.5)
Canran o asedau'r cynllun	(11.6%)	4.5%	7%	1%	6%	4%
Addasiadau oherwydd profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun:						
Swm (£m)	(90.3)	(8.4)	(60.7)	(5.1)	(15.7)	(16.4)
Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	18%	2%	15%	2%	5%	6%
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (£m)	497.3	413.1	396.6	320.0	323.2	272.7
Gwerth teg asedau'r cynllun (£m)	404.9	358.6	366.1	318.8	291.1	240.8
Diffyg (£m)	(92.4)	(54.5)	(30.5)	(1.2)	(32.1)	(31.9)

Mae'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 yn cynnwys cyfraniadau arbennig o £7.2 miliwn (2016: £1.3 miliwn). Ni thalwyd unrhyw gyfraniadau i'r cynllun i ychwanegu at y buddiannau mewn perthynas ag aelodau'r cynllun a adawodd y cwmni drwy gynllun diswyddo gwirfoddol dethol (2016: dim). Disgwylir i gyfanswm o £6.7 miliwn o gyfraniadau arbennig gael eu talu yn unol â'r rhestr o gyfraniadau sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2018.

	Newid mewn tybiaeth	Cynnydd mewn rhwymedigaethau
Cyfradd ddisgowntio	0.10%	9.9m
Chwyddiant mewn prisiau	0.10%	9.6m
Disgwyliad oes	Blwyddyn	(13.3m)

Mae'r dadansoddiad uchod o sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau unigol o ran pob tybiaeth tra bod y dybiaeth gyffredinol yn cael ei chadw'n gyson. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyniad rhwng y symudiadau mewn gwahanol dybiaethau.

Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS)

Yn ystod 2011, rhoddodd y Cwmni drefniadau ar waith drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS) ar gyfer pedwar Aelod Gweithredol 'wedi'u capio' o'r cynllun. Mae cronïad buddiannau o dan y cytundeb hwn yn amodol ar barhau'n aelod o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2017, roedd tri Aelod Gweithredol â hawliadau o dan y trefniant hwn, y mae buddiannau wedi dechrau cael eu talu i un ohonynt.

23. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL

Mae cynllun busnes y Grŵp ar 31 Mawrth 2017 yn dangos gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £406 miliwn (2016: £352 miliwn) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r Grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r cyfanswm fel rhan o'i raglen gwariant cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr.

24. TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 derbyniodd y rhiant-gwmni ddifidendau gwerth cyfanswm o £30.2 miliwn gan ei is-gwmni a berchnogir yn llawn, Glas Cymru Anghyfyngedig.

25. STATWS Y CWMNI

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

26. CRONFA YMDDIRIEDOLAETH CWM ELAN

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad o Gwm Elan i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7 miliwn, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, tra'n cadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real. Breiniwyd budd Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2017, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £118 miliwn (2016: £111 miliwn).

Mae llog derbyniadwy yn cynnwys £2.7 miliwn (2016: £3.5 miliwn) mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

27. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol heblaw'r rheini a gododd yn ystod busnes arferol y Grŵp ac ni ragwelir y gwneir unrhyw golledion gwirioneddol ar y rhain.

28. CWMNI DALIANNOL UNIONGYRCHOL AC EITHAF A PHARTI RHEOLAETHOL

Y cwmni daliannol uniongyrchol ac eithaf a'r parti rheolaethol yw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr ar 15 Rhagfyr 2015. Y grŵp mwyaf a lleiaf y cyfunir adroddiadau'r cwmni ag ef yw'r un dan arweiniad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

ATODDIADAU

TUDALEN

1	RHESTR TERMAU	146
2	MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU	149

RHESTR TERMAU

Tynnu dŵr	Symud dŵr o unrhyw ffynhonnell.
AMP	Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu mewn cylchoedd o bum mlynedd a elwir yn 'Gynlluniau Rheoli Asedau' (AMP). Bydd AMP6 yn rhedeg rhwng 2015-2020.
Treulio anerobig	Proses lle y caiff deunydd organig ei ddadelfennu gan facteria a micro-organebau eraill er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Asedau	Mae hyn yn cynnwys seilwaith fel prif bibellau dŵr a charthffosydd, argaeau a chronfeydd dŵr, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a charthion, gorsafoedd pwmpio, labordai cwmnïau, depos a gweithdai.
AVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynyddol – elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad.
Methiannau Bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplu a'i ddadansoddi yn erbyn amrywiaeth o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sydd uwchlaw'r terfyn a nodir yn y rheoliadau, tybir ei fod yn Fethiant Bacteriolegol.
Dalgylch	Ardal o dir lle y mae dŵr yn draenio i gorff dŵr (fel afon neu gronfa ddŵr).
Carthffos gyfun	Carthffos gyfun ar gyfer carthion a dŵr glaw ffo.
CSO	Mae Gorfliannau Carthffosydd Cyfun (CSO) yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin carthion mewn perygl o orlifo.
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo randdeiliaid na chyfalaf cyfranddaliadau.
CPNI	Canolfan Gwarchod Seilwaith Cenedlaethol
CCWater	Cyngor Defnyddwyr Dŵr – gweler tudalen 58.
Statws credyd	Mae statws credyd yn rhoi asesiad o ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca.
Cyfrif Talu Cwsmer	Y Cyfrif Talu Cwsmer (fel y'i diffinnir gan y Cytundeb Telerau Cyffredin) yw'r Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a ddyrennir ac a ddefnyddir yn benodol i ad-dalu cwsmeriaid.
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn	Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yw'r gwahaniaeth rhwng y GCRh a'r ddyled net ac felly mae'n mesur y gwerth a grëir gan y busnes i gwsmeriaid. Gall rhywfaint o'r gwerth hwnnw gael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y busnes ac i ad-dalu cwsmeriaid. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cadw dyled net ar 60% o'r GCRh ac mai Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a gedwir yw'r 40% sy'n weddill.
Trwyddedau gollwng	Cytundebau cyfreithiol a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â swm ac ansawdd y dŵr gwastraff y gellir ei ddychwelyd i'r amgylchedd a pha mor aml y gellir gwneud hynny.
DWI	Arolygioeth Dŵr Yfed – gweler tudalen 58.
Cynllun Diogelu Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well.
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a lunnir gan gwmni dŵr sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr yn ystod cyfnod o sychder.
Elifiant	Dŵr sy'n llifo o waith trin carthion ar ôl iddynt gael eu trin.

Asiantaeth yr Amgylchedd	Un o gyrff anadrannol gweithredol y Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr — gweler tudalen 58.
Y gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyled, ecwiti neu enillion argadwedig.
Gerio	Dyled net a fynegir fel canran o gyfalaf gwerth rheoleiddiol.
Glas Cymru	Glas Cymru yw'r enw cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at gwmni daliannol y Grŵp. Ffurfiwyd Glas Cymru Cyfyngedig yn 2000 i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli. Yn ystod 2015/16 ailgofrestrowyd Glas Cymru Cyfyngedig fel Glas Cymru Anghyfyngedig a chrëwyd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig fel y cwmni daliannol ar gyfer Grŵp Glas Cymru.
Dŵr doear	Dŵr y gellir dod o hyd iddo yn haenen ddirlawn y pridd.
Grŵp	Glas Cymru Cyfyngedig a'i holl is-gwmnïau.
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Gollyngiadau	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer.
Stop Cyn Creu Bloc	Ymgrych newid ymddygiad Dŵr Cymru sy'n gofyn i gwsmeriaid helpu i leihau nifer y blociadau mewn carthffosydd.
LVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor. Elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad.
Cydymffurfiaeth 'edrych i fyny'	Pan fo gwaith trin dŵr yn methu â chydymffurfio â'r paramedrau a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd am lai na 95% o'r amser.
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob parth ansawdd dŵr ar gyfer y 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol sy'n deillio o'r rhaglen monitro statudol o samplau a gymerir o dapiau cwsmeriaid.
Megalitrau	Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio maint Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a'i ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.
Cyfarwyddwr Anweithredol	Aelodau Bwrdd Glas Cymru. Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am y gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd ond maent yn herio'r rheolwyr ac yn goruchwyllo'r broses o redeg y Grŵp.
Ofwot	Rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, yn rhydd o unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu gollod wrth waredu asedau sefydlog yn bennaf.
Achosion o lygredd	Achosion o ryddhau'n ddamweiniol neu'n fwriadol halogyddion fel olewau, tanwyddau a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd.
Trosglwyddo Corthffosydd Preifat	Yn 2011, trosglwyddodd Llywodraeth y DU berchenogaeth o'r rhan fwyaf o'r corthffosydd preifat yng Nghymru a Lloegr i'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth, er mwyn ffurfio rhan o'r rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus.
Gorsaf bwmpio	Fe'i defnyddir i bwmpio dŵr neu garthffosiaeth o un lle i'r llall.
Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd	Un o Bwyllgorau Iefel Bwrdd Dŵr Cymru sy'n mynd i'r afael â pherfformiad a risgiau gweithredol ym mhob rhan o'r cwmni.
GlawLif	Dull Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy).
Termau real	Y newid mewn rhif ariannol ar ôl dileu effaith chwyddiant.

Gwerth cyfalaf rheoleiddio (GCRh)	Gwerth ased Dŵr Cymru, a bennir gan Ofwat, lle y caniateir i'n hadenillion ar fuddsoddiad (neu Adenillion Rheoleiddiol) gael eu gwneud. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artifisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes y bydd ei angen.
Prif bibell sy'n codi	Piblinell wedi'i phwmpio sy'n cludo dŵr gwastraff.
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol.
Mecanwaith Cymell Gwasanaeth (SIM)	Un o fesurau Ofwat a gynlluniwyd i wella lefel y gwasanaeth y mae cwmnïau dŵr yn ei darparu i gwsmeriaid.
Cronfa wasanaeth	Tanc sy'n cynnwys dŵr yfed a leolir fel arfer o fewn system dosbarthu dŵr neu'n agos ati.
Asedau	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.
Carthffos	Pibell danddaearol sy'n cludo dŵr gwastraff i ffwrdd o eiddo preswyl ac eiddo dibreswyl i'w drin a'i waredu.
Carthffosydd yn gorlifo	Pan fo dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy gaead y twll archwilio neu ddraen, neu drwy lifo yn ôl i fyny drwy doiledau.
Safety Takes Every Person (STEP)	Hyfforddiant diogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch.
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff ei storio, mewn tywydd gwlyb, nes bod y gwaith trin dŵr yn gallu ei drin.
Cydbwysedd cyflenwad/galw	Cydbwysedd o ran cyfaint y dŵr sydd ar gael.
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n disgyn ar eiddo cwsmeriaid (fel toeon, llwybrau a thramwyfeydd).
Draenio dŵr wyneb	Symud dŵr glaw, eira neu iâ wedi toddi o rannau allanol eiddo (fel toeon a thramwyfeydd), yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun.
Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS)	System ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gollyngiadau draenio dŵr wyneb.
Totex	Talfyriad Ofwat ar gyfer cyfanswm y gwariant. Cyfanswm gwariant cyfalaf a gwariant gweithredol.
Prif bibell	Prif bibell y caiff dŵr ei fydo drwyddi i mewn i system dosbarthu dŵr. Yn aml, bydd prif bibell yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa wasanaeth.
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o eiddo preswyl neu ddibreswyl a gaiff ei gludo i ffwrdd o eiddo mewn carthffosydd neu ddraeniau.
Gwaith trin dŵr gwastraff	Diben gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw cael gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei ddychwelyd i ffynonellau dŵr.
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cludo dŵr sydd wedi'i drin i gartrefi.
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y dŵr a gyflenwir a'r galw amdano dros y 25 mlynedd nesaf.
Gwaith trin dŵr	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed ar gyfer y cyhoedd neu ddŵr diwydiannol ar gyfer gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill.

MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU

A1a	Diogelwch Dŵr Yfed (% y gydymffurfiaeth)	Darparu dŵr yfed diogel sy'n bodloni safonau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Canran y samplau a brofir sy'n cyd-fynd â'r safonau. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal dros 250,000 o brofion ar samplau yn ein gweithfeydd trin dŵr, ein cronfeydd gwasanaeth a thapiau cwsmeriaid.
A1b	Dŵr Yfed Diogel (Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig)	Cyhoeddir Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig (MZC) bob blwyddyn yn adroddiad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'r Gydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn cwmpasu 39 o wahanol baramedrau, fel Haearn, Plwm ac Alwminiwm, sy'n cael eu profi er mwyn canfod ansawdd y dŵr sy'n cyrraedd cwsmeriaid. Cyfrifir y Gydymffurfiaeth Barthol Gymedrig fel cyfartaledd y lefelau cydymffurfio ar gyfer pob paramedr ym mhob un o'n 87 o barthau ansawdd dŵr, sy'n amrywio o ran maint o boblogaeth o 27 i bron poblogaeth o 100,000. (Y boblogaeth fwyaf a ganiateir yw unrhyw un parth ansawdd dŵr o 100,000 a ganiateir o fewn rheoliadau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed).
A2	Derbynioldeb i Gwsmeriaid	Nifer y cysylltiadau a gawn gan gwsmeriaid bob blwyddyn mewn perthynas â golwg, blas neu arogl dŵr yfed, a fynegir fel cyfradd fesul 1,000 o gwsmeriaid.
A3	Dibynadwyedd y Cyflenwad	Nifer gyfartalog y munudau y mae cwsmeriaid heb ddŵr yn ein hardal gyflenwi (yn cynnwys toriadau a gynlluniwyd a rhai nas cynlluniwyd)
B1	Tynnu dŵr i'r ddefnyddio	Canran ein cydymffurfiaeth â thrwyddedau tynnu dŵr, fel y'u cyhoeddir gan Reoleiddwyr.
B2	Trin dŵr gwastraff	Ar gyfer pob un o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff, ceir trwydded sy'n rheoleiddio ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i'r cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. CNC sy'n rheoleiddio hyn. Y mesur yw % y gydymffurfiaeth â thrwyddedau rhyddhau.
B3a	Atal digwyddiadau sy'n ymwneud â llygredd (cot 1,2 a 3)	Lleihau nifer yr achosion o lygredd (a achosir gan flociadau neu gwympiadau mewn carthffosydd). Caiff achosion o lygredd eu categorïeddio fel achosion categori 1, 2 neu 3 a Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n adrodd ar y rhain. Categori 1 - y rhai mwyaf difrifol ac mae achosion y categori hwn yn cael effaith fawr neu ddifrifol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo. Categori 2 - effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo. Categori 3 - effaith fach neu isel ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo.
B3b	Atal digwyddiadau sy'n ymwneud â llygredd (cot 3 yn unig)	Fel uchod, ond dim ond achosion o lygredd categori 3 (effaith fach neu isel ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo).
C1	Ymateb i newid yn yr hinsawdd	Lleihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd. Mae'r mesur yn seiliedig ar faint o ddŵr wyneb a dynnir o'r system, a fynegir ar ffurf nifer yr eiddo cyfatebol.

C2	Ôl troed carbon	Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a thrwy hynny wrthbwysu ein hallyriadau carbon a chost ynni a gaiff ei fewnforio (oriau GWh y flwyddyn).
D1	SIM	Mesur a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Ofwat i fonitro ac adrodd ar wybodaeth am wasanaethau i gwsmeriaid ymhob cwmni dŵr a dŵr gwastraff fel mesur cymharol yw'r Mekanwaith cymell gwasanaeth (SIM).
D2	Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd Mewn Perygl	Nifer y cwsmeriaid sydd ar ein cofrestr "mewn perygl". Ystyrir eu bod "mewn perygl" am fod eu gwasanaeth wedi bod yn ddiffygiol dro ar ôl tro yn un o'r pum maes canlynol: dŵr afluw, toriadau yn y cyflenwad, pwysedd dŵr isel, drawdod o asedau dŵr gwastraff a charthffosydd yn gorlifo.
D3	Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	Nifer yr eiddo sy'n dioddef llifogydd carthion mewnol bob blwyddyn.
D4a	Bodddhad Cwsmeriaid Busnes % bodlon	Bodddhad cwsmeriaid busnes wedi'i fesur yn ôl bodlon neu fodlon iawn yn yr arolwg chwemisol.
D4b	Bodddhad Cwsmeriaid Annomestig	Bodddhad cwsmeriaid busnes wedi'i fesur yn ôl sgôr gyfartalog cwsmeriaid allan o gyfanswm o 5 a gaiff ei throsi wedyn yn ganran.
D5	Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid	Ymddiriedaeth cwsmeriaid fel y'i mesurir drwy arolwg blynyddol a gynhaliwn.
E1	Biliau Fforddiadwy	Bydd y cwmni'n parhau i wneud biliau'n fwy fforddiadwy drwy barhau i leihau biliau mewn termau real, gan ragori ar chwyddiant o leiaf 1% bob blwyddyn.
E2	Cymorth i Gwsmeriaid dan Anfantais	Helpu mwy o gwsmeriaid sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu eu biliau trwy ddarparu cymorth drwy amrywiaeth o dariffau cymdeithasol a'n Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid.
F1	Defnyddioldeb Asedau	Cynnal ein hasedau. Mae defnyddioldeb yn cynnwys cyfres o is-fesurau a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro effeithiolrwydd ein gwaith o reoli a chynnal a chadw ein hasedau.
F2	Gollyngiadau	Lleihau lefelau ein gollyngiadau – megalitrau y dydd (MI/d).
F3	Gwydnwch Asedau	Gwella sgôr gwydnwch ein hasedau mwyaf strategol. Gwella canran yr asedau strategol sy'n wydn yn erbyn cyfres o feini prawf. Asedau strategol yw'r rheini a fyddai'n cael effaith fawr ar wasanaethau i gwsmeriaid neu'r amgylchedd pe baent yn methu.

